

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol

(dyddiad terfyn 2021)



Cynllun Mabwysiedig

Medi 2010



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Pembrokeshire Coast
National Park**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol (dyddiad terfyn 2021)

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

Cynllun Wedi'i Fabwysiadu

Medi 2010

Tudalen Gynnwys

RHESTR O BOLISIAU	4
1. CYFLWYNIAD	6
Y Cynllun Datblygu Lleol.....	6
Polisi Cynllunio Cenedlaethol.....	6
Sut paratowyd Cynllun wedi'i Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol.....	6
Casglu Tystiolaeth.....	6
Dod i gyswllt â phobl.....	7
Arfarniad o Gynaliadwyedd.....	7
Safleoedd Potensial.....	8
2. BLE YDYM NI NAWR - PORTREAD O'R PARC CENEDLAETHOL	9
Materion allweddol sydd angen sylw.....	9
A. Nodweddion Arbennig.....	10
B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant.....	10
C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy.....	10
Ch. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad.....	10
D. Tai fforddiadwy a chynnydd tai.....	10
Dd. Cyfleusterau cymunedol.....	10
3. BLE YDYM YN DYMUNO BOD - GWELEDIGAETH AC AMCANION	11
Gweledigaeth.....	11
Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2021.....	11
Amcanion.....	13
A. Nodweddion Arbennig.....	14
B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant.....	14
C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy.....	14
Ch. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad.....	15
D. Tai fforddiadwy a chynnydd tai.....	16
Dd. Cyfleusterau cymunedol.....	16
3. SUT FYDDWN NI'N GWIREDDU HYN – STRATEGAETH A PHOLISIAU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL	11
Troi'r weledigaeth a'r amcanion yn strategaeth a pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol.....	18
Dibenion y Parc Cenedlaethol, a'i ddyletswydd.....	21
Strategaeth Ofodol.....	21
Leoliad tyfiant.....	21
Dinbych-y-pysgod - Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth.....	22
Trefdraeth - Canolfan Lleol.....	24
Saundersfoot – Canolfan Leol.....	25

Tyddewi – Canolfan Lleol.....	26
Crymych – Canolfan Lleol.....	27
Canolfannau Gwledig.....	27
Cefn Gwlad.....	28
Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol.....	31
A. Nodweddion Arbennig.....	34
Llygredd Golau.....	36
Bioamrywiaeth.....	36
Yr Iaith Gymraeg.....	37
Yr Amgylchedd Hanesyddol.....	38
Y Dirwedd.....	39
Gofod Agored a Lletemau Glas.....	40
Yr Arfordir.....	41
Blaenoriaeth B: Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant.....	43
B. Datblygiadau mawr a'r potensial ar gyfer tyfiant.....	44
Datblygiadau mawr.....	44
Y Weinyddiaeth Amddiffyn.....	44
Gosodiadau Peryglus.....	44
Graddfa'r tyfiant.....	45
Mwynau.....	46
Gwastraff.....	50
C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy.....	55
Dylunio cynaliadwy.....	55
Ynni Adnewyddadwy.....	59
Llifogydd a Gorfif Arfordirol.....	60
Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol.....	60
Ch. Economi ymwelwyr, cyflogaeth.....	62
Llety ymwelwyr, atyniadau a gweithgareddau hamdden.....	62
Cyflogaeth.....	67
Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol.....	70
Ch. Darparu Tai a Thai Fforddiadwy.....	72
Safleoedd Sipsiwn.....	80
Datblygiad Effaith Isel yn gwneud Cyfraniad Positif.....	81
Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol.....	81
Dd. Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth.....	84
Cyfleusterau Cymunedol.....	84
Manwerthu.....	85
Trafnidiaeth Gynaliadwy.....	88
Gwasanaethau Cyfleustodau.....	91
Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol.....	92
5. MONITRO.....	93
6. GEIRFA.....	94
7. CYFEIRIADAU.....	98

Atodiadau - gweler dogfen ar wahân

Map Cynigion - gweler dogfen ar wahân - yn cynnwys Diagram Allwedd

Rhestr o bolisiau

Rhif y Polisi	Teitl y Polisi
Strategaeth Ofodol	
Polisi 1	Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth Dinbych-y-pysgod (Haenen 2) (Polisi Strategaeth)
Polisi 2	Canolfan Lleol Trefdraeth (Haenen 3) (Polisi Strategaeth)
Polisi 3	Canolfan Lleol Saundersfoot (Haenen 3) (Polisi Strategaeth)
Polisi 4	Canolfan Lleol Tyddewi (Haenen 3) (Polisi Strategaeth)
Polisi 5	Canolfannau Gwledig (Haenen 4) (Polisi Strategaeth)
Polisi 6	Cefn Gwlad (Haenen 5) (Polisi Strategaeth)
A. Dibenion y Parc Cenedlaethol, datblygiadau mawr a'r potensial ar gyfer tyfiant	
Polisi 7	Dibenion y Parc Cenedlaethol a'i ddyletswydd (Polisi Strategaeth)
Polisi 8	Gosodiadau Peryglus
Polisi 9	Graddfa'r tyfiant (Polisi Strategaeth)
Polisi 10	Diogelu Mwynau
Polisi 11	Pyllau Benthyc
Polisi 12	Cerrig Adeiladu Lleol
Polisi 13	Defnyddiau wedi'u Hailgylchu, Defnyddiau Eilaidd a Defnyddiau Gwastraff
Polisi 14	Safleoedd Mwynau Anweithgar
Polisi 15	Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol
Polisi 16	Compostio
B. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy	
Polisi 17	Dylunio cynaliadwy (Polisi Strategaeth)
Polisi 18	Amwynder
Polisi 19	Cadw Gwastraff at Leiafswm
Polisi 20	Draenio Dŵr Wyneb
Polisi 21	Ynni Adnewyddadwy (Polisi Strategaeth)
Polisi 22	Llifogydd a Gorlif Arfordirol (Polisi Strategaeth)
C. Economi ymwelwyr, cyflogaeth	
Polisi 23	Economi Ymwelwyr (Polisi Strategaeth)
Polisi 24	Colli Gwestai a Thai Gwestai
Polisi 25	Datblygiad Hunanarlwyo
Polisi 26	Meysydd Pebyll, Carafannau Sefydlog, Carafannau Teithiol a Chalet
Polisi 27	Uwchraddio Carafannau Sefydlog, Safleoedd Teithiol a Thir ar gyfer Pebyll
Polisi 28	Cyfleusterau Safle ar Feysydd Pebyll, Chalets a Charafannau
Polisi 29	Newid Defnydd o Leiniau Pebyll i Leiniau Carafannau Teithiol
Polisi 30	Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gweithio (Polisi Strategaeth)
Polisi 31	Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth
Ch. Darparu Tai a Thai Forddiadwy	
Polisi 32	Tai (Polisi Strategaeth)
Polisi 33	Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth)
Polisi 34	Safleoedd Sipsiwn
Polisi 35	Datblygiad Effaith Isel yn gwneud Cyfraniad Positif
D. Cyfleusterau cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth	

Rhif y Polisi	Teitl y Polisi
Polisi 36	Cyfleusterau cymunedol a Gofynion Seilwaith (Polisi Strategaeth)
Polisi 37	Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)
Polisi 38	Canolfannau Siopa Rhanbarthol a Threfi
Polisi 39	Canolfannau Garddio
Polisi 40	Trafnidiaeth Gynaliadwy (Polisi Strategaeth)
Polisi 41	Effeithiau Traffig
Polisi 42	Llwybrau beiciau
Polisi 43	Llinellau Pŵer a Phiblinellau
Polisi 44	Telegyfathrebu
Dd. Nodweddion Arbennig	
Polisi 45	Nodweddion Arbennig (Polisi Strategaeth)
Polisi 46	Llygredd Golau
Polisi 47	Safleoedd Lleol o Ddiddordeb oherwydd eu Dearaeg neu Gadwraeth Natur
Polisi 48	Gwarchod Bioamrywiaeth
Polisi 49	Yr Iaith Gymraeg
Polisi 50	Gwarchod Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol
Polisi 51	Gwarchod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Polisi 52	Cyfleusterau ar y Tir
Polisi 53	Porthladdoedd Porthgain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod

Sylwer: Os digwydd i fersiwn Cymraeg y Cynllun Datblygu Lleol fod yn wahanol i'r fersiwn Saesneg, y fersiwn Saesneg fydd yn gywir ac yn sefyll.

1. CYFLWYNIAD

Y Cynllun Datblygu Lleol

- 1.1 Mae Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn darparu fframwaith ar gyfer system newydd o Gynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru, i gymryd lle Cynlluniau Datblygu Unedol¹.
- 1.2 Dylid gweld y Cynllun, a'i ddarllen, yn ei gyfanrwydd. Yn aml, fe fydd mwy nag un polisi yn berthnasol i ddatblygiad a gynigir, ac fe fydd yr holl bolisiau yn cael ystyriaeth. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn hwylus i'w ddilyn ac yn hawdd ei ddeall, mynegwyd polisiau mor uniongyrchol â phosib. Fe fydd materion fel tirwedd, amwynder, mynediad, a dylunio yn codi gyda bron pob cais ar gyfer datblygiad, ac mae polisiau ar wahân wedi eu cynnwys ar bob un o'r agweddau hyn.

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 1.3 Wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ystyried polisiau cynllunio cenedlaethol². Yn unol â'r canllawiau yng Nghynlluniau Datblygu Lleol Cymru, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried polisiau cynllunio cenedlaethol ond ni ddylai eu hailadrodd. Felly, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei ystyried mewn cydweithrediad â'r Canllaw Ategol i Bolisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3, sy'n nodi'r meysydd hynny ble na ddylai fod angen i ddatganiadau clir o bolisiau rheoli datblygiad cenedlaethol gael eu hailadrodd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid nodi, felly, bod y Cynllun Datblygu Lleol ond yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer materion sydd o natur sy'n nodedig i'r ardal lleol. Fe fydd cynigion i ddatblygu sydd ddim yn cyflwyno materion penodol sy'n nodedig yn lleol yn cael eu hasesu yn unol â gofynion polisiau cynllunio cenedlaethol.

Sut paratowyd Cynllun wedi'i Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol

- 1.4 Paratowyd strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar yr un pryd â Chynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- 1.5 Mae dimensiwn cynllunio defnydd tir Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn dod i rym trwy'r Cynllun Datblygu Lleol statudol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol o bwysigrwydd cenedlaethol. Felly, mae amcanion a pholisiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cymryd blaenoriaeth dros bolisiau rhanbarthol a lleol fel y caiff ei drosglwyddo yn y Parciau Cenedlaethol. Mae'r Canllawiau'n ychwanegu: "Yn wir, dylid adlewyrchu gorchymion dibenion y Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol"³.
- 1.6 Datblygwyd y strategaeth ers Medi 2006. Yn Chwefror 2008 cyhoeddwyd fersiwn drafft er mwyn ymgynghori⁴ arno ac adolygwyd y strategaeth yng ngolau'r ymatebion a ddaeth i law. Fe ddechreuodd datblygiad y Cynllun Wedi'i Adneuo yng Ngorffennaf 2008.

Casglu Tystiolaeth⁵

Adolygwyd y cyd-destun polisi ehangach, er enghraifft polisiau cenedlaethol ac, yn benodol, Cynllun Gofodol Cymru⁶. Ystyriwyd gwaith rhanbarthol hefyd, cyhyd ag y mae wedi cael ei ddatblygu. Yn lleol, adolygwyd y Strategaeth Gymunedol⁷ a chyhoeddwyd fersiwn newydd o'r

¹ Gweler Geirfa

² Yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Cylchlythron a Nodiadau Cyngor Technegol.

³ Canllawiau Cynlluniau Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 4.45, tudalen 26.

⁴ Gweler Geirfa

⁵ Gweler Geirfa

⁶ Dolen at wefan Cynllun Gofodol Cymru: <http://wales.gov.uk/about/strategy/spatial/?lang=en> O dan Adran 62(5) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol.

- 1.7 cynllun ym Mai 2009. Mae yna nifer o gynlluniau sydd wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r Strategaeth Gymunedol⁸ wedi datblygu gan gynnwys y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (mabwysiadwyd⁹, Medi 2008), y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (cymeradwywyd yn Ebrill 2008), y Strategaeth Diogelwch Cymunedol (2008-2011) yn ogystal â'r Strategaeth Dai Leol (cymeradwywyd Ebrill 2008). Mae'r arfarniad o gynaliadwyedd hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at yr wybodaeth waelodlin.
- 1.8 Cynhaliwyd ymchwil gychwynnol hefyd, er enghraifft yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ac arolygon o'r cyfleusterau sydd ar gael mewn trefi a phentrefi. Gwnaethpwyd cysylltiad gyda mudiadau lleol amrywiol ynghylch yr angen am gyfleusterau cymunedol¹⁰ pellach neu gyflogaeth, er enghraifft.

Dod i gyswllt â phobl¹¹

- 1.9 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i helpu datblygu'r strategaeth. Yn fewnol, fe fu swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn gweithio ar gyfres o bapurau, yn bennaf trwy gyfarfodydd o'r Grŵp Craidd, i ddatblygu'r strategaeth a'r arfarniad o gynaliadwyedd cysylltiedig.
- 1.10 Mae Panel Rhanddeiliaid Allweddol Allanol¹² wedi cwrdd i ystyried Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, sydd ar y gweill, a'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â delio gyda materion o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddewisol. Roedd papurau cefndir hefyd ar gael.
- 1.11 Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd y Panel Cymunedol¹³ hefyd yn ystod mis Medi a Hydref 2008 i ystyried y Cynllun Datblygu Lleol Wedi'i Adneuo a oedd ar y gweill, ac eto ym mis Medi a Mis Hydref 2009 i ystyried y Newidiadau â Ffocws yr oedd yr Awdurdod yn eu cynnig.
- 1.12 Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda chynrychiolwyr awdurdodau cynllunio cyfagos, neu cysylltwyd â hwy i drafod y strategaeth sydd ar y gweill. Paratowyd Datganiad o Egwyddorion ar gyfer y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro¹⁴.

Arfarniad o Gynaliadwyedd¹⁵

- 1.13 Defnyddiwyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddewis yr opsiwn polisi mwyaf cynaliadwy o'r opsiynau a archwiliwyd. Roedd hyn yn golygu asesu perfformiad tebygol opsiynau polisi yn erbyn fframwaith o amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Pennwyd yr amcanion cynaliadwyedd hyn trwy nodi materion cynaliadwyedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol fel y nodwyd gan bolisiâu a chanllawiau cenedlaethol, gwybodaeth gyfredol ac ystadegau, a barn asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau eraill sy'n gweithio yn y Parc Cenedlaethol. Roedd datblygiad yr amcanion hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o gam cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 1.14 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol¹⁶ ac mae'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â sgriniad Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i weld beth yw effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar safleoedd bywyd gwylt sy'n bwysig yn rhyngwladol.

⁷ Gweler Geirfa

⁸ Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried yr amcanion a'r blaenoriaethau sydd wedi cael ystyriaeth gan y Strategaeth Gymunedol sy'n gysylltiedig â datblygiad a defnydd tir. Canllawiau i Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol Arolygiaeth Gynllunio Cymru, tudalen 11, dim dyddiad. Dolen at y wefan:

http://www.arolygiaethgynllunio.gov.uk/cymru/wal/appeals/local_development_plans_e.htm

⁹ Gweler Geirfa

¹⁰ Gweler Geirfa

¹¹ Dolen at safle'r Panel Rhanddeiliaid Allweddol: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1231&SkinID=5

Dolen at safle'r Grŵp Craidd: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=57

Dolen at safle'r Panel Cymunedol: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1311&SkinID=5

¹² Mae'r panel yn gweithredu fel bwrdd seinio trwy'r broses baratoi. Mae yna gynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

¹³ Fe gafodd sampl o gynrychiolwyr o'r gymuned eu gwahodd i weithdai i drafod materion lleol, h.y. materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Roedd y gweithdai hyn yn seiliedig ar grwpiau o ardaloedd Cyngorau Cymuned

¹⁴ Dolen at y Datganiad Egwyddorion Strategol: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

¹⁵ Dolen at yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

¹⁶ Gweler Geirfa

Safleoedd Potensial ¹⁷

- 1.15 Yn allanol, fe fu datblygwyr ac asiantau yn cyflwyno safleoedd i'w hystyried. Fe gafodd y rhain eu hasesu i weld pa mor addas ydynt i'w datblygu ac aethpwyd â safleoedd addas ymlaen yn y Cynllun Datblygu Lleol Wedi'i Adneuo.

¹⁷ Dolen ar gyfer y Safleoedd Potensial: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5

2. BLE YDYM NI NAWR - PORTREAD O'R PARC CENEDLAETHOL

2.1 Cynhaliwyd adolygiad i:

- nodi priodoleddau allweddol y Parc
- nodi negeseuon allweddol mewn Deddfau, Cynlluniau a Strategaethau allweddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol
- dangos beth sy'n gweithio'n dda i'r Parc a pha faterion allweddol sydd angen sylw
- dangos pa faterion sy'n bwysig i'r Awdurdod yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol¹⁸
- esbonio rôl y Parc yn y cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.

Mae'r portread wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

2.2 Drwy'r dadansoddiad uchod, mae chwe mater o flaenoriaeth allweddol, sydd angen sylw yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn, wedi dod i'r amlwg. Rhaid i'r materion hyn gael sylw yng nghydestun yr angen i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, sef:

- Gwarchod a gwella 'gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol¹⁹ y Parciau Cenedlaethol.'²⁰
- Deall a mwynhau 'hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall nodweddion arbennig [y Parciau] a'u mwynhau.'²¹

2.3 Wrth graidd y rhain mae Egwyddor Sandford²², sy'n rhoi blaenoriaeth i'r diben gyntaf dros yr ail, mewn achosion o wrthdaro nad oes modd ei gymodi. I adlewyrchu'r ffaith fod Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw a bod pobl yn byw ynddynt, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod hefyd i symud dibenion y parc yn eu blaenau i: 'feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, o fewn y Parc Cenedlaethol....' Dylid cyflawni'r ddyletswydd hon wrth fynd ar drywydd dibenion y Parc Cenedlaethol²³.

Materion allweddol sydd angen sylw

Dibenion y Parc Cenedlaethol

- Sicrhau bod polisiau cynllunio'r llywodraeth sy'n unigryw i Barciau Cenedlaethol yn cael eu defnyddio'n briodol.

A. Nodweddion Arbennig

- Sut ellir gwarchod nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol? A oes modd manteisio ar gyfleoedd i wella'r nodweddion arbennig hynny gyda datblygiadau newydd?

¹⁸ Gweler Geirfa

¹⁹ Gweler Geirfa

²⁰ Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

²¹ Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

²² Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

²³ Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant

- Wrth geisio cwrdd ag anghenion cymunedau lleol, sut i wneud dewisiadau rhesymegol neu benderfynu ar flaenoriaethau pan fydd yr angen am dir i'w ddatblygu yn fwy na'r cyflenwad tir addas sydd ar gael. Nid yw'r Parc yn gallu ateb yr holl alwadau²⁴.
- O ystyried siâp a natur y Parc Cenedlaethol, mae'n bwysig cydnabod ei fod yn dibynnu'n sylweddol ar strategaethau Sir Benfro ac ardal ehangach Gorllewin Cymru, yn enwedig strategaethau gofodol.

C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

- Rhaid gwneud mwy i roi sylw i ffactorau sy'n cyfrannu at newid mewn hinsawdd, i reoli effeithiau newid mewn hinsawdd ac i addasu atynt.

Ch. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

- Sut i ddarganfod ymagwedd at ddatblygu yng nghefn gwlad, sy'n helpu cynnal ac arallgyfeirio cymunedau gwledig, ond eto'n diogelu yn erbyn datblygiad anghynnaladwy mewn lleoliadau gwledig.
- Yn nhermau cynllunio defnydd tir, sut all y Parc Cenedlaethol daclo natur dymhorol yr economi ymwelwyr?
- Mae'r economi ymwelwyr yn tra-arglwyddiaethu mewn rhai lleoliadau yn y Parc ac mae angen rheoli hyn mewn ffordd ragweithiol.
- Sut i gynnal a gwella'r economi ymwelwyr.

D. Tai fforddiadwy²⁵ a chynnydd tai

- Sut i daclo ôl-groniad yr angen²⁶ am dai fforddiadwy yn y Parc yn ogystal â delio gyda'r anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg.

Dd. Cyfleusterau cymunedol

- Sut i barhau i warchod a gwella'n hamrywiaeth o gyfleusterau cymunedol yn y Parc Cenedlaethol - cyfleusterau sy'n annwyl iawn ac yn gyfleusterau y mae angen amdanynt, llawer ohonynt mewn lleoliadau sydd ymhell i ffwrdd oddi wrth ganolfannau mawr.
- Sut i sicrhau bod canolfannau siopa trefol, rhanbarthol a llai'r Parc, sy'n gwasanaethu anghenion lleol ac anghenion ymwelwyr, yn parhau i fod yn ddeniadol, yn amrywiol ac yn ymarferol.
- Sut i wella hygyrchedd²⁷ y Parc Cenedlaethol a'r hygyrchedd o fewn y Parc, tra'n cydnabod yr angen i ostwng effaith traffig modurol a theithio ar yr amgylchedd.

²⁴ Caiff gallu tirwedd y Parc Cenedlaethol i amsugno'r datblygiadau ar gyfer cyfnod y Cynllun presennol, ei brofi gan ddefnyddio methodoleg a osodir ym Mhapur Cefndir 'Meini Prawf Safle'. O ran cyfyngiadau ar ddatblygiad, y prif fater yw effaith ar gymeriad y dirwedd.

²⁵ Gweler Geirfa

²⁶ Gweler Geirfa

²⁷ Gweler Geirfa

3. Ble ydym yn dymuno bod - Gweledigaeth ac Amcanion

Gweledigaeth

- 3.1 Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol isod yn disgrifio elfennau defnydd tir Gweledigaeth²⁸ Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol:
- mae ganddi orwel o 15 mlynedd
 - mae'n benodol i'r Parc Cenedlaethol hwn
 - mae'n ystyried agenda a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a strategaethau a chynlluniau rhanbarthol, partner ac awdurdodau cyfagos.
 - mae'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol a rhyngwladol
 - mae'n crisialu'r hyn y mae pobl wedi ei ddweud wrthym mewn arolygon a chynadleddau²⁹
- 3.2 Paratowyd y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol ochr yn ochr â'i gilydd.

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2021

- 3.3 Mae datblygiadau'n parhau i barchu'r nodweddion arbennig a, ble'n bosib, yn eu gwella. Mae hyn yn golygu na fydd poblogaeth y Parc yn gallu cynyddu'n sylweddol. Ble'n bosib, mae'r cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu sy'n gallu cael eu cynnig yn cael eu cynnig ar gyfer y datblygiadau sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol, ble mae hyn yn gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.
- 3.4 Mae Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Saundersfoot, Tyddewi a llawer o gymunedau mwy gwledig y Parc Cenedlaethol wedi rhoi lle i gynnydd tai ychwanegol er mwyn hwyluso'r gallu i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer cymunedau'r Parc Cenedlaethol. Mae datblygiad cyflogaeth wedi canolbwyntio ar y canolfannau mwy. Mae ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol yn dal i fod yn lleoliad ar gyfer llawer o ddiddordebau a gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys cynlluniau arallgyfeirio ffermydd a thrawsnewid adeiladau at ddefnyddiau amrywiol ynghyd â rhai cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer tai.
- 3.5 Cyfeiriwyd datblygiadau newydd at gymunedau sydd wedi eu cysylltu gan rwydwaith drafndiaeth gyhoeddus cyfleus, fforddiadwy ac effaith isel. Mae rhwydweithiau hawliau tramwy cyhoeddus a seiclo, sydd wedi gwella, yn ffordd lân a hygyrch o deithio i'n cymunedau ac yn cefnogi mwy o weithgarwch hamdden.
- 3.6 Fel gweddill y Deyrnas Unedig, mae'r Parc wedi bod yn addasu at y newid mewn hinsawdd. Mae dyluniad datblygiadau yn fwy cynaliadwy. Mewn datblygiadau newydd, mae yna arddull frodorol nodedig ond cynnil i'r gwaith adeiladu, sy'n cyfuno gorau'r hen gyda gorau'r newydd. Mae cynlluniau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn fwy poblogaidd. Cyfeiriwyd datblygiadau i ffordd

²⁸Mae Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol o bwysigrwydd cenedlaethol. Felly, mae amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael blaenoriaeth dros bolisiau rhanbarthol a lleol gan eu bod yn cael eu trosglwyddo mewn Paciau Cenedlaethol. Yn wir, dylid adlewyrchu gorchymnion dibenion y Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol. – paragraff 4.45, tudalen 26, Canllawiau Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007.

²⁹Gweler Papur Cefndir Gweledigaeth ac Amcanion Hydref 2008 gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

oddi wrth ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd, neu sy'n mynd i fod yn dueddol o ddioddef llifogydd.

- 3.7 Mae'r Parc yn elwa o fod yn gyrchfan heb ei ail i dwristiaid. Mae'n gynhwysol yn gymdeithasol ac ar gael trwy gydol y flwyddyn, ac mae'n canolbwyntio ar ei gryfderau: hamdden forol ac arfordirol effaith isel, mynediad at ardaloedd gwledig sy'n gyfoeth o fywyd gwylt, a heddwch a thawelwch.

Amcanion

- 3.8 Mae'r amcanion isod yn nodi sut fydd y weledigaeth yn cael ei chyflawni i daclo'r materion blaenoriaeth a nodwyd ym Mhennod 2. Maen nhw'n dod o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac yn cael eu mireinio, fel eu bod yn berthnasol i faterion cynllunio defnydd tir ac wrth nodi'r canlyniadau allweddol fydd yn cael eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol ym marn yr Awdurdod. Mae strategaeth a pholisïau'r Cynllun ac adran Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi mwy o wybodaeth ar yr hyn a ddisgwylir.
- 3.9 Gosodir yr amcanion hyn o fewn cyd-destun yr angen i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, sef:
- **Gwarchod a gwella** *'gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol.'*³⁰
 - **Deall a mwynhau** *'hybu cyfleodd i'r cyhoedd ddeall nodweddion arbennig [y Parciau] a'u mwynhau.'*³¹
- 3.10 Wrth graidd y rhain mae Egwyddor Sandford, sy'n rhoi blaenoriaeth i'r diben gyntaf dros yr ail mewn achosion o wrthdaro nad oes modd ei gymod³². I adlewyrchu'r ffaith fod Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw a bod pobl yn byw ynddynt, mae hefyd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod i symud dibenion y parc yn eu blaenau i: *'feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, o fewn y Parc Cenedlaethol....'* Dylid cyflawni'r ddyletswydd hon wrth fynd ar drywydd dibenion y Parc Cenedlaethol³³.

A. Nodweddion Arbennig

Yr Amgylchedd Hanesyddol³⁴

- Gwarchod, gwella a hyrwyddo amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol, ei adnodd archeolegol, adeiladau hanesyddol a thirweddau, parciau a gerddi. (Polisi 8, Polisi 13 a Pholisi 14)

Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

- Gwarchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau priodol o fewn y Parc Cenedlaethol a, ble'n briodol, amddiffyn a hyrwyddo'r adnodd daearegol. (Polisi 8, Polisi 10 a Pholisi 11)

Y Dirwedd

- Gwarchod a gwella cymeriad arbennig tirwedd y Parc Cenedlaethol. (Polisi 8 a Pholisi 15)

Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

- Gwarchod a gwella cyfoeth diwylliannol y Parc Cenedlaethol. (Polisi 8 a Pholisi 12)

Canlyniadau allweddol

- (1) Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi cael eu gwarchod a'u gwella.

³⁰ Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

³¹ Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

³² Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

³³ Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

³⁴ Gweler Geirfa

B. Datblygiadau mawr a'r potensial ar gyfer tyfiant

Graddfa a Lleoliad tyfiant

- Hybu strategaeth ofodol sy'n cadw'r angen i deithio at leiafswm. (Polisi 2, Polisi 3, Polisi 4, Polisi 5, Polisi 6, Polisi 7). Wrth ryddhau'r cyflenwad tir prin, neu ystyried ailddefnyddio adeiladau yn y Parc Cenedlaethol, blaenoriaethu eu defnydd neu eu haildefnydd ar gyfer y datblygiadau sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol. (Polisi 35, Polisi 42, Polisi 44, Polisi 45 a Pholisi 48)

Mwynau

- Ni fydd unrhyw ardaloedd gweithio mwynau, neu estyniadau i ardaloedd gweithio mwynau, yn cael eu caniatáu o fewn y Parc Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol³⁵. (Polisi 21 i Bolisi 26)

Gwastraff

- Darparu cyfleusterau gwastraff lleol ar gyfer gwastraff y Parc Cenedlaethol, neu sicrhau cyfleusterau tu allan i'r Parc Cenedlaethol i ddelio gyda'r gwastraff hwn.(Polisi 27 a Polisi 28)

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

- Ni chaniateir dwysau'r defnydd o safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn, na'u hymestyn, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.³⁶

Canlyniadau allweddol

- (1) Mae datblygiadau'n cymryd lle yn unol â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
- (2) Mae datblygiadau a ganiateir yn helpu cynnal cymunedau lleol - er enghraifft trwy sicrhau bod elfen sylweddol yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy neu'n darparu cyfleoedd cyflogaeth.
- (3) Dim unrhyw ddatblygiadau mawr yn y Parc Cenedlaethol onid oes amgylchiadau eithriadol.³⁷
- (4) Darparu cyfleusterau gwastraff i ateb anghenion a gynhrychir yn y Parc Cenedlaethol, neu i weithio gyda'r Cyngor Sir i ddarparu cyfleusterau gwastraff sy'n gwasanaethu'r ddwy ardal tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

Llygredd, Tir Ansefydlog a Halogi

- I gadw ffynonellau llygredd neu halogiad newydd sy'n cael eu creu at leiafswm ac i roi sylw i faterion sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol.³⁸ (Polisi 9)

³⁵ Polisi Cynllunio Mwynau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2000, paragraff 21

³⁶ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, paragraff 5.5.5 a 5.5.6

³⁷ Gweler Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, paragraff 5.5.6, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Rhagfyr 2000, paragraff 21, tudalen 11, Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregiadau 2004, paragraff 52, Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 2: Glo, paragraffau 74 i 79, tudalen 159, De Orllewin Cymru, Adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (Awst 2008), Cylchlythyr 125/77 Heolydd a Thraffig – Parciau Cenedlaethol

³⁸ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3 Gorffennaf 2010, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Pennod 12 a 13.

Ynni Adnewyddadwy

- Gwella cadwraeth ynni ac effeithlonrwydd ynni, a chyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy. (Polisi 33)

Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr

- Gwarchod a gwella ansawdd pridd, aer a dŵr y Parc Cenedlaethol.^{39 40}

Dylunio cynaliadwy

- Mae dyluniad unrhyw ddatblygiadau yn y Parc Cenedlaethol yn adlewyrchu ei rinweddau tirwedd a threflun arbennig, a'i arwahanrwydd lleol, ac mae'n cwrdd â'r safonau uchaf o ran adnoddau, gan gynnwys cadw gwastraff at leiafswm, ac mae'n ystyried effaith hinsawdd sy'n newid.(Polisi 29, Polisi 30, Polisi 31, Polisi 32 a Polisi 9)

Rheolaeth Arfordirol

- Osgoi datblygu rhannau o'r arfordir ac ardaloedd sydd heb eu datblygu ac sydd mewn perygl o lifogydd a/neu erydiad, a darparu ar gyfer unrhyw addasiadau angenrheidiol trwy ystyried effeithiau gwybyddus newid mewn hinsawdd, ac effeithiau a ragwelir, ar yr arfordir. (Polisi 8, Polisi 17, Polisi 18, Polisi 33 a Polisi 34)

Llifogydd

- Sicrhau nad ydyw datblygiadau'n digwydd mewn lleoliadau ble gallai fod yna berygl o lifogydd⁴¹ neu ble byddai'n cynyddu'r perygl o lifogydd mewn lleoliad arall. (Polisi 34)

Canlyniadau allweddol

- (1) Mae' datblygiadau'n cyrraedd safonau uchel o ran dylunio cynaliadwy, gyda'r holl aneddiadau newydd yn cwrdd â'r safonau a osodir mewn polisiau cynllunio cenedlaethol.⁴²
- (2) Mae'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.⁴³
- (3) Dim datblygiadau bregus⁴⁴ mewn ardaloedd a fyddai mewn perygl o lifogydd, nawr ac yn y tymor hir, a dim unrhyw effeithiau negyddol yn unrhyw le arall.

Ch. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

Cyflogaeth

- Helpu creu economi lleol hyfyw, cynaliadwy ac amrywiol sydd o fudd i bob rhan o'r gymuned, a'i gynnal. (Polisi 42 a Polisi 43)

³⁹Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Pennod 12 a 13.

⁴⁰ Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC)

⁴¹ Mae 'ardaloedd mewn perygl' yn cael eu mapio gan Asiantaeth yr Amgylchedd, dolen: <http://maps.environment-agency.gov.uk/wiyby/mapController> a'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y Cynllun Rheoli Traethlin priodol.

⁴² Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i'r safonau gofynnol gael eu gwneud yn gynyddol uwch gydag amser, wrth fynd ar drywydd ei ddyhead i bob adeilad newydd fod yn "garbon niwtral" erbyn 2011.

⁴³ Gweler Adran Monitro'r Cynllun. Cymerir cyfraniadau tebygol o'r Asesiad o Ynni Adnewyddadwy, dolen: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1317&SkinID=5>

⁴⁴ Caiff 'datblygiadau bregus' eu diffinio yn y Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiadau a Pherygl Llifogydd ar lifogydd, gweler Ffigur 2 tudalen 7: dolen [http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/40382/403821/\(560\)_july04-tan15-e.pdf?lang=en](http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/40382/403821/(560)_july04-tan15-e.pdf?lang=en)

Mwynhad

- Denu nifer cynaliadwy o bobl ar bob adeg o'r flwyddyn i fwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. (Polisi 35)

Canlyniadau allweddol

- (1) Darparu safleoedd cyflogaeth, byw/gwaith a chymysg newydd (rhagamcan o 5.6 hectar) a diogelu safleoedd sydd eisoes yn bodoli.
- (2) Mae amrywiaeth o lety gwyliau ar gael i gwrdd ag anghenion amrywiol ymwelwyr
- (3) Nid yw gweithgareddau hamdden ac ymwelwyr yn niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol

D. Tai fforddiadwy a chynnydd tai

Tai

- Anelu at gwrdd â'r anghenion tai, yn enwedig yr angen am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol, heb gyfaddawdu ar ddibenion y Parc Cenedlaethol. (Polisi 44, Polisi 45, Polisi 46 a Polisi 47)

Canlyniadau allweddol

- (1) Darperir tua 1,600 anheddiad newydd ac, o'r rhain, darperir o leiaf 530 o gartrefi fforddiadwy newydd.
- (2) Os yw nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd, neu sy'n cael eu hadeiladu, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014/15, yn llai nag 80% o gyfran y targed cyfan ar gyfer cyfnod y Cynllun a ddylai fod ar gael erbyn y dyddiad yma, fe fydd yr Awdurdod yn dechrau adolygiad o'r Polisi Strategaeth Tai Fforddiadwy ar unwaith.
- (3) Mae dwyster y datblygiadau yn uwch – o leiaf 30 anheddiad i'r hectar yng Nghanolffannau'r Cynllun Datblygu Lleol⁴⁵.

Dd. Cyfleusterau cymunedol

Cyfleusterau cymunedol

- Annog y gallu i gadw a darparu rhwydwaith o gyfleusterau cymunedol sy'n adlewyrchu anghenion trigolion ac ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. (Polisi 48)

Manwerthu

- Cynnal sector manwerthu hanfodol a hyfyw ar raddfa briodol, ac mewn lleoliadau addas ar draws y Parc Cenedlaethol. (Polisi 49 a Polisi 50)

Trafnidiaeth

- Gwella a hybu hygyrchedd⁴⁶ trwy ffyrdd priodol, ac ar adegau priodol, ar gyfer y bobl sy'n byw, yn gweithio, yn gorffwys ac yn chwarae yn y Parc Cenedlaethol, tra'n gostwng yr angen i deithio mewn car preifat. (Polisi 52, Polisi 53 a Pholisi 54)

⁴⁵ Gweler Geirfa

Cyfleustodau

- Sicrhau y darperir cyfleustodau⁴⁷ digonol ar gyfer cymunedau lleol, a bod y ddarpariaeth hon yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol a'r gallu i amddiffyn ei adnoddau.

Canlyniadau allweddol

- (1) Mae cyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn cael eu diogelu, a'r ddarpariaeth yn cael ei gwella.
- (2) Mae canolfannau manwerthu'r Parc Cenedlaethol yn fywiog ac yn amrywiol.
- (3) Mae cynigion a allai fod wedi achosi pryderon sylweddol ynghylch traffig wedi cael eu hosgoi.

Mae papur cefndir o'r enw 'Gweledigaeth ac Amcanion' yn nodi sut mae'r amcanion uchod yn ymberthyn i'r weledigaeth.

⁴⁶ Gweler Geirfa

⁴⁷ Gweler Geirfa

4. Sut fyddwn ni'n gwireddu hyn - strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

Troi'r weledigaeth a'r amcanion yn strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.1 Roedd y bennod flaenorol yn gosod gweledigaeth ynghylch 'ble ydym yn dymuno bod' ac roedd yn awgrymu rhai o'r canlyniadau allweddol y byddwn yn ceisio eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol - erbyn 2021. Diben y bennod hon yw rhoi sylw i'r cwestiwn o 'sut yr ydyn ni'n gwireddu hyn' trwy nodi strategaeth ofodol y Cynllun, a'r polisïau sydd eu hangen, er mwyn gwireddu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.2 Mae'r portread ym mhennod 2 yn disgrifio'r math o le sydd gennym ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro heddiw. Mae ganddo lawer o gryfderau: ei natur ddeniadol, cyfraniad ei amgylchedd at yr economi lleol a chenedlaethol; ei ddiwylliant amrywiol, cyfoethog; ei fioamrywiaeth a geoamrywiaeth a'i ansawdd bywyd. Mae'n lle pleserus i ymweld ag ef ac i gadw'n iach.
- 4.3 Gyda'r cryfderau hyn, daw rhai gwendidau; mae tai yn ddrud ac mae'n anodd eu fforddio, mae'r cyfleoedd i adeiladu tai, ac i ddatblygu yn fwy cyffredinol, yn gyfyngedig. Mae yna gystadleuaeth ar gyfer tai ymhlith prynwyr tai haf ac ail gartrefi. Mae cynhwysiant cymdeithasol yn fater sy'n codi o ganlyniad. Mae rhai ardaloedd poblogaidd yn mynd yn fwy prysur yn ystod tymor y gwyliau ond nid ydynt yn gallu cyfiawnhau gwasanaeth bws lleol dros fisoedd y gaeaf.
- 4.4 Oherwydd ei ddyndiad fel tirwedd arbennig, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gosod cyfyngiadau gweddol lym ar ddatblygiadau a fyddai'n niweidio'i nodweddion arbennig. Yn ychwanegol at hyn, gan ei bod yn ardal wledig yn bennaf, nid yw graddfa ofodol ardaloedd newid unigol yn sylweddol.
- 4.5 Mae'r Canllawiau'n⁴⁸ cynghori efallai y byddai ymagwedd 'strategaeth wledig' generig yn fwy addas (nag archwilio strategaethau gofodol amgen a safleoedd amgen o fewn ardaloedd o newid). Ystyried opsiynau ac egwyddorion polisi eang mewn perthynas â materion fel tai fforddiadwy, dyraniadau graddfa pentrefi, rôl a datblygiad trefi marchnad, arallgyfeirio, yr hierarchaeth a rolau yn nhermau darparu gwasanaethau ayb.
- 4.6 Dyma'r ymagwedd a ddefnyddiwyd yma. Ond, o ystyried siâp y Parc Cenedlaethol, mae angen i lefel y tyfiant, a'i anghenion dosbarthu gofodol, ystyried ei sefyllfa mewn perthynas ag awdurdodau cyfagos. Yn y cyswllt hwn, ystyriwyd y gwaith paratoi hefyd ar gyfer diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yn nhermau archwilio opsiynau gofodol (gweler paragraff 4.14 ymlaen).
- 4.7 Mae'r strategaeth a'r polisïau isod yn tacio'r chwe mater o flaenoriaeth a nodwyd ym Mhennod 2 'Ble ydyn ni nawr?' ac yn nodi ymateb polisi i wireddu agweddau defnydd tir y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer yr ardal, fel y nodwyd ym Mhennod 3. Ble mae angen camau gweithredu allweddol, tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol, i wireddu'r polisïau hyn, mae'r rhain wedi eu nodi hefyd.
- 4.8 I'ch atgoffa, dyma'r chwe mater o flaenoriaeth:
 - A. Nodweddion arbennig
 - B. Datblygiadau mawr a'r potensial ar gyfer tyfiant
 - C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy
 - Ch. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad
 - D. Tai fforddiadwy a chynnydd tai
 - Dd. Cyfleusterau cymunedol

⁴⁸ Llawlyfr CDLI, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006, tudalen 64.

- 4.9 Mae ymatebion polisi'n cael eu grwpio o dan y chwe mater sy'n flaenoriaeth, ac eithrio'r rheiny sy'n perthyn i ddibenion Parc Cenedlaethol, a'i ddyletswydd, ac elfennau gofodol y Cynllun, sydd wedi cael eu gosod ar flaen Pennod 4. Caiff polisiau'r strategaeth eu nodi gan yr olddodiad 'Polisi Strategaeth' a'u lliwio gyda chefnidir lliw melyn. Caiff polisiau'r cefnogol eu lliwio gyda chefnidir glas.
- 4.10 Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi dylanwadu'n drwm ar y Cynllun.

Dibenion y Parc Cenedlaethol, a'i ddyletswydd, a'r Strategaeth Ofodol

- 4.11 Mae yna un polisi trosfwaol yn y Cynllun sy'n delio gyda dibenion y Parc Cenedlaethol, a'i ddyletswydd.
- 4.12 Gosodir dibenion y Parc Cenedlaethol yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Gellid awgrymu bod gosod polisi yn y cynllun yn ailadrodd deddfwriaeth, ond mae'r ddau ddiben, law yn llaw â'r ddyletswydd, mor hanfodol bwysig i waith Awdurdod y Parc, ei fod yn bwysig eu gosod wrth galon y Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.13 Mae'r Parc Cenedlaethol yn ddynodiad tirwedd, ond mae yna enghreifftiau pan na fyddai'n briodol cadw'n llym at y ffin wrth ddod i benderfyniadau. Mae materion trawsffiniol yn cynnwys datblygiadau ynni'r gwynt, datblygiadau tua'r môr a seilwaith trafnidiaeth. Fe fydd yr Awdurdod yn defnyddio'r polisi hwn wrth ystyried cynigion o fewn ei awdurdodaeth gynllunio ac wrth gynnig sylwadau ar gynigionu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Polisi 1 NATION DIBENION Y PARC CENEDLAETHOL, A'I DDYLETSWYDD (Polisi Strategaeth)

Rhaid bod datblygiadau o fewn y Parc Cenedlaethol yn gydnaws â:

- a) gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, a
- b) dealltwriaeth y cyhoedd o'r nodweddion hynny, a'i allu i'w mwynhau.⁴⁹

Wrth benderfynu ar gynigion, rhoddir ystyriaeth briodol i'r angen i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn y Parc, ble mae hyn yn gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol sydd wedi eu hymgorffori yn yr ystyriaethau blaenorol.

Y Strategaeth Ofodol

- 4.14 Dangosir prif elfennau gofodol y strategaeth yn y Diagram Allwedd – gweler y Map Cynigion. Dylid darllen yr elfen hon o'r strategaeth o fewn cyd-destun y strategaeth ehangach, yn enwedig y Polisi 1 trosfwaol sy'n delio gyda dibenion y Parc Cenedlaethol a'i ddyletswydd.

Lleoliad tyfiant

- 4.15 Y strategaeth ar gyfer lleoli tyfiant ar gyfer y Parc Cenedlaethol yw strategaeth Fframwaith Anheddiad Hafan Sir Benfro Cynllun Gofodol Cymru⁵⁰.
- 4.16 Nod y fframwaith ar gyfer ardal Hafan Sir Benfro yn y pendraw yw sicrhau mwy o lewyrch, denu buddsoddiad mewnol, cyfeirio datblygiadau at y prif drefi ar y coridor economaidd, helpu cynnal cymunedau gwledig, gwireddu egwyddorion cynaliadwyedd a gwarchod y Parc Cenedlaethol.⁵¹

⁴⁹ Mae Egwyddorion Sandford yn sylfaen i'r dibenion hyn ac mae'n rhoi blaenoriaeth i'r diben cyntaf dros yr ail mewn achosion o wrthdaro amlwg.

⁵⁰ Gweler Geirfa

⁵¹ Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Anheddiad Allweddol 2021, tudalen 21

- 4.17 Wedi ei brofi yn erbyn opsiynau eraill (yn yr arfarniad o gynaliadwyedd), roedd y fframwaith hwn wedi perfformio'n well yn yr ystyr ei fod yn cynnig y manteision cliraf ar gyfer cynaliadwyedd gyda chyflogaeth, tai, yr amgylchedd ac adfywio ffisegol. Roedd yn pwysleisio gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, gyda mesurau ychwanegol yn anelu at roi sylw i arallgyfeirio economaidd, datblygu/cadw sgiliau, forddadwyedd tai, stiwardiaeth amgylcheddol, lliniaru⁵² effeithiau newid mewn hinsawdd⁵³ ac addasu atynt.
- 4.18 Mae gan ardal Hafan Sir Benfro dri chanolfan strategol, Yr Hafan (Hwlfordd, Aberdaugleddau/Neyland a Penfro/Doc Penfro), Tref Caerfyrddin ac Abergwaun/Wdig. Fe fydd y canolfannau hyn yn cynnig rôl ranbarthol ac fe fyddant yn ffocws pwysig ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol. Maen nhw'n cael eu hadnabod fel Canolfannau Haenen 1 (ar wahân i Abergwaun/Wdig). Mae'r canolfannau hyn yn gorwedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol.
- 4.19 Mae gan y trefi a'r pentrefi yn y Parc Cenedlaethol rolau haenen is ac maen nhw'n cael eu cynnwys naill ai fel Canolfannau Haenen 2 neu Ganolfannau Haenen 3.
- Haenen 2...Mae gan y canolfannau swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau, cyflogaeth a thwristiaeth
 - Haenen 3...Yn bennaf, mae'r canolfannau yn ganolfannau lleol gyda rhai'n ganolfannau twristiaeth pwysig
- 4.20 I fynd law yn llaw gyda fframwaith y Cynllun Gofodol, sy'n delio gyda lefelau mwy strategol yr hierarchaeth yn y Parc, mae'r Awdurdod yn cynnig dwy haenen ychwanegol:
- Mae 'Canolfannau Gwledig' Haenen 4 yn cael eu nodi ar gyfer tyfiant cyfyngedig. Mae gan y Canolfannau hyn amrywiaeth gyfyngedig o gyfleusterau a ddylai gwrdd ag anghenion bob dydd y trigolion. Dylai'r ymagwedd hon helpu cynnal cymunedau gwledig a gostwng yr angen i deithio.
 - Mae Haenen 5, 'Cefn Gwlad', ble mae'n unol â datblygiadau polisi cynllunio cenedlaethol, yn cael ei rheoli'n llym, ac eithrio rhai mathau o ddatblygiadau a fyddai fel arfer yn cael eu gweld mewn lleoliadau gwledig.
- 4.21 Wrth ddiffinio'r graddau o ddatblygiad a ganiateir mewn Canolfannau, fe fydd 'Ffiniau Canolfan' yn cael eu defnyddio, ac eithrio ble nad yw hyn yn gydnaws â chymeriad y Ganolfan.

Dinbych-y-pysgod - Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth

- 4.22 **Cefndir:** Nodwyd Dinbych-y-pysgod fel canolfan gwasanaethau lleol a thwristiaeth, ynghyd ag Abergwaun/Wdig, San Clêr, Hendy-gwyn ac Arberth (Canolfannau Haenen 2). Dim ond Dinbych-y-pysgod sy'n gorwedd o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 4.23 Mae Dinbych-y-pysgod ar dde arfordir Sir Benfro. Amcangyfrifir bod gan Ddinbych-y-pysgod boblogaeth o 4,850 o drigolion. Mae'n dref gaerog hanesyddol, deniadol, (rhan ohoni wedi cael ei dynodi yn Ardal Gadwraeth), gyda thraethau godidog. Mae ganddi harbwr gweithiol sy'n haid o weithgarwch o hyd ac mae ymwelwyr yn aml yn treulio amser yn gwyllo bywyd yr harbwr. Mae yma amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol sy'n cynnig rhywbeth i bob oed a phob chwaeth, ac mae yma wasanaeth bws da, gorsaf rheilffordd ac mae ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Canol tref Dinbych-y-pysgod yw prif ganolfan manwerthu'r Parc, ond mae'n ganolfan fanwerthu lai o gymharu â chanolfannau manwerthu eraill yn y rhanbarth, sy'n cynnwys Caerfyrddin a Hwlfordd.

⁵² Gweler Geirfa

⁵³ Gweler Papur Cefndir Opsiynau Amgen wm fwy o wybodaeth ar y ffordd y dewiswyd yr opsiwn yma.

Mae Dinbych-y-pysgod yn gwasanaethu cefnwlad wledig sy'n cynnwys ardaloedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

- 4.24 **Materion ar gyfer Dinbych-y-pysgod:** Mae Dinbych-y-pysgod wedi gweld peth dirywiad mewn twristiaeth a, gyda marchnad eiddo hynawf, mae hyn wedi arwain at gollu mwy a mwy o westai. Ond, mae'n dal i fod yn ganolfan bwysig ar gyfer ymwelwyr, fel y tanlinellwyd yn y diweddariad⁵⁴ i Gynllun Gofodol Cymru. Mae datblygiad tai fforddiadwy wedi bod yn gyfyngedig, ac mae 12% o aneddiadau naill ai'n dai haf neu'n llety gwyliau. Er gwaethaf marchnad eiddo hynawf, mae yna rai adeiladau a safleoedd allweddol yn yr ardal o hyd sydd wedi dirywio. Mae yna nifer o faterion rheoli traffig sy'n achosi pryder, yn enwedig tagfeydd yn ystod misoedd yr haf⁵⁵. Mae yna brinder cyfleoedd cyflogaeth trwy gydol y flwyddyn. Mae gan Ddinbych-y-pysgod wasanaeth rheilffordd rheolaidd. Mae ardal Traeth y De mewn perygl o lifogydd, ond ni ddylai hyn amharu ar botensial Dinbych-y-pysgod i weithredu fel Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth - gweler Polisi 24 hefyd. Mae yna faterion yn ymwneud â gwaredu carthffosiaeth⁵⁶. Mae gan ddyraniadau datblygu yn Dinbych-y-pysgod botensial o gael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000.
- 4.25 **Dinbych-y-pysgod erbyn 2021:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, mae Dinbych-y-pysgod yn gyrchfan o ansawdd uchel i dwristiaid, gydag amrywiaeth o lety o ansawdd uchel. Caiff yr harbwr gweithiol ei warchod a'i wella, gyda chysylltiadau at Ynys Bŷr. Mae traffig yn cael ei rheoli'n dda ac mae'r dref yn cael ei gwasanaethu'n dda gan fesurau parcio a theithio. Mae'r dref yn hygyrch iawn ar y trê'n a'r bws. Canol y dref yw'r prif ganolfan manwerthu yn y Parc o hyd. Mae mwy o gyfleoedd cyflogaeth ar gael yn y dref trwy gydol y flwyddyn nag ar ddechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Mae tai newydd sydd wedi cael eu datblygu yn y dref yn cynnwys elfen sylweddol o dai fforddiadwy⁵⁷.

Polisi 2	CANOLFAN GWASANAETHAU LLEOL A THWRISTIAETH DINBYCH-Y-PYSGOD (HAENEN 2)⁵⁸ (Polisi Strategaeth)
	Mae Dinbych-y-pysgod wedi cael ei dynodi fel 'Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth' a dyma'r blaenoriaethau defnydd tir:
	a) anelu at gwrdd ag anghenion tai, yn enwedig yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal leol.
	b) darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth i gwrdd ag anghenion yr ardal leol
	c) gwarchod a gwella cyfleusterau'r dref a chanolfan siopa'r dref, sy'n gwasanaethu'r anghenion yr ardal leol.⁵⁹
	ch) gwarchod a gwella ardal yr harbwr.⁶⁰
	d) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at y gallu i warchod a gwella nodweddion arbennig y dref⁶¹
	dd) caniatáu cynigion sy'n helpu gwella rheolaeth traffig yn y dref.

⁵⁴ Gweler tudalen 112, diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008

⁵⁵ Mae cynlluniau pedestreiddio arbrofol sy'n cael eu gweinyddu gan Gyngor Sir Penfro wedi bod ar waith. Nawr, y bwriad yw creu Gorchymyn Parhaol.

⁵⁶ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Tyfiant

⁵⁷ Cynllun Gweithredu Dinbych-y-pysgod, Medi 2006, (paratowyd gan y gymuned leol mewn cydweithrediad â PLANED), Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Anheddiad Allweddol 2021, tudalen 14 a'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12 a 24

⁵⁸ Gweler Polisi 35

⁵⁹ Rhestrwyd y Tir a Ddyrannwyd at Ddibenion Cymysg/Cyflogaeth yn Nhabl 3

⁶⁰ Gweler Polisi 18

⁶¹ Astudiaeth yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan John Champion Associates, Rhagfyr 2007, LCA2

Trefdraeth - Canolfan Lleol

- 4.26 **Cefndir:** Mae Trefdraeth, a'i phoblogaeth o tua 864 o drigolion, yn swatio mewn tirwedd eithriadol⁶² ar lethrau ysgafn rhwng troed Carn Ingli ac Aber tawel yr Afon Nyfer, sy'n cael ei gwarchod rhag y môr agored gan dwyni tywod a bariau Traeth Trefdraeth. Mae'r olygfa banoramig o'r dref a'r Parrog (ar un adeg, yr harbwr prysuraf yng ngogledd Sir Benfro) o Draeth Trefdraeth yn dangos hyn yn berffaith ac mae'n un o'r golygfeydd mwyaf adnabyddus ac annwyl yn y Parc Cenedlaethol.
- 4.27 Mae gan Drefdraeth amrywiaeth dda o gyfleusterau sy'n gwasanaethu'r dref a'r gefnwlod, ac mae'n cael ei chategoreiddio fel 'canolfan siopa ranbarthol' o dan Bolisi 49. Mae yna ymdeimlad cryf o gymuned a diwylliant nodedig, gyda dwy Ardal Gadwraeth wedi eu dynodi i gydnabod cymeriad nodedig Trefdraeth. Mae ganddi ansawdd hudolus ac mae amgylchedd naturiol a heddwch yr ardal yn annwyl iawn. Mae yma barc cyflogaeth bach ac mae Canolfan Eco Trefdraeth yn uchel ei pharch yn ei rôl mewn byw cynaliadwy. Mae gan Drefdraeth wasanaeth bws da iawn yn ystod y dydd, ond mae'n gostwng, ac nid yw'n ateb y gofynion gyda'r hwyr ac ar Ddydd Sul. Mae wedi ei lleoli ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.
- 4.28 **Materion ar gyfer Trefdraeth:** Mae'r anawsterau ar gyfer Trefdraeth yn cynnwys cynnydd mewn prisiau tai a phrinder tir ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Mae nifer uchel y cartrefi gwyliau a thai haf (24% o aneddiadau) o bryder, yn ogystal â phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r ddau'n cael eu gweld fel elfennau sy'n cyfrannu at gollu cyfleusterau cymunedol lleol. Teimlir hefyd bod uwchraddio cyfleusterau cymunedol, yn gyffredinol, yn angenrheidiol, yn ogystal â datblygu Trefdraeth fel atyniad ar gyfer twristiaeth dawel (e.e. yn seiliedig ar gerdded, seiclo, gwyllo adar, canŵio ayb.) tu allan i'r tymor brig. Mae'r traffig a symudiadau troi yn parhau i gael effaith ar y dref, er gwaethaf y ffaith y cyflwynwyd mesurau yn y gorffennol. Mae gwelliannau pellach i reoli traffig yn annhebygol iawn o ystyried y traffig sylweddol a natur yr heol sy'n pasio trwy Drefdraeth. Mae yna fwy o angen i gyfuno cyfleoedd tai a chyflogaeth. Mae'r ardal o amgylch Traeth Trefdraeth ac Aber y Nyfer mewn perygl o orlifo ond ni ddylai hyn amharu ar botensial Trefdraeth i weithredu fel Canolfan Lleol - gweler Polisi 34 hefyd. Mae yna faterion mewn perthynas â gwaredu carthffosiaeth⁶³. Mae gan ddyraniadau datblygu yn Nhrefdraeth pysgod botensial o gael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000.
- 4.29 **Trefdraeth erbyn 2021:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, fe fydd Trefdraeth wedi gweld datblygiad tai newydd yn y dref, gan gynnwys elfen sylweddol o dai fforddiadwy. Fe fydd datblygiadau bach o unedau gwaith/byw. Mae'r cyfleoedd i gysylltu cyflogaeth newydd ac ychwanegu gwerth at enw da Trefdraeth fel Canolfan Eco, a'i chynnyrch lleol, wedi cael eu gwreiddu. Mae cyfleusterau cymunedol a manwerthu yn ddigon i wasanaethu anghenion y gymuned leol. Ble'n ymarferol, mae mesurau rheoli traffig wedi cael eu cyflwyno. Mae rôl y dref fel canolfan lleol hanesyddol a deniadol yn cael ei gwarchod a'i gwella, ac mae'r gwestai a'r tai gwestai yn ddigon i wasanaethu anghenion ymwelwyr⁶⁴.

Polisi 3

CANOLFAN LLEOL TREFDRAETH (HAENEN 3) (Polisi Strategaeth)

Dynodwyd Trefdraeth fel 'Canolfan Lleol' a dyma'r blaenoriaethau defnydd tir:

a) anelu at gwrdd ag anghenion tai, yn enwedig yr angen am dai fforddiadwy

⁶² Dynodwyd fel Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru

⁶³ Papur Cefndir Graddfa a a Lleoliad Tyfiant

⁶⁴ Cynllun Gweithredu Trefdraeth, (paratowyd gan y gymuned leol mewn cydweithrediad â PLANED) dimd dyddiad. Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframaith Aneddiadau Allweddol 2021, tudalen 15 a'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12, a 25

yn yr ardal leol.

- b) darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth i gwrdd ag anghenion lleol⁶⁵
- c) darparu cyfle i ddatblygu unedau gwaith/byw fel a nodwyd Mholisi 42 Tabl 3 gwrdd ag anghenion yr ardal leol
- ch) gwarchod a gwella'r ganolfan siopa ranbarthol a'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r dref a'r gefnwlad wledig
- d) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at y gallu i warchod a gwella nodweddion arbennig y dref⁶⁶
- dd) caniatáu cynigion sy'n helpu trosglwyddo gwell reolaeth traffig yn y dref, ble nad yw'r rhain yn cyfaddawdu ar nodweddion arbennig y dref.

Saundersfoot – Canolfan Leol

- 4.30 **Cefndir:** Mae Saundersfoot yn gyrchfan fach (amcangyfrifir poblogaeth o 2,670) ond poblogaidd iawn i'r teulu. Mae'r pentref wedi tyfu'n sylweddol ers y 1950au. Mae adeiladau wedi eu gwasgaru dros lethrau coediog sy'n codi'r naill ochr a'r llall i'r dyffryn bach, gwastad sy'n torri ar draws y pentref. Dynodwyd canol Saundersfoot ac ardal yr harbwr yn Ardal Gadwraeth. Yn hanesyddol, roedd yna gloddio am lo yn yr ardal, ac roedd glo a thun yn cael eu hallforio. Nawr, twristiaeth yw'r prif ddiwydiant, er, mae'r harbwr wrth galon y pentref yn cael defnydd da gan gyhoch pleser a nifer o gyhoch pysgota bach, ac mae wedi cadw cymeriad gweithiol prysur. Mae hefyd yn ffocws ar gyfer ardal fasnachol sy'n cynnwys siopau, bwytai a busnesau eraill. Mae gan Saundersfoot wasanaeth bws da iawn ac mae yna amwynderau cynnil yn y pentref. Mae Polisi 49 yn nodi Saundersfoot fel 'canolfan siopa rhanbarthol'.
- 4.31 **Materion ar gyfer Saundersfoot:** Mae'r materion ar gyfer Saundersfoot yn cynnwys yr angen i wella ardal yr harbwr, tra'n cadw'r harbwr gweithiol, yr angen i ymestyn y tymor gwyliau, yr angen i geisio gwella cyfleusterau cymunedol presennol ac i wneud gwelliannau amgylcheddol i'r ardal manwerthu. Mae yna bryderon hefyd ynghylch lleoliadau *take-away* ac agor yn hwyr yn y nos yn Saundersfoot. Er bod gwasanaeth y rheilffordd yn rheolaidd, mae'r orsaf dros filltir o'r pentref. Mae angen gostwng symudiadau ceir yng nghanol y pentref. Mae tai gwyliau/tai haf o bryder (mae 16% o aneddiadau yn dai gwyliau neu'n ail gartrefi) ac mae yna angen mawr i ddynodi tai fforddiadwy. Yn gyffredinol, mae'r mynediad o'r gogledd i dde'r pentref yn wael⁶⁷. Efallai y bydd canolfan pentref Saundersfoot yn wynebu bygythiad posib gan lifogydd, oherwydd codiad yn lefel y môr, ond ni fyddwn yn gwybod i ba raddau hyd nes bod mwy o wybodaeth ar gael. Fe fydd y sefyllfa'n cael ei monitro gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n dod i law i gefnogi Polisi 34.
- 4.32 **Saundersfoot erbyn 2021:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol mae gan Saundersfoot dai newydd sydd wedi cael eu datblygu yn y pentref ac maen nhw'n cynnwys elfen sylweddol o dai fforddiadwy. Mae cyfleusterau cymunedol a manwerthu yn ddigon i wasanaethu anghenion y gymuned leol. Mae mesurau rheoli traffig, gan gynnwys cyflwyno cynllun parcio a theithio, wedi lliniaru effeithiau niweidiol traffig sy'n teithio drwy'r pentref a symudiadau traffig o fewn y pentref. Mae yna wasanaeth rheilffordd da ac mae yna well cysylltiadau i gerddwyr a gwell gwasanaethau trosglwyddo (tacsï a bws) i ganol y pentref ac yn ôl. Mae cymeriad glan môr y pentref wedi cael ei warchod a'i wella, gan gynnwys ei harbwr gweithiol, ac mae'r gwestai a'r tai gwestai yn ddigon i wasanaethu anghenion ymwelwyr. Mae'r ardal siopa yn ddeniadol⁶⁸.

⁶⁵ Gweler Tabl 3

⁶⁶ Astudiaeth yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan John Campion Associates, Rhagfyr 2007, LCA23

⁶⁷ Mae Astudiaeth o drafftig a thrafnidiaeth i archwilio materion penodol wedi'i rhaglennu gan Gyngor Sir Penfro (Ebrill 2008)

⁶⁸ Cynllun Gweithredu Saundersfoot, (wedi ei baratoi gan y gymuned leol mewn cydweithrediad â PLANED) Drafft Mehefin 2007. Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Anheddiad Allweddol 2021, tudalen 15 a'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12, a 25

Polisi 4	<p>CANOLFAN LLEOL SAUNDERSFOOT (HAENEN 3) (Polisi Strategaeth)</p> <p>Dynodwyd Saundersfoot fel ‘Canolfan Lleol’ a dyma’r blaenoriaethau defnydd tir:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) anelu at gwrdd ag anghenion tai, yn enwedig yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal leol. b) annog cyfleoedd cyflogaeth graddfa fach i gwrdd ag anghenion yr ardal leol. c) gwarchod a gwella canolfan siopa ranbarthol a chyfleusterau cymunedol i gwrdd ag anghenion yr ardal leol ch) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at y gallu i warchod a gwella nodweddion arbennig y pentref⁶⁹ d) caniatáu cynigion sy’n helpu trosglwyddo gwell reolaeth traffig yn y pentref a hygyrchedd gorsaf y rheilffordd dd) gwarchod a gwella’r harbwr.⁷⁰
----------	---

Tyddewi – Canolfan Lleol

- 4.33 **Cefndir:** Mae Dinas Tyddewi wedi ei gosod mewn lleoliad naturiol hollol neilltuol ar lwyfandir arfordirol agored Penrhyn Tyddewi. Yr eglwys gadeiriol yw prif ffocws ymweliadau i Dyddewi, ac mae’n dyddio o’r 12^{fed}-16^{eg} ganrif, yn bennaf.
- 4.34 Heddiw, mae Tyddewi a’i phenrhyn yn un o’r adnoddau twristiaeth pwysicaf yn y Parc Cenedlaethol. Mae Fframwaith Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod rôl bwysig Tyddewi fel cyrchfan i dwristiaid.
- 4.35 Amcangyfrifir bod gan Dyddewi boblogaeth o 1,309 ac mae’r amrywiaeth o gyfleusterau yn debyg i’r rheiny sydd yn Saundersfoot a Threthraeth. Mae’r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol hefyd yn rhedeg trwy’r Ddinas.
- 4.36 **Materion ar gyfer Tyddewi:** Teimlir bod angen cryfhau’r cyfleusterau cymunedol. Mae Porthstiniain a’r Traeth Mawr, gerllaw, hefyd yn atyniadau twristiaid pwysig sy’n dod ag ymwelwyr i’r ardal ac yn ychwanegu at y materion rheoli traffig yn Nhyddewi, ac o amgylch Tyddewi, yn enwedig ar hyd Heol Glasfryn⁷¹. Mae’r gwasanaeth Gwibiwr Celtaidd eisoes yn chwarae rhan bwysig wrth ddatrys y materion hyn. Mae angen ymestyn y tymor ymwelwyr a darparu unedau cyflogaeth bach yn y Ddinas. Mae angen darparu tai fforddiadwy ac mae effaith ail gartrefi a thai haf yn bryder. Mae gan ddyraniadau datblygu yn Nhyddewi botensial o gael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000.
- 4.37 **Tyddewi erbyn 2021:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn Nhyddewi, fe fydd tai newydd wedi eu datblygu yn y dref, gan gynnwys elfen sylweddol o dai fforddiadwy. Mae buddsoddiad diwylliannol sylweddol wedi cymryd lle gyda phrosiect Clwystai’r Eglwys Gadeiriol ac Oriol Tirlun Oriol y Parc. Fe fydd cyflogaeth graddfa fach yn ychwanegu at safle Cynulliadau Tyddewi. Mae cyfleusterau cymunedol a manwerthu yn ddigon i wasanaethu anghenion y gymuned leol. Mae mesurau rheoli traffig wedi lliniaru effeithiau niweidiol traffig sy’n teithio trwy’r ddinas a symudiadau traffig o fewn y ddinas ac wedi rhoi sylw i’r materion rheoli traffig ym Mhorthstiniain. Mae rôl y Ddinas fel canolfan hanesyddol ddeniadol yn cael ei warchod a’i wella ac mae’r llety gwesty a thai gwestai yn ddigon i wasanaethu anghenion ymwelwyr⁷².

⁶⁹ Astudiaeth Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan John Champion Associates, Rhagfyr 2007, LCA1

⁷⁰ Gweler Polisi 18

⁷¹ Mae astudiaeth o draffig a thrafnidiaeth gan Gyngor Sir Penfro ar waith i archwilio materion (Ebrill 2008)

⁷² Cynllun Gweithredu Tyddewi, (paratowyd gan y gymuned leol mewn cydweithrediad â PLANED)2004, Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Aneddiadau Allweddol 2021, tudalen 15 a’r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Hafan Sir Benfro’r Cynllun Gofodol, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12, a 25

Polisi 5 **CANOLFAN LLEOL TYDDEWI (HAENEN 3) (Polisi Strategaeth)**

Dynodwyd Tyddewi fel 'Canolfan Lleol' a dyma'r blaenoriaethau defnydd tir:

- a) anelu at gwrdd ag anghenion tai, yn enwedig yr angen am dai fforddiadwy yr ardal leol.
- b) darparu ar gyfer datblygiad cyflogaeth i gwrdd ag anghenion yr ardal leol⁷³
- c) darparu ar gyfer unedau byw/gwaith yn y Ddinas fel y nodwyd ym Mholisi 42, Tabl 3, i gwrdd ag anghenion yr ardal leol.
- ch) gwarchod a gwella'r ganolfan siopa ranbarthol a'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r Ddinas a'r gefnwlad wledig
- d) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at y gallu i warchod a gwella nodweddion arbennig y Ddinas⁷⁴
- dd) caniatáu cynigion sy'n helpu trosglwyddo gwell reolaeth traffig yn y Ddinas a'r penrhyn ehangach.

Crymymch – Canolfan Lleol

4.38 Er bod Crymymch yn chwarae rhan bwysig ar gyfer cymunedau'r Parc Cenedlaethol gerllaw, dim ond rhan fechan o Grymymch sy'n gorwedd o fewn y Parc Cenedlaethol. Fe fydd rôl Crymymch yn y dyfodol yn cael ei diffinio'n bennaf gan gyfleoedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Canolfannau Gwledig

4.39 **Cefndir:** I helpu cynnal cymunedau gwledig yn y Parc Cenedlaethol, nodwyd haenen ychwanegol o Ganolfannau o'r enw 'Canolfannau Gwledig', ac maen nhw wedi'u rhestru isod. Mae ganddynt o leiaf 3 chyfleuster sydd fel arfer yn cael eu gweld mewn pentref bach⁷⁵ neu os yw'r nifer yn llai na hyn, o leiaf 1 siop cyfleustra.

4.40 **Materion ar gyfer Canolfannau Gwledig:** Mae lefel y gwasanaeth gan drafndiaeth gyhoeddus, triniaeth carthffosiaeth a chyflenwadau dŵr yn amrywio rhwng y trefi a'r pentref sydd wedi eu rhestru yn yr hierarchaeth ac fe fydd angen gwelliannau⁷⁶. Mae ardaloedd sy'n adnabyddus fel ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn cynnwys rhannau o Lanrath, Angle, Aber Llydan, Dale, Felindre Farchog, Aber Bach, Llanychâr, Niwggwl, Pontfaen, a Solfach. Fe fydd angen i'r graddau y mae'r Canolfannau hyn yn gallu darparu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ystyried y materion hyn - gweler hefyd Polisi 34. Mae gan ddyraniadau datblygu yn Aber Llydan, Lawrenny a Llanisan-yn-Rhos botensial o gael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000.

4.41 **Canolfannau Gwledig erbyn 2021:** Mae'r dyfodol ar gyfer Canolfannau Gwledig yn un ble mae peth datblygiad ychwanegol, yn enwedig datblygu tai fforddiadwy, wedi helpu cynnal cyfleusterau lleol ac nid oes angen teithio i ganolfannau mwy o faint ar gyfer anghenion bob dydd mwyach. Mae hygyrchedd y canolfannau hyn i ganolfannau mwy yn y Parc hefyd wedi gwella ynghyd â gwasanaethau seilwaith fel chyflenwadau dŵr a gwaredu carthffosiaeth.

4.42 Mewn Canolfannau Gwledig sy'n gorwedd yn bennaf tu allan i'r Parc Cenedlaethol, mae cyfleoedd ar gyfer datblygiad yn fwy tebygol o godi yn yr ardaloedd hynny o dan awdurdodaeth y Cyngor Sir.

⁷³ Gweler Tabl 3

⁷⁴ Astudiaeth yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan John Campion Associates, Rhagfyr 2007, LCA17

⁷⁵ Blwch post, cae chwaraeon, ysgol gynradd, tafarn, neuadd gymunedol, man addoli, siop cyfleustra, swyddfa bost – Ffynhonnell: Points of Interest, Arolwg Ordhnans Rhagfyr 2006

⁷⁶ Graddfa a Lleoliad Tyfiant, Papur Cefndir, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, tudalennau 10 -11

Mewn Canolfannau Gwledig dyma'r blaenoriaethau defnydd tir:

- a) anelu at gwrdd ag anghenion tai, y enwedig yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal leol
- b) annog datblygiadau cyflogaeth graddfa fach
- c) gwarchod a gwella'r amrywiaeth o gyfleusterau yn y Ganolfan

Canolfannau Gwledig yn y Parc Cenedlaethol

Llanrhath

Angle

Bosherston

Aber Llydan

Dale

Dinas Cross

Felindre Farchog

Herbrandston

Jameston

Lawrenny

Little Haven

Maenorbŷr

Gorsaf Maenorbŷr

Marloes

Niwgwl

Pontfaen

Solfach

Llanisan-yn-rhos

Trefin

Canolfannau Gwledig sy'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol

Cosheston^{*77}

Hook*

Houghton*

Llangwm*

Milton*

New Hedges

Pleasant Valley*

Roch*

Square and Compass

Summerhill

Cefn Gwlad

4.43 Cefndir a Materion ar gyfer Cefn Gwlad: Yn ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol, amcangyfrifir bod traean o'r holl gartrefi yn y Parc Cenedlaethol wedi eu gwasgaru ar draws pentrefi bach, pentrefannau ac aneddiadau a ffermydd hwnt ac yma. Mae ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol yn un o'r elfennau pwysig sy'n cyfrannu at dwristiaeth, ffermio, cadwraeth ayb. Mae materion ar gyfer y Parc yn cynnwys dod o hyd i'r ymagwedd gywir at y nifer o ddatblygiadau i'w caniatáu, gan ystyried materion hygyrchedd, yr angen i gynnal cymunedau lleol a'r angen i warchod tirwedd y Parc Cenedlaethol.

4.44 Ardaloedd Gwledig y Parc Cenedlaethol erbyn 2021: Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol fe fydd ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer llawer o ddiddordebau a gweithgareddau amrywiol, tra'n parchu un o asedion gorau'r Parc. Mae rhai datblygiadau cyfyngedig wedi helpu cyfrannu at ansawdd bywyd ei gymunedau a'i ymwelwyr, trwy fwy o weithgarwch mewn prosiectau arallgyfeirio ar ffermydd, trawsnewid adeiladau, cynigion effaith isel sy'n cyfrannu at agenda cynaliadwyedd y llywodraeth yn yr ardal⁷⁸ a thrwy weithgareddau hamdden ac ymwelyr priodol. Er mwyn cynnal cymunedau, tra'n parchu polisiau cynllunio cenedlaethol, fe fydd datblygiadau tai wedi cael eu rheoli'n llym yn yr ardaloedd gwledig⁷⁹ gyda rhai cyfleoedd cyfyngedig yn cael eu caniatáu mewn lleoliadau addas tu allan i'r Canolfannau a restrwyd yn gynharach yn y strategaeth. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy yn yr achosion hyn. Mae trawsnewid adeiladau sy'n cyfrannu at gymeriad cefn gwlad, at amrywiaeth o ddefnyddiau, wedi helpu cynnal cymunedau, yn enwedig gan fod trosglwyddo tai

⁷⁷ *Gorwedd yn bennaf o fewn awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor Sir

⁷⁸ Gweler polisiau tebyg yn y Cydgyllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro – Polisi 52

⁷⁹ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Pennod 9, Paragraff 9.3.6

fforddiadwy wedi cael blaenoriaeth dros ddefnyddiau preswyl eraill, gan gynnwys hunanarlwyo. Gwnaethpwyd mwy o ymdrech i ostwng yr angen i deithio yng nghefn gwlad mewn datblygiadau newydd, trwy ddefnyddio ymagwedd fwy trylwyr at asesu effeithiau traffig ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd gwledig - gweler Polisi 40.

- 4.45 O ystyried rôl sylweddol ac effaith potensial ffermio ar ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol, paratowyd Canllawiau Cynllunio Atodol⁸⁰ ar gyfer Cefn Gwlad, ynghylch gosod adeiladau fferm a'u dylunio i gynnwys egwyddorion dylunio cynaliadwy.

Polisi 7	CEFN GWLAD (HAENEN 5) (Polisi Strategaeth)
	Tu allan i'r Canolfannau a nodwyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol fe fydd datblygiadau'n cael eu caniatáu yn yr amgylchiadau canlynol:
	a) mae'n golygu llenwi bylchau bach mewn ffordd sensitif, neu cynigir estyniadau bach i grwpiau ynysig o aneddiadau h.y. rowndio'r datblygiad⁸¹. Rhoddir blaenoriaeth i gwrdd ag anghenion tai fforddiadwy.⁸² Fe fydd rhyddhad tir yn dibynnu ar gymeriad yr ardaloedd o amgylch, patrwm y datblygu yn yr ardal a hygyrchedd i'r Canolfannau a nodwyd yn yr hierarchaeth
	b) cynigir tai ar gyfer anghenion ffermio neu goedwigaeth hanfodol⁸³
	c) cynigir arallgyfeirio ffermydd gan gynnwys siopau fferm⁸⁴
	ch) mae'n golygu trawsnewid adeiladau priodol at amrywiaeth o ddefnyddiau gyda thai fforddiadwy⁸⁵ yn cael blaenoriaeth wrth drawsnewid adeiladau preswyl. Fe fydd hygyrchedd i'r Canolfannau yn ystyriaeth bwysig. Ni ddylai trawsnewidiadau arwain at effeithiau annerbyniol ar strwythur, ffurf, cymeriad na gosodiad yr adeilad. Ni chaniateir trawsnewid adeiladau sydd mewn lleoliad ymwthiol yn y dirwedd. Fe fydd hygyrchedd y Canolfannau yn ystyriaeth bwysig.
	d) Cynigir atyniadau ymwelwyr neu weithgarwch hamdden ac mae'r angen i'w leoli yng nghefn gwlad yn hanfodol - gweler Polisi 35
	dd) Cynigir gwella cyfleusterau cymunedol
	e) Mae'r cynnig yn ddatblygiad effaith isel sy'n gwneud cyfraniad positif – gweler Polisi 47
	f) Gellir cyfiawnhau adeiladau fferm newydd at ddibenion amaethyddol. Fe fydd dadansoddiad o effaith traffig yn ystyriaeth bwysig yn y cynigion – gweler Polisi 52.

- 4.46 **Trawsnewid adeiladau yng Nghefn Gwlad:** Mae Polisi 7 yn gosod y defnydd a fydd yn cael ei weld fel defnydd priodol wrth drawsnewid adeiladau mewn ardaloedd gwledig. Fe fyddai hyn yn cynnwys adeiladau amaethyddol, hen eglwysi ac aneddiadau ble collwyd y defnydd preswyl erbyn hyn. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, yn gosod ystyriaethau rheoli datblygiad cynllunio

⁸⁰ Gweler Geirfa

⁸¹ h.y.. ble mae yna gydlynid ffisegol o aneddiadau. Diffiniwyd mewnlenwad fel datblygiad ar gyfer un neu ddau uned sydd o faint sy'n gydnaws gyda'u gosodiad mewn bwch bach mewn ffyrtyriad adeiledig sydd fel arall yn ddidor. Fe fydd 'Rowndio i ffwrdd', a fyddai'n cwblhau neu'n atgyfnerthu'r perimedr adeiledig, yn golygu datblygu dim nwy nag un neu ddau anheddiad.

⁸² Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, Pennod 9 Tai, Paragraff 9.2.22. 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion a nodwyd, mewn datblygiadau o 2 neu fwy.

⁸³ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, Pennod 3 Tai. Mae Paragraff 9.3.6 i 9.3.10.

⁸⁴ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, Pennod 7 Cynnal yr Economi paragraff 7.3.3 a 7.5.2 caniateir arallgyfeirio ffermydd ble cynigir defnydd mewn cydweithrediad â gweithrediadau amaethyddol. Gellir cyfiawnhau adeiladau newydd. Byddai angen rhoi sylw i faterion traffig - paragraff 3.14 o Nodyn Cyngor Technegol 18, Trafnidiaeth, Mawrth 2007. Nid oes rhaid i'r defnydd fod yn gysylltiedig â ffermio.

⁸⁵ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, paragraff 7.6.10 yn cyfeirio at dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Nod y polisi yw annog adeiladau i gael eu hailddefnyddio at ddibenion cyflogaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (fel siopau fferm, atyniadau i dwristiaid, llety wedi'i wasanaethu a gweithgareddau hamdden) a defnydd preswyl. Fe fyddai defnydd preswyl yn cynnwys llety preswyl llawn amser a gwyliau, gan gynnwys hunanarlwyo. Gofynnir i 50% o'r ddarpariaeth fod yn dai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion a nodwyd mewn datblygiadau o 2 neu fwy.

cenedlaethol sydd angen ystyriaeth. Mae Paragraff 7.6.9. Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr opsiwn o flaenoriaethu defnyddiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae'r Awdurdod hwn wedi ceisio blaenoriaethu defnyddiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth o dan y Cydgyllun Datblygu Unedol ac wedi ei chael yn anodd ei weithredu. Tu hwnt i osod llety ar gyfer gwyliau, prin iawn yw'r galw am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Nid oedd modd, chwaith, i'r Awdurdod resymoli peidio â chaniatáu darpariaeth tai fforddiadwy fel opsiwn cyntaf o ystyried yr angen am dai fforddiadwy ac eto fe fyddai'r Awdurdod yn caniatáu gosod llety ar gyfer gwyliau (a ystyrier yn ddefnydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y Cydgyllun Datblygu Unedol). Dyma pam mae'r Cynllun hwn nawr yn cynnig amrywiaeth o ddefnyddiau sy'n cynnwys rhoi blaenoriaeth i ddarpariaeth tai fforddiadwy mewn cynigion am ddwy uned breswyl neu fwy.

- 4.47 Mae polisiâu cynllunio cenedlaethol yn cyfeirio at yr angen i adeiladau fod 'ar ffurf, swmp a dyluniad cyffredinol sy'n gydnaws â'r ardaloedd o amgylch'. Yn y Parc Cenedlaethol hwn, ystyrier i rhain fel rhai sy'n gwneud cyfraniad positif at gymeriad yr ardal trwy eu rhinwedd bensaernïol gynhenid neu eu lleoliad yn y dirwedd. Mae eu diddordeb a'u swyn yn deillio o werthfawrogiad o ofynion swyddogaethol yr adeilad, eu gosodiad a'u cyfrannedd, y math o ddefnyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd (gan gynnwys y rheiny a adeiladwyd o garreg, clom a llechi), a'r ffordd y maen nhw'n arddangos sgiliau a dulliau adeiladu lleol.
- 4.48 Mae ffurf, swmp, dyluniad a'r defnyddiau a ddefnyddiwyd mewn rhai adeiladu yn gallu gwneud iddynt edrych yn ymwithiol yn y dirwedd. Yn aml, mae'r rheiny sydd wedi eu hadeiladu o flociau concrit, haenau asbestos, haearn rhychiog, ayb, adeiladau rhychwant clir, ysguboriau lseldiraidd a siediau gwair ag ochrau agored yn dod o dan y categori hwn. Ni fydd yr arfer o drawsnewid adeilad(au) sydd wedi eu lleoli'n ymwithiol ar y dirwedd, neu sydd ddim yn gydnaws â'r ardaloedd o amgylch, yn cael ei annog.
- 4.49 Ble rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer llety gwyliau fe fydd yn ddarostyngedig i amodau a/neu gytundeb cyfreithiol i gyfyngu anheddiad yr adeilad at ddefnydd gwyliau, gan atal anheddiad trwy gydol y flwyddyn gan yr un person a'r defnydd ohono fel ail gartref.
- 4.50 Mae presenoldeb rhywogaethau a warchodir dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig yn ystyriaeth o bwys yn y broses gynllunio. Rhaid i ddatblygwyr sy'n ystyried cyflwyno cais cynllunio feddwl, ar gamau cynnar y broses, a yw'n debygol fod unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau ar y safle, neu gerllaw, y buasai'r datblygiad yn gallu effeithio arnynt. Ceir canllawiau pellach o dan ganllawiau cynllunio atodol a baratowyd ar gyfer y Cydgyllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro⁸⁶.
- 4.51 Dylai ceisiadau i drawsnewid eiddo gynnwys yr holl fanylion ynghylch addasiadau ffisegol sydd eu hangen i benderfynu ar y cais. Efallai y bydd angen i'r Awdurdod ofyn am arolwg strwythurol. Er mwyn trawsnewid at ddefnydd preswyl, fe fydd angen arolwg strwythurol. Ble cynigir aildefnyddio cyfres o adeiladau, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl i gynllun trosfwaol ar gyfer y safle gael ei gyflwyno ac fe fydd yn disgwyl i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gytuno arno cyn ystyried unrhyw geisiadau ar gyfer adeiladau unigol.
- 4.52 Fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer anghenion tai ar hyn o bryd, i benderfynu a ddylid rhoi blaenoriaeth i dai fforddiadwy wrth drawsnewid eiddo preswyl.
- 4.53 **Arallgyfeirio Ffermydd:** Pan fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn cais i arallgyfeirio fferm, efallai y bydd yr Awdurdod yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i'w helpu i ddeall p'un ai y dylai drafod y cynnig fel cynnig i arallgyfeirio fferm ai peidio, ac, os felly, sut. Efallai y disgwylir esboniad cryno o rai o'r canlynol, neu bob un ohonynt: hanes y fferm, yr angen am adeiladau newydd a pham nad yw'r rhai sydd yno yn barod yn addas, y berthynas rhwng y gweithgarwch ffermio a'r arallgyfeirio a gynigir neu unrhyw angen hir dymor i ymestyn.

⁸⁶ Dolen we: Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth
www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=234&SkinID=5

Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol

4.54 Mae rhai Canolfannau yn yr hierarchiaeth yn dioddef o gyfyngiadau sydd angen sylw.

- Fe fydd materion hygyrchedd trafndiaeth angen sylw trwy Lonydd Glas Sir Benfro⁸⁷, Cyngor Sir Penfro, Consortiwm Trafndiaeth Integredig De Orllewin Cymru, gweithredwyr trafndiaeth a chwmnïau rheoli rhwydweithiau. Y Canolfannau sy'n peri pryder yw Dale, Llanisan-yn-Rhos, Marloes, Herbrandston, Angle, Lawrenny, Bosherton, Pontfaen a Felindre Farchog., Coshston (ardal fechan yn y Parc Cenedlaethol), Houghton (yn rhannol yn y Parc Cenedlaethol)⁸⁸. Mae Atodiad 2 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cynlluniau priffyrdd a seiclo arfaethedig.
- Mae angen i broblemau carthffosiaeth, trin dŵr gwastraff a chyflenwad dŵr gael sylw gan Dŵr Cymru mewn cydweithrediad â datblygwyr. Ceir cyngor pellach yn Atodiad 2.
- Mae Canolfannau sydd â dyraniadau cyflogaeth yn debygol iawn o fod angen nawdd cyhoeddus i helpu datgloi safleoedd trwy Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Penfro. Gweler Atodiad 2 am fanylion pellach.

4.55 Mae cymorth grant gan ragflaenwyr Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi helpu clirio adeiladau salw mewn ardaloedd gwledig. Efallai y bydd angen ystyried yr ymagwedd hon eto yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol.

⁸⁷ Gweler Geirfa

⁸⁸ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Tyfiant am wybodaeth bellach.

Blaenoriaeth A: Nodweddion Arbennig

A. Nodweddion Arbennig

- 4.56 Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol yw elfennau a rhinweddau'r Parc Cenedlaethol sydd, gyda'i gilydd, neu ar y cyd, yn sicrhau bod y Parc Cenedlaethol hwn yn unigryw. Mae yna waith wedi bod ar y gweill i adfywio dealltwriaeth yr Awdurdod o'r nodweddion arbennig hynny ar gyfer y Cynllun Rheoli⁸⁹. Dyma'r rhai a danlinellwyd:

Ysblander yr arfordir	Cyfoeth y cynefinoedd a'r fioamrywiaeth
Daeareg amrywiol	Ynysoedd
Amrywiaeth y dirwedd	Hgyrchedd
Cymeriad nodedig yr aneddiadau	Lle i enaid gael llonydd
Amgylchedd hanesyddol cyfoethog	Pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltneb
Treftadaeth ddiwylliannol	Yr amrywiaeth o brofiadau a chyfuniad o rinweddau unigol

- 4.57 Y strategaeth yw sicrhau bod datblygiadau yn y Parc yn gwarchod ac yn gwella'r nodweddion arbennig hynny. Mae hyd yn oed newidiadau yn y dirwedd sy'n ymddangos yn rhai bach, yn gallu cael effaith niweidiol, ac felly mae rhoi sylw i'r manylion ac effeithiau cronus newidiadau yn ystyriaethau pwysig. I gefnogi'r strategaeth hon, paratowyd Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ac Astudiaeth o Aneddiadau.
- 4.58 Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel yr unig Parc Cenedlaethol ym Mhrydain sy'n arfordirol yn bennaf. Mae ysblander ei arfordir, dylanwad ei forlun, ei olygfeydd gwefreiddiol, a'i harddwch garw, heb ei ddifetha, yn arwain at olygfeydd o safon a gydnabuwyd wrth ei ddynodi fel Parc Cenedlaethol, ynghyd â'r ynysoedd trawiadol oddi ar Arfordir Penfro. Mae'r adnodd daearegol yn gymhleth ac yn cyfrannu'n sylweddol at harddwch naturiol yr ardal. Dros dirffurf amrywiol y Parc Cenedlaethol mae yna filoedd o flynyddoedd o weithgarwch dyn sy'n ffurfio amgylchedd hanesyddol sy'n hynod o gyfoethog ac amrywiol. Mae aneddiadau, sy'n cynnwys ardaloedd trefol, wedi cadw cymeriad cryf a nodedig sy'n cwmpasu pensaernïaeth draddodiadol a mwy ffurfiol ac yn darparu llefydd deniadol i ymweld â nhw. Dominyddir Dinbych-y-pysgod gan bensaernïaeth Georgaidd o fewn y dref gaerog, ac mae ôl aneddiadau canoloesol wedi eu cynllunio i'w gweld o hyd yn Nhrefdraeth ac Angle ynghyd â'u patrymau cae cysylltiedig. Mae yna gyfoeth o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae yna rhyng-gysylltedd cryf rhwng cynefinoedd yn y Parc a thu allan iddo, yn enwedig yng ngweddill Sir Benfro. Yn Sir Benfro, mae yna ddiwylliant cyfoethog ac amrywiol sydd wedi cael ei lunio dros y canrifoedd gan donnau o oresgynwyr ac anheddwyr. Trysorir hgyrchedd y Parc ble mae'n hawdd mynd o le i le ac mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn hwylus. Gwerthfawrogir ymdeimlad o lonyddwch a phellenigrwydd yn fawr iawn, hefyd, ymhlith ymwelwyr sy'n dod i'r ardal. Mae hyn yn gallu cynnwys awyr dywyll, heb lygredd golau.
- 4.59 Fe fydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar gymeriad y dirwedd ac ar fodolau arfer gorau ar gyfer dylunio a lleoli technoleg mewn ardaloedd sensitif⁹⁰.

⁸⁹ Papur Cefndir Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol, Hydref 2007

⁹⁰ Ymgynghorir â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gymeriad y Dirwedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol, i gefnogi'r Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro. Fe fydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hynny yn sylfaen ar gyfer canllawiau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol.

Fe fydd nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Y blaenoriaethau fydd sicrhau:

- a) **nad yw'r ymdeimlad o bellnigrwydd a llonyddwch yn cael ei golli a, ble'n bosib, mae'n cael ei wella - gweler Polisi 46.**
- b) **Nid yw hunaniaeth a chymeriad y trefi a'r pentrefi yn cael eu colli trwy gyfuno a rhubanu datblygiadau neu trwy gynllun a gosodiad gwael wrth ddatblygu. Fe fydd nodi Llettau Glas yn helpu gwireddu'r flaenoriaeth hon.**
- c) **Mae patrwm ac amrywiaeth y dirwedd yn cael ei warchod a'i wella – gweler Polisi 14 a Polisi 15.**
- ch) **Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei amddiffyn a, ble'n bosib, ei wella⁹³**
- d) **Mae datblygiadau yn adfer ecosystemau'r Parc Cenedlaethol⁹⁴⁹⁵ neu, ble'n bosib, yn eu gwella. Mae gwarchod dolenni cyswllt rhwng safleoedd, neu greu dolenni cyswllt ble mae'r safleoedd yn ynysig, yn arbennig o bwysig – gweler Polisi 10 a Polisi 11.**
- dd) **Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n niweidio neu'n dinistrio Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol⁹⁶ nac unrhyw adnodd daearegol pwysig arall.**
- e) **Mae rhywogaethau a chynefinoedd y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol yn cael eu gwarchod am eu gwerth fel amwynder ac ar gyfer y dirwedd a bioamrywiaeth - gweler Polisi 48.**
- f) **Mae'r iaith Gymraeg yn dal i fod yn elfen bwysig o fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd llawer o' gymunedau'r Parc – gweler Polisi 12.**
- ff) **Mae datblygiad rhannau o'r arfordir sydd heb eu datblygiadu yn cael ei osgoi ac mae safleoedd o fewn ardaloedd o'r arfordir sydd wedi eu datblygu yn cael eu gwarchod at ddibenion sydd angen lleoliad arfordirol – gweler Polisi 33, Polisi 35, Polisi 17 a Polisi 18.⁹⁷**

⁹¹ Mae Pennod 13 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, yn delio gyda'r ffordd y dylai materion llygredd gael sylw gydag unrhyw gais cynllunio. Mae paragraff 12.4.1 yn trafod amddiffyn ansawdd dŵr a chyflenwad digonol.

⁹² Gweler Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99: Gofynion Cynllunio parthed y defnydd o garthffosiaeth sydd ddim yn brif gyflenwad carthffosiaeth sy'n cynnwys tanciau septig mewn datblygiadau newydd

⁹³ Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, yn trafod Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol. Cylchlythron y Swyddfa Gymreig 60/96 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg', a 61/96 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth' yn rhoi arweiniad.

⁹⁴ Yn cynnwys safleoedd Natura 2000., Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Morol

⁹⁵ Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) a Drawsdodwyd trwy Reoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003.

⁹⁶ Adolygu Cadwraeth Ddaearegol [GCR] mae'r safleoedd a ddewiswyd yn sylfaen ar gyfer gwarchodaeth ddaearegol statudol a geomorffolegol ym Mhrydain. Mae Safleoedd Geoamrywiaeth sy'n Bwysig yn Rhanbarthol [RIGS] yn ddynodiadau cynghorol.

⁹⁷ Mae Pennod 5, paragraff 5.7.2 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, yn cyfeirio.

4.60 Mae'r polisïau a'r cyngor isod yn rhoi arweiniad pellach ar warchod nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Llygredd Golau

Polisi 9 Llygredd Golau

Fe fydd cynigion sy'n debygol o arwain at lefel sylweddol o olau yn cynnwys cynllun goleuo llawn ac fe fydd yn cael ei ganiatáu yn yr achosion canlynol:

- a) mae'r goleuadau a gynigir yn gysylltiedig â'i ddiben; ac
- b) nid oes unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar gymeriad yr ardal, trigolion lleol, defnyddwyr cerbydau, cerddwyr a gweledd yr awyr yn y nos

4.61 Mae rhannau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dal i fod heb eu datblygu, i raddau, ac ychydig iawn o effaith sydd ar awyr y nos. Bwriad y polisi hwn yw gwarchod hynny, a hefyd sicrhau bod unrhyw oleuadau a gynigir yn perthyn i'r diben, er enghraifft diogelwch y safle neu lifolau ar gyfer cyfleusterau hamdden, fel bod dylunio gofalus a defnyddio dulliau goleuo priodol a lefelau golau priodol yn cadw'r effaith ar ardaloedd cyfagos i leiafswm. Mae yna bosibilrwydd hefyd y gallai llygredd golau gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000 ble mae'r datblygiad yn agos i safleoedd clwydo/llwybrau cludiant.

Bioamrywiaeth

4.62 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod datganiad clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar gyfer ardaloedd, safleoedd a rhywogaethau dan warchodaeth sydd â dynodiad gwarchod natur statudol (gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig)⁹⁸. Gweler Pennod 5 'Gwarchod a Gwella Treftadaeth Naturiol a'r Arfordir'. Mae'r safleoedd wedi eu nodi ar y Map Cynigion.

Polisi 10 Safleoedd Lleol o Ddiddordeb oherwydd eu Daareg neu Gadwraeth Natur

Fe fydd datblygiadau a fyddai'n gwneud niwed sylweddol i werth Gwarchodfa Natur Leol neu safle arall o ddiddordeb gwarchod natur, o ran eu pwysigrwydd wrth warchod natur, neu'r prif nodweddion o ddiddordeb o fewn Safle Geoamrywiaeth sy'n Bwysig yn Rhanbarthol, yn cael eu caniatáu dim ond os yw pwysigrwydd y datblygiad yn gorbwyso gwerth lleol y safle, ac mae'r posibilrwydd o liniaru neu wneud iawn am hynny wedi cael ei archwilio.

4.63 Efallai bod safleoedd lleol sydd o ddiddordeb ar gyfer gwarchod natur, yn cael eu cydnabod yn ffurfiol, er enghraifft Gwarchodfeydd Natur Lleol (a ddangosir ar y Map Cynigion), neu efallai nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol ond maen nhw'n bwysig o ran gwarchod natur. Mae gwerth safle yn gallu cynnwys ei rôl fel coridor bywyd gwyllt neu'n gallu deillio o'r ffaith nad oes unrhyw

⁹⁸ Gweler Geirfa

beth yn tarfu arno, er enghraifft. Mae gan gynefinoedd fel glaswelltir sydd heb ei wella, cynefinoedd arfordirol a gweundir a rhostir, yn ogystal â nodweddion fel ymylon heolydd, werth ar gyfer gwarchod natur ac fel cerrig camu at gynefinoedd eraill. Nid yw'n bosib nodi safleoedd o'r fath ar y Map Cynigion a bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod datblygiad a fyddai'n niweidio gwerth safle o ran y gallu i warchod natur ar y safle, yn darparu camau priodol i liniaru neu isafu niwed, neu'n gwneud iawn am unrhyw niwed. Efallai y bydd hyn yn golygu creu cynefinoedd mewn mannau eraill.

- 4.64 Mae gan Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru gronfa ddata ddaearegol o gofnodion ynghylch rhywogaethau a gwybodaeth ynghylch cynefinoedd, sy'n cael eu diweddarau'n gyson trwy gynnal cysylltiadau cryf gyda chyrff cyhoeddus, mudiadau cadwraeth a chofnodwyr biolegol unigol. Mae hyn yn galluogi'r ganolfan i helpu gyda chadwraeth natur trwy ddweud wrth y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, mudiadau cadwraeth a'r cyhoedd yn gyffredinol, am ymddangosiad a lleoliad rhywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, a'r rheiny sydd o bwysigrwydd i Gymry a'r ardal leol, yn yr ardal.
- 4.65 Ar hyn o bryd, mae rhestr o Safleoedd Geoamrywiaeth sy'n bwysig yn Rhanbarthol yn cael ei ffurfio ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, a phan fydd wedi ei chwblhau, fe fydd yn Ganllawiau Cynllunio Atodol i'r cynllun i nodi lleoliad safleoedd a'r prif nodweddion sydd o ddiddordeb.

Polisi 11	Gwarchod Bioamrywiaeth Fe fydd datblygiadau a fyddai'n tarfu ar rywogaethau dan warchodaeth, neu eu cynefinoedd, neu gywirdeb cynefinoedd, safleoedd neu nodweddion eraill sy'n bwysig i fywyd gwyllt a rhywogaethau unigol, neu'n eu niweidio mewn ffordd arall, ond yn cael eu caniatáu ble mae'r effeithiau'n cael eu cadw i leiafswm neu eu lliniaru'n ddigonol trwy ddylunio gofalus, amserlennu gwaith a mesurau eraill.
-----------	---

- 4.66 Nod y polisi yw sicrhau nad ydyw datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar rywogaethau a'u cynefinoedd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Yn aml, gellir gweithredu mesurau lliniaru, ond dylid nodi mai prin y bydd trawsleoli yn llwyddo i gynnal diddordeb o ran gwarchod natur neu gynefinoedd y mae'n effeithio arnynt, ac nid yw'n cael cefnogaeth. Mae'n arbennig o bwysig fod dilyniant coridorau bywyd gwyllt yn cael ei gynnal.

Yr Iaith Gymraeg

- 4.67 Mae cyngor y llywodraeth ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi ei osod yn Nodyn Cyngor Technegol 20, sy'n nodi 'y dylai'r system gynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ac, wrth wneud hynny, y gellir cyfrannu at ei lles'. Mewn datganiad polisi a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2002, fe ddywedodd Llywodaeth Cynulliad Cymru ei bod wedi ymrwymo'n llwyr i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, mae'r polisi hwn yn ceisio cydnabod rôl yr iaith Gymraeg o fewn y cymunedau hynny ble mae'r iaith yn elfen bwysig o'r ffabrig cymdeithasol a diwylliannol, a'i diogelu.

Polisi 12	Yr Iaith Gymraeg Ni chaniateir datblygiad sydd o natur, math neu raddfa sy'n debygol o ragfarnu buddiannau'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned.
-----------	---

- 4.68 Fel arfer, fe fydd y polisi'n berthnasol mewn ardaloedd Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref sydd â phoblogaeth o dros 30% o siaradwyr Cymraeg, fel y cofnodwyd yn y Cyfrifiad. Ble nad yw cyfartaledd y Cyngor Cymuned yn adlewyrchu bodolaeth crynodiadau siaradwyr Cymraeg o fewn pentrefi penodol yn ardal y Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref, fe fydd angen mesur mwy cymwys a sensitif. Ni ddylai'r polisi hwn gael ei ddehongli fel polisi sy'n cyfiawnhau datblygiad na fyddai'n dderbyniol fel arall ar y sail ei fod yn cyfrannu at ddiogelu'r iaith Gymraeg yn y gymuned. Ble mae modd dangos yn rhesymol bod datblygiad, ar sail ystyriaethau cynllunio, (er enghraifft, maint y datblygiad a gynigir) yn fygythiad sylweddol i rôl barhaus y iaith Gymraeg o fewn y gymuned honno, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio'i bwerau i wrthwynebu datblygiad o'r fath.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- 4.69 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod datganiad clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar faterion penodol sydd ddim yn cael eu hailadrodd yma. Gweler Pennod 6 'Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol' ym Mholisi Cynllunio Cymru ar gyfer:

- Gwarchod adeiladau rhestredig, y defnydd ymarferol optimaidd ohonyn nhw, a'u dymchweliad
- Datblygiad mewn ardal gadwraeth gan gynnwys dymchwel, hysbysebion a choed. Rhwng 2002 a 2005 roedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi paratoi 14 dogfen gynigion ac asesiad ardal ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth, ac wedi eu mabwysiadu⁹⁹. Mabwysiadwyd y rhain fel canllawiau cynllunio atodol ac fe fydd ganddyn nhw dipyn o ddylanwad wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. (dangosir ar y Map Cynigion)
- Amddiffyn tirweddau, parciau neu erddi hanesyddol, a'u gosodiad. (dangosir ar y Map Cynigion).
- Henebion cofrestredig ac olion archeolegol (dangosir henebion ar y Map Cynigion).

Polisi 13 **Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol**

Dangosir Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol ar y Map Cynigion.

- 4.70 Wrth asesu potensial archeolegol safle datblygu arfaethedig fe fydd gwybodaeth am y safle o'r Cofnod Amgylcheddau Hanesyddol sydd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, yn cael ystyriaeth. Cydnabyddir y cofnod hwn yn swyddogol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Pan fydd yn cael ei gyflwyno, fe fydd y Mesur Amddiffyn Treftadaeth yn ceisio sefydlu system amddiffyn treftadaeth unedig sy'n dod â'r systemau sydd ar wahân ar hyn o bryd at ei gilydd. Mae'r systemau ar wahân hyn yn cynnwys adeiladau rhestredig, cofrestru henebion, dynodi llongddrylliadau a chofrestru parciau, gerddi a thirweddau hanesyddol. Felly fe fydd hyn yn arwain at newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol. Mae Llywodaeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnig newidiadau i ganllawiau cynllunio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, a chanllawiau ar gynnwys y Cofnod Amgylcheddau Hanesyddol a'r broses o gynnal y Cofnod. Fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol.

Polisi 14 **Gwarchod Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol**

⁹⁹ Gweler Geirfa.

Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol, os na fydd yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ei ymddangosiad nodedig a'i gywirdeb pensaernïol, na'r gosodiad.

- 4.71 Mae'r Parc Cenedlaethol yn gyfoeth o adeiladau sydd heb eu rhestru ond, oherwydd eu pensaernïaeth a'u hadeiladwaith brodorol, maen nhw'n hanfodol i gymeriad a diddordeb yr anheddiad neu'n elfennau pwysig yn y dirwedd.
- 4.72 Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio wrth ddethol:
- y graddau y mae'r adeilad yn dal i fod yn ei gyflwr gwreiddiol;
 - ansawdd pensaernïaeth yr adeilad unigol;
 - safle a dylanwad ar y treflun neu'r dirwedd;
 - cysylltiad gyda ffigwr neu ddigwyddiad lleol pwysig.
- 4.73 Wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau, fe fydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gwahaniaeth mewn statws rhwng adeiladau o bwysigrwydd lleol a'r rheiny sydd wedi eu rhestru'n statudol ac, yn sgil hynny, y lefel o warchodaeth y maen nhw'n ei ddenu.

Y Dirwedd

Polisi 15

Gwarchod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ni chaniateir datblygiad ble fyddai'n cael effaith niweidiol ar nodweddion a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro trwy:

- a) amharu'n sylweddol yn weledol; a/neu,**
 - b) fod mewn safle ansensitif ac ansympathetig yn y dirwedd; a/neu**
 - c) gyflwyno neu ddwysau defnydd nad ydyw'n gydnaws â'i leoliad; a/neu**
 - d) methu ag ymdoddi i dirffurf a chymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol, na'i wella; a/neu**
- dd) golli nodweddion traddodiadol pwysig, neu fethu â'u hymgorffori.**

- 4.74 Diben y polisi hwn yw sicrhau nad ydyw rhinweddau tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu colli i genedlaethau'r dyfodol. Mae Polisi 8 yn nodi nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
- 4.75 Mae sylw i fanylion, ac effeithiau cronnus newidiadau, yn ystyriaethau pwysig. Mae newidiadau yn y dirwedd sy'n ymddangos yn rhai bach, yn gallu cael effaith niweidiol; mae adeiladau unigol amlwg neu ddefnydd eang o dueddiadau anaddas ym manylion y cynllun, yn gallu cael effaith llawer mwy eang na'r ardal leol ac, ar y cyd, fe fyddant yn newid cymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol, sy'n aml yn fregus, mewn ffordd gynnil ond mewn ffordd na fydd modd ei gwrthdroi.

- 4.76 Pan fydd posibilrwydd y bydd y datblygiad yn ymyrryd yn weledol yn sylweddol, dylid asesu effeithiau, fel sy'n berthnasol o:
- fannau mynediad cyhoeddus;
 - Llwybr yr Arfordir (sy'n Llwybr Cenedlaethol);
 - Hawliau Tramwy Cyhoeddus (yn ogystal â'r briffordd gyhoeddus);
 - golygfeydd wrth gyrraedd a gadael aheddiadau;
 - golygfeydd wrth fynd i'r Parc Cenedlaethol ei hun, ac wrth adael;
 - yr ynysoedd oddi ar y lan;
 - cychod ar ddyfroedd y Daugleddau a dyfroedd arfordirol;
 - pwyntiau golygfa pwysig o fewn aneddiadau.
- 4.77 Dylid rhoi sylw penodol i olygfeydd canolig a phell, yn ogystal â'r effeithiau mwy amlwg ar ardaloedd a'r strydlun gerllaw, gyda phwyslais arbennig ar yr effaith ar Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Mae angen ystyried ymddangosiad adeiladau unigol a grwpiau o adeiladau aneddiadau yn eu tirweddau, manylion traddodiadol adeiladau a thriniaeth ffiniau hefyd. Mae plannu gan ddefnyddio coed a phrysglwyni brodorol, a thirlunio, ble'n briodol, yn gallu cyfoethogi a helpu toddi datblygiadau newydd i'r ardaloedd o'u hamgylch. Efallai y bydd hyn yn helpu gwneud iawn am golli nodweddion gwreiddiol.
- 4.78 O ystyried graddau daearyddol cyfyngedig iawn y Parc Cenedlaethol, a'i natur arfordirol noeth, mae unrhyw ddatblygiad sylweddol neu raddfa fawr yn debygol o eistedd yn anghyffyrddus yn nhirwedd y Parc Cenedlaethol, yn weledol. Efallai y bydd datblygiad tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith ar nodweddion y Parc Cenedlaethol, a dylid ystyried hyn o dan y polisi hwn.
- 4.79 Ble byddai datblygiad yn golygu cyflwyno defnydd nad ydyw'n gydnaws â'r lleoliad, neu ei ddwysau, er enghraifft gweithgareddau swnllyd mewn lleoliad nad oes unrhyw beth wedi amharu arno, i raddau helaeth, ni fyddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn teimlo bod datblygiad o'r fath yn addas.
- 4.80 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gymeriad y dirwedd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y Cydgynllun Datblygu Lleol, ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol hwn sydd wedi'i Adneuo. Cynigir bod y canllawiau hyn yn cael eu symud yn eu blaen i gefnogi polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol unwaith y mabwysiadir y Cynllun hwnnw.

Gofod Agored a Lletemau Glas

- 4.81 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar ofod agored, caeau chwarae a lletemau glas ffurfiol ac anffurfiol. Gweler Pennod 11 'Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden' a Phennod 2 'Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd'.
- 4.82 Wrth benderfynu a oes angen darparu mwy o ofodau agored, neu p'un ai fod gormodedd o gaeau chwarae, fe fydd yr Awdurdod yn cyfeirio at Bapur Cefndir Asesu Gofodau Agored Defnyddir hyn mewn cydweithrediad â Pholisi 36, sy'n delio gyda chyfraniadau cynllunio. Mae gofodau agored, caeau chwarae a lletemau glas wedi eu nodi ar y Map Cynigion. Ar hyn o bryd, mae'r Asesiad yn nodi angen am ofodau chwarae/parciau i blant yn Llanrhath, Freshwater East, Trewyddel, Trefdraeth, Saundersfoot, Trefin, a Thyddewi. Mae angen gofod maes chwarae yn Nhrewyddel a Marloes/Dale hefyd.

Polisi 16 **Gofod Agored a Lletemau Glas**

Dangosir Gofodau Agored a Lletemau Glas sydd eisoes yn bodoli ar y Map Cynigion.

- 4.83 Mae Lletemau Glas yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal a chadw gosodiad tirwedd aneddiadau trefol a gwledig, ac wrth warchod y naws agored. Mae pwysedd i ddatblygu tu allan i Ffiniau Canolfannau yn gallu arwain at erydiad y naws agored hwn ac at effaith niweidiol ar gymeriad a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol gwledig. Mae datblygiad o'r fath, ar ei ben ei hun, neu ar y cyd, yn gallu cael effaith niweidiol ar gymeriad a thirwedd y Parc Cenedlaethol, ac mae'n cyfiawnhau dynodi lletemau glas fel dehongliad lleol ar gyfer polisi cenedlaethol.

Yr Arfordir

- 4.84 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar yr arfordir a gwaith amddiffyn arfordirol. Gweler Pennod 5 'Gwarchod a Gwella Treftadaeth Naturiol a'r Arfordir'. Dangosir lleoliadau mewn ardaloedd arfordirol y teimlir eu bod yn addas i'w datblygu ar y Map Cynigion.

Polisi 17 **Cyfleusterau ar y Tir**

Caniateir datblygu cyfleusterau ar y tir, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chynigion o dan y marc distyll cymedrol, o fewn ardaloedd ar yr arfordir sydd wedi eu datblygu, ble maen nhw'n gydnaws â defnydd cyfagos.

Ni theimlir bod datblygiadau marina yn addas ar arfordir sensitif y Parc Cenedlaethol.

- 4.85 Nod y polisi hwn yw amddiffyn y rhannau tawel o'r morlin sydd heb eu datblygu trwy gyfeirio datblygiad at yr ardaloedd hynny sy'n fwy addas o ran gofynion morol, mynediad ar y tir, parcio a chyfleusterau cysylltiedig eraill.
- 4.86 Mae yna amrywiaeth o strwythurau ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r traeth neu'r harbwr neu ddarpariaeth angora, naill ai'n ymestyn allan i'r dŵr, fel glanfeydd a llithrffyrdd neu'n gysylltiedig ag offer tu hwnt i'r marc distyll cymedrol. Mae hefyd yn bosib o fewn cyfnod y Cynllun y gallai datblygiadau mwy o faint, fel chwilio am fwynau, weithredu oddi ar arfordir Sir Benfro, gyda goblygiadau ar gyfer strwythurau ar y lan.
- 4.87 Mae Polisi 33 ar Ynni Adnewyddadwy yn delio'n benodol gyda chysylltiadau ar y tir at eneraduron ynni adnewyddadwy oddi ar y lan. Derbynnir efallai y bydd angen lleoliadau sy'n ymarferol yn dechnegol ar gyfer cysylltiadau o'r fath ar ddarnau o'r morlin sydd heb eu datblygu. Eithriadau posib eraill yw adeiladu gorsafoedd bad achub, llwyfannau glanio/pontynau/llithrffyrdd ayb., gwaith sy'n gysylltiedig â thrin carthffosiaeth ac amddiffynfeydd morol.
- 4.88 Yn aml, fe fydd cynigion yn rhannu'r dyfroedd gyda defnyddwyr eraill, ac felly mae'n bwysig nad oes unrhyw wrthdaro neu orlenwad o ganlyniad i unrhyw ddatblygiad. Yn aml, mae'r defnydd ar hyd yr arfordir yn dymhorol ei natur e.e. hurio cadeiriau traeth a gwerthu hufen iâ. Mewn achosion o'r fath, Polisi 8 fydd y prif bolisi i'w ddefnyddio wrth ystyried cynigion o'r fath.

- 4.89 Mae Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2008 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn argymhell ymestyn y gallu ar gyfer marinas tu allan i'r Parc Cenedlaethol hwn. Mae mwyafrif arfordir y Parc Cenedlaethol heb ei ddatblygu, ac mae'n arbennig o sensitif o ran y dirwedd, ac yn aml am resymau cadwraeth natur hefyd. Ymhellach, er bod yna nifer o borthladdoedd bach o amgylch yr Arfordir, oherwydd eu cymeriad llanwol, nid yw mynediad ar gwch yn bosib am gyfnodau sylweddol o'r dydd. Fe fyddai'r gwaith sydd ei angen i ddarparu'r math o fynediad ar gyfer marina llwyddiannus, a'r datblygiadau i'w gynnal, yn sylweddol ac yn cynyddu trefoliad y lleoliad. Gweler hefyd Polisi 18.

Polisi 18	Porthladdoedd Porthgain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod
	Caniateir datblygiad o fewn ardaloedd o'r harbwr a nodwyd, fel y dangosir ar y Map Cynigion, ar yr amodau canlynol:
	a) mae'n cynnal gweithgareddau harbwr gweithiol; ac
	b) mae'n gwarchod a gwella cymeriad presennol yr harbwr.

- 4.90 Nod y polisi hwn yw sicrhau bod porthladdoedd gweithiol Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot Solfach a Phorthgain yn ymarferol yn y tymor hir. Nodir y porthladdoedd hyn ar y Map Cynigion.
- 4.91 Pan gyflwynir cynigion yn yr ardaloedd harbwr hyn, fe fydd yr Awdurdod yn gofyn am dystiolaeth gyda'r cais a fydd yn nodi'r berthynas rhwng gweithrediad busnes yr harbwr a'r cynnig a'r ffordd y bydd y cynnig yn cyfrannu'n bositif at ymarferoldeb hir dymor yr harbwr. Dyma beth a olygir wrth faen prawf a) y polisi. Ble'n briodol, fe fydd amod cynllunio yn cael ei osod, neu rwymedigaeth cynllunio yn cael ei sicrhau, trwy gytundeb, bod y datblygiad yn parhau i fod yn rhan o'r harbwr gweithiol. Fe fydd pob datblygiad mewn harbwr angen asesiad o ganlyniadau ar gyfer llifogydd.
- 4.92 Mae pob un o'r porthladdoedd yn cyfrannu at yr anheddiad ble maen nhw'n gorwedd. Mae natur porthladd Saundersfoot, sydd heb ei ddatblygu, ac sy'n caniatáu dolen gyswllt weledol o ganol y pentref i'r môr, yn elfen hanfodol o'r cymeriad hwnnw. Yn yr un ffordd, nid yw harbwr Porthgain wedi ei ddatblygu, i raddau helaeth. Mae cyfleoedd i ddatblygu yn Solfach hefyd wedi eu cyfyngu oherwydd ei lleoliad.
- 4.93 Mae harbwr Dinbych-y-pysgod yn darparu'r prif fynediad at Ynys Bŷr. Fe fydd angen i gynigion i ddatblygu yn yr harbwr sicrhau y cynhelir mynediad ar gyfer trigolion a busnesau Ynys Bŷr.

Blaenoriaeth B: Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant

B. Datblygiadau mawr a'r potensial ar gyfer tyfiant

Datblygiadau mawr

- 4.94 Nid yw dynodiad statudol, o angenrheidrwydd, yn gwahardd datblygiadau, ond rhaid asesu cynigion ar gyfer datblygiadau yn ofalus i weld beth yw eu heffaith ar y buddiannau treftadaeth naturiol hynny y mae'r dynodiad yn ceisio eu gwarchod. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae yna ystyriaethau arbennig sy'n berthnasol i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr sydd â chymeriad mwy cenedlaethol¹⁰⁰ na lleol.
- 4.95 Y posibilrwydd y gallai datblygiad gael effaith ddifrifol ar nodweddion arbennig y Parc sy'n ei osod yn y categori 'datblygiad mawr' ac, yn ychwanegol at yr angen i gydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, fe fydd y cynnig yn gorfod bodloni meini prawf polisïau cynllunio cenedlaethol cyn y caiff ei ganiatáu, a'r enw ar hyn yw'r 'Prawf Datblygiadau Mawr'. Mae'r adran 'Geirfa' yn nodi'r mathau o effeithiau y gallai datblygiad eu cael, a allai olygu, ym marn Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y bydd y datblygiad yn cael ei ystyried fel 'Datblygiad Mawr'. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhifyn 3, paragraffau 5.5.5 a 5.5.6 yn nodi'r prawf sy'n cael ei ddefnyddio, o ran yr angen am y datblygiad, archwilio'r ffordd y gellid diwallu'r datblygiad mewn ffordd arall a'r effeithiau ar yr amgylchedd a'r dirwedd.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

- 4.96 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dweud nad oes unrhyw gynlluniau sylweddol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn ystâd Sir Benfro yn y dyfodol rhagweladwy (Chwefror 2007). Gellir caniatáu datblygiad gweithredol cyfyngedig ar y meysydd, ar yr amod y ceir mesurau lliniaru, o dan bolisïau cynllunio arferol, ac fe fydd unrhyw gynlluniau i ddwysau neu addasu defnydd, neu ymestyn safle yn sylweddol, yn cael eu harchwilio'n drylwyr ac ond yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol o dan y 'Prawf Datblygiadau Mawr'.

Gosodiadau Peryglus

- 4.97 Ni chynigir unrhyw ddyraniadau ar gyfer datblygiadau sylweddau peryglus na gweithgareddau a allai lygru. Fe fydd y prawf datblygiadau mawr yn gosod y cyd-destun polisi sylfaenol ar gyfer ystyried cynigion datblygu sy'n ymwneud â sylweddau peryglus.

Polisi 19

Gosodiadau Peryglus

Caniateir datblygiadau o fewn parthau diogelu o amgylch gosodiadau peryglus ble nad oes unrhyw berygl annerbyniol naill ai i:

- a) **iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd; neu**
- b) **weithrediad y gosodiadau peryglus; a**
- c) **mynediad at y gosodiadau peryglus.**

¹⁰⁰ Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'Cenedlaethol' yw'r Deyrnas Unedig.

- 4.98 Mae'r polisi hwn yn anelu at sicrhau nad yw iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu gan ddatblygiad ger safleoedd sy'n defnyddio neu'n storio sylweddau peryglus. Ymgynghorir ag Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch unrhyw gais cynllunio o fewn y parth diogelu.
- 4.99 Defnyddir eu hymateb i asesu p'un ai fod yna berygl i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, gweithrediad y gosodiad peryglus neu fynediad ato. Rhestrir y parthau diogelu gosodiadau peryglus a sefydlwyd gan yr awdurdod diogelu perthnasol yn Atodiad 3.

Graddfa'r tyfiant

- 4.100 Mae gallu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ateb y galw wedi gostwng yn raddol dros y blynyddoedd oherwydd gallu'r dirwedd¹⁰¹. Mae polisiau'r Llywodraeth yn gofyn i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth fel rhagamcanion o'r boblogaeth, a materion gallu, wrth benderfynu ar raddfa'r tyfiant ar y cyfan.
- 4.101 Mae Ymchwiliadau Diweddar y Cynllun Datblygu wedi ardystio'r ymagwedd bresennol o ganiatau datblygiadau sy'n gymesur â gallu tirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae ymwelwyr a thrigolion yn gwerthfawrogi'r cymunedau bach ac egnïol y mae'r Parc yn eu cynnal.
- 4.102 Cynhaliwyd arolwg o dir sy'n addas i'w ddatblygu. Mae hyn wedi nodi tua 62 hectar o dir fel tir sy'n cydymffurfio â Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. O ystyried prinder y tir, fe fydd y strategaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddiwallu anghenion cymunedau lleol, yn enwedig eu hanghenion am dai fforddiadwy. (Gweler hefyd Blaenoriaeth Ch, D ac Dd am gyngor polisi pellach)

Tabl 1 Cyflenwad Tir mewn Hectarau

Lleoliad	Hectarau ar gyfer Safleoedd Tai yn unig (dim caniatâd. cynllunio)	Hectarau at Ddefnydd Cymysg/ Cyflogaeth (dim caniatâd)	Hectarau ar gyfer Tai – Tir gyda CC	Cyfanswm Hectarau
Canolfan Haenen 2				
Dinbych-y-pysgod	9.88	0.59	2.27	12.73
Canolfannau Haenen 3				
Trefdraeth	1.50	0.79	0.40	2.69
Saundersfoot	0	0.30	2.92	3.22
Tyddewi	5.28	1.67	1.29	8.24
Crymych	0.37	0	0	0.37
Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad	10.21	5.27	19.74	35.22
Cyfanswm	27.23	8.62	26.62	62.47

- 4.103 Fe fyddai'r tir hwn yn gallu helpu gwasanaethu anghenion tai, cyflogaeth, a chyfleusterau cymunedol y boblogaeth leol.¹⁰²
- 4.104 Mabwysiadwyd ymagwedd ddilyniannol at ddewis safleoedd, i uchafu'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Ystyriwyd manteision defnyddio tir cyflogaeth¹⁰³ sydd eisoes yn bodoli at ddibenion eraill, gan gynnwys tai. Ble mae hyn yn briodol, gwnaethpwyd dyraniadau penodol

¹⁰¹ Gweler Geirfa.

¹⁰² Papur Cefndir Meini Prawf Safleoedd – Caiff gallu Tirwedd y Parc Cenedlaethol i amsugno datblygiadau ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn ei brofi gan ddefnyddio'r fethodoleg a osodir ym Mhapur Cefndir 'Meini Prawf'. O ran y cyfyngiadau ar ddatblygiad, y mater blaenllaw yw effaith ar gymeriad y dirwedd. .

¹⁰³ Gweler Geirfa

ar gyfer tai, neu mewn rhai achosion ar gyfer llety byw/gweithio cymysg. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraniadau o safleoedd maes glas a thir llwyd¹⁰⁴.

Tabl 2 Darpariaeth Tir Llwyd¹⁰⁵/Maes Glas

Lleoliad	Tir Llwyd (Hectarau)	% o'r cyfanswm	Maes Glas (Hectarau)	% o'r cyfanswm	Cyfanswm Hectarau
Safleoedd Potensial – Tai	3.87	14%	23.46	86%	27.33
Safleoedd Potensial – Cyflogaeth/Defnydd Cymysg	2.42	28%	6.18	72%	8.6
Tir gyda Chaniatâd Cynllunio	17.03	64%	9.59	36%	26.62
Cyfanswm	23.32	37%	39.23	63%	62.55

Polisi 20	GRADDFA'R TYFIANT (Polisi Strategaeth)
<p>Darparu ar gyfer datblygiadau sy'n anelu at gwrdd ag anghenion y boblogaeth leol, gyda blaenoriaeth i drosglwyddo anghenion tai fforddiadwy ble mae hyn yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol.</p>	

Mwynau

- 4.105 Ar hyn o bryd, mae'r Parc Cenedlaethol hwn yn cyfrannu at y broses o echdynnu mwynau agregiad mewn perthynas â chwarelau tywod a graean a chraig galed. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 Agregiadau (paragraff 51-52) yn cadarnhau bod mwyafrif y gweithgarwch echdynnu tywod a graean sydd ar waith yn Ne Cymru ar hyn o bryd yn dod o'r Parc Cenedlaethol hwn, ond nid oes angen caniatáu cynigion i echdynnu agregiadau o Barciau Cenedlaethol yng Nghymru ac eithrio mewn amgylchiadau neilltuoel. Mae amgylchiadau neilltuoel yn gallu cynnwys buddiannau cenedlaethol gor-redol neu, pan fydd modd arddangos buddion sylweddol i'r Parc Cenedlaethol.
- 4.106 I gyfiawnhau safleoedd, neu estyniadau newydd i safleoedd sydd eisoes yn bodoli, o fewn y Parc Cenedlaethol, rhaid dangos nad oes adnoddau eraill ar gael a fyddai'n dderbyniol yn amgylcheddol; mae'r sgôp ar y gyfer cwrdd â'r angen mewn rhyw ffordd arall wedi cael ei asesu a'i wrthod; a gellir lliniaru effeithiau niweidiol y cynnig neu wneud iawn amdanynt¹⁰⁶. Mae trafodaethau'n parhau gydag awdurdodau cyfagos (Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion) ynghylch y posibilrwydd o gael hyd i allbwn sy'n dod o gronfeydd o fewn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd, o'r tu allan. Fe fydd diogelu adnoddau mwynau o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn darparu gwybodaeth ynghylch lleoliad adnoddau tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac fe fydd yn helpu'r broses hon.
- 4.107 Nid oes glanfeydd morol o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n dod ag agregiadau morol i mewn i'r ardal. Os oes cynigion derbyniol ar gyfer glanfeydd yn dod i law yn y dyfodol, fe fydd glanfeydd o'r fath yn cael eu gwarchod i ddiogelu llwybr tywod a graean i mewn i'r ardal.
- 4.108 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn gosod datganiadau polisi rheoli datblygiad cenedlaethol clir ar fwynau mewn Parciau Cenedlaethol. Mae Parthau Diogelu a Pharthau Clustogi¹⁰⁷ yn cael

¹⁰⁴ Gweler Geirfa

¹⁰⁵ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, Ffigwr 4.1

¹⁰⁶ Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau Mawrth 2004, paragraff 52.

¹⁰⁷ Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau Mawrth 2004, paragraff 70 i 71.

eu nodi ar y Map Cynigion¹⁰⁸. Mae Maes Glo De Cymru yn ymestyn i'r gorllewin i mewn i Sir Benfro ac yn dod yn Faes Clo'r Daugleddau. Mae'n croesi llain ganolog y Parc Cenedlaethol o Aber Llydan i'r gorllewin, ar draws Hook yn y canol a Saundersfoot yn y dwyrain.

Polisi 21

Diogelu Mwynau

Fe fydd cronfeydd tywod a graean, carreg galch a thywodfaen yn cael eu diogelu fel a ddangosir ar y Map Cynigion

Fe fydd angen echdynnu mwynau cyn unrhyw ddatblygiad a fyddai fel arall yn sterileiddio mwynau sydd o bwysigrwydd economaidd ar hyn o bryd, neu sy'n debygol o fod o bwysigrwydd economaidd yn y dyfodol, ar yr amod nad oes unrhyw leoliad addas arall, nac angen gor-redol ar gyfer y datblygiad, a bod modd echdynnu:

- a) heb ragfarnu yn erbyn y datblygiad arfaethedig; a
- b) trwy wneud y gwaith echdynnu o fewn cyfnod rhesymol o amser;
a
- c) heb unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd.

- 4.109 Yn bennaf, mae mwynau'n cael eu diogelu er mwyn sicrhau nad yw adnoddau mwynau y bydd eu hangen, efallai, ar genedlaethau'r dyfodol, yn cael eu sterileiddio'n ddiangen gan ddatblygiadau parhaol. Fe fydd yr Awdurdod yn ystyried presenoldeb mwynau wrth ystyried ceisiadau cynllunio a fyddai'n sterileiddio'r adnoddau hyn fel arall. Nid yw'r ardaloedd diogelu sydd wedi eu nodi ar y Map Cynigion ar gyfer tywod, graean, carreg galch a thywodfaen, yn nodi ardaloedd ble mae mwynau'n gallu cael eu gweithio, ac nid yw'n rhoi unrhyw arwydd o addasrwydd gweithio nac ansawdd fasnachol y defnyddiau. Fe fyddai unrhyw gynnig i weithio yn ddarostyngedig i ganllawiau cenedlaethol a rhanbarthol a pholisïau cynllunio perthnasol, ac fe fyddai angen iddo ddarparu digon o fanylion ynghylch y ffordd y bwriedir adfer y safle, gan gynnwys y defnyddiau. Fe fydd y broses o ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel Safleoedd Natura 2000¹⁰⁹ a safleoedd heb eu dynodi.

Polisi 22

Lleiniau Clustogi

Dangosir Lleiniau Clustogi o amgylch safleoedd echdynnu mwynau gweithgar ac anweithgar ar y map cynigion.

- 4.110 Caiff lleiniau clustogi eu diffinio yn unol â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (paragraff 40), Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 Agregiadau (paragraffau 70 a 71) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 Glo (paragraffau 32 a 33) ac maen nhw'n gwasanaethu'r dibenion a nodwyd mewn Canllawiau Cenedlaethol. Fe fydd cynigion cynllunio o fewn Lleiniau Clustogi yn cael eu hystyried yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

Polisi 23

Pyllau Benthg

Rhoddir caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer pyllau benthg yn yr achosion canlynol:

- a) mae angen y pwll benthg i gyflenwi defnyddiau priodol ar gyfer

¹⁰⁸ Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Ionawr 2009 yn cadarnhau y dylai Dynodiadau Cenedlaethol o bwysigrwydd amgylcheddol neu ddiwylliannol (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol) gael eu dieithrio o'r parthau adnoddau glo a'r parthau diogelu mwynau.

¹⁰⁹ Gweler Geirfa

prosiect adeiladu byr dymor penodol; a

- b) fe fydd yr echdynnu'n dod i ben wedi cwblhau'r cynllun adeiladu; a
- c) mae'n agos i'r prosiect adeiladu a gynigir; ac
- ch) mae yna fanteision amgylcheddol clir i gwrdd â'r angen o'r ffynhonnell a gynigir yn hytrach na safle(oedd) sydd eisoes yn bodoli, neu sydd â chaniatâd cynllunio, neu o agregiadau eilaidd neu agregiadau wedi eu hailgylchu tu mewn neu du allan i'r Parc Cenedlaethol; ac
- d) mae graddfa'r datblygiad yn briodol i'r lleoliad; ac
- dd) ni fydd y datblygiad yn gwneud difrod anadferadwy i'r dirwedd leol a'r amgylchedd lleol; ac
- e) ni fydd y datblygiad yn niweidio amwynderau'r ardal leol a'r cymunedau lleol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad, y traffig a gynhyrchir, y sŵn, y dirgryniad y llwch a'r diogelwch ac ni fydd yn cael effaith niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear sydd eisoes yn bodoli; a
- f) mae'r priffyrdd cyhoeddus o fewn y rhwydwaith heolydd lleol yn gallu cynnal unrhyw ddefnyddiau sy'n cael eu cludo; ac
- ff) mae yna ddarpariaeth i sicrhau defnydd buddiol ar ôl gorffen, gwaith adfer, tirlunio a rheoli'r safle wedi cau'r pwll, gan gynnwys, ble'n bosib, manylion ynghylch adfer y safle'n gynyddol.^{110 111}

- 4.111 Mae'n gallu bod er budd ardal leol i brosiect adeiladu ddefnyddio defnyddiau o ffynhonnell leol, gan greu llai o angen i gludo ar yr heol a llai o symudiadau ar yr heol, gyda'r holl broblemau cynhenid sy'n gysylltiedig ag opsiwn mwy pellennig. Mae'r term 'pwll benthyg' yn cyfeirio at weithio mwynau sydd eu hangen ar gyfer prosiect adeiladu byr dymor penodol yn unig.
- 4.112 Mae'r amgylchedd adeiledig yn nodwedd bwysig yn y Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at ei nodweddion arbennig. Mae'r term lleol, yn y cyd-destun hwn, yn golygu'r Parc Cenedlaethol ac ardaloedd cyfagos. Fe fydd y broses o ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000, a safleoedd heb eu dynodi.

Polisi 24	Cerrig Adeiladu Lleol
	Rhoddir caniatâd cynllunio i chwarelu cerrig adeiladu lleol ble mae:
	a) angen y defnyddiau ar gyfer angen lleol penodol sydd wedi'i brofi, a gellir dangos bod yna amgylchiadau eithriadol; ac
	b) mae yna gysylltiad agos i'r adeilad arfaethedig neu'r safle datblygu arfaethedig; ac
	c) mae yna fanteision amgylcheddol clir i ddefnyddio'r ffynhonnell

¹¹⁰ Gweler Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregiadau, paragraff 136, a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Atodiad C8 (tudalen 118).

¹¹¹ Gweler Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, paragraff 52.

arfaethedig yn hytrach na safle neu safleoedd sydd eisoes yn bodoli, gyda chaniatâd cynllunio, neu agregiadau eilaidd neu agregiadau wedi eu hailgylchu, naill ai o fewn y Parc Cenedlaethol neu du allan iddo; ac

- ch) mae graddfa'r datblygiad yn briodol i'r lleoliad ac i wasanaethu'r farchnad leol; ac
- d) ni fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol o niweidiol ar y dirwedd leol na'r amgylchedd lleol, nac yn eu difrodi; ac
- dd) ni fydd y datblygiad yn niweidio amwynderau'r ardal leol na'r cymunedau lleol, yn arbennig mewn perthynas â mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch ac ni fydd yn cael effaith niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear sydd eisoes yn bodoli; a
- e) mae'r rhwydwaith heolydd lleol y gallu cynnal traffig a gynhyrchir gan y datblygiad; ac
- f) mae yna ddarpariaeth ar gyfer defnyddio'r safle mewn ffordd fuddiol ar ôl y gwaith adfer, tirlunio a rheoli'r safle wedi ei gau, gan gynnwys, ble'n bosib, manylion gwaith adfer dilynol ar y safle¹¹²

4.113 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi y dylai gwaith mwynau gymryd lle mewn Parciau Cenedlaethol mewn amgylchiadau neilltuol yn unig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd hyn yn gysylltiedig â'r angen i echdynnu mwynau ar raddfa fach, o weithfeydd lleol, ar gyfer cerrig adeiladu, ble nad ydynt ar gael fel arall a ble maen nhw'n gallu cael eu hechdynnu heb gael unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol. Cefnogir y defnydd o ddefnyddiau adeiladu lleol er mwyn annog ansawdd dylunio sy'n parchu traddodiadau brodorol. Fe fydd y broses o ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel Safleoedd Natura 2000 a safleoedd heb eu dynodi.

Polisi 25 Defnyddiau wedi'u Hailgylchu, Defnyddiau Eilaidd a Defnyddiau Gwastraff

Fe fydd y defnydd o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu, defnyddiau eilaidd a defnyddiau gwastraff, gan gynnwys gwastraff dymchwel ac adeiladu o ffonellau lleol yn cael cefnogaeth ar yr amodau canlynol:

- a) ni fydd y broses o waredu unrhyw ddefnyddiau yn cael effaith niweidiol ar unrhyw safleoedd, adeiladau, waliau na nodweddion yn y dirwedd, cadwraeth natur, buddiannau archeolegol, pensaernïol na hanesyddol; ac
- b) nid yw'r broses o aildefnyddio defnyddiau yn niweidio cymeriad y Parc Cenedlaethol; ac
- c) mae modd trin gwastraff mwynau yn foddhaol o fewn y safle echdynnu mwynau, gan gynnwys cynllun addas i adfer y safle a gofalu amdano ar ôl hynny os yn briodol; ac
- ch) ni fydd y datblygiad yn niweidio amwynderau'r ardaloedd lleol a'r cymunedau lleol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch ac ni fydd yn cael effaith

¹¹² Gweler Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1, paragraff 130 i 139

niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear sydd eisoes yn bodoli.

- 4.114 Cefnogir yr egwyddor o ailgylchu mwynau o safleoedd, a'u defnyddio fel agregiadau eilaidd, oherwydd mae hyn yn cyfrannu at ddefnyddio mwynau, sy'n adnodd cyfyngedig, mewn ffordd gynaliadwy. Mewn achosion ble mae cynigion yn golygu ail-weithio gwastraff mwynau sydd wedi cael ei gymathu i'r dirwedd, ac sydd wedi ei wella, neu ble mae wedi ffurfio ardal o ddiddordeb archeolegol, ni fyddant yn cael caniatâd.
- 4.115 Ble mae angen i'r gwaith prosesu ddelio gyda gwastraff sy'n codi o sawl ffynhonnell, mae modd sefydlu lleoliad sylfaen i ddelio gyda gwastraff mwynau y gellir ei ailgylchu. Efallai y bydd offer ailgylchu hefyd yn briodol ar safleoedd gweithio sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau neu waredu gwastraff mwynau. Mae gweithrediadau malu a sgrinio yn gallu gwneud niwed i amwynderau'r ardal o amgylch a rhaid rhoi sylw i'r rhain a chyflwyno mesurau lliniaru priodol.
- 4.116 Cydnabyddir bod yna hawliau 'datblygiad a ganiateir' o dan Orchymyn Datblygu Cyffredinol 1995, mewn perthynas â mwynau, ac i gydnabod effaith amgylcheddol posib datblygiad o'r fath fe fydd yr Awdurdod yn meithrin trefniadau ymgynghori anffurfiol gyda datblygwyr a gweithredwyr dros gynlluniau sy'n disgyn tu allan i weithdrefnau ffurfiol cymeradwyo ceisiadau cynllunio. Ymgynghorir ag Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd. Mae yna drwyddedau amgylcheddol hefyd, ar wahân i'r system gynllunio, ac mae angen iddynt gael sylw.

Polisi 26

Safleoedd Mwynau Anweithgar

Ble mae'r Awdurdod yn fodlon fod gweithgarwch ennill a gweithio mwynau, neu ddyddodi gwastraff mwynau, wedi dod i ben yn barhaol, fe fydd yn archwilio i weld pa mor addas yw cyflwyno Gorchymyn Gwahardd i'r perchennog/perchnogion.

- 4.117 Mae yna un safle o fewn y Parc Cenedlaethol sydd â chaniatâd cynllunio ond sy'n annhebygol o gael ei ailagor. Dangosir y safle hwn ar y Map Cynigion. Fe fydd yr Awdurdod yn edrych i weld pa mor addas yw cyflwyno Gorchymyn Gwahardd i ddarparu sicrwydd ynghylch gweithio ar y safle hwn, ac unrhyw safle priodol arall yn y dyfodol. Wrth ystyried pa gamau i'w cymryd, fe fydd yr Awdurdod yn ystyried manteision tebygol adfer safleoedd, a defnydd priodol o'r safle wedi hynny. Dangosir y safle anweithgar ym Mhenberi ger Tyddewi ar y Map Cynigion. Ar hyn o bryd mae Chwarel y Ddôl Waelod (Bottom Meadow Quarry) yn anweithgar (Hydref 2009). Fe fydd safleoedd anweithgar eraill yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau y cynhelir safonau uchel o amddiffyniad amgylcheddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Fe fydd yr Awdurdod yn darparu Canllawiau Cynllunio Atodol ar ansefydlogrwydd y tir, o ganlyniad i weithgareddau cloddio am lo blaenorol. Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch ansefydlogrwydd y tir oherwydd prosesau naturiol ac o weithrediadau heblaw am gloddio am lo, o'r Arolwg Daearegol Prydeinig.¹¹³ Gweler paragraffau 13.9.1 i 13.9.2 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, sy'n darparu polisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar dir ansefydlog.

Gwastraff

- 4.118 Mae'r Parc Cenedlaethol hwn wedi'i eithrio rhag darparu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd sy'n gwasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol o dan Adolygiad 1^{af} Cynllun Gwastraff

¹¹³ Gweler gwefan Arolwg Daearegol Prydain yn <http://www.bgs.ac.uk/>

Rhanbarthol y De Orllewin, Awst 2008. Mae gofyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol naill ai i roi lle i gyfleusterau gwastraff cymunedol lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc yn unig neu i ddod i gyswllt gyda Chyngor Sir Penfro, fel awdurdod cynllunio gwastraff. i roi lle i gyfleusterau ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac ardal yr Awdurdod Unedol, i'w lleoli tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae Adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn nodi, mewn amgylchiadau eithriadol, y gallai fod yna safleoedd ger y Parciau Cenedlaethol ble efallai y bydd cyfleusterau sy'n gallu gwasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â gwastraff amaethyddol, yn dderbyniol. Amcangyfrifir o fewn Adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol y bydd y Parc Cenedlaethol angen hyd at 1.5 hectar ar gyfer adeiladu cyfleusterau lleol i mewn, ar sail pro-rata, hyd at 2013. Mae cyfleusterau lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn unig yn gallu cynnwys Cyfleusterau Adfer Defnyddiau Glân, Gorsafoedd Trosglwyddo, Amwynderau Dinesig, ac Eithriad Adeiladu a Dymchwel¹¹⁴. Fodd bynnag, nid oes gofynion penodol wedi cael eu nodi ar gyfer y cyfleusterau hyn, ac fe fydd cynigion yn cael eu hystyried yn y dyfodol ar gyfer tir sydd wedi'i ddynodi at ddefnydd cyflogaeth fel y nodwyd yn Nyraniadau Tabl 3 ar gyfer Safleoedd Cyflogaeth/Defnydd Cymysg, ac yn erbyn polisiau perthnasol sy'n seiliedig ar feini prawf.

- 4.119 Mae safle amwynder dinesig a chanolfan ailgylchu yn y Salterns, Dinbych-y-pysgod ac yn Nhyddewi, a dyna'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 4.120 Cafwyd trafodaethau gyda Chyngor Sir Penfro. Tra bod angen ailddatblygu safle amwynder dinesig Dinbych-y-pysgod, a dymuniad i sefydlu cyfleuster mwy o faint gyda gwell mynediad i gwsmeriaid, gwell rheolaeth ar gyfer traffig ac amrywiaeth ehangach o gyfleusterau yn yr ardal, nid oes unrhyw gynigion cadarn mewn lle. Yng ngolau hyn, darperir polisi sy'n seiliedig ar feini prawf. Cydnabyddir hefyd bod y safle amwynderau dinesig presennol yn Ninbych-y-pysgod, er ei fod yn gwasanaethu cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn bennaf, hefyd yn gwasanaethu cymunedau tu allan i'r Parc Cenedlaethol, yng Nghilgeti ac Arberth. Felly, fe fyddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol, fel eithriad i Bolisi 15 ac Adolygiad 1^{af} Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru, yn ystyried cadw'r cyfleuster mwy o faint sydd wedi'i ail leoli o fewn y Parc Cenedlaethol tra bod meini prawf a) i e) Polisi 15 yn cael eu diwallu. Mae hyn ar y ddealltwriaeth y byddai'r cyfleuster yn dal i wasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf. Mae'r Safle Amwynder Dinesig sydd eisoes yn bodoli yn Nhyddewi hefyd yn gwasanaethu cymunedau tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Fe fydd cynigion i ailddatblygu'r safle hwn yn y dyfodol yn cael eu hystyried fel eithriad i Bolisi Polisi 27 tra bod y safle'n parhau i wasanaethu cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn bennaf. Ar hyn o bryd, mae'r Strategaeth Gwastraff Trefol yn cael ei hadolygu gan Gyngor Sir Penfro, sef yr awdurdod sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff a gwaredu gwastraff. Mae safleoedd cludo bach, yn enwedig banciau poteli, yn cael eu harchwilio mewn ffordd bositif. Fe fydd unrhyw ofynion a nodwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn cael ystyriaeth yn erbyn polisiau perthnasol sy'n seiliedig ar feini prawf.

Polisi 27	<p>Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol¹¹⁵</p> <p>Fe fydd cyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff lleol, sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn unig, yn cael eu caniatáu yn yr achosion canlynol:</p> <p>a) byddai'r safle mewn lleoliad cyfleus mewn perthynas ag anghenion cymuned y Parc Cenedlaethol; neu</p> <p>b) maen nhw mewn safleoedd rheoli gwastraff sydd eisoes yn bodoli neu'n unedau diwydiannol B2; ac</p> <p>c) mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth i sgrinio digonol er mwyn cadw</p>
-----------	--

¹¹⁴ Mae Eithriad Adeiladu a Dymchwel yn cyfeirio at safleoedd sydd wedi eu cofrestru fel safleoedd sydd wedi eu heithrio rhag rheoliadau trwyddedu rheoli gwastraff ac nid oes angen iddynt gael trwydded.

¹¹⁵ Gweler Geirfa

unrhyw effeithiau niweidiol i leiafswm; ac

- ch) mae'r datblygiad ddigon pell oddi wrth eiddo cyfagos i sicrhau nad ydyw'n berygl iechyd neu ddiogelwch potensial; ac**
- d) ni fydd y datblygiad yn achosi niwed amlwg i amwynderau'r ardal leol a'r cymunedau lleol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch, sbwriel ac arogl, nac yn cael effaith niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear presennol.**

- 4.121 Ni ddylai cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol danseilio opsiynau rheoli gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff (gweler adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol).
- 4.122 Mae gan safleoedd amwynderau dinesig ddiben defnyddiol, yn y ffaith bod modd sortio gwastraff y cartref i hwyluso'r gallu i'w aildefnyddio a'i ailgylchu. Mae hefyd yn helpu osgoi tipio anghyfreithlon. Efallai y byddant yn cynhyrchu symudiadau cerbyd sylweddol ac y byddant yn golygu storio defnyddiau gwastraff dros dro mewn cynwysyddion sydd â thop agored neu gaeedig (ar gyfer gwastraff sy'n pydru). Am y rhesymau hyn, mae'r gofynion mewn perthynas â mynediad, parcio ac amwynderau yn eithaf llym. Mae yna drwyddedau amgylcheddol ar wahân i'r system gynllunio hefyd, ac mae angen eu hystyried.

Polisi 28

Compostio

Fe fydd cynigion sy'n golygu compostio defnyddiau organig, a gynhyrchir o fewn y Parc Cenedlaethol, yn cael eu caniatáu ac eithrio ble byddent yn cael effaith annerbyniol ar unrhyw un o'r canlynol:

a) amwynderau'r ardal leol a'r cymunedau lleol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad, traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch, arogl, diogelwch ac effaith niweidiol ar yr holl adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear presennol; a

b) gallu'r rhwydwaith heolydd lleol.

Ac ar yr amod:

c) fod darpariaeth ar gyfer tirlunio a/neu sgrinio'r safle; ac

ch) mae yna gamau digonol i ddelio gyda thrwytholch; ac

d) mae gan y cynnyrch werth ychwanegol.

- 4.123 Mae compostio yn broses/driniaeth gynaliadwy ar gyfer y swm mawr o wastraff gwyrdd a gynhyrchir gan y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, rhaid bod y cynnyrch o ansawdd digon da i'w ddefnyddio mewn ffordd fuddiol wedi hynny.
- 4.124 Mae rheoli gwastraff gwyrdd hefyd yn gallu cynnwys datblygiadau cysylltiedig fel rhwygo. Mae gwastraff gwyrdd yn cael ei gasglu a'i rheoli yn y safleoedd Amwynder Dinesig a dau safle claddu sbwriel o fewn y Sir. Mae compostio hefyd ar waith mewn ffermydd o fewn y Sir; ac mae yna gynlluniau compostio cymunedol.

- 4.125 Fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion i gompostio defnyddiau a gynhrychir o fewn y Parc Cenedlaethol mewn safleoedd presennol sy'n cael eu defnyddio i reoli neu waredu gwastraff, neu safleoedd cyfagos, sy'n gweithredu heb unrhyw broblemau amgylcheddol cysylltiedig nac unrhyw broblemau amgylcheddol eraill. Fel eithriad, ble mae'n dderbyniol yn amgylcheddol ac yn fwy cynaliadwy yn economaidd, fe fydd yr Awdurdod yn ystyried cynigion sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf. Ymgynghorir ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae yna drwyddedau amgylcheddol hefyd, ar wahân i'r system gynllunio, ac mae angen eu hystyried.
- 4.126 Mae'n debygol mai cymwysiadau ar gyfer compostio windro fyddai fwyaf addas mewn lleoliadau gwledig.

Blaenoriaeth C: Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

- 4.127 Fe fydd strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau, trwy osod tai a datblygiadau eraill yn agos at wasanaethau. Fe fydd strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol hwn hefyd yn ceisio cadw cyfraniad rhai datblygiadau¹¹⁶ at allyriannau nwy tŷ gwydr i leiafswm, trwy gyfyngu datblygiadau sy'n llygru neu sy'n beryglus yn y Parc (gweler paragraff 4.97), trwy hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy a thrwy annog dylunio cynaliadwy mewn datblygiadau. Fe fydd y strategaeth hefyd yn derbyn yr angen i addasu at newid mewn hinsawdd ac i ddelio gyda chanlyniadau newid mewn hinsawdd mewn ffordd sy'n golygu meddwl mwy ymlaen llaw, nid dim ond ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol presennol.
- 4.128 Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol presennol, fe fydd datblygiadau newydd, ac mewn rhai achosion datblygiadau sydd eisoes yn bodoli ble cynigir estyniadau iddynt, â chynllun mwy cynaliadwy. Fe fydd gan y Parc gyfres o brosiectau ynni adnewyddadwy sydd wedi eu seilio yn y gymuned, yn ogystal â chynigion unigol, ar waith. Wrth gynllunio ar gyfer y newidiadau mewn hinsawdd yn y dyfodol, nid oes unrhyw ddatblygiadau newydd wedi cael eu hannog mewn lleoliadau ble mae yna strategaeth hir dymor i alluogi'r môr neu'r afon i orlifo. Fe fydd datblygiadau wedi cael eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth ardaloedd sy'n dueddol o orlifo, neu a fydd yn dueddol o orlifo o fewn y 60 mlynedd nesaf, gan ddefnyddio gwybodaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Fe fydd datblygiadau hefyd wedi cael eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth ardaloedd a fyddai'n cael effaith niweidiol ar esblygiad naturiol a hir dymor yr arfordir. Dim ond datblygiadau newydd a fydd yn gallu ymdopi gyda'r llifogydd tebygol fydd yn cael eu lleoli yno. Wrth i'r hinsawdd newid, fe fydd angen deall risgiau a chanlyniadau llifogydd, a'u rheoli, gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer mwy o risgiau o lifogydd mewn mannau eraill oherwydd unrhyw ddatblygiad penodol. Unwaith y byddan nhw wedi cael eu paratoi ar gyfer morlin Sir Benfro, fe fydd 2^{il} rownd y Cynlluniau Rheoli Traethlin hefyd yn helpu nodi'r ardaloedd hyn dros gyfnodau hirach o amser (hyd at 100 mlynedd). Fe fydd angen hefyd iddo ymateb i ymrwymiad y Llywodraeth at daclo achosion newid mewn hinsawdd a delio gyda'r canlyniadau, ac mae'r ymrwymiad hwn yn esblygu'n gyflym ac yn cryfhau drwy'r amser.
- 4.129 Dylai'r strategaeth ar gyfer datblygu, a ddewisir law yn llaw gyda chynigion o dan 'Trafnidiaeth Gynaliadwy' hefyd gyfrannu at yr agenda hwn.

Dylunio cynaliadwy

Polisi 29 DYLUNIO CYNALIADWY (Polisi Strategaeth)

Fe fydd disgwyl i bob cynnig i ddatblygu arddangos ymagwedd integredig at ddylunio ac adeiladu, ac fe fydd angen iddo fod wedi'i ddylunio'n dda o ran:

- a) Lleoliad ac arwahanrwydd lleol¹¹⁷ (gweler Polisi 8)**
- b) Amgylchedd a bioamrywiaeth¹¹⁸ (gweler Polisi 8)**
- c) Cydlynid cymunedol ac iechyd¹¹⁹ (gweler Polisi 30)**
- ch) Hygyrchedd (gweler Polisi 52)**

¹¹⁶ Y prif sectorau sy'n cyfrannu CO₂ yn y Parc Cenedlaethol yw allyriannau purfeydd olew, llosgi domestig a masnachol; llosgi diwydiannol; allyriannau natur (mae allyriannau CO₂ o natur yn cynnwys CO₂ sy'n deillio o brosesau naturiol gan gynnwys resbiradu a phydru, mewn meysydd naturiol a lled-naturiol. Mae allyriannau sy'n deillio o newid mewn defnydd tir, fel datgoedwigo, hefyd wedi eu cynnwys.); trafndiaeth ar yr heolydd; a mathau eraill o drafndiaeth.

¹¹⁷ Yn cynnwys y dirwedd a'r treflun.

¹¹⁸ Yn cynnwys y dirwedd hanesyddol, geoamrywiaeth a bioamrywiaeth

¹¹⁹ Hefyd yn cynnwys "diogelu drwy ddylunio", y gallu i addasu at amgylchiadau sy'n newid, ac ystyriaethau amwynderau cyfagos.

d) Defnydd o ynni¹²⁰

dd) Cynhyrchu ynni¹²¹ (gweler Polisi 33)

e) Defnyddiau ac adnoddau (gweler Polisi 31)

f) Dŵr a draenio (gweler Polisi 32)

ff) Gwastraff¹²² (gweler Polisi 31)

g) Gwydnwch yn erbyn newid mewn hinsawdd¹²³

Ble cyflwynir ceisiadau cynllunio i ymestyn adeiladau, gofynnir am welliannau i effeithlonrwydd ynni, dŵr a draenio yn yr adeilad gwreiddiol yn ogystal â'r estyniad, ble'n briodol ac yn ymarferol.

- 4.130 Cefnogir y polisi hwn gan Ganllawiau Dylunio ac Offeryn Arfarniad o Gynaliadwyedd i helpu ceisiadau i gydymffurfio gyda'r polisi ac esbonio beth sydd ei angen ar yr Awdurdod i fynd gyda'r ceisiadau cynllunio. Fe fydd hyn yn seiliedig ar adolygiad o ganllawiau dylunio cynaliadwy'r Cydgyllun Datblygu Unedol¹²⁴, gan ystyried polisïau newydd Llywodraeth y Cynulliad yn ogystal â'r cynnig i ymestyn y defnydd o'r polisi i gwmpasu gwelliannau ynni, dŵr a draenio mewn adeiladau presennol. Fe fydd yr ymagwedd integredig at ddylunio a nodwyd yn y polisi yn cwmpasu camau dylunio ac adeiladu'r datblygiad.
- 4.131 Nid yw'r polisi'n gosod y canrannau lleiaf ar gyfer cyfraniad ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y safle at ostwng allyriannau carbon, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflwyno polisi cenedlaethol a fydd yn cwmpasu'r maes hwn. Fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, o fewn y cyd-destun hwn, yn disgwyl i bob ymgeisydd ystyried ymgorffori adnoddau ynni adnewyddadwy i'r dyluniadau ar gyfer eu cynlluniau.
- 4.132 Y rheswm dros yr ymagwedd hon, yn hytrach na gosod targedau canran ar gyfer cyfraniadau ffynonellau ynni adnewyddadwy tuag at gwrdd â gofynion ynni pob cynllun newydd, yw bod yn rhaid i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol weithio o fewn cyd-destun canllawiau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, yn benodol, ei gynnig i gyflwyno gofynion polisi cenedlaethol ar gyfer perfformiad ynni ac allyriannau adeiladau newydd, a chyflwyno targedau mwy a mwy llym o fewn cyfnod cymharol fyr. Yn ddiweddar, cafwyd ymgynghoriadau ar y lefelau targed cychwynol a'r amrediad, ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi dadlau y dylai targedau o'r fath fod yn berthnasol i bob datblygiad newydd o ddyddiad cynnar.
- 4.133 Nod y polisi yw gwneud defnydd mwy effeithlon o ddŵr, er enghraifft, trwy gasglu dŵr glaw, neu ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy. Fodd bynnag, fe fydd angen rhywfaint o ddraenio o hyd. Er mwyn iddo gael ei ddylunio'n dda, fe fydd y datblygiad angen cyfleusterau gwaredu carthffosiaeth a draenio dŵr wyneb digonol, o hyd. Rhaid bod y gallu ar gael cyn bod unrhyw un yn anheddu'r datblygiad.
- 4.134 Mewn perthynas â maen prawf f) dylid ymgynghori'n gynnar gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, i sicrhau bod datblygiadau wedi eu lleoli mewn man addas, ac wedi eu dylunio a/neu raddio'n briodol i osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000 o ran y galw am adnoddau dŵr ac ansawdd y dŵr, a chaniateir datblygiad dim ond ble mae yna

¹²⁰ Fe fydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos ymagwedd at ddylunio sy'n cadw'r defnydd o ynni i leiafswm.

¹²¹ Fe fydd disgwyl i ymgeiswyr gynnwys technolegau adnewyddadwy neu garbon isel priodol, gan gynnwys systemau dŵr solar, ffotofoltaig solar, gwynt, pypiau gwres a biomas.

¹²² Mae'n cynnwys cadw gwastraff at leiafswm a hybu/hwyluso ailgylchu, yn y cam adeiladu a'r cam gweithredu.

¹²³ Mae'n cynnwys gwydnwch yn erbyn llifogydd, y perygl arfordirol a phwysau o fath arall sy'n codi ar gyfer newid mewn hinsawdd.

¹²⁴ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, paragraff 4.11.1 i 4.11.4.

gyflenwadau dŵr sicr o ffynonellau na fyddai'n cael effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000. O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen gostwng y nifer o unedau ar ddyraniadau ble mai dyma'r unig fesur lliniaru effeithiol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gywirdeb safleoedd Natura. Fe fydd datblygiadau a allai fod â'r potensial i effeithio ar safleoedd Ewropeaidd yn destun Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol ar lefel prosiect. Efallai y bydd angen Astudiaethau ar y Gylched Ddŵr (a chynlluniau rheoli dŵr wyneb) hefyd.

4.135 Mae'r polisiau isod yn rhoi cyngor ac arweiniad ychwanegol ar roi sylw i faterion dylunio cynaliadwy.

Polisi 30	<p>Amwynder</p> <p>Ni caniateir datblygiad ble mae'n cael effaith annerbyniol ar amwynder, yn enwedig yn yr achosion canlynol:</p> <p>a) bwriedir defnyddio'r datblygiad mewn ffordd sy'n anaddas i leoliad y mae pobl yn byw ynddo neu'n ymweld ag ef; a/neu</p> <p>b) nid yw graddfa'r datblygiad yn gydnaws â'r ardaloedd o'i amgylch; a/neu</p> <p>c) mae'r datblygiad yn arwain at gynnydd mewn traffig neu sŵn neu arogl neu olau, sy'n cael effaith niweidiol sylweddol; a/neu</p> <p>ch) mae'r datblygiad yn ymwthiol yn weledol.</p>
-----------	---

4.136 Mae'r polisi'n anelu at amddiffyn yr amwynderau y mae pobl yn eu mwynhau, ble maen nhw'n byw, ble maen nhw'n gweithio ac mewn ardaloedd hamdden. Diffinnir amwynder fel yr elfennau hynny yn ymddangosiad a threfn trefi ac ardaloedd gwledig sy'n gwneud bywyd yn ddymunol, yn hytrach na dim ond bodoli. Mae unrhyw beth salw, budr, swnllyd, torfol, ymwthiol neu anghyffyrddus yn debygol o gael effaith niweidiol ar amwynder.

Polisi 31	<p>Cadw Gwastraff at Leiafswm</p> <p>Rhaid i ddatblygiad gadw gwastraff at leiafswm, ei aildefnyddio a'i ailgylchu yn ystod gwaith dymchwel ac adeiladu a darparu cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n ddigon mawr ac yn addas, fel rhan annatod o'r datblygiad.</p>
-----------	--

4.137 Mae gwastraff o waith dymchwel, adeiladu a chloddio yn adnodd gwerthfawr sy'n gallu cael ei ailgylchu, er mai cadw gwastraff at leiafswm ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf. Fe fyddai'r Awdurdod hwn yn croesawu Cynlluniau Rheoli Gwastraff o Safleoedd i helpu'r broses hon. Fe fyddai osgoi anfon y defnyddiau hyn at safleoedd claddu sbwriel yn cydymffurfio gyda'r Gyfarwyddeb Tirlenwi. Mae yna nifer o gyfleusterau ailgylchu eisoes yn bodoli yn y Sir. Cefnogir cyfleusterau ailgylchu lleol ar gyfer y defnyddiau hyn yn unol ag egwyddorion cynaliadwy'r Llywodraeth ar gyfer rheoli gwastraff a chynllunio mwynau. Mae ailgylchu, compostio a mesurau gostwng gwastraff eraill yn helpu'r amgylchedd trwy ostwng y tir sydd ei angen i gladdu sbwriel neu godi tir, ac ar gyfer trin gwastraff gweddilliol, sy'n weddill wedi ailgylchu a chompostio cymaint ag sy'n bosib.

4.138 Fe fydd yr Awdurdod yn disgwyl i gynigion sy'n debygol o gynhyrchu gwastraff sylweddol i gynnwys cyfleusterau ar gyfer compostio "gwastraff gwyrdd", ar gyfer casglu gwastraff sy'n addas i'w ailgylchu ac ar gyfer gwastraff gweddilliol.

4.139 Mae yna fathau gwahanol o ddarpariaethau ailgylchu ar gyfer gwahanol fathau o wastraff. Y

ddarpariaeth leol iawn ar gyfer gwastraff y cartref a gwastraff annomestig fyddai casglu o'r ardal, naill ai o ddrws i ddrws, ar ymyl y palmant neu o fan casglu canolog. Dylai unrhyw ddatblygiadau sy'n cynhyrchu gwastraff ddarparu gofod ar gyfer storio mathau o wastraff ar wahân, gan gynnwys defnyddiau i'w hailgylchu, gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd.

Polisi 32

Draenio Dŵr Wyneb

Fe fydd angen i ddatblygiad gynnwys systemau draenio cynaliadwy ar gyfer gwaredu dŵr wyneb ar y safle.

- 4.140 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r broses o waredu dŵr wyneb sy'n rhedeg oddi ar ddatblygiad, yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi ei gwblhau, er mwyn cadw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd i leiafswm. Mae arferion traddodiadol ar gyfer gwaredu dŵr wyneb yn golygu sianelu'r dŵr i ffwrdd at y cwrs dŵr agosaf fel ei fod yn rhedeg i ffwrdd yn gyflym. Mae'r ymagwedd hon yn gallu arwain at fwy o berygl o lifogydd i lawr yr afon, llai o ddŵr daear yn ail-lenwi (gostyngiad yn y dŵr sy'n treiddio trwy'r pridd yn ol at ddŵr daear) a throsglwyddo llygryddion at gyrsiau dŵr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn hyrwyddo systemau draenio cynaliadwy ac mae Dŵr Cymru yn eu cefnogi. Maen nhw'n symud i ffwrdd oddi wrth systemau draenio trwy biben draddodiadol at ddatrysiadau peirianeg sy'n dynwared prosesau naturiol ac yn cynnwys opsiynau caled fel arwynebau athraidd a hydraiddd a/neu opsiynau mwy meddal fel nodweddion segur ar y dirwedd, pyllau, gwlypdir a phantiau glaswelltog.
- 4.141 Mae systemau draenio trefol cynaliadwy yn disgyn i 3 grŵp eang sy'n anelu at:
- ostwng y dŵr sy'n rhedeg oddi ar safle (rheoli ffynhonnell);
 - arafu cyflymder y dŵr sy'n rhedeg i ffwrdd i'w alluogi i setlo a ffiltro ac ymdreiddio (systemau trawsgludo athraidd); a
 - trin dŵr wyneb sydd wedi ei gasglu mewn ffordd oddefol cyn ei ryddhau at ddŵr daear neu i gwrs dŵr (systemau diwedd piben).
- 4.142 Rhaid bod asesiad o addasrwydd systemau draenio trefol cynaliadwy yn dod gyda cheisiadau cynllunio.
- 4.143 Dylai rheoli ffynhonnell fod yn rhan annatod o ddyluniad y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd a dylai datblygwyr geisio ymgorffori systemau draenio cynaliadwy, sy'n rheoli'r ffynhonnell o fewn safle'r cais, ar gyfer gwaredu dŵr wyneb, mewn cynigion ar gyfer datblygiadau, adeg y cais. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddŵr wyneb ar y safle - o'r to, heolydd ac arwynebau eraill, a defnyddir amodau cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 4.144 Cydnabyddir efallai y bydd yna amgylchiadau neilltuol ble na fyddai rheoli ffynhonnell yn hollol bosib a ble dangoswyd nad yw hyn yn ymarferol, dylai datblygwyr ddarparu systemau draenio cynaliadwy yn y lle cyntaf, ar gyfer cymaint o'r datblygiad ag sy'n ymarferol bosib. Ar gyfer gweddill y datblygiad, rhaid ymgorffori opsiwn derbyniol arall ar gyfer gwaredu dŵr wyneb. Dylid ond defnyddio systemau draenio 'caled' traddodiadol unwaith y dangoswyd na fyddai systemau draenio cynaliadwy yn llwyddiannus, ac unwaith y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn hapus â hyn.
- 4.145 Fe fydd y datblygwyr yn gyfrifol am dalu'r holl gostau angenrheidiol ar gyfer cynllunio, dylunio a gosod systemau draenio cynaliadwy. Fe fydd angen i ddatblygwyr gytuno i rwymedigaeth gynllunio hefyd (a elwir yn Gytundeb A106) i gwrdd â'r gost o'i fabwysiadu a darparu rheolaeth hir dymor. Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn cefnogi cynhwysiad cwiferu ac mae'n gofyn am waredu cwiferu ble bynnag mae hynny'n bosib.

- 4.146 Mae'r fframwaith polisi ar gyfer ynni adnewyddadwy, isod, yn cefnogi ynni adnewyddadwy sy'n ystyried nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol mewn ffordd bositif (gweler Polisi 8).

Polisi 33 YNNI ADNEWYDDADWY (Polisi Strategaeth)

Fe fydd cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach yn cael ystyriaeth ffafriol, tra nad oes unrhyw ystyriaethau amgylcheddol ac amwynder yn eu trechu. Mae cynlluniau graddfa ganolig hefyd yn cynnig rhywfaint o botensial ac fe fyddant yn cael eu caniatáu ar sail yr un ystyriaethau. Fe fydd cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fawr ond yn cael eu caniatáu ble nad ydynt yn cyfaddawdu ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Ble mae yna gynlluniau ynni adnewyddadwy eraill ar waith yn barod yn yr ardal, fe fydd effeithiau cronus yn ystyriaeth bwysig¹²⁵.

Caniateir cysylltiadau ar y lan at eneraduron ynni adnewyddadwy oddi ar y lan hefyd, tra nad oes unrhyw ystyriaethau amgylcheddol ac amwynder yn eu trechu. Fe fydd angen i ddatblygwyr sydd angen lleoliad heb ei ddatblygu ar yr arfordir, ar gyfer cysylltiadau ar y lan at osodiadau ynni adnewyddadwy oddi ar y lan, gyfiawnhau'r angen hon yn glir mewn perthynas â Polisi 8i) gan gymryd yr ymagwedd leiaf ymwithiol at y cynllun.

- 4.147 Cefnogir y polisi ynni adnewyddadwy isod gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy¹²⁶ (i'w gyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol drafft pan fydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu), sy'n mapio:

- y potensial technegol ar gyfer ynni adnewyddadwy
- y cyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd potensial
- wedi ystyried a) a b) y cyfleoedd potensial o ganlyniad, ar gyfer amrywiaeth o ynni adnewyddadwy

Darperir canllawiau hefyd ar asesu cynigion adnewyddadwy. Gosodir cyfraniadau tebygol hefyd ar gyfer ynni adnewyddadwy ac allyriannau carbon ac maen nhw wedi cael eu hymgorffori yn adran Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol.

- 4.148 O ran y potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi:

- Ar osodiadau gwres/pŵer biomas mae cynigion graddfa fach (100kW - 300kW) a graddfa ganolig (10MW - 40MW) yn fwy tebygol o fod yn briodol
- Mae offer treulio anaerobig graddfa fach o fewn cyfadeladau yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol ar gyfer gwastraff priodol (10kW).
- Yr unig opsiwn realistig ar gyfer pŵer hydro yw cynlluniau micro (<100kW).
- Mae'r potensial ar gyfer pŵer hydro sy'n codi gwres o'r ddaear a dŵr yn bodoli ar draws ardal y Parc, ac eithrio pŵer hydro sy'n tynnu gwres o aer, ble mae yna gyfyngiadau ar leoliad oherwydd y sŵn a'r effaith weledol.
- Mae yna botensial sylweddol iawn ar gyfer datblygu dŵr poeth solar yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.
- Gyda datblygiadau ynni'r gwynt: Mae yna botensial ar gyfer cynigion graddfa fach (10kW-50kW) ac i raddau llai cynigion graddfa ganolig (50kW-330kW). Yn olaf, mae yna gyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer cynigion graddfa fwy (>330kW – 3MW).

¹²⁵ Mae'r rhan yma o'r polisi'n cyfeirio at gynigion ar y lan.

¹²⁶ Dolen gwefan at yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy:

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1317&SkinID=5>

4.149 Mae yna botensial hefyd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy oddi ar y lan a fydd â goblygiadau tua'r tir. Fel eithriad i Bolisi 45i) mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn efallai nad oes llwybrau sy'n dechnegol ymarferol ar gael ar gyfer cysylltiadau ar y lan, dim ond ar ardaloedd o'r arfordir sydd wedi'u datblygu¹²⁷. Yn aml, mae datrysiadau dylunio arloesol yn gallu goresgyn effeithiau niweidiol datblygiadau sydd fel arfer yn anghydweddol mewn tirwedd sydd mor sensitif. Fe fydd y broses o ystyried effeithiau amylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000, a safleoedd heb eu dynodi.

Llifogydd a Gorlif Arfordirol

Polisi 34 LLIFOGYDD A GORLIF ARFORDIROL (Polisi Strategaeth)

Wrth gynllunio ar gyfer datblygiad y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol;

- a) fe fydd datblygiadau'n cael eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd hynny sydd mewn perygl oherwydd llifogydd nawr, neu fel y rhagwelir ar gyfer y dyfodol gan Fapiau Cyngori ar Ddatblygiad Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gynllun Rheoli Traethlin 2¹²⁸ onid oes cyfiawnhad cymdeithasol neu economaidd cadarn yn unol â'r cyngor a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 15.
- b) caniateir amddiffyniad cynaliadwy'r arfordir i amddiffyn cymunedau neu asedau sydd eisoes yn bodoli, ble mae hyn yn ymarferol a ble nad ydynt yn peryglu esblygiad naturiol a mwy hir dymor yr arfordir.

4.150 Fe fydd y broses o ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000, a safleoedd heb eu dynodi.

Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol

4.151 Darparu gwasanaeth gwybodaeth ynghylch ynni/adnoddau yn y Parc Cenedlaethol, a'i hwyluso. Sefydlwyd y gwasanaeth hwn gyda chymorth Canolfan Eco Gorllewin Cymru yn Nhrefdraeth, sy'n gallu darparu dolen gyswllt at fudiadau tu hwnt i Sir Benfro.

¹²⁷ Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn nodi mai prin mai'r rhannau o'r Arfordir sydd wedi eu datblygu fydd y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiad (paragraff 5.7.2) (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010)

¹²⁸ Mae'r Mapiau Cyngor ar Ddatblygiad (2009) yn nodi ardaloedd sy'n debygol o orlifo ar sail digwyddiadau hanesyddol (Parth B) a Pharth Llifogydd 2 Asiantaeth yr Amgylchedd (Parthau C1 a C2). Mae Mapiau Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd Parth 2 a 3 yn nodi'r tebygolrwydd i ardaloedd orlifo ar sail data wedi'i fodelu. Bydd Cynllun Rheoli Traethlin 2S sydd ar y gweill yn nodi ardaloedd sy'n debygol o orlifo at ddibenion y polisi hwn. Mae Parth Llifogydd 2 yn golygu tir sydd â — (i) tebygolrwydd blynyddol (siawns) o rwng un mewn 100 ac 1 mewn 1000 i'r afon orlifo (1% -0.1%); neu (ii) debygolrwydd blynyddol (siawns) o rwng un mewn 200 ac 1 mewn 1000 i'r mor orlifo (0.5%-0.1%).

Mae Parth Llifogydd 3 yn golygu tir sydd ag (i) tebygolrwydd blynyddol o 1 mewn 100 neu fwy o lifogydd o afonydd (>1%); neu (ii) tebygolrwydd blynyddol o 1 mewn 200 neu fwy o lifogydd o'r môr (>0.5%). Rhagwelir y bydd Cynllun Rheoli Traethlin 2S wedi ei gwblhau yn 2011.

Blaenoriaeth Ch: Economi ymwelwyr, cyflogaeth

Llety ymwelwyr, atyniadau a gweithgareddau hamdden

- 4.152 Y strategaeth ar gyfer ymwelwyr yw sicrhau nifer, tarddiad, math, cyfnod ymweld a gwariant optimaidd ymhlith ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn, tra'n sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gadw'i atyniad fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Y ffordd orau o wireddu hyn, yn nhermau defnydd tir, yw peidio ag ychwanegu'n sylweddol at y ddarpariaeth llety i ymwelwyr, oherwydd fe allai hyn annog 'brigo' pellach ac achosi niwed i dirwedd y Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig, o ran effeithiau'r datblygiad ychwanegol a gweithgarwch cynyddol mewn rhai 'poeth fannau'.
- 4.153 Yn hytrach, mae'r dyfodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn un sy'n sicrhau, erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, bod amrywiaeth o lety gwyliau o safon, sy'n debyg i lefel a dosbarthiad y ddarpariaeth ar ddechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, wedi eu cynnal ar gyfer amrywiaeth o bocedi. O fewn Canolfannau'r Cynllun Datblygu Lleol, caniateir uwchraddio fel bod modd sicrhau bod mwy o lety yn addas ar gyfer y tymor tu allan i'r prif dymor, a bod ansawdd yr hyn sydd i'w gynnig i'r ymwelydd hefyd wedi gwella. Mae gwestai a thai gwestai sy'n gallu darparu llety a chyflogaeth trwy gydol y flwyddyn yn cael eu diogelu, onid ydynt yn anymarferol bellach. Caniateir peth llety hunanarlwyo ychwanegol i ddarparu ar gyfer anghenion trwy gydol y flwyddyn, ond mae hyn wedi ei gyfyngu at achosion ble nad yw'n flaenoriaeth cwrdd ag anghenion tai fforddiadwy.
- 4.154 Ble caniateir datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr (atyniadau ymwelwyr, datblygiadau hamdden a chyfleusterau ar y tir sy'n gysylltiedig â glanfeydd oddi ar y lan ayb.), mae wedi cael ei sgrinio i osgoi gweithgareddau a fyddai'n niweidio nodweddion arbennig y Parc¹²⁹. Mae datblygiad ychydig o atyniadau ar gyfer pob tywydd wedi helpu annog mwy o ymweliadau tu allan i'r tymor brig.
- 4.155 Gallai'r traffig sy'n cael ei gynhyrchu gan ymwelwyr fod yn bryder sylweddol. Mae angen ymagedd fwy llym at asesu effaith traffig ar gyfer datblygiadau o'r fath. Ni chaniateir cynigion sy'n achosi effeithiau niweidiol sylweddol nad oes modd eu lliniaru - gweler Polisi 52 a Pholisi 53.
- 4.156 Fe fydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i ddarparu cyngor pellach ar yr hyn a fyddai'n cael eu gweld fel gweithgareddau amhriodol yn y Parc Cenedlaethol.

¹²⁹ Gweithgareddau amhriodol fyddai gweithgareddu a fyddai'n amharu ar y gallu i fwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ble nad oes modd lliniaru'r effaith hwn, er enghraifft trwy greu parthau neu fesurau rheoli traffig neu weithgareddau sydd â chyfyngiadau tymhorol.

Polisi 35 **ECONOMI YMWELWYR (Polisi Strategaeth)**

Denu ymwelwyr tu allan i'r tymor brig tra'n sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gael ei warchod a'i wella fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol trwy:

- a) Beidio â chaniatáu unrhyw leiniau gwerysyla, carafanio na chalet pellach ond caniatáu newid at fathau eraill o hunanarlwyo ble mae'r safle'n gorwedd o fewn Canolfan¹³⁰ ac mae'r cynllun yn cyflwyno manteision amgylcheddol o ran gosodiad, cynllun a'r defnyddiau a ddefnyddir. (Gweler Polisi 38 a Pholisi 39)
- b) Diogelu rhag colli gwestai a thai gwestai oni phrofwyd na fyddai parhau i'w defnyddio'n ymarferol neu fod yr ardal leol yn gallu parhau i gwrdd â'r galw brig. (Gweler Polisi 36)
- c) Ganiatáu llety hunanarlwyo ar safleoedd tir llwyd yng Nghanolffannau'r Cynllun Datblygu Lleol yn unig, ac mewn trawsnewidiadau yng nghefn gwlad ac eithrio ble nodwyd angen am dai fforddiadwy. Fe fydd darpariaeth tai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth dros hunanarlwyo ble nodwyd angen o'r fath. (Gweler Polisi 37)¹³¹
- ch) Ganiatáu atyniadau ymwelwyr a gweithgareddau hamdden yn y Ganolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth a'r Canolfannau Lleol. Fe fydd angen i gynigion tu allan i'r Canolfannau hyn ddangos pam mae lleoliad mewn 'Canolfan Wledig' neu 'Ardal Wledig' yn hanfodol. Dylai cynigion mewn ardaloedd gwledig ddefnyddio adeiladau sydd eisoes yn bodoli ble'n bosib.
- d) Cyfeirio cyfleusterau ar y tir¹³² at y rhannau o'r arfordir sydd wedi eu datblygu, ble maen nhw'n gydnaws â defnyddiau gerllaw. (Gweler Polisi 17)

Ni chaniateir gweithgareddau a fyddai'n niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol – gweler hefyd Polisi 8.

4.157 Mae'r polisiau isod yn rhoi cyngor ac arweiniad ychwanegol ar yr economi ymwelwyr.

Polisi 36 **Colli Gwestai a Thai Gwestai**

Caniateir colli gwestai a thai gwestai yn y Parc Cenedlaethol yn yr achosion canlynol:

- a) dangoswyd bod y potensial ar gyfer parhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yn anymarferol; neu
- b) mae'r galw ar gyfer y math hwn o lety yn ystod cyfnodau brig yn mynd i barhau i gael ei ddiwallu o fewn yr ardal; ac

¹³⁰ Gweler Geirfa

¹³¹ Mae tai fforddiadwy mewn addasiadau mewn ardaloedd gwledig yn gallu bod ar gyfer anghenion lleol. (paragraff 7.6.10 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorfennaf 2010)

¹³² Mae strwythurau ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r glannau neu'r harbwr neu ddarpariaeth angora neu sy'n gysylltiedig ag offer y tu hwnt i'r marc distyll isaf.

c) nid oes unrhyw effeithiau niweidiol ar apêl a chymeriad cynhenid y gyrchfan, yr ardal neu'r ffyrntiad.

- 4.158 Nod y polisi hwn yw amddiffyn y stoc bresennol o westai a thai gwestai yn y Parc Cenedlaethol. Mae cyflenwad ac amrywiaeth da o lety wedi'i wasanaethu yn hanfodol, yn enwedig gan fod twristiaeth yn ffactor blaenllaw yn economi Sir Benfro. Wrth i'r farchnad wyliau newid, mae yna bwysau wedi bod i drawsnewid gwestai a thai gwestai mawr yn fflatiau, rhandai a thai preifat. Ers 1990, collwyd dros 40 o westai yn y Parc Cenedlaethol.
- 4.159 Yn aml, mae gwestai a thai gwestai yn rhan o apêl a chymeriad tref, pentref neu ardal, sy'n helpu denu ymwelwyr. Mewn rhai achosion, fel yr Esplanade yn Ninbych-y-pysgod, maen nhw'n elfen hanfodol o hunaniaeth ffyrntiad penodol. Yn aml, hefyd, mae gwestai mwy o faint yn dirnodau pwysig yn y treflun neu'r tirlun.
- 4.160 Cydnabyddir y bydd y galw am wahanol fathau o lety gwyliau yn parhau i newid a chydabyddir hyn yn y polisi sy'n caniatáu newid defnydd y safleoedd hynny sydd ddim yn ymarferol mwyach ac nad oes unrhyw siawns realistig iddynt ddod yn fwy ymarferol.
- 4.161 Rhaid bod unrhyw gais i newid defnydd yn dod law yn llaw gyda thystiolaeth i gwrdd â meini prawf a neu b ac c. Fe fydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar golli gwestai i roi arweiniad pellach ar roi'r polisi hwn ar waith.¹³³

Polisi 37	Datblygiadau Hunanarlwyo Fe fydd cynigion ar gyfer bythynnod gwyliau, fflatiau a mathau eraill o ddatblygiadau hunanarlwyo ond yn cael eu caniatáu ble: a) mae'n cynnig ar gyfer safle tir llwyd mewn Canolfan¹³⁴ neu mae'n gynnig i drawsnewid eiddo mewn lleoliad gwledig (gweler Polisi 6) neu mae'n ganlyniad i newid o wersylla/carafanio at lety hunanarlwyo mewn Canolfannau (gweler Polisi 45), ac b) nid oes angen darpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal neu c) nid yw'r safle neu'r adeilad yn addas ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy.¹³⁵ Ni chaniateir datblygiadau hunanarlwyo wedi eu hadeiladu o'r newydd ar safleoedd maes glas.
-----------	--

- 4.162 Diffinnir llety hunanarlwyo fel llety hunanarlwyo sydd ddim yn garafán, gan gynnwys fflatiau, bythynnod, tai, byngalos a chalets sy'n cael eu rhentu, ble mai'r prif ddiben yw gosod fel llety gwyliau.
- 4.163 Fe fyddai'r categori hwn hefyd yn cynnwys hostelau sy'n darparu llety rhad dros nos gyda chyfran fawr o lety cysgu, hunanarlwyo a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr

¹³³ Dolen we at y canllawiau cynllunio atodol: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=234&SkinID=5

¹³⁴ Gweler Geirfa

¹³⁵ Sylwer mai'r terfyn ar gyfer trafod darpariaethau tai fforddiadwy yw 2 uned breswyl neu fwy. Ble ceir cais cynllunio ar gyfer safle o dan y terfyn ar gyfer tai fforddiadwy ond mae'n rhan o safle mwy o faint sy'n uwch na'r terfyn, fe fydd yr Awdurdod yn disgwyl darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy. Fe fydd hyn yn sicrhau nad yw safleoedd yn cael eu torri yn rhannau llai a'u graddio, gan osgoi'r gofynion tai fforddiadwy.

agored neu astudiaethau maes. Fe fydd hostelau sy'n darparu gwasanaethau arlwygo yn cael eu gweld fel llety wedi'i wasanaethu.

- 4.164 Mae unedau hunanarlwygo sydd wedi eu hadeiladu'n arbennig at y diben yn gallu helpu cymryd y pwysau oddi ar y defnydd o dai lleol fel llety gwyliau. Ond, mae angen sicrhau cydbwysedd ac, o ystyried y nifer fawr o safleoedd gwyliau yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd, fe fydd yr Awdurdod yn ceisio blaenoriaethu darpariaeth tai fforddiadwy dros lety hunanarlwygo ble mae cyfleoedd o'r fath yn codi.
- 4.165 Fe fydd amodau cynllunio yn sicrhau bod cyfleusterau yn parhau i fod yn unedau o lety gwyliau a ddim yn cael eu defnyddio fel unig gartref neu brif gartref. Yn ychwanegol at hyn, er mwyn atgyfnerthu'r gallu i reoli datblygiadau hunanarlwygo, fe fydd amodau'n cael eu cyflwyno i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei rheoli fel menter busnes yn hytrach nag ail gartref.
- 4.166 Fe fydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio i ystyried llety sy'n cael ei adeiladu o'r newydd a thrawsnewid at lety hunanarlwygo.

Polisi 38	Meysydd Pebyll, Carafannau Sefydlog, Carafannau Teithiol a Chalet Ni chaniateir meysydd gweryslla, carafanio, carafannau statig na chalet, nac ymestyn safleoedd sydd eisoes yn bodoli, naill ai trwy gynnyddu'r nifer o leiniau neu ymestyn arwynebedd y safle a gymeradwywyd. Fel eithriad, efallai y bydd modd ymestyn arwynebedd safleoedd carafannau statig a chalets ble byddai hyn yn sicrhau gwelliant amgylcheddol ar gyfer y safle a'i osodiad yn y dirwedd o amgylch.
-----------	---

- 4.167 Mae'r polisi hwn yn ceisio rheoli mwy o ddarpariaeth meysydd carafannau, pebyll a chalets.
- 4.168 Mae mwyafriif y meysydd carafannau a phebyll yn Sir Benfro o fewn y Parc Cenedlaethol, sydd ond yn 37% o gyfanswm arwynebedd tir y Sir. Mae'r defnydd o leiniau ar feysydd carafannau statig o fewn y Parc Cenedlaethol hefyd llawer yn fwy na'r rheiny sydd tu allan i'r Parc Cenedlaethol.
- 4.169 Efallai y bydd cyfleoedd yn codi i wella ansawdd safleoedd chalet, trwy ail-ddylunio, tirlunio ayb, heb gynnydd yn yr ardal weithredol neu'r nifer o leiniau. Yr unig eithriad i hyn yw ble bydd ymestyn y safle yn arwain at welliant amgylcheddol yn y pendraw. Efallai y bydd modd gwireddu hyn trwy ostwng y dwysedd yn y pendraw a chaniatáu tirlunio ychwanegol, neu symud lleiniau at leoliadau llai amlwg fel bod y lleoliad yn ymdoddi'n well i'r ardal o'i amgylch. Wrth sicrhau gwelliannau amgylcheddol trwy ymestyn safle, ni fydd disgwyl gwelliannau sydd ddim yn gysylltiedig fel darparu cyfleusterau ychwanegol neu uwchraddio darpariaeth carafannau. Ni chaniateir cynnydd yn y nifer o leiniau yn yr amgylchiadau hyn.

Polisi 39	Uwchraddio Carafannau Sefydlog, Safleoedd Teithiol a Thir ar gyfer Pebyll Caniateir uwchraddio safleoedd carafán statig, lleiniau carafannau teithiol neu lleiniau pebyll, at fathau eraill o lety hunangynhaliol, yn yr achosion canlynol: a) mae'r safle o fewn Canolfan; ac b) mae'r cynnig yn rhan o gynllun rhesymoli a fydd yn arwain at fanteision amgylcheddol o ran gosodiad, cynllun a'r defnyddiau a ddefnyddir; ac
-----------	---

c) mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda Polisi 35c).

- 4.170 Bwriad y polisi hwn yw rhoi lle i wella'r stoc o ofodau gwely gwyliau fel bod modd sicrhau bod mwy o lety addas ar gael yn ystod y cyfnod tu allan i'r cyfnod brig, a bod ansawdd y cynnig i ymwelwyr wedi gwella.
- 4.171 Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn cynnig gwir fanteision sydd â sylfaen eang, mae'r meini prawf a nodwyd yn gofyn i gynlluniau fod o safon uchel ac i gael eu dylunio mewn ffordd a fydd yn gwella safonau amgylcheddol. Dylai datblygiadau ostwng effeithiau niweidiol ar y dirwedd ac ymgorffori gwaith tirlunio a pharcio.
- 4.172 Mae o fewn canolfan yn golygu bod safle o fewn ffin Canolfan y Canolfannau hynny a restrwyd yn y Cynllun fel canolfannau gwasanaethau lleol a thwristiaeth, canolfannau lleol a chanolfannau gwledig.

Polisi 40 Cyfleusterau Safle ar Feysydd Pebyll, Chalets a Charafannau

Caniateir datblygu cyfleusterau manwerthu a chyfleusterau eraill ar feysydd pebyll, chalets a charafán ble:

- a) **gellir dangos nad yw'r cyfleuster ar gael yn barod yn yr ardal; ac mae maint a chynllun y cyfleuster yn gydnaws â chymeriad yr ardal o amgylch; ac**
- b) **nid oes effeithiau niweidiol ar hyfywedd ac ymarferoldeb manwerthu a gwasanaethau Canolfannau gerllaw.**

- 4.173 Derbynnir, yn gyffredinol, bod meysydd chalet, carafán a phebyll angen cyfleusterau ymolchi a thoiledau o ansawdd da. Yn ychwanegol at hyn, mae meysydd carafán a chalet mwy o faint yn gallu cyfiawnhau, er enghraifft, darparu siop ar gyfer y maes, swyddfa, cyfleuster golchi dillad neu ystafell gemau. Ble'n bosib, dylid gwneud hyn trwy addasu neu newid adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er y cydnabyddir y bydd angen adeiladau newydd mewn rhai achosion. Ni fydd darpariaeth cyfleusterau arlwy, hamdden neu siopa ar raddfa sy'n fwy na gofynion rhesymol anheddwyr y safle, neu sydd â pherthynas wan at faint, cymeriad neu leoliad y safle, yn cael ei annog. Efallai y bydd cyfleusterau mwy o faint, a chyfleusterau sydd ar raddfa fwy, yn cael eu hystyried ble mae prinder cyfleusterau o'r fath yn yr ardal leol. Gwrthwynebir trawsnewid safleoedd yn gyfodeiladau gwyliau hunangynhaliol sy'n darparu cyfleusterau hamdden neu siopa helaeth ac amhriodol. Rhaid cael cydbwysedd, felly, rhwng yr angen i gynnal neu wella ansawdd cyfleusterau ar y safle (gan ystyried gofynion trwyddedu safleoedd), a'r angen i ddiogelu cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli mewn Canolfannau gerllaw.
- 4.174 Ar safleoedd bach yn enwedig, gwrthwynebir datblygiad cyfleusterau sydd tu hwnt i'r rheiny y mae eu hangen ar yr awdurdod trwyddedu. Fe fydd disgwyl rhoi lle i'r cyfleusterau o dan y polisi hwn o fewn cyfyngiadau'r safle presennol. Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, fe fydd yn briodol gosod amodau ar ganiatâd ar gyfer cyfleusterau o'r fath i gyfyngu eu defnydd at bobl sy'n aros ar y safle. Fe fydd amodau o'r fath yn sicrhau bod maint y cyfleusterau'n parhau i fod yn addas at y diben gwreiddiol ac fe fydd yn sicrhau nad yw hyfywedd ac ymarferoldeb cyfleusterau lleol yn cael eu tanseilio.

Polisi 41 Newid Defnydd o Leiniau Pebyll i Leiniau Carafannau Teithiol

Caniateir newid lleiniau pebyll sydd â chaniatâd cynllunio dilys, neu ddefnydd

cyfreithiol, at leiniau “uned” (pabell, carafán modur a faniau teithio) yn yr achosion canlynol:

- a) nid oes cynnydd yn y nifer o leiniau; ac**
- b) nid yw'r arwynebedd a gymeradwywyd ar gyfer y safle yn cael ei ymestyn; ac**
- c) mae'r ymddangosiad cyfan yn gwella o ganlyniad; ac**
- ch) mae o leiaf traean o gyfanswm y lleiniau yn dal i fod yn arbennig ar gyfer pebyll.**

4.175 Mae Polisi 38 yn nodi na roddir caniatâd cynllunio i ddatblygu meysydd carafán a phebyll newydd yn y Parc Cenedlaethol o ystyried effeithiau datblygiadau pellach ar dirwedd y Parc Cenedlaethol - effeithiau a allai fod yn niweidiol. Mae'r Parc Cenedlaethol yn arbennig o agored at bwysau o'r fath. Fodd bynnag, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cydnabod bod ymwelwyr sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol wedi newid eu hoffter o bebyll i garafannau teithiol. Er mwyn darparu ar gyfer y newid hwn mewn galw, mae'r polisi uchod yn caniatáu newid cyfyngedig ar feysydd pebyll, ble'n briodol, tra'n ceisio cadw elfen o ddarpariaeth ar gyfer pebyll. Rhaid bod y rhwydwaith heolydd lleol yn gallu cynnal y nifer o gerbydau, a'r math o draffig, a gynhyrchir, gan ystyried gofynion penodol carafannau teithiol, heb niweidio cymeriad yr heolydd hynny, a'r ardal y maen nhw'n pasio drwyddi.

4.176 Mae'r gwahaniaethau rhwng carafannau teithiol a phebyll wedi dod yn llai a llai amlwg gyda datblygiad pebyll trelar a charafannau gydag adlen estynedig. Fodd bynnag, fe fydd y newid mewn defnydd a ganiateir gan y polisi hwn, mewn llawer o achosion, yn arwain at fwy o unedau yn cael eu tynnu a'u parcio ar y safle. Felly, fe fydd mynediad at y safle, a'r gallu i'w sgrinio, yn ystyriaethau o bwys wrth ystyried y fath newidiadau mewn defnydd.

4.177 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r safleoedd hynny sydd â'r fantais o ganiatâd cynllunio a'r rheiny sydd â Thystysgrif o Ddefnydd Presennol Cyfreithiol neu Dystysgrif Defnydd Sefydledig. Nid yw safleoedd 'rheol 28 diwrnod' na safleoedd a weithredir gan 'fudiadau sydd wedi'u heithrio' yn cael eu hystyried fel safleoedd addas ar gyfer lleiniau uned. Nid yw safleoedd o'r fath yn disgyn o fewn sgôp y polisi hwn. Mewn unrhyw achosion o'r fath gofynnir bod:

4.178 Amod yn atal anheddiad trwy gydol y flwyddyn yn cael ei gynnwys ar unrhyw ganiatâd; ac nad yw tir ychwanegol yn cael ei ddefnyddio o dan y rheol 28 diwrnod ar gyfer lleiniau pebyll. Fe fydd hyn yn cael ei sicrhau naill ai trwy gytundeb cyfreithiol neu rwymedigaeth.

Cyflogaeth

4.179 Y strategaeth ar gyfer cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth yw gwneud darpariaeth graddfa fach yn y Parc i wella lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc, a hefyd i helpu taclio materion tymhorol gyda chyflogaeth yn yr ardal. Ni ystyrir bod cynigion graddfa fawr yn gydnaws â'r dynodiad Parc Cenedlaethol. Gwelir datblygiad cyflogaeth graddfa fach fel datblygiad sy'n cynnwys llai na 2 hectar o dir ar gyfer busnes, diwydiant cyffredinol neu storio a dosbarthu.

4.180 Er mwyn sicrhau na chynhyrchir nifer sylweddol o siwrmeiau, y lleoliadau sy'n cael eu hyrwyddo, yn gyffredinol, yw'r rheiny ble mae cartrefi, siopau a gwasanaethau wedi eu lleoli neu ble cynigir eu lleoli. Fe fydd angen asesiad o effaith traffig ar gyfer y datblygiad. Ni chaniateir cynigion sy'n achosi effeithiau niweidiol sylweddol nad oes modd eu lliniaru – gweler Polisi 52.

4.181 Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol rhagwelir bod safleoedd cyflogaeth graddfa fach wedi cael eu datgloi ac yn cael eu datblygu mewn rhai o'r canolfannau mwy yn y Parc. Mae

defnyddiau cyflogaeth hefyd wedi cael eu cynhyrchu tu allan i'r ardaloedd hyn, ac mewn rhai achosion mae cyflogaeth wedi dod ymlaen fel rhan o uned byw/gwaith. Mae rhai safleoedd sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth ers peth amser yn dal i fod ar gael ar gyfer defnyddwyr newydd. Mae pob harbwr gweithiol yn y Parc Cenedlaethol yn dal i gyfrannu'n bositif at gyflogaeth yn yr ardal, ac at gymeriad yr ardal.

- 4.182 Mabwysiadwyd ymagwedd ddilyniannol at ryddhau tir i uchafu'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn y gorffennol. Mae'r dyraniadau defnydd cymysg/cyflogaeth yn cynnwys darpariaeth o tua 28% ar dir a ddatblygwyd yn y gorffennol.

<p>Polisi 42 SAFLEOEDD CYFLOGAETH AC UNEDAU BYW/GWEITHIO (Polisi Strategaeth)</p> <p>Fe fydd cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu a'u diogelu trwy:</p> <p>a) Nodi cyfleoedd cyflogaeth graddfa fach yn Nhyddewi.</p> <p>b) Cyfeirio cynigion cyflogaeth graddfa fach at leoliadau priodol yn y Canolfannau neu'r adeiladau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n addas i'w trawsnewid mewn ardaloedd gwledig (Gweler Polisi 7d). Mae arallgyfeirio ffermydd hefyd yn gallu helpu. (Gweler Polisi 7c)</p> <p>c) Cyfuno defnydd busnes gyda defnydd o fath arall fel cyfleusterau cymunedol neu dai sy'n cynnwys unedau byw/gweithiol. Mae safleoedd wedi eu nodi yn Nhrefdraeth a Thyddewi. Mae datblygiadau defnydd cymysg wedi eu cynnig yn Ninbych-y-pysgod, Saundersfoot a Broad Haven hefyd. Dangosir cyflogaeth a dyraniadau cymysg sydd wedi eu rhestru yn Nhabl 3 isod ar y Map Cynigion.</p> <p>ch) Diogelu safleoedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli at ddefnydd cyflogaeth ac eithrio mewn lleoliadau ble nad yw'r defnydd presennol yn addas ar gyfer yr ardal neu mae yna ddigon o ddarpariaeth yn barod, neu mae'r defnydd presennol yn anymarferol. Wrth feddwl am ddefnydd newydd ar gyfer safleoedd cyflogaeth segur fe fydd cyfleuster cymunedol neu dai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth. (Gweler Polisi 43)</p> <p>d) Gwarchod a gwella'r porthladdoedd gweithiol yn Ninbych-y-pysgod, Saundersfoot, Solfach a Phorthgain. (Gweler Polisi 18)</p>

Tabl 3 Dyraniadau Safleoedd Defnydd Cymysg/Cyflogaeth (Gweler Map Cynigion ac Atodiad 2)

Lleoliad/ Cyfeirnod Map Cynigion	Enw'r Safle	Arwynebedd Mewn Hectarau	Unedau Preswyl	% o Unedau Fforddiadwy	Darpariaeth Tai Fforddiadwy a ddisgwyllir	Defnydd Arfaethedig
Dinbych-y-pysgod MA706	Upper Park Road, Dinbych-y-pysgod	0.01	4	60	2	Cymysg (Preswyl a Manwerthu)
Dinbych-y-pysgod MA707	White Lion St/Deer Park, Dinbych-y-pysgod	0.49	74	60	44	Cymysg (Preswyl, Manwerthu, Gwesty a Sinema)

Lleoliad/ Cyfeirnod Map Cynigion	Enw'r Safle	Arwynebedd Mewn Hectarau	Unedau Preswyl	% o Unedau Fforddiadwy	Darpariaeth Tai Fforddiadwy a ddisgwylir	Defnydd Arfaethedig
Dinbych-y- pysgod MA710	Sergeants Lane, Dinbych-y- pysgod	0.09	5	60	3	Cymysg (Preswyl, Gweithdy a Manwerthu)
Trefdraeth MA232	Tir ger y Parc Busnes, Feidr Pen y Bont	0.79	6	Unedau Byw/Gweithio	0	Cymysg (Unedau Byw/Gweithio)
Saundersfoot MA777	Cefn Gwesty Cambrian, Saundersfoot	0.30	37	(cymeradwyaeth ar hyn o bryd ar gyfer 7 fforddiadwy/ adnewyddu 60%)	7	Cymysg (Preswyl, Manwerthu & Tafarn A3)
Tyddewi EA748	I'r de o Gynulladau Tyddewi	0.93	0	0	0	Cyflogaeth B1, B8, Cyfleuster Rheoli Gwastraff Lleol
Tyddewi MA746	Rhwng Heol Glasfryn a Pharc Millard, Tyddewi	0.74	5	Unedau Byw/Gweithio	0	Cymysg (Unedau Byw/Gweithio)
Broad Haven MA776	Tir yn Broad Haven i'r gogledd ddwyrain o Marine Road	2.29	35	37	13	Cymysg (Preswyl, Workshops & Cyfleuster cymunedol)
Gorsaf Maenorbŷr MA895	Y tir yn Buttylands, Gorsaf Maenorbŷr	0.59	15	50	8	Cymysg (Preswyl/ Addysg)
Llanisan-yn- Rhos MA733	Ger yr Ysgol, Llanisian-yn- Rhos	2.39	40	50	20	Cymysg (Preswyl/ Addysg)
		8.62	221		97	

4.183 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar ddatblygiadau cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Gweler Pennod 7 'Cynnal yr Economi'.

4.184 Mae'r polisi a'r cyngor canlynol yn rhoi canllawiau ychwanegol ar warchod safleoedd cyflogaeth.

Caniateir ailddatblygu, neu ddefnyddio, safleoedd neu adeiladau busnes, diwydiannol cyffredinol, storio neu ddsbarthu at ddibenion eraill yn yr achosion canlynol:

- a) nid yw'r defnydd presennol yn addas ar gyfer yr ardal; neu**
- b) mae yna ddigon o ddarpariaeth arall yn yr ardal; neu**
- c) dangoswyd nad yw'r potensial ar gyfer parhau i ddefnyddio'r safle neu'r lleoliad, yn ymarferol.**

Ble gellir cyfiawnhau colli safle cyflogaeth, fe fydd defnydd cymunedol neu dai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth ble mae angen o'r fath yn bodoli.

4.185 Nod y polisi hwn yw atal safleoedd ac adeiladau cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli rhag cael eu colli mewn ffordd amhriodol, at ddefnydd arall, onid oes manteision uwch i'r datblygiad newydd neu mae yna ddigon ohonynt ar gael mewn mannau eraill yn yr ardal. Mae 'Safleoedd ac adeiladau cyflogaeth' yn golygu safleoedd ac adeiladau (naill ai rhai sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu rhai sydd ddim yn cael eu defnyddio) sydd â chaniatâd cynllunio, defnydd cyfreithiol neu mae'n cael ei glustnodi at ddibenion cyflogaeth. Yn y Parc Cenedlaethol, mae'r tir addas sydd ar gael ar gyfer datblygiadau busnes yn gyfyngedig. Mae'n arbennig o bwysig gwarchod safleoedd sydd eisoes yn bodoli, fel hen safleoedd garej, i'w defnyddio ar gyfer cyflogaeth ac i'w hatal rhag cael eu hailddatblygu at ddibenion eraill. Yn ymarferol, dylai cadw defnydd presennol gynnwys cynnig y safle i'w werthu ar y farchnad agored am o leiaf un flwyddyn, am bris realistig. Ym maen prawf a) fe fydd y defnydd presennol yn cael ei feirniadu yn nhermau pa mor gydnaws ydyw natur a maint y defnydd o fewn yr ardal leol, a'i effaith ar y rhydwraith heolydd lleol. Ym maen prawf b) fe fydd asesu darpariaeth addas arall yn yr ardal yn ystyried yr angen am y defnydd presennol, argaeledd safleoedd gwag a safleoedd a glustnodwyd ar gyfer cyflogaeth.

Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol

4.186 Mae canolfannau sydd â thir wedi ei glustnodi ar gyfer cyflogaeth yn debygol iawn o fod angen nawdd cyhoeddus i helpu datgloi safleoedd trwy Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Penfro. Gweler Atodiad 2 am gyngor pellach.

Blaenoriaeth D: Darparu Tai a Thai Fforddiadwy

Ch. Darparu Tai a Thai Fforddiadwy

- 4.187 Mae Polisi 20 ar faint a lleoliad tyfiant, yn ceisio darparu ar gyfer datblygiadau sy'n ceisio cwrdd ag anghenion y boblogaeth leol, gyda blaenoriaeth i drosglwyddo anghenion tai fforddiadwy sy'n gydnaws â'r dynodiad Parc Cenedlaethol.
- 4.188 Y strategaeth yn y fan hon yw darparu tir datblygu yn bennaf ar gyfer tai fforddiadwy, gan ganiatáu digon o ganran o dai ar y farchnad i gymorthdalau'r tai fforddiadwy hynny. Roedd yna angen i gyfyngu ar ddatblygiadau hefyd, er mwyn ystyried yr angen i warchod y Parc Cenedlaethol.
- 4.189 Mae'r ffordd y penderfynwyd ar y strategaeth hon yn cael ei hesbonio'n fanwl isod gan ystyried materion sy'n deillio o waith amrywiol ar ragamcanu'r boblogaeth; yr anawsterau wrth nodi'r union angen am dai fforddiadwy ac, yn olaf, yr elfennau sensitif penodol y mae'n rhaid eu hystyried pan fydd angen gwarchod nodweddiad arbennig Parc Cenedlaethol.
- 4.190 **Rhagamcan o'r boblogaeth:** Mae cynnydd tai ar gyfer y Parc, fel y amcanwyd ar sail *pro-rata*, o ffigurau rhagamcanu'r boblogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Sir Benfro, yn dangos potensial i gynyddu'r nifer o aneddiadau o 9,862 i 12,114, cynnydd o 2,252. Wedi tynnu'r 496 a gwblhawyd yn y Parc rhwng 2001 a 2007 mae hyn yn gadael y ffigwr o 1,756, neu 125 y flwyddyn, fel canllaw ar gyfer y nifer o dai i'w darparu. Fe fyddai dadnasoddi'r ffigurau fesul is-ardaloedd o'r Parc yn golygu:

Tabl 4 Ffigurau Rhagamcanu Teuluoedd

Teuluoedd	2001	2006	2011	2016	2021	Cwblhau 01 i 07	Yr Angen o 07 i 21	Gofynion Blynyddol
Dinbych-y-pysgod	2300	2513	2618	2726	2821	100	421	30
Trefdraeth	554	605	631	657	680	20	106	8
Saundersfoot	1238	1353	1409	1467	1519	40	241	17
Tyddewi	809	884	921	959	992	38	145	10
Canolfannau Gwledig ac Chefn Gwlad	4961	5,436	5,663	5,895	6,102	298	843	60
Cyfanswm	9862	10,791	11,242	11,704	12,114	496	1756	125

- 4.191 Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi rhagamcanion o'r boblogaeth ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol (2008) sy'n dangos tyfiant yn y boblogaeth (os yw'n cael ei ystyried ar sail *pro rata* ar gyfer y Parc Cenedlaethol) o 2003 i 2023, o 23,027 i 24,334 (cynnydd o 1,307). Rydym yn aros am y rhagamcanion ar gyfer teuluoedd. Yng Nghyfrifiad 2001, maint y cartref cyfartalog oedd 2.26 person. Gan ddefnyddio'r ffigwr hwn, fe fyddai'r cynnydd yn y boblogaeth yn awgrymu, yn fras, cynnydd o 578 yn y nifer o deuluoedd dros y cyfnod.
- 4.192 Fodd bynnag, nid yw dyrannu'r tyfiant yn syml ar sail y boblogaeth, o'r rhagamcanion ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol, yn debygol o gynnig rhagamcan defnyddiol o'r boblogaeth. Mae natur y boblogaeth gychwynnol, a'r boblogaeth fudol, yn wahanol yn yr ardal tu mewn a thu allan i'r Parc Cenedlaethol. Yn fyr, mae'r ddau grŵp yn dueddol o fod yn hŷn yn y Parc Cenedlaethol na gweddi Sir Benfro. Mae rhagamcan o'r boblogaeth a baratowyd ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol gan Gyngor Sir Penfro yn dangos y bydd cyfanswm nifer trigolion y Parc Cenedlaethol fwy neu lai fel ag yr oedd yng Nghyfrifiad 2001.

- 4.193 Mae'r rhagamcan sy'n seiliedig ar 2001, a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Penfro, yn cynnwys rhagamcan ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ar sail oed a dosbarthiad rhyw yn y Parc yn 2001, ac ymfudiadau rhwng 2001 a 2005. Mae'r ffigurau hyn rhoi rhagamcan cydran carfan gwirioneddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, yn hytrach na rhagamcan sy'n seiliedig ar ddsraniad o ragamcan cydran ar gyfer ardal ehangach. Fel y cyfryw, y rhagamcan sy'n seiliedig ar 2001, a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Penfro, yw'r mwyaf credadwy o'r rhagamcanion sydd ar gael ac mae'n awgrymu y bydd poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn dirywio ychydig rhwng 2001 a 2021. Hyd yn hyn, mae'r rhagamcan¹³⁶ hwn wedi ei gefnogi gan ragamcanion o'r boblogaeth ar gyfer 2001 i 2005 a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, sy'n dangos gostyngiad cymharol yn y boblogaeth. Mae rhagamcanion ar gyfer y nifer o deuluoedd, a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Penfro fel rhan o'r un papur rhagamcanion, yn dangos bod y nifer o deuluoedd yn gostwng ac fe fydd hyn yn gwneud iawn am y dirwiad yn y boblogaeth fel bod y nifer o deuluoedd yn aros yr un peth.
- 4.194 Felly, mae'r rhagamcan mwyaf credadwy ar gyfer poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn awgrymu nad oes unrhyw gyfiawnhad dros ddatblygu tai yn y Parc Cenedlaethol i gartrefu poblogaeth sydd ar gynnydd.
- 4.195 **Anghenion Tai Fforddiadwy:** Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn awgrymu bod yna angen sylweddol am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae yna bryderon sylweddol ynghylch dilysrwydd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a chredir bod y ffigurau a gyfrifwyd yn goramcangyfrif yn sylweddol. Yn bennaf, credir bod hyn yn ganlyniad i ddyraniad pro-rata rhagamcanion y boblogaeth i'r Parc Cenedlaethol ac ni theimlir bod hyn yn briodol mewn egwyddor (gweler uchod). Hefyd, mae ychwanegu'r teuluoedd sy'n cyflwyno cais am dŷ i'r Awdurdod Tai, at y nifer o deuluoedd y rhagamcangyfrifir y byddant yn ffurfio, yn debygol o ddyblygu ffigurau.¹³⁷
- 4.196 Mae'r Gofrestr Tai ar gyfer Sir Benfro yng Ngorffennaf 2008 yn awgrymu bod angen tua 460 o dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol.¹³⁸ Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli'r ôl-groniad o angen am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn dibynnu ar y Gofrestr Tai fel y brif ffynhonnell ar gyfer tystiolaeth o angen.
- 4.197 Mae'r ffigurau ymfudiad a ddefnyddiwyd yn rhagamcanion Cyngor Sir Penfro ar gyfer y boblogaeth yn gwahanu ymfudiad i'r Parc Cenedlaethol ac oddi yno yn ffigurau ar gyfer ymfudiad i weddill Sir Benfro a ffigurau ar gyfer ymfudiad i leoliadau tu hwnt i'r Sir. Mae patrymau oed gwahanol yr ymfudiad hwn yn awgrymu bod o leiaf peth o'r ymfudiad allan o'r Parc Cenedlaethol i Sir Benfro yn deuluoedd sydd ddim yn gallu cael tai addas y maen nhw'n gallu eu fforddio yn y Parc Cenedlaethol, hynny yw, teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis aros yn y Parc Cenedlaethol.
- 4.198 Felly, er y credir bod ffigurau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn goramcangyfrif, mae'r dystiolaeth o'r Gofrestr Tai, a phatrymau oed ymfudiad gyda gweddill Sir Benfro, yn awgrymu y gallai fod yna angen sylweddol am dai fforddiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 4.199 **Nodweddion Arbennig:** Os ydym am gynnal nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, mae'r nifer o dai y gellir eu hadeiladu yn cael ei gyfyngu gan allu'r dirwedd i'w amsugno heb iddo effeithio'n sylweddol arni. Er hynny, mae wedi bod yn bosib nodi safleoedd i ddatblygu 1,349¹³⁹ uned breswyl o fewn y Parc Cenedlaethol - gweler y tabl isod. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cyfraniadau tebygol o gyfleoedd ffawdelw¹⁴⁰. Felly, er gwaethaf y cyfyngiadau sydd eu hangen i warchod y Parc Cenedlaethol, gellir dyrannu safleoedd ar gyfer datblygu tai yn y Parc Cenedlaethol.

¹³⁶ Rhagamcan o'r Boblogaeth, Teuluoedd a Gweithlu Cyngor Sir Penfro (2008)

http://www.pembrokeshire.gov.uk/objview.asp?Language=&object_id=4136

¹³⁷ Gweler Papur Cefndir Tai sy'n cynnwys manylion am y pryderon hyn (16-18).

¹³⁸ Gweler Papur Cefndir Tai am fanylion llawn.

¹³⁹ Gweler Papur Cefndir Tai a Phapur Cefndir Meini Prawf Safleoedd am fanylion llawn.

¹⁴⁰ Gweler Geirfa

Tabl 5 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai

Lleoliad	Cyflenwad Mawrth 2007 ¹⁴¹	Arolwg o Safleoedd Potensial – Tai Pob Safle	Dyraniadau Tai (5 anheddiad neu fwy)	Arolwg o Safleoedd Potensial – Defnydd Cymysg Y Cyfan wedi'u Dyrannu	Ffigur Darpariaeth Tai	Cyfradd Cwblhau Blynyddol Cyfartalog (97-07)	Ffigur Darpariaeth Flynyddol
Canolfan Haenen 2							
Dinbych-y-pysgod	86	345	345	83	514	14.1	34
Canolfannau Haenen 3							0
Trefdraeth	15	27	20	6	48	2.2	3
Saundersfoot	78	0	0	37	115	10.8	8
Tyddewi	16	113	113	5	134	4.8	9
Crymych	0	15	15	0	15	0.4	1
Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad	192	241	215	90	523	55	35
Cyfanswm	387	741	708	221	1349	87.3	90

- 4.200 Cynigir dwysedd o o leiaf 30 anheddiad i bob hectar yn y 'Canolfannau' a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol, i wneud y defnydd gorau posib o'r tir sydd ar gael. Mae cyfraniad bach pellach yn debygol o safleoedd ffawdelw¹⁴² (amcangyfrifir 250 uned breswyl) trwy gyfleoedd a ddarperir mewn lleoliadau gwledig a thrwy gyfleoedd nad oeddem wedi eu rhagweld yn y Canolfannau.
- 4.201 **Casgliad:** Er nad oes unrhyw reswm dros ddyrannu tir i gartrefu poblogaeth sy'n cynyddu, mae angen dyrannu tir er mwyn adeiladu tai mwy fforddiadwy, fel bod y gyfran o'r tai sy'n fforddiadwy i'r farchnad yn adlewyrchiad gwell o'r tai sydd eu hangen yn y Parc Cenedlaethol.
- 4.202 Mae'r nifer o dai fforddiadwy sydd eu hangen yn y Parc Cenedlaethol (boed yn rhai a nodwyd trwy'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol neu'r Gofrestr Tai) yn fwy na'r hyn y gellir ei ddarparu trwy gymhorthdal cyhoeddus, trwy'r Grant Tai Cymdeithasol - oni chynyddir yr arian sydd ar gael ar gyfer cymhorthdal o'r fath i raddau sylweddol iawn.
- 4.203 Mae astudiaethau dichonolrwydd ar ddatblygiadau ar y safleoedd a ddyrannwyd¹⁴³ yn y Cynllun Datblygu Lleol yn awgrymu'n gryf, hyd yn oed heb Grant Tai Cymdeithasol, y byddai modd datblygu mwyafrif y safleoedd gyda 50 i 70% o'r tai'n rhai fforddiadwy, gyda chymhorthdal o'r elw o'r aneddiadau ar y datblygiad sydd ar y farchnad.
- 4.204 Felly, mae'r elw o'r tai ar y farchnad mewn datblygiadau daliadaeth gymysg yn gallu cymorthdal mwy o dai fforddiadwy nag y gellir eu trosglwyddo trwy gymhorthdal cyhoeddus. Digon o dai i gwrdd ag o leiaf peth o'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (os yw hyn yn gywir) a'r holl anghenion cyfredol a nodwyd yn y Gofrestr Tai.
- 4.205 Mae'r tabl isod yn dangos y ddarpariaeth tai fforddiadwy a ragwelir dros gyfnod y Cynllun. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau posib o ffawdelw a safleoedd eithriad yn ystod cyfnod y Cynllun. Fe

¹⁴¹ Tir gyda chaniatâd cynllunio

¹⁴² Cyfraniadau na ragwelwyd at y cyflenwad tir ar gyfer tai trwy, er enghraifft, ddymchwel neu aildefnyddio adeiladau.

¹⁴³ Gweler Geirfa

fydd y ddarpariaeth yw rhoi sylw i'r ôl-groniad o angen am dai fforddiadwy fel y nodwyd ar y Gofrestr Tai, yn ogystal ag anghenion newydd sy'n codi. Profwyd materion ymarferoldeb ariannol wrth wneud yr asesiadau hyn, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol¹⁴⁴. Ble mae modd profi nad yw cynnig yn gallu cael ei wireddu (h.y. ni fyddai'r cynnig yn ymarferol yn ariannol) o ran gofynion polisi'r Cynllun ar gyfer darparu tai fforddiadwy, y safonau dylunio cynaliadwy a ddisgwyli'r a seilwaith cymunedol, rhoddir blaenoriaeth i gynnig tai fforddiadwy mewn unrhyw drafodaethau pellach.

Tabl 6 Tai Fforddiadwy

Lleoliad	O dir sydd â chaniatad Mawrth 07	Dyraniadau Tai	Safleoedd Defnydd Cymysg	Cyfanswm
Dinbych-y-pysgod	4	207	49	260
Crymych	0	8	0	8
Saundersfoot	0	0	7	7
Tyddewi	0	50	0	50
Trefdraeth	13	14	0	27
Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad	5	119	41	165
	22	398	97	517

- 4.206 Yn gyffredinol, fe fydd tai fforddiadwy wedi cael eu sicrhau trwy drafodaethau ar safleoedd o 2 uned neu fwy gyda 50% o'r ddarpariaeth yn dai fforddiadwy¹⁴⁵. Mewn ardaloedd ble mae yna angen sylweddol am dai fforddiadwy, ac mae'r cyflenwad tir yn gyfyngedig, fe fydd y ffigur hwn yn uwch (gweler y polisi isod)¹⁴⁶. Er mwyn helpu rhoi hwb i'r ddarpariaeth, rhoddir blaenoriaeth i anghenion tai fforddiadwy mewn lleoliadau gwledig mewn cyfleoedd i drawsnewid a mewnlenni ayb. Fe fydd peth darpariaeth fforddiadwy hefyd wedi ei sicrhau ble nad oedd angen cyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli mwyach neu ble teimlwyd nad oedd angen ymarferol yn fasnachol, a thrwy ryddhau tir na fyddai'n cael ei ryddhau fel arfer. Yn ychwanegol at hyn, ailddefnyddiwyd rhai safleoedd cyflogaeth i ddarparu tai fforddiadwy.
- 4.207 Fe fydd safleoedd eithriad hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r Galluogwr Tai Gwledig¹⁴⁷ ar gyfer Sir Benfro wedi cynnal cyfres o arolygon yn y Parc Cenedlaethol ac mae'r gwaith yn parhau i archwilio cyfleoedd i ryddhau tir.

Polisi 44 TAI (Polisi Strategaeth)¹⁴⁸

Yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol - dyddiad terfyn 2021, fe fydd tir yn cael ei ryddhau i ddarparu tua 962 o aneddiadau. Rhestrir y dyraniadau ar gyfer tai yn Nhabl 7 ac maen nhw wedi eu dangos ar y Map Cynigion. Mae hyn yn ychwanegol at dir sydd â chaniatad cynllunio yn barod - 387.

Fe fydd yr aneddiadau hyn yn cael eu dosbarthu fel a ganlyn:

a) Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth Dinbych-y-pysgod – tua 428

¹⁴⁴ Gweler Papur Cefndir Tai.

¹⁴⁵ Sylwer mai'r terfyn ar gyfer trafod y ddarpariaeth tai fforddiadwy yw 2 uned preswyl neu fwy. Ble mae cais cynllunio yn dod i law ar gyfer safle o dan y terfyn ar gyfer tai fforddiadwy, ond mae'n rhan o safle mwy o faint sy'n uwch na'r terfyn, yna fe fydd yr Awdurdod yn disgwyl i dai fforddiadwy gael eu darparu. Fe fydd hyn yn sicrhau nad yw'r safleoedd yn cael eu rhannu yn rhannau llai a'u gwneud yn raddol, i osgoi'r angen am dai fforddiadwy

¹⁴⁶ Gweler Papur Cefndir Tai am fanylion llawn ar y ffordd y cyfrifwyd y canrannau hyn.

¹⁴⁷ Gweler Geirfa

¹⁴⁸ Gweler Polisi 6 am restr o'r Canolfannau.

anheddiad (tir sydd â chaniatad cynllunio yn barod 86 anheddiad)

- b) Canolfannau Lleol Trefdraeth, Tyddewi, Saundersfoot a Chrymych - tua 203 anheddiad (tir sydd â chaniatad cynllunio yn barod - 109 anheddiad)
- c) Canolfannau Gwledig¹⁴⁹ a Chefn Gwlad – tua 331 anheddiad (tir sydd â chaniatâd cynllunio yn barod 192 anheddiad)

Disgwylir cyfraniad ffawdelw o 250 anheddiad hefyd.

Fe fydd yr Awdurdod yn gofyn am ddwysedd o o leiaf 30 anheddiad i bob hectar ar ddatblygiadau tai yn y Canolfannau, ble mae hyn yn gydnaws â chymeriad y Canolfannau. Fe fydd angen i ddatblygiadau tai mewn lleoliadau gwledig, fel y caniateir o dan Bolisi 7, fod yn gydnaws â chymeriad presennol yr ardal.

Fe fydd rhai safleoedd yn gofyn am ddatblygiad cyfnodol – gweler tabl isod.

¹⁴⁹ Gweler Polisi 6 am restr o'r Canolfannau.

Er mwyn trosglwyddo tai fforddiadwy, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, fel rhan o'r ddarpariaeth dai, yn:

- a) Ceisio sicrhau bod 50% o dai yn rhai fforddiadwy, i gwrdd â'r angen a nodwyd mewn datblygiadau o 2 uned neu fwy mewn datblygiadau tai ymhob Canolfan a nodwyd yn ardal y Cynllun, gyda'r eithriadau canlynol ble bydd canran uwch yn cael ei drafod: Dinbych-y-pysgod (60%), Trefdraeth (70%), Saundersfoot (60%), Dale (80%), Dinas Cross (100%) a New Hedges (60%).
- b) Caniatáu rhyddhau tir eithriadol o fewn Canolfannau, neu gerllaw, ar gyfer tai fforddiadwy, i gwrdd ag angen a nodwyd yn lleol.¹⁵⁰
- c) Ble nodwyd angen am dai fforddiadwy, blaenoriaethu tai fforddiadwy mewn lleoliadau gwledig trwy lenwi bylchau neu rowndio neu trwy drawsnewid¹⁵¹. Gofynnir i 50% o'r tai fod yn dai fforddiadwy i gwrdd ag angen a nodwyd, mewn datblygiadau o 2 uned breswyl neu fwy.
- d) Ceisio swm cymudo i helpu trosglwyddo tai fforddiadwy ar ddatblygiadau tai o dan y terfyn o 2 uned (h.y. ar gynigion ar gyfer unedau preswyl sengl).¹⁵²¹⁵³

Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer cyfleuster cymunedol segur, fe fydd defnydd cyflogaeth neu dai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth. Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer defnydd cyflogaeth fe fydd defnydd cymunedol fel darparu tai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth. Gofynnir i 50% o'r tai fod yn dai fforddiadwy, i gwrdd ag angen a nodwyd, mewn datblygiadau o 2 uned breswyl neu fwy.

Ble mae modd profi nad oes modd gwireddu cynnig i ddatblygu (h.y. ni fyddai'r cynnig yn ymarferol yn ariannol) yn nhermau gofynion polisi'r Cynllun (h.y. ar gyfer darparu tai fforddiadwy, y safonau dylunio cynaliadwy a ddisgwylir a darparu seilwaith cymunedol) rhoddir blaenoriaeth i drosglwyddo tai fforddiadwy mewn unrhyw drafodaethau pellach, tra bod modd dangos na fyddai'r cynnig yn rhoi pwysedd gormodol ar y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y seilwaith cymunedol.

Y targed ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer cyfnod y Cynllun yw 530 uned breswyl.

4.208 Fe fydd angen diweddarau canllawiau cynllunio ar dai fforddiadwy a baratowyd ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro.

¹⁵⁰ Ar safleoedd eithriad, dylai tai fforddiadwy gwrdd ag anghenion pobl leol (paragraff 9.2.23 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010).

¹⁵¹ Mae Tai fforddiadwy mewn adeiladau a drawsnewidiwyd yng nghefn gwlad yn gallu bod ar gyfer anghenion lleol (paragraff 7.6.10 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010). Gweler hefyd paragraff 9.2.24 ynghylch cyfyngiadau i'w hystyried ar gyfer datblygiadau o'r fath.

¹⁵² Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010, paragraff 9.2.16

¹⁵³ Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar amrediad y cyfraniadau at dai fforddiadwy y bydd eu hangen gan ddatblygiadau uned sengl. Bydd y Canllawiau'n cael eu cwblhau o fewn 12 mis i'r dyddiad y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu.

Tabl 7 Dyrannu Safleoedd Tai (gweler Map Cynigion ac Atodiad 2)¹⁵⁴

Lleoliad	Cyfeirnod Map Cynigion	Enw'r Safle	Arwynebedd mewn Hectarau	Unedau Preswyl	% Unedau Fforddiadwy	Darpariaeth Tai Fforddiadwy a ddisgwyllir
Dinbych-y-pysgod	HA377	Brynhir	6.35	168	60	101
Dinbych-y-pysgod	HA723	Hen safle'r Ysbyty Cymunedol	0.17	10	60	6
Dinbych-y-pysgod	HA724	Maes Parcio'r Rheithordy	0.94	50	60	30
Dinbych-y-pysgod	HA727	I'r Gorrlewin o Heol Arberth	1.14	25	60	15
Dinbych-y-pysgod	HA752	Maes Parcio Butts Field, Dinbych-y-pysgod	0.94	80	60	48
Dinbych-y-pysgod	HA760	Safle Cronfa Ddŵr, Dinbych-y-pysgod	0.33	12	60	7
Crymych	HA750	Safle Depo	0.37	15	50	8
Trefdraeth	HA220	Maes Carafannau oddi ar Heol y Parrog	0.57	10	70	7
Trefdraeth	HA609	I'r Dwyrain o Faes Curig	0.12	5	70	4
Trefdraeth	HA825	I'r Gogledd o Feidr Eglwys	1.50	20	70	14
Tyddewi	HA385	I'r Gogledd o Dŵr-y-Felin	0.92	13	(caniatad ar hyn o bryd ar gyfer 0 fforddiadwy/adnewyddu 50%)	
Tyddewi	HA737	Gorrlewin Tyddewi Heol Glasfryn	3.80	90	50	45
Tyddewi	HA789	Ger Ysgol Bro Dewi, Nun	0.56	10	50	5
Broad Haven	HA734	I'r De o Driftwood Close	0.66	8	50	4
Dale	HA382	Castle Way	0.55	12	80	10
Dinas Cross	HA387	Gyferbyn â Bay View Terrace	0.25	12	100	12
Herbrandston	HA732	I'r Dwyrain o Neuadd Herbrandston	0.38	12	50	6
Jameston	HA436	I'r Gogledd o Fferm Landway	0.32	7	(caniatad ar gyfer 1 fforddiadwy/adnewyddu 50%)	

¹⁵⁴ Gweler Papurau Cefndir 'Meini Prawf ar gyfer Safleoedd' a Papur Cefndir Tai am wybodaeth bellach. Dim ond safleoedd ar gyfer 5 anheddiad neu fwy a ddyrannir. Gweler hefyd Tabl 3 Safleoedd Cymysg ar gyfer cyfraniadau tai a thai fforddiadwy.

Lleoliad	Cyfeirnod Map Cynigion	Enw'r Safle	Arwynebedd mewn Hectarau	Unedau Preswyl	% Unedau Fforddiadwy	Darpariaeth Tai Fforddiadwy a ddisgwyllir
Jameston	HA730	Gyferbyn â Bush Terrace	1.69	35	50	18
Jameston	HA821	Green Grove	0.36	5	50	3
Lawrenny	HA559	Ger Home Farm	1.07	30	50	15
Gorsaf Maenorbŷr	HA848	Cae gyferbyn ag Ysgol GW Maenorbŷr	0.64	19	50	10
New Hedges	HA813	Cefn Cross Park	1.42	30	60	18
Solfach	HA384	Ger Bro Dawel	1.65	18	50	9
Solfach	HA792	Bank House, Whitchurch Lane	0.61	12	50	6
Trefin	HA738	I'r Gogledd o Heol Crwys	0.61	15	50	8
Cyfanswm			27.23	708		398

4.209 Fe fydd angen cyfnodau o ddatblygu ar rai safleoedd, er enghraifft, i ystyried gofynion seilwaith, effeithiau posib ar yr iaith Gymraeg, i ganiatáu i'r cymunedau amsugno'r datblygiad yn foddhaol neu i sicrhau bod peth tir ar gael trwy gydol cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Atodiad 2 yn esbonio cefndir y cyfnodau a gynigir. Am fwy o wybodaeth ynghylch safleoedd defnydd cymysg gweler Tabl 3 o'r Cynllun.

Tabl 8 Cyfnodau Safleoedd ar gyfer Tai a Defnydd Cymysg

Lleoliad Cyfeirnod Map Cynigion	Enw a Lleoliad y Safle	Nifer yr Unedau	Cam 1 (2007 - 2011)	Cam 2 (2012 -2017)	Cam 3 (2018 i 2021)
Broad Haven MA776	Tir i'r dwyrain o Marine Road	35		35	
Broad Haven HA734	I'r de o Driftwood Close	8		8	
Jameston HA730	Gyferbyn â Bush Terrace	35		20	15
Lawrenny HA559	Ger Home Farm	30	15	15	0
Gorsaf Maenorbŷr HA848	Cae gyferbyn ag Ysgol GW Maenorbŷr	19		9	10
Gorsaf Maenorbŷr MA895	Tir sy'n rhan o Buttylands	15		8	7
New Hedges HA813	Cefn Cross Park	30		15	15
Solfach HA384	Ger Bro Dawel	18		18	0
Solfach HA792	Bank House, Whitchurch Lane	12		12	0
Tyddewi HA737	I'r gorllewin o Heol Glasfryn	90		30	60

Lleoliad Cyfeirnod Map Cynigion	Enw a Lleoliad y Safle	Nifer yr Unedau	Cam 1 (2007 - 2011)	Cam 2 (2012 -2017)	Cam 3 (2018 i 2021)
Llanisan-yn- Rhos HA733	Ger yr Ysgol	40		16	24
Dinbych-y- pysgod HA377	Brynhir	168	30	90	48
Trefin HA738	I'r gogledd o Heol Crwys	15		10	5
		515	45	286	184

4.210 Mae'r polisïau a'r cyngor canlynol yn rhoi arweniad pellach ynghylch tai.

Safleoedd Sipsiwn

Polisi 46	Safleoedd Sipsiwn
	<p>Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn yr achosion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) mae yna dystiolaeth o'r angen i leoli neu ddarparu trefniadau dros dro yn yr ardal; ac b) mae'r safle mewn lleoliad da i wasanaethu anghenion Sipsiwn a Theithwyr gan gynnwys yr angen i ddefnyddio gwasanaethau lleol; ac c) mae gan y safle fynediad da at heol gyhoeddus sy'n ddiogel ac yn uniongyrchol; ac ch) mae'r safle'n wastad ac yn addas ar gyfer y datblygiad ac mae modd darparu digon o gyfleusterau gwasanaethau ar y safle; ac d) mae safon y cynllun a'r gosodiad yn dderbyniol; ac dd) mae materion amwynder ar gyfer trigolion ar y safle a safleoedd cyfagos yn cael sylw digonol; ac e) nid yw'r cynnig yn ymyrryd yn weledol yn sylweddol, mae wedi'i osod yn sensitif yn y dirwedd ac mae yna dirlunio boddhaol; ac

4.211 Mae yna bump maes carafannau Sipsiwn yn Sir Benfro, yng Nghilgeti, Waterloo (Doc Penfro), Monkton, Pont Fadlen a Rudbaxton, sy'n darparu cyfanswm o 84 o leiniau.

4.212 Fe fydd Cyngor Sir Penfro yn monitro'r ddarpariaeth ac, os bydd angen mwy o feysydd, neu estyniadau i rai sydd eisoes yn bodoli, fe fydd y Cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda'r cyrff a'r mudiadau priodol i ddarparu tir ychwanegol sy'n addas.

4.213 Mae potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar safleoedd Natura 2000 yn annhebygol, ond mae'n dal i ddibynnu ar faint a lleoliad y safle.

Polisi 47	<p>Datblygiad Effaith Isel yn gwneud Cyfraniad Positif</p> <p>Caniateir datblygiad effaith isel yng nghefn gwlad sy'n gwneud cyfraniad positif yn yr achosion canlynol:</p> <p>a) fe fydd y cynnig yn gwneud cyfraniad amgylcheddol, cymdeithasol a/neu economaidd positif gyda manteision cyhoeddus; ac</p> <p>b) mae pob gweithgarwch a strwythur ar y safle yn cael effaith isel o ran yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau; ac</p> <p>c) archwiliwyd cyfleoedd i aildefnyddio adeiladau sydd ar gael yn ardal weithredu'r cynnig a dangoswyd nad ydynt yn ymarferol; ac</p> <p>ch) mae'r datblygiad wedi'i integreiddio'n dda i'r dirwedd ac nid yw'n cael unrhyw effeithiau gweledol niweidiol; ac</p> <p>d) mae'r cynnig yn gofyn am leoliad gwledig ac wedi ei glymu'n uniongyrchol at y tir y mae wedi'i leoli arno, ac mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu arddwriaeth; ac</p> <p>dd) fe fydd y cynnig yn darparu digon o fywoliaeth ar gyfer trigolion y safle ac yn cwrdd â'u hanghenion yn sylweddol; a</p> <p>e) dylai nifer y preswylwyr sy'n oedolion fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gofynion ymarferol y fenter; ac</p> <p>f) os yw'r datblygiad yn ymwneud ag aelodau mwy nag un o'r teulu, fe fydd y cynnig yn cael ei rheoli gan ymddiriedolaeth, cydweithfa neu fecanwaith tebyg arall y mae gan y preswylwyr fudd ynddo.</p>
-----------	---

- 4.214 Fe fydd angen prawf bod y datblygiad yn cyfrannu'n positif, o ran yr amgylchedd, y defnydd o adnoddau, a chyfuniad o fanteision cymdeithasol/economaidd. Efallai y bydd manteision cyhoeddus yn cynnwys darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned. Rhaid cyflwyno prawf y bydd y cynnig yn cael effaith niwtral, neu o leiaf yr effaith niweidiol leiaf posib, ar gyfer pob rhan o agenda cynaliadwyedd y llywodraeth. Fe fydd angen cynllun rheoli ar gyfer y cynnig er mwyn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy (Gweler Polisi 33). Fe fydd canllawiau cynllunio atodol sydd wedi eu drafftio o dan y Cydgyllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro yn cael eu gyrru ymlaen o dan y Cynllun Datblygu Lleol.

Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.215 Ymrwymiad parhaus gan gymdeithasau tai lleol a'r awdurdod tai lleol, Cyngor Sir Penfro, i helpu trosglwyddo tai fforddiadwy. Mae mwyafrif y dyraniadau yn gallu mynd yn eu blaenau heb yr angen am Grant Tai Cymdeithasol.¹⁵⁵

¹⁵⁵ Gweler Papur Cefndir Tai

Blaenoriaeth Dd: Cyfleusterau cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth

Cyfleusterau Cymunedol

- 4.216 Mae cwrdd ag anghenion lleol cymunedau yn golygu dod â chartrefi, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau o fewn cyrraedd iddynt, a chefnogi cyfleusterau a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Yn amlwg, mae angen sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwella gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer pobl mewn mannau eraill.
- 4.217 Fe fydd y strategaeth yn sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gostwng lefel ac amrywiaeth y cyfleusterau cymunedol sydd ar gael i drigolion y Parc ac ymwelwyr, ac eithrio ble nad oes angen y cyfleuster mwyach neu nid yw'n ymarferol yn fasnachol, a bod gwasanaethau neu seilwaith^{156/157} ychwanegol sydd ei angen ar gynnig yn cael eu cyflwyno ar yr adeg briodol. Gyda chyfleusterau newydd ac estynedig, fe fyddan nhw'n cael eu hannog ble maen nhw mewn lle da i gwrdd ag anghenion y gymuned ac yn gyfleus i drafndiaeth gyhoeddus, siopau a gwasanaethau eraill, ble mae angen hyn i wasanaethu anghenion defnyddwyr. Dylai'r strategaeth ofodol a gynigir gan y Cynllun Datblygu Lleol helpu gyda'r nod hwn.
- 4.218 Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol fe fydd yr un nifer o gyfleusterau cymunedol, o leiaf, ag a oedd yma ar ddechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ac eithrio ble nad oedd modd eu cadw am nad oedd angen amdanynt mwyach. Fe fydd sicrhau nad oes effaith niweidiol ar ansawdd y ddarpariaeth yn ystyriaeth bwysig. O ran maen prawf 48b) isod, mae hyfywedd masnachol yn brawf ar gyfer mentrau masnachol. Fe allai materion i'w hystyried wrth ddangos sut fydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod cyfleuster addas arall, neu well cyfleuster, ar gael, neu i ddangos nad oes ei angen mwyach, gynnwys gwerthu'r adeilad i ddarparu nawdd ar gyfer un arall, dangos nad yw'r cyfleuster wedi cael ei ddefnyddio ers cyfnod hir o amser er gwaethaf ymdrechion i sicrhau ei fod yn cael ei aildefnyddio, gan gynnwys y cyfle ar gyfer gwaith / agor rhan amser, neu uno gyda chyfleusterau eraill i gynnal hyfywedd. Gellid ystyried cyfleoedd ar gyfer nawdd cyhoeddus i gefnogi cyfleusterau hefyd. Fe fydd caniatâd cynllunio wedi sicrhau rhwymedigaethau i ddelo gyda'r seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol sydd eu hangen ar gynnig¹⁵⁸.
- 4.219 Fe fydd angen Canllawiau Cynllunio Atodol i esbonio'r gofynion ar gyfer trosglwyddo gwelliannau i seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe fydd y canllawiau hyn yn ystyried y cynnydd a wnaed gyda'r canllawiau a baratowyd o dan y Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro. Fe fydd angen i'r Awdurdod hwn ystyried goblygiadau'r posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol hefyd, mewn ymgynghoriad â mudiadau partner.

Polisi 48 CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A GOFYNION SEILWAITH (Polisi Strategaeth)

Fe fydd cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu a'u hamddiffyn fel a ganlyn:

- a) Gyda chyfleusterau newydd ac estynedig, fe fydd y rhain yn cael eu caniatáu pan fyddant mewn lle da i gwrdd ag anghenion y gymuned ac maen nhw'n gyfleus i drafndiaeth gyhoeddus, siopau a gwasanaethau**

¹⁵⁶ Gweler Geirfa.

¹⁵⁷ Mae meysydd ble mae'n bosib y gofynnir am gyfraniadau yn cynnwys tai fforddiadwy, archeoleg, gwarchod natur a'r amgylchedd hanesyddol, gwasanaethau cymunedol a chymdeithasol, trosedd ac anrhefn, addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, gwella'r amgylchedd, amddiffyn rhag llifogydd, gwella canol trefi, seilwaith tân ac achub, gofal iechyd, llyfrgelloedd, gofodau agored, cyfleusterau hamdden, cyfleusterau ailgylchu a chynlluniau cymunedol, trafndiaeth gan gynnwys cynlluniau teithio.

¹⁵⁸ Mae yna botensial i ddatblygiadau tu allan i ganolfannau gystadlu'n uniongyrchol gyda chanolfannau, a'u tansellio. Mae Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 02/2005 'Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi' yn cynghori bod manwerthu a gwasanaethau eraill wedi eu lleoli orau o fewn canolfannau sydd eisoes yn bodoli ar raddfa briodol. Mae archfarchnadoedd bwyd tu allan i ganolfannau yn cael eu hystyried ym mharagraff 10.3.8 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010.

eraill ble mae angen hyn i wasanaethu anghenion y defnyddiwr.

- b) Ni fydd datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar weithrediad cyfleuster cymunedol, neu yn arwain at ei gollu, yn cael ei ganiatau ac eithrio ble bydd cyfleuster newydd neu well yn cael ei gyflwyno neu ble mae modd dangos nad oes angen y cyfleuster mwyach neu nad yw'r cyfleuster yn ymarferol yn fasnachol mwyach. Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer cyfleuster cymunedol segur fe fydd defnydd cyflogaeth neu dai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth.
- c) Rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion sydd wedi gwneud trefniadau addas i wella seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r datblygiad, neu eu darparu. Fe fydd trefniadau ar gyfer darparu neu wella at y safon ofynnol yn cael eu diogelu gan amodau cynllunio sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio neu mewn rhai achosion rhwymedigaethau cynllunio. Fe fydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau manteision i gyfrannu at y gallu i ddelio gyda'r meysydd angen mwyaf difrifol ar gyfer cymunedau'r Parc Cenedlaethol.

Rhestrir dyraniadau ar gyfer cyfleusterau cymunedol yn Nhabl 9 ac maen nhw wedi eu dangos ar y Map Cynigion.

Tabl 9 Cyfleusterau Cymunedol (Gweler Map Cynigion ac Atodiad 2)

Cyfeirnod y Safle	Enw a Lleoliad y Safle	Defnydd	Maint
CP829	Tir yng Ngorsaf Rheilffordd Saundersfoot, Pentlepoir	Maes parcio	0.39Ha
CP828	Gorsaf Maenorbŷr	Maes parcio	0.26Ha

Manwerthu

- 4.220 Y strategaeth ar gyfer Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yw cynnal eu sefyllfa, mewn perthynas â'i gilydd a chanolfannau mwy tu allan i'r ardal. Er gwaethaf y ffaith eu bod yn colli peth gwariant i ganolfannau tu allan i ardal y Parc, maen nhw'n perfformio'n dda gyda chefnogaeth gwariant trigolion ac ymwelwyr. Cynigir annog adfywiad sympathetig y Canolfannau hyn fel eu bod yn gallu parhau i fod yn llefydd deniadol i fyw ynddynt ac i ymweld â nhw; chwarae rhan werthfawr wrth gwrdd ag anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr, a denu cyfleoedd manwerthu arbenigol.
- 4.221 Mae trefi, yn enwedig y rheiny sy'n denu ymwelwyr, yn gallu cael eu gorddominyddu gan ddefnydd heblaw am fanwerthu fel siopau *take-away*, tafarndai a bwytai (defnyddiau A3) sy'n eu gwneud yn llai deniadol i siopwyr ac yn gallu cyflwyno ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod amrywiaeth o ddefnyddiau fel defnydd hamdden, bwytai, caffis, orielau a sinemâu yn gallu gostwng yr angen i deithio allan o ganolfan. Y strategaeth ar gyfer Canolfannau'r Parc fydd nodi ardaloedd yn Dinbych-y-pysgod ble bydd cyfran benodol o ddefnyddiau heblaw am fanwerthu yn cael eu caniatáu. Yn gyffredinol, fe fydd materion amwynder ar gyfer defnyddiau A3 yn cael eu hasesu a'u rheoli'n ofalus.
- 4.222 Fe fydd yr Awdurdod yn gwrthwynebu unrhyw gynigion a allai niweidio rôl manwerthu'r canolfannau hyn, neu ei danseilio, trwy gyfyngu ar ddatblygiadau tu allan i'r canolfannau hyn yn

unol â pholisi cynllunio cenedlaethol¹⁵⁹. Yr eithriad i hyn fydd cydnabod rôl bwysig darpariaeth wledig yng nghymunedau'r Parc. Anogir darpariaeth manwerthu ychwanegol yn y lleoliadau hyn, ble mae'n gydnaws â maint y ganolfan. Tu allan i'r prif ganolfannau mae canolfannau llai eraill yn gallu cael siopau lleol wedi eu hamddiffyn a'u darparu fel cyfleuster cymunedol gan Bolisi 48.

Polisi 49 MANWERTHU YN Y PARC CENEDLAETHOL (Polisi Strategaeth)

Dyma'r hierarchaeth manwerthu:

- a) Canol Tref Dinbych-y-pysgod**
- b) Canolfannau Rhanbarthol Trefdraeth, Tyddewi a Saundersfoot**
- c) Canolfannau manwerthu llai eraill**

Dylai pob datblygiad manwerthu newydd fod yn gyson â maint a chymeriad y Ganolfan, a'i rôl yn yr hierarchiaeth¹⁶⁰. Mae ardaloedd penodol o fewn Dinbych-y-pysgod wedi cael eu nodi ac ni fydd defnydd heblaw am fanwerthu yn cael hawl i ddominyddu yn yr ardaloedd hyn. Fe fydd amwynder safleoedd cyfagos yn ystyriaeth bwysig ble cynigir defnyddiau A3 (gweler Polisi 30).

Bydd Ffiniau Canolfannau Tref a Rhanbarthol yn helpu ffocysu'r buddsoddiad yn y ganolfan, a chynnal y treflun.

4.223 Mae'r polisiau a'r cyngor isod yn cynnig canllawiau ychwanegol ar faterion manwerthu.

4.224 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, yn gosod datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar fanwerthu tu allan i drefi, arcedau hapchwarae, siopau fferm, siopau lleol, siopau pentref a thafarndai. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar ffatrioedd a busnesau eraill sy'n gwerthu cynnyrch a manwerthu mewn gorsafoedd petrol. Gweler Pennod 10 'Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi'. Mae Canol y Dref (Dinbych-y-pysgod) a ffiniau Canolfannau Rhanbarthol (Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth) yn cael eu nodi ar y Map Cynigion ynghyd â Ffryntiau Manwerthu Cynradd yn Ninbych-y-pysgod. Mae yna ganolfannau llai hefyd, gan gynnwys Solfach.

¹⁵⁹ Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010 Pennod 10 yn nodi enghreifftiau o fath a graddfa datblygiadau sy'n briodol i ganolfannau trefol, rhanbarthol, lleol a phentref (gan ddechrau yn 10.1.2).

¹⁶⁰ Gweler Geirfa

O fewn canolfan siopa tref Dinbych-y-pysgod, a chanolfannau siopa rhanbarthol Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth, a chanolfannau siopa llai eraill, fe fydd newid defnydd, ailddatblygiad neu ddatblygiad adeiladau newydd yn cael eu caniatáu yn yr achosion canlynol:

- a) os ydynt mewn trefi neu ganolfannau siopa rhanbarthol, mae'r cynnig yn disgyn o fewn Dosbarth A1, A2, A3, B1, C1, D1 neu D2 o'r drefn gategoriau defnydd neu mae'n ddefnydd *sui generis*¹⁶¹ a geir fel arfer mewn canolfannau siopa o'r fath;
- b) os mewn canolfan llai, mae'r cynnig at ddefnydd manwerthu neu fasnachol (defnydd A1, A2 ac A3) neu gyfleusterau cymunedol; ac
- c) os ydyw mewn ffryntiad cynradd, ni fyddai'r cynnig yn creu crynodiad o ddefnyddiau heblaw am fanwerthu; ac
- ch) mae'r graddfa, y lleoliad a'r cynllun yn briodol, a byddai'n cyfrannu at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal; ac

ni fyddai cynigion ar gyfer defnydd A3 yn tarfu mewn ffordd annerbyniol ar drigolion eiddo gerllaw, na'n cael effaith niweidiol ar amwynderau (gweler Polisi 30).

- 4.225 Bwriad y polisi yw sicrhau bod egni, ymarferoldeb ac amrywiaeth canolfannau siopa yn cael eu cynnal a'u cyfoethogi. Mae canolfannau siopau ardal y Cynllun yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer trigolion ac ymwelwyr sy'n do i'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys swyddi hamdden, ysgolion, busnes a gwasanaeth cyhoeddus. Mae busnesau unigol yn elwa o amrywiaeth o siopau a chyfleusterau yn y ganolfan yn ei chyfanwydd.
- 4.226 Cefnogir y broses o gadw manwerthu yng nghanol tref Dinbych-y-pysgod trwy ddiffinio ffryntiau manwerthu cynradd. Bwriad y rhain yw sicrhau bod cymeriad a darpariaeth manwerthu y ganolfan ddim yn cael eu tansellio.
- 4.227 Mewn ffryntiau manwerthu cynradd, fe fydd defnydd A1 a fyddai'n arwain at grynodiad defnyddiau tebyg, neu'n eu cynyddu'n sylweddol, neu'n gostwng cymeriad manwerthu'r ardal, yn cael eu gwrthwynebu. Fe fydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau unigol gan ystyried y meini prawf uchod a pholisi cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion ystyrier bod uchafswm o draean o ffryntiad manwerthu at ddefnydd heblaw am fanwerthu, a dim mwy na thair uned sydd ddim yn A1 ger ei gilydd, yn gydbwysedd defnydd addas.
- 4.228 Fe fydd defnyddiau sydd ddim yn denu nifer sylweddol o gwsmeriaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r safleoedd uwchben y lefel gwaelod mewn lleoliadau ffryntiad manwerthu. Mewn achosion priodol, fe fydd angen i'r rheiny sy'n defnyddio'r llawr gwaelod gynnal arddangosfa ffenestr siop a blaen siop. Ystyrir datblygiadau preswyl uwchben y lefel gwaelod fel datblygiadau addas.
- 4.229 Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddiau sydd ddim yn ddefnyddiau manwerthu yn ychwanegu at egni ac atyniad canolfannau, fodd bynnag mae crynodiad o ddefnyddiau A3 (bwyd poeth a diodydd) fel safleoedd *take-away* yn gallu effeithio ar atyniad ac amwynder y ganolfan.

¹⁶¹ Gweler Geirfa

- 4.230 Cyflwynir amodau priodol i sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar amwynderau, gan gynnwys cyfyngu ar oriau agor, darpariaeth biniau sbwriel priodol ac offer ffiltro (arogleuon). Efallai y bydd angen cyfraniadau i gefnogi mesurau diogelwch cyhoeddus hefyd.

Polisi 51	Canolfannau Garddio Caniateir canolfannau garddio yn yr achosion canlynol: a) mae'r cynnig mewn lleoliad o fewn y Ganolfan neu gerllaw; ac b) ni fyddai'r cynnig yn tansellio egni nac ymarferoldeb cyfleusterau manwerthu mewn unrhyw Ganolfan gerllaw; ac c) mae graddfa a natur unrhyw adeiladau a gynigir at ddefnydd manwerthu a maint, cynllun, defnyddiau a lleoliad unrhyw adeilad newydd, neu estyniad, yn gweddu i'r adeilad(au) presennol.
-----------	--

- 4.231 Mae Canolfannau Garddio yn elfen nodedig o gyfleusterau manwerthu'r Sir. Bwriad y polisi yw sicrhau bod canolfannau garddio manwerthu neu blanhigfeydd sy'n gwerthu i'r cyhoedd sy'n ymweld mewn lle da o ran Canolfannau a datblygiadau sydd eisoes yn bodoli, ac o faint sy'n addas i'r lleoliad. Mewn llawer o achosion, mae'r effaith ar amwynderau lleol a materion traffig yn gallu bod yn ystyriaeth bwysig.

- 4.232 Efallai y cyflwynir amodau cynllunio i gyfyngu ar yr amrywiaeth o nwyddau y gellir eu gwerthu o'r safleoedd, ac i sicrhau bod y gofod llawr manwerthu net yn briodol, er mwyn amddiffyn egni ac ymarferoldeb canolfannau sydd eisoes yn bodoli ac, yn benodol, siopau lleol.

Trafnidiaeth Gynaliadwy

- 4.233 Y strategaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol yw gwella a hyrwyddo hygyrchedd trwy ddulliau priodol i bobl sy' gweithio yn y Parc Cenedlaethol, yn byw ynddo yn gorffwys ynddo ac yn chwarae ynddo, tra'n gostwng yr angen i deithio mewn car preifat. Mae'r Parc Cenedlaethol yn ardal wledig, yn bennaf, ac yn ymylol i gysylltiadau cyfathrebu strategol yng Ngorllewin Cymru.

- 4.234 Gan nad yw'r Parc Cenedlaethol yn awdurdod prifffyrdd, fe fydd llawer o'r strategaeth yn cael ei throsglwyddo trwy bolisiau a gweithredoedd cynlluniau eraill a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Consortiwm Trafnidiaeth Integredig De Orllewin Cymru ac Awdurdod Prifffyrdd Cyngor Sir Penfro. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru yn cynnwys Rhaglen Cefnffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fe fydd y cynlluniau hyn yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella trafndiaeth a hygyrchedd yn yr ardal. Teimlir bod cynlluniau trafndiaeth cymunedol, a mwy o gydlynid ymhlith gweithredwyr, yn flaenoriaethau pwysig ar gyfer yr ardal.

- 4.235 Strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol yw targedu datblygiad, ble'n bosib, at leoliadau sydd ag amrywiaeth resymol o gyfleusterau a mynediad gan drafndiaeth gyhoeddus. Yn anffodus, mae rhai Canolfannau sydd ag amrywiaeth o gyfleusterau ac y dylid eu hannog i dyfu, yn dioddef o ddiffyg trafndiaeth gyhoeddus, ac mae angen rhoi sylw i hyn yn ogystal ag achosion ble mae'r car preifat yn dominyddu ac yn difetha atyniad y Ganolfan.

- 4.236 Er bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio tyfiant yn bennaf at Ganolfannau, mae yna enghreifftiau ble bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried cynigion tu allan i'r lleoliadau hyn, er enghraifft, i helpu arallgyfeirio economaidd yng nghefn gwlad. Y strategaeth fydd asesu cynigion o ran yr effaith ar draffig ac osgoi'r rheiny sy'n achosi pryderon sylweddol. Enghraifft o hyn fyddai trwy gynhyrchu lefelau sylweddol o draffig mewn ardaloedd ble mae yna dagfeydd yn

barod neu ble mae yna bryderon dros niweidio cymeriad yr ardal leol, ac nid oes modd lliniaru'r effeithiau hyn.

Polisi 52	TRAFNIDIAETH GYNALIADWY (Polisi Strategaeth)
<p>Sicrhau, yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, y defnyddir cyfleoedd i gynllunio defnydd tir i wella a hyrwyddo hygyrchedd a gostwng yr angen i deithio yn y car trwy:</p> <p>a) Ganiatáu cynigion sy'n helpu trosglwyddo gwell rheolaeth ar gyfer traffig a pharcio.</p> <p>b) Caniatáu cyfleusterau i wella trafndiaeth gyhoeddus drwy helpu creu cysylltiad rhwng dulliau teithio neu ddarparu cyfleusterau ar gyfer teithwyr.</p> <p>c) Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio'n dda gan ddarparu mynediad priodol i gerddwyr, seiclwyr, cerbydau a</p> <p>ch) Pheidio â chaniatáu cynigion sy'n achosi pryderon sylweddol ynghylch effaith posib trafndiaeth, nad oes modd eu lliniaru'n foddhaol Polisi 53.</p> <p>Rhestrir dyraniadau ar gyfer cynlluniau heolydd a seiclo yn Nhabl 10 ac maen nhw wedi eu dangos ar y Map Cynigion.</p>	

4.237 Mae tir y mae cynlluniau heolydd a beiciau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor Sir, sydd i'w gweld yn y tabl isod, yn effeithio arno, yn cael ei ddiogelu rhag ddatblygiadau eraill a fyddai'n debygol o ragfarnu ei weithrediad¹⁶². Mae'r llwybr a gynigir, ble mae'n wybyddus, wedi ei ddangos ar y Map Cynigion.

Tabl 10 Cynlluniau Heolydd a Seiclo (gweler Map Cynigion ac Atodiad 2)

Rhif y Cynllun	Cynlluniau Heolydd/Seiclo
RI1	Gwelliannau i Bont New House A4075
RI2	Llwybr Defnydd Cymysg i'r de o Gastell Cairew
RI3	Gwelliannau i Droeon St Petrox
RI4	Gwella Cyffordd Fan Road/B4316, Saundersfoot
RI5	Gumfreston i Ddinbych-y-pysgod Cam 3
RI6	Lôn Glasfryn, Tyddewi
RI7	A40 Canaston Bridge

4.238 Mae'r polisiau a'r cyngor isod yn rhoi canllawiau ychwanegol ar drafndiaeth gynaliadwy.

4.239 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, yn gosod datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar gyfer rheoli traffig, ystyriaethau trafndiaeth wrth reoli datblygiad, asesiadau trafndiaeth a chynlluniau teithio a mynediad at ddatblygiad. Gweler Pennod 8 'Trafndiaeth'. Mae'r gwaith o gynllunio ac arfarnu cynigion trafndiaeth yng Nghymru yn cael ei arwain gan Ganllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WeITAG) y Cynulliad sy'n dweud sut y

¹⁶² Gweler Geirfa

dylai'r holl gynigion trafndiaeth gael eu cynllunio a'u datblygu. Mae'r polisiau isod yn rhoi cyngor ac arweiniad ychwanegol ar drafndiaeth gynaliadwy.

Polisi 53	Effeithiau Traffig Caniateir datblygiad ble mae modd sicrhau mynediad addas. Dyma'r achosion ble ystyrir bod mynediad yn amhriodol: a) mae traffig yn debygol o gael effaith annerbyniol ar ardaloedd ble mae yna dagfeydd neu ar adegau pan mae llif y traffig ar ei anterth; neu b) mae traffig yn debygol o gael ei gynhyrchu ar adegau amhriodol, er enghraifft yn hwyr yn y nos neu mewn ardaloedd preswyl, neu c) mae yna effaith annerbyniol ar ddiogelwch ar y ffordd; neu ch) byddai'n achosi niwed amgylcheddol sylweddol ac nid oes modd ei
-----------	---

4.240 Mae'r polisi hwn yn dilyn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 18 ond mae'n gosod y meini prawf asesu ar lefel sy'n fwy perthnasol i lefel y datblygiad sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol. Fe fydd disgwyl i bobl ymgeisydd lenwi datganiad byr ynglŷn â thrafndiaeth, yn nodi'r nifer tebygol o siwrneiau y byddai eu datblygiad arfaethedig yn eu cynhyrchu, a'r gyfran modd debygol.

4.241 Fe fydd angen mwy o fanylion ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n cwrdd ag unrhyw un/rai o'r canlynol:

- Datblygiadau preswyl o 25 uned neu fwy: neu
- 100 o symudiadau cerbyd neu fwy'r dydd: neu
- 10 o symudiadau cludiant y dydd: neu
- ble mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon sylweddol ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig ar drafndiaeth.

4.242 Fe fydd angen Asesiad Trafndiaeth llawn ar gyfer unrhyw gynigion sy'n debygol o gynhyrchu nifer sylweddol o siwrneiau neu ble mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon sylweddol ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig ar drafndiaeth.

Polisi 54	Llwybrau Beiciau Caniateir llwybrau beiciau newydd yn yr amgylchiadau canlynol: a) maen nhw'n cael cyn lleied o effaith niweidiol ar yr amgylchedd ag sy'n ymarferol a, ble bydd angen, yn cynnwys mesurau lliniaru; a b) maen nhw'n diwallu angen strategol neu leol (er enghraifft yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol neu ddolen gyswllt ato); neu c) maen nhw'n cyfrannu at welliannau i ddiogelwch ar y ffordd (gwahanu traffig seiclo oddi wrth gerbydau modur er enghraifft); neu ch) maen nhw'n darparu gwell cyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy (yn
-----------	--

enwedig o fewn y prif Ganolfannau a'r Canolfannau mawr yn y Sir, neu rhyngddynt, a hefyd i atyniadau pwysig i dwristiaid, ac yn ôl); neu

d) maen nhw'n gostwng tagfeydd traffig mewn Canolfan hanesyddol, mewn atyniadau gwledig/arfordirol, neu mewn ysgolion ac ar hyd llwybrau sy'n cael defnydd da yno ac yn ôl.

4.243 Diben y polisi hwn yw cefnogi datblygiad llwybrau beiciau. Fel cerdded, mae seiclo yn ffordd hyblyg a chyfleus o deithio, yn enwedig ar gyfer siwrneiau byrrach.

Gwasanaethau Cyfleustodau

4.244 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, yn gosod datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ynghylch cyflenwi dŵr, ansawdd dŵr a rheoli dŵr gwastraff. Gweler Pennod 12 'Seilwaith a Gwasanaethau' a Phennod 13 'Gostwng Peryglon Amgylcheddol a Llygredd, a'u Rheoli'.

Polisi 55 Llinellau Pŵer a Phiblinellau

Caniateir ceblau neu biblinellau a'r datblygiadau cysylltiedig ble dewisir y lleoliad, llwybr neu ffordd o'i ddarparu sydd leiaf ymwithiol a niweidiol. Ble byddai datblygiadau yn amlwg yn weledol, rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod lleoliadau eraill wedi cael eu harchwilio ac nad ydynt yn ymarferol. Fe fydd cynigion o'r fath yn cael eu harchwilio'n drylwyr o ran lleoliad a chynllun, ac fe fyddant yn cael eu caniatáu dim ond ble nad oes unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Ble mae modd dangos bod cynigion o bwysigrwydd cenedlaethol, dylai astudiaethau dichonoldeb technegol ac ariannol ddod gyda'r ceisiadau.

4.245 Diben y polisi hwn yn gosod fframwaith addas i ystyried cynigion ar gyfer ceblau, adeiladu piblinellau a'r datblygiadau cysylltiedig, er enghraifft peilonau, is-orsafoedd ayb. Dylid archwilio cyfleoedd i'w gosod o dan y ddaear bob tro, tra nad yw hyn yn cael fwy o effaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cydnabyddir bod yn rhaid i'r llwybr a ddewisir fod yn ymarferol yn dechnegol. Diffinnir nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ym Mholisi 8.

4.246 Fe fydd llawer o gynigion yn gorwedd tu allan i sgôp rheolaeth gynllunio arferol, gyda'r corff statudol priodol yn ymgynghori ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig. Felly fe fydd yr Awdurdod, yn ychwanegol at ddefnyddio'r polisi hwn wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio sy'n dod i law ar gyfer cynigion o'r fath, yn ei ddefnyddio i fwydo ymatebion i ymgynghoriadau o'r fath.

4.247 Mae Polisi 33 hefyd yn berthnasol i gynigion ynni adnewyddadwy.

Polisi 56 Telegyfathrebu

Caniateir telegyfathrebu ar yr amod:

a) **bod y datblygiad yn rhan o system ddarpariaeth wedi'i chynllunio; a**

b) **wedi ystyried cyfleoedd sy'n dod i law i rannu mastiau, antenau neu strwythurau eraill sydd eisoes yn bodoli, bod modd sicrhau'r strwythur neu'r lleoliad lleiaf ymwithiol neu niweidiol sy'n ymarferol yn dechnegol.**

Ble byddai datblygiadau yn amlwg yn weledol, rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod lleoliadau eraill wedi cael eu harchwilio ac nad ydynt yn

ymarferol. Fe fydd cynigion o'r fath yn cael eu harchwilio'n drylwyr o ran eu gosodiad a'u dyluniad ac fe fyddant yn cael eu caniatáu ble nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol o niweidiol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Ble mae modd dangos bod cynigion o bwysigrwydd cenedlaethol, dylai astudiaethau dichonoldeb technegol ac ariannol ddod gyda'r ceisiadau.

4.248 Y bwriad tu ol i'r polisi yw arwain datblygiadau telegyfathrebu at y lleoliad sy'n amharu lleiaf, gan ystyried gofynion technegol pob cais unigol, gan gynnwys ei swyddogaeth o fewn y rhwydwaith. Fe fydd effaith unigol a chronnus y cynigion yn bwysig. Dylai'r system ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio gynnwys rhaglen strategol ar gyfer lleoli mastiau, gan ddangos sut mae'r cynnig yn ffitio i'r rhwydwaith. Er mwyn asesu'r cynnig o dan faen prawf b) fe fydd angen i ymgeiswyr ddangos hefyd eu bod wedi cynnal arfarniad o safleoedd ac o opsiynau eraill, gan ystyried y posibilrwydd o rannu mastiau neu osod ar adeilad neu strwythur addas arall wrth roi cyfiawnhad ar gyfer y safle dewisol. Fe fydd yr Awdurdod yn disgwyl i'r wybodaeth ddangos yn glir, mewn telerau mesuradwy, pam nad yw lleoliadau neu opsiynau eraill yn ymarferol mewn perthynas â'r safle a ddewiswyd.

4.249 Mae effaith datblygiadau telegyfathrebu ar amwynder yn ystyriaeth bwysig (gweler Polisi 30).

4.250 Diffinnir nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn Polisi 8. Mae yna botensial ar gyfer effeithiau negyddol ar rywogaethau, (e.e. ystlumod), ond nid oes modd penderfynu ar yr effaith heb wybod beth yw graddfa a lleoliad y datblygiad. Fe fydd y broses o ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 a safleoedd heb eu dynodi.

Camau Gweithredu Allweddol tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol

4.251 Fe fydd angen rhoi sylw i faterion yn ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth trwy Lonydd Glas Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro a Chonsortium Trafndiaeth Integredig De Orllewin Cymru. Yn Atodiad 2, ceir mwy o gyngor ar y cynlluniau heolydd a seiclo a gynigir.

4.252 Fe fydd angen Canllawiau Cynllunio Atodol i esbonio'r gofynion ar gyfer gwneud gwelliannau i seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau i helpu diwallu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol, fel gwelliannau i drafnidiaeth gynaliadwy.

5. Monitro

- 5.1 Mae cynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn cynrychioli newid yng ngraddfa, lleoliad a math y datblygiadau a gynigir yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r ymdrech sydd ei angen i sicrhau bod canlyniadau allweddol y Cynllun yn ymestyn tu hwnt i gyfrifoldebau ac adnoddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, er enghraifft mewn perthynas â darparu cyfleusterau trin carthffosiaeth neu seilwaith i gefnogi rhyddhad safleoedd cyflogaeth newydd.
- 5.2 Fe fydd amcanion a pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu monitro trwy Adroddiad Monitro Blynyddol¹⁶³. Fe fydd yr adroddiadau hyn yn monitro cynnydd yn erbyn dangosyddion¹⁶⁴ a thargedau allweddol. Fe fydd yr adroddiad hwn yn adlewyrchu llwyddiant y Cynllun Datblygu Lleol ac yn dangos p'un ai ein bod yn cwrdd â thargedau ai peidio. Mae'r dangosyddion a'r targedau hyn yn ychwanegol at y rheiny a fydd yn cael eu defnyddio wrth fonitro'r arfarniad o gynaliadwyedd.
- 5.3 Mae Atodiad 4 yn gosod dangosyddion a thargedau ar gyfer canlyniadau y Cynllun Datblygu Lleol.

¹⁶³ Gweler Geirfa

¹⁶⁴ Gweler Geirfa

6. Geirfa

Term a Ddefnyddiwyd	Esboniad
Hygyrchedd	Y graddau y mae modd i gymaint o bobl â phosib fynd at ardal neu gyfleuster yn hwylus, a'i ddefnyddio, gan gynnwys unigolion sydd ag anabledau.
Mabwysiadwyd	Cadarnhad terfynol y Cynllun neu'r Canllawiau Cynllunio Atodol neu'r Strategaeth
Tai Fforddiadwy	Mae Tai Fforddiadwy yn dai sydd ar werth neu i'w rhentu am brisiau sy'n is na chyfradd y farchnad. Fe fyddan nhw'n cael eu cadw am byth fel tai fforddiadwy trwy gyfrwng cytundebau Adran 106, neu amodau, ble mae datblygwr preifat yn gysylltiedig. Ni fydd angen i gymdeithasau tai gytuno i'r fath rwymedigaethau, ond efallai y byddant am gytuno i gytundebau gosod gwirfoddol. Fe fydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu ar gyfer pobl leol sydd mewn tai anaddas ac sydd ddim yn gallu fforddio datrys eu hanghenion tai ar y farchnad agored.
Angen am Dai Fforddiadwy	Mae'n cael ei asesu trwy archwilio addasrwydd tai presennol a gallu teuluoedd i fforddio tai am bris y farchnad.
Dyraniad	Tir a fydd yn cael ei gynnig i'w ddatblygu, a fydd yn cael ei nodi mewn Map Cynigion yn fersiwn adneuol y Cynllun Datblygu Lleol a'r fersiwn a fydd yn cael ei fabwysiadu.
Adroddiad Monitro Blynyddol	Fe fydd hwn yn asesu'r graddau y mae polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.
BREEAM	Cynlluniwyd teulu o offerynnau a dulliau asesu BREEAM i helpu gweithwyr adeiladu proffesiynol i ddeall effeithiau amgylcheddol y datblygiad y maen nhw'n ei gynllunio a'i adeiladu, a'u lliniaru.
Safle/Tir Llwyd	Gweler Polisi Cynllunio Cymru (2002), Ffigwr 2.1
'Canolfan'	Mae'n golygu naill ai 'Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth' neu 'Ganolfan Lleol' neu 'Ganolfan Wledig'.
Cyfleusterau cymunedol	Mae cyfleusterau cymunedol yn darparu ar gyfer anghenion ieuchyd, lles, cymdeithasol, addysgiadol, ysbrydol, hamdden a diwylliannol y gymuned. Cyfleusterau sydd fel arfer wedi eu lleoli o fewn pentref neu dref, sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned leol. Mae'r rhain yn gallu cynnwys; siopau, tafarndai, sinemâu, gorsafoedd petrol, ardaloedd chwarae ffurfiol i blant, caeau chwarae, meddygfa, ysgolion, neuaddau pentref/cymunedol, cartrefi nyrsio, eglwysi, rhandiroedd ayb.,
Strategaeth Gymunedol	Mae angen i awdurdodau lleol, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o bartneriaeth Strategaeth Gymunedol, baratoi'r rhain, gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd.
Ymgynghori	Proses ffurfiol ble gwahoddir sylwadau ar destun penodol neu gyfres o destunau, neu ddogfen ddrafft.
Treftadaeth Ddiwylliannol	Mae treftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys yr holl dystiolaeth o weithgarwch pobl yn y gorffennol, yn ogystal ag ymatebion pobl i'r gweithgareddau hynny a'u cysylltiad â nhw. Mae'n cynnwys y gwerthfawrogiad esthetig yn ogystal â'r dystiolaeth ffisegol o weithgareddau pobl, ac mae wedi'i ymgorffori mewn iaith, celfyddyd ac ystyr y dehongliad yr ydym yn ei rhoi i'n tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol. Mae o'n cwmpas ymhob man, ac yn darparu cyd-destun ar gyfer ein bywyd bob dydd ac yn dylanwadu ar hunaniaeth ranbarthol a lleol.
Cytundeb Trosglwyddiad	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun ar gyfer Cynnwys y Gymuned, a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad gytuno iddo.
Cynllun Wedi'i Adneuo	Cam ffurfiol, ac yn ystod y cam hwn fe fydd mudiadau ac unigolion yn gallu cyflwyno cynrychiolaethau ar y polisiau a'r cynigion manwl.
Tir / Safle Cyflogaeth	Tir sydd fel arfer yn rhan o ystâd ddiwydiannol neu barc busnes, sy'n cael ei ddefnyddio gan un neu fwy o'r canlynol: swyddfeydd, gwneuthurio, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu.
Tystiolaeth	Dehongliad sylfaen o gyflwr presennol yr ardal (h.y. gwaelodlin) neu wybodaeth/data arall i ddarparu sylfaen ar gyfer polisiau cynllunio, y gellir

Term a Ddefnyddiwyd	Esboniad
Safleoedd Maes Glas	mesur newid yn ei erbyn. Dyma safleoedd sydd ddim wedi cael eu datblygu na'u defnyddio o'r blaen, at ddefnydd trefol, neu dir sy'n cael ei ddefnyddio'n weithgar neu mewn ffordd lesol ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth h.y. tir segur wedi ei adfer yn llwyr.
Lonydd Glas	Mae Lonydd Glas Sir Benfro yn Bartneriaeth rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Grŵp Mynediad Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro a PLANED sy'n anelu at hybu mynediad a mwynhad pobl leol, ac ymwelwyr sy'n dod i arfordir a chefn gwlad Sir Benfro trwy deithio ar fysiau a threnau, cerdded, seiclo a marchogaeth yn hytrach na defnyddio car preifat.
Yr Amgylchedd Hanesyddol	Mae Amgylchedd Hanesyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cwmpasu'r holl olion pwysig hynny y mae'n cyndeidiau wedi eu creu ar y tir ac ar yr arfordir. Mae'n amrywio o dirweddau, parciau a gerddi hanesyddol, patrymau cau nodedig a llwybrau at aneddiadau hanesyddol, adeiladau traddodiadol, henebion a safleoedd archeolegol claddedig. Mae'n atgof parhaus o weithgarwch dynol yn y gorffennol, yn ffynhonnell mwynhad a dysgu ac yn cyfuno gyda'r amgylchedd naturiol a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol i roi naws unigryw am le, ysbrydoliaeth feunyddiol ac ased pwysig ar gyfer y dyfodol.
Gweithredu	Mae gweithredu yn golygu gwneud neu ymarfer cynllun, dull neu unrhyw fwrriad i wneud rhywbeth. Fel y cyfryw, mae gweithredu yn golygu'r camau gweithredu sy'n gorfod dilyn unrhyw ffordd sylfaenol o feddwl er mwyn i rywbeth ddigwydd mewn gwirionedd.
Dangosydd	Mae dangosydd yn rhywbeth sy'n eich helpu i ddeall ble'r ydych chi, pa ffordd yr ydych yn mynd a pha mor bell yr ydych chi o'r man lle rydych chi eisiau bod. Mae dangosydd da yn eich rhybuddio ynghylch problem cyn iddo fynd yn rhy wael ac yn eich helpu i wybod beth sydd angen ei wneud i unioni'r broblem.
Seilwaith	Cyfleusterau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, heolydd a thrafnidiaeth, cyfleusterau cymunedol a siopa lleol a chyfleusterau eraill fel fframwaith ar gyfer datblygiad.
Gallu'r Dirwedd	Profir gallu'r dirwedd yn y Parc Cenedlaethol i amsugno datblygiadau ar gyfer y cyfnod hwn yn y Cynllun gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodwyd ym Mhapur Cefndir 'Meini Prawf Safleoedd'. O ran y cyfyngiadau ar ddatblygiadau, y prif faterion yw'r effaith ar gymeriad y dirwedd.
Cynllun Datblygu Lleol	Y cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru sydd ei angen o dan Adran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gorfod gosod eu hamcanion mewn perthynas â datblygiad a defnydd tir yn eu hardal, ac yn gosod y polisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Yn ogystal â rhoi ystyriaeth i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried polisïau cynllunio rhanbarthol hefyd, yn ogystal â Strategaeth Gymunedol yr Awdurdod a'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r ardal leol a'r amgylchedd byd-eang, trwy gynnal arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
Datblygiadau mawr	Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn debygol o ystyried y mathau canlynol o ddatblygiadau fel 'datblygiadau mawr': <ul style="list-style-type: none"> ▪ datblygiad sydd angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol, ▪ datblygiad sydd ddim yn gymwys ar gyfer asesiad a restrir uchod ond pan fydd yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf sgrinio a osodir o dan Atodlen 3 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru a Lloegr) 1999 - SI 1999 Rhif 293 mae yna amheuaeth o effaith amgylcheddol niweidiol sylweddol, ▪ datblygiad sy'n cyfiawnhau'r angen i gyflwyno arfarniad/asesiad o oblygiadau traffig, iechyd a manwerthu'r cynigion. <p>Fel eithriad, efallai y bydd sbardunau eraill sy'n gofyn am gynnal asesiad. Fe fyddai asesiad o'r fath hefyd angen cyfeirio at unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys heolydd mynediad ac adeiladau ategol eraill. Fe fydd hyn yn ychwanegol at unrhyw asesiad sydd ei angen gan ddeddfwriaeth, polisïau neu ganllawiau cyfredol.</p>

Term a Ddefnyddiwyd	Esboniad
Gwarchodfa Natur Forol	Ardal o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol at ddiben gwarchod cynefinoedd a bywyd gwyllt morol sy'n arbennig o bwysig, a nodweddion eraill ar hyd y blaendraeth a gwely'r môr.
Lliniaru	Mesurau sy'n osgoi, yn gostwng, yn adfer neu'n gwneud iawn am effeithiau negyddol gweithred strategol.
Safleoedd Natura 2000	Natura 2000 yw'r rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd dan warchodaeth sy'n cynrychioli ardaloedd o werth uchel ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid naturiol sy'n brin, mewn perygl neu'n fregus yn y Gymuned Ewropeaidd.
Galluogwr Tai Gwledig	Fe fydd rhwydwaith Natura 2000 yn cynnwys dau fath o ardal. Gellir dynodi ardaloedd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ble maen nhw'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid naturiol (heblaw am adar) sy'n brin neu mewn perygl. Ble mae ardaloedd yn cynnal nifer sylweddol o adar gwyllt, a'u cynefinoedd, efallai y byddant yn dod yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Caiff ACAau eu dynodi o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd a chaiff AGAau eu dosbarthu o dan y Gyfarwydddeb Adar. Efallai y bydd rhai ardaloedd pwysig iawn yn dod yn ACAau ac yn AGAau.
Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	Rôl y Galluogwr Tai Gwledig yw gweithio gyda chymunedau gwledig, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth annibynnol a gweithredu fel hwylusydd, a'u helpu trwy'r broses gymhleth o ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r Galluogwr Tai Gwledig yn gweithio gyda Chynghorau Cymuned, perchnogion tir lleol, swyddogion cynllunio, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cymdeithasau Tai ac unigolion a sefydliadau perthnasol eraill, i ddod o hyd i atebion ymarferol, i gwrdd ag anghenion tai cymunedau gwledig ar draws Sir Benfro.
Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Dynodiad cadwraeth sy'n dynodi ardal dan warchodaeth yn y Deyrnas Unedig. SoDdGA yw 'cerrig adeiladu' sylfaenol deddfwriaeth gwarchod natur, ac mae mwyafrif y dynodiadau cadwraeth natur/daearegol cyfreithiol eraill yn seiliedig arnynt, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Ramsar, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	Dynodwyd o dan y Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Blodau a Ffawna Gwyllt er mwyn gwarchod safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth ryngwladol.
Cadernid	Dynodwyd o dan y Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar Warchod Adar Gwyllt er mwyn amddiffyn adar gwyllt a'u cynefinoedd.
Rhanddeiliaid	Cysyniad sy'n cynnwys gweithdrefn, cysondeb, cydlynid ac effeithiolrwydd. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei archwilio yn ei erbyn gan Arolygydd Cynllunio annibynnol.
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Buddiannau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio arnynt – gellir cyfrannu yn bennaf trwy gyrrf cynrychiadol.
Strategaeth	Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer polisiau, cynlluniau a rhaglenni.
Canllawiau Cynllunio Atodol	Mae strategaeth yn gynllun neu'n ddull tymor hir a gynlluniwyd i gyflawni nod neu amcan penodol.
Datblygu'n Gynaliadwy	Gwybodaeth atodol men perthynas â pholisiau mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn ddarostyngedig i archwiliad annibynnol, ond rhaid eu bod yn gyson â'r cynllun a pholisiau cenedlaethol.
Cyfleustodau	Diffinnir Datblygu'n Gynaliadwy fel "Datblygiad sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion nhw eu hunain" yn Adroddiad Bruntland i Gomisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygiad a gynhaliwyd yn 1987. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gosod pedwar nod ar gyfer datblygu'n gynaliadwy yn ei strategaeth <i>A Better Quality of Life, a Strategy for Sustainable Development in the UK</i> . Dyma'r pedwar nod, sydd i'w cyflawni gyda'i gilydd: - <ul style="list-style-type: none"> ▪ cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb; ▪ gwarchod yr amgylchedd yn effeithiol; ▪ defnyddo adnoddau naturiol yn gall a ▪ cynnal a chadw lefelau sefydlog o dyfiant economaidd a chyflogaeth.
	Gwasanaethau a ddarperir, fel cyflenwadau dŵr, carthffosiaeth, nwy a thrydan.

Term a Ddefnyddiwyd			Esboniad
Cynllun Datblygu Unedol (CDU) (UDP)			Y cynllun datblygu statudol y mae ei angen ar bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
Gorchymyn Defnydd	Categoriâu		<p>Dosbarth A1 SIOPAU o bob math gan gynnwys archfarchnadoedd a warysau manwerthu; hefyd yn cynnwys pobl trin gwallt, bariau brechdanau (ac eithrio'r rheiny sy'n gwerthu bwyd poeth), cwmnïau teithio, golchdai, sychlanhawyr, arddangosfeydd, ac eithrio arddangosfeydd ceir.</p> <p>Dosbarth A2 GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, cwmnïau gwerthu tai, swyddfeydd betio.</p> <p>Dosbarth A3 BWYD A DIOD gan gynnwys bwytai, tafarndai, bariau gwin a <i>take-aways</i>.</p> <p>Dosbarth B1 DEFNYDD BUSNES gan gynnwys swyddfeydd (ac eithrio'r rheiny sy'n dod o dan Ddosbarth A2), ymchwil a datblygiad, a phrosesau diwydiannol, tra byddai modd gweithredu'r defnydd mewn ardal breswyl heb niweidio amwynderau trwy sŵn, dirgryniad, arogl, mygdarth, mwg, parddu, lludw, llwch na graean.</p> <p>Dosbarth B2 PROSES DDIWYDIANNOL GYFFREDINOL ac eithrio un sy'n dod o dan Ddosbarth B1.</p> <p>Dosbarth B8 WARYSAU STORIO A DOSBARTHU gan gynnwys cyfanwerthwyr <i>cash and carry</i>.</p> <p>Dosbarth C1 GWESTAI</p> <p>Dosbarth C2 SEFYDLIADAU PRESWYL gan gynnwys ysbytai, cartrefi nyrsio, ysgolion preswyl a cholegau</p> <p>Dosbarth D1 SEFYDLIADAU SYDD DDIM YN RHAI PRESWYL gan gynnwys adeiladau crefyddol, neuaddau cyhoeddus, amgueddfeydd, gwasanaethau meddygol.</p> <p>Dosbarth D2 CYNULLIAD a HAMDDEN gan gynnwys sinemâu, neuaddau bingo, casinos a chwaraeon dan do</p> <p>SUI GENERIS Mae yna lawer o fathau o ddefnydd sydd ddim yn dod o fewn unrhyw Ddosbarth Defnydd ac, o ganlyniad, maen nhw'n cael eu disgrifio fel <i>Sui generis</i> - dosbarth ar eu pen eu hun. Er enghraifft, mae theatrau, canolfannau hapchwarae, arddangosfeydd ceir, gorsafoedd petrol a swyddfeydd hurio ceir ymhlith defnyddiau sydd wedi eu heithrio'n benodol rhag unrhyw un o'r Dosbarthau a ddiffiniwyd.</p>
Cynllun Gofodol Cymru (CGC)			Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n gosod fframwaith strategol i arwain datblygiadau ac ymyraethau polisi yn y dyfodol, waeth a ydynt yn gysylltiedig â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol ai peidio. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru.
Cyfleusterau Rheoli Gwastraff			Cyfleusterau ar gyfer storio, didoli, trin a gwaredu gwastraff. Maen nhw'n cynnwys, er enghraifft, Canolfannau Ailgylchu Domestig, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, safleoedd claddu sbwriel, cyfleusterau compostio a dulliau amrywiol o adfer ynni.
Ffawdelw			Defnyddir y term 'safleoedd ffawdelw' i gyfeirio at y safleoedd hynny sydd ar gael yn annisgwyl i'w datblygu ac sydd ddim, felly, wedi eu cynnwys fel tir wedi'i ddyrannu yng nghynllun datblygu awdurdod lleol. Er enghraifft, efallai bod depo bysiau'n cau neu safle diwydiannol yn wag, ac efallai y bydd yn lleoliad addas ar gyfer tai.

7. Cyfeiriadau

Canllawiau Poblogaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gynlluniau Datblygu Lleol

<http://wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/403829/ldpguidee.pdf?lang=en>

Canllawiau Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/developplans/?lang=en>

Polisiâu Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/?lang=en>

Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/countrysidecoastalaccess/npwales/polisistatement/?lang=en>

Canllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio i Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol

http://www.arolygiaethgynllunio.gov.uk/cymru/wal/appeals/local_development_plans_e.htm

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru

http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/developplans/ldp_manual?lang=en

Canllawiau Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol

http://www.pcnpa.org.uk/PCNP/live/sitefiles/related_items/Nationlpksfinal.PDF

Cydgynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=109,141&parent_directory_id=646&id=5058

Arfarniad o Gynaliadwyedd

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5>

Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1258&SkinID=5>

Papurau Cefndir

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1211&SkinID=5>

Defnyddiwyd y dolenni uchod a'r rhai yn y Cynllun ar 21 Ionawr 2009

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol - dyddiad terfyn 2021

Atodiadau i'r
Cynllun Datblygu Lleol

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

Medi 2010

Atodiad 1 Portread o'r Parc Cenedlaethol	3
Cyflwyniad.....	3
Dibenion y Parc Cenedlaethol	4
Dibenion a dyletswydd statudol	4
A., Nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.....	4
Cymeriad y dirwedd.....	5
Bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, coetiroedd a choed.....	5
Yr Amgylchedd Hanesyddol	6
Yr Iaith Gymraeg.....	7
B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant.....	7
Datblygiadau mawr.....	7
Mwynau.....	7
Gwastraff	8
Y Weinyddiaeth Amddiffyn.....	9
Y potensial ar gyfer tyfiant.....	9
Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De Orllewin Cymru	10
Fframwaith Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro 2021	10
Cynllun Gofodol Cymru Pobl, Llefydd, Dyfodol 2008	11
Cydgynllun Datblygu Unedol 2000 – 2016	13
Datganiad o Egwyddorion Strategol i arwain paratoad Cynlluniau Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.....	13
Arolwg Cyflenwad Tir 2007	14
Cyfleusterau a Hygyrchedd ym mhentrefi a threfi'r Parc Cenedlaethol	14
C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy	15
Ansawdd y dŵr, cyflenwad a draenio	16
C. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad	16
Economi ymwelwyr.....	16
Hamdden	18
Yr arfordir a phorthladdoedd.....	18
Cyflogaeth	19
Busnesau sydd angen safleoedd	19
Cyflogaeth a datblygiad yng nghefn gwlad	20
D. Tai fforddiadwy a chynnydd tai	20
Dd. Cyfleusterau cymunedol.....	22
Cyfleusterau a gwasanaethau	22
Manwerthu	22
Cludiant cynaliadwy.....	23
Atodiad 2 Dyraniadau.....	26
Atodiad 3 Diogelu Gosodiadau.....	32
Atodiad 4 Monitro	34

Atodiad 1 Portread o'r Parc Cenedlaethol

Cyflwyniad

1.1. Diben y portread hwn yw:

- crynhoi prif rinweddau'r Parc
- adnabod negeseuon allweddol mewn Deddfau, Cynllunio a Strategaethau perthnasol ar gyfer y Parc Cenedlaethol
- dangos beth sy'n mynd yn dda i'r Parc a pha faterion allweddol sydd angen sylw
- dangos y materion sy'n arwyddocaol ym marn yr Awdurdod a rhanddeiliaid amrywiol
- esbonio rôl y Parc yn y cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.

1.2. Mae wedi ei nodi o dan yr hyn a ddaeth i'r amlwg trwy'r dadansoddiad uchod fel chwe mater allweddol o flaenoriaeth ar gyfer cynllunio defnydd tir:

- Y Dirwedd, Bioamrywiaeth, yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Iaith Gymraeg
- Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant
- Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy
- Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad
- Tai fforddiadwy a chynnydd tai
- Cyfleusterau cymunedol

Dibenion y Parc Cenedlaethol

Dibenion a dyletswydd statudol

- 1.3. Roedd Deddf y Parc Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn gosod y sylfeini ar gyfer creu'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Dynodwyd Arfordir Penfro ym 1952. Y Parciau Cenedlaethol yw anterth ansawdd tirweddau Cymru ac maent yn berfeddwledydd ar gyfer diwylliant Cymru. Maent yn adnodd economaidd pwysig iawn ar gyfer y wlad gyfan¹.
- 1.4. Dyma ddau ddiben statudol yr Awdurdod:
 - Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol; a
 - Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall nodweddion arbennig y Parciau, a'u mwynhau.
- 1.5. Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, mae hefyd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod i feithrin lles cymdeithasol cymunedau yn yr ardal. Wrth gyflawni ei ddibenion statudol, rhaid i'r Awdurdod a rhanddeiliaid eraill roi blaenoriaeth i'r diben warchod wrth ddatrys unrhyw wrthdaro nad oes modd ei gymodi rhwng y dibenion gwarchod a hybu. Gelwir hyn yn 'Egwyddor Sandford'.
- 1.6. Nodwyd gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru ym Mawrth 2007. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn dirweddau gwarchodedig o bwysigrwydd rhyngwladol, ac maen nhw'n crisialu llawer o'r hyn sy'n arbennig am gefn gwlad Cymru, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol. Er eu bod yn bennaf wledig o ran natur, mae'r Parciau'n cynnwys poblogaeth breswyl o dros 80,000, maent yn agos at gymunedau trefol pwysig ac mae ganddynt botensial sylweddol i gyfoethogi bywydau pobl Cymru a'r ymwelwyr sy'n dod i Gymru. Maent hefyd yn cyfrannu mewn ffordd bositif at iechyd a lles y cyhoedd ac at economi Cymru. Maent yn dirweddau byw, sydd wedi eu mowldio gan eu cymunedau dros filoedd o flynyddoedd. Maent yn llefydd ble mae datblygu cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo er lles yr amgylchedd, yr economi a chymunedau'r Parc. Maent yn llefydd sy'n arbrofi gydag ymagweddau newydd mewn datblygu cynaliadwy a gwarchod yr amgylchedd, ac yn esiamplau o arfer gorau ar gyfer Cymru ehangach, ac yn helpu llunio siâp polisiâu ac arferion gwledig y dyfodol, a'u harwain. Maent hefyd yn llefydd ble mae pawb sy'n gallu dylanwadu ar ddyfodol y Parciau yn cydweithio i warchod a gwella eu harddwch naturiol, bioamrywiaeth a hunaniaeth ddiwylliannol, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Arweinir yr ardaloedd arbennig hyn gan Awdurdodau'r Parciau, ac maen nhw'n dod yn fwy a mwy cyfoethog ac amrywiol o ran y dirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ac yn cael eu mwynhau a'u trysori gan groestoriad llawn o'r gymdeithas².

A., Nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol

- 1.7. Dyma'r rhai a danlinellwyd:

Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol yw elfennau a rhinweddau'r Parc Cenedlaethol sydd, gyda'i gilydd, neu ar y cyd, yn sicrhau bod y Parc Cenedlaethol hwn yn unigryw. Mae yna waith wedi bod ar y gweill i adfywio dealltwriaeth yr Awdurdod o'r nodweddion arbennig hynny ar gyfer y Cynllun Rheoli.³ Dyma'r rhai a danlinellwyd:

 - Ysblander yr arfordir
 - Daeareg amrywiol

¹ Datganiad Polisi ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, Mawrth 2007, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

² Fel uchod tudalen 3.

³ Nodweddion Arbennig, papur Cefndir Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

- Amrywiaeth y dirwedd
- Cymeriad nodedig yr aneddiadau
- Amgylchedd hanesyddol cyfoethog
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Cyfoeth y cynefinoedd a'r fioamrywiaeth
- Ynysoedd
- Hygyrchedd
- Lle i enaid gael llonydd
- Pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb
- Yr amrywiaeth o brofiadau a chyfuniad o rinweddau unigol

Cymeriad y dirwedd

- 1.8. Y Parciau Cenedlaethol yw anterth ansawdd tirweddau Cymru⁴. Paratowyd Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol ac mae yna 28 Ardal benodol o Gymeriad y Dirwedd yn y Parc, a nodwyd nodweddion arbennig ar gyfer pob ardal⁵. Mae'r Astudiaeth o Gymeriad yn defnyddio [LANDMAP](#), sef ymagwedd Cymru at asesu'r dirwedd. Mae craidd gwybodaeth [LANDMAP](#) yn cynnwys pum set data sy'n gysylltiedig â gofod, ac maent yn cofnodi gwybodaeth ynghylch y dylanwadau ffisegol, ecolegol, gweledol a synhwyraidd, hanesyddol a diwylliannol ar y dirwedd.
- 1.9. Defnyddir dynodiad o'r enw 'Lletemau Gwyrdd' i atal cyfuniad pentrefi a threfi, gan ddiogelwch cefn gwlad rhag llechfeddiant ac i amddiffyn gosodiad ardaloedd trefol. Cynhaliwyd adolygiad o'r angen am Letemau Gwyrdd, a'u maint, i fwydo'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo⁶.
- 1.10. Mae amddiffyn y Parc Cenedlaethol yn bwysig yn nhermau gwarchod yr amgylchedd a'r mwynhad a gaiff miliynau o ymwelwyr sy'n dod iddo bob blwyddyn, a hefyd yn nhermau'r balchder cenedlaethol yn y fro a'r berthynas rhwng pobl Cymru a'u hardaloedd gwledig. Mae cyfraniad y Parc at hunaniaeth gyfunol y Genedl yn anferth. Mewn ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y math o ardal wledig y mae pobl Cymru am ei gweld, Parciau Cenedlaethol Cymru yw hoff ardal wledig y Genedl, a dim ond ardaloedd lleol y rheiny a ymatebodd oedd yn rhagori arnynt⁷.
- 1.11. Fe fu rhanddeiliaid⁸ yn tynnu sylw at eu nodweddion arbennig, a oedd yn cynnwys y gwahanol fathau o ardaloedd gwledig a golygfeydd arfordirol, llonyddwch, agosatrwydd at fywyd gwyllt a'r digonedd ohono, y cymunedau egniol bach, aer ffres, dŵr clir, glân, yr amrywiaeth o arddulliau pensaernïol a hanes anheddiad hir y Parc. Roeddent hefyd yn nodi ffynonellau mwynhad, traethau, mynediad at yr arfordir, y Llwybr Cenedlaethol, syrffio, gwyllo a marchogaeth.

Bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, coetiroedd a choed

- 1.12. Mae'r Parc Cenedlaethol yn gyfoeth o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n cyfrannu at ansawdd amgylcheddol uchel yr ardal, a'i hamrywiaeth. Mae'n cynnwys, naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol, 60 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig a 13 Ardal Cadwraeth Arbennig, 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Gwarchodfa Natur Forol. Mae cyflwr safleoedd dynodedig, ar sail data a goladwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yn dynodi bod statws nodweddion Ardaloedd

⁴ Datganiad Polisi ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2007.

⁵ Astudiaeth Asesiad o Gymeriad y Dirwedd, John Campion Associates, Rhagfyr 2007 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5

⁶ Papur Cefndir Lletemau Gwyrdd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5

⁷ Pa Fath o Gefn Gwlad Sydd Ei Angen Arnom? Ymgynghorwyr Defnydd Tir ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5

⁸ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Papur Cefndir, Ionawr 2007 dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

Cadwraeth Arbennig yn ffafriol ac yn cael eu cynnal neu'n ffafriol ond yn dirywio ar gyfer 39% o'r nodweddion yn y Parc Cenedlaethol, tra bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Sir Benfro mewn cyflwr ffafriol mewn 56% o achosion. Mae nodweddion Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol mewn cyflwr ffafriol mewn 52% o achosion.

- 1.13. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Sir Benfro yn hanfodol wrth sefydlu cyflwr bioamrywiaeth, a'r hyn sy'n rhaid i ni ei wneud i'w wella. Yn 2003, darganfuwyd bod 20% o rywogaethau a chynefinoedd yn y Cynllun Gweithredu mewn cyflwr optimaidd ac yn cael eu cynnal neu mewn cyflwr optimaidd ac yn gwella; 13% mewn cyflwr llai nag optimaidd ond yn gwella; 40% yn llai nag optimadd ac yn dirywio; a 27% mewn cyflwr anhysbys. Y targed ar gyfer 2007 yn y Cynllun Rheoli presennol yw gwella'r rheiny sydd mewn cyflwr optimaidd i 25% a gwella'r rheiny sy'n llai nag optimaidd i 40%. Y targed ar gyfer 2007 hefyd yw gostwng y rheiny mewn cyflwr llai nag optimaidd i 25% a'r rheiny sy'n anhysbys i 10%. Mae'r targedau a osodwyd yn adlewyrchu'r angen i gynyddu'r cyfraddau adfer ac i bennu cyflwr cynefinoedd/rhywogaethau ble mae'n anhysbys ar hyn o bryd. Pan fyddan nhw'n cael eu mapio, mae yna fater arall yn codi hefyd, sef darnio cynefinoedd, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i rywogaethau symud o amgylch cefn gwlad, gyda safleoedd bywyd gwyllt yn dod yn ynysig ac yn anghynnaladwy⁹. Mae Cynllun Cymunedol Sir Benfro'n cynnwys targedau ar gyfer gwella cyflwr safleoedd dynodedig a rhywogaethau allweddol¹⁰.
- 1.14. Mae'r Parc yn cynnwys 51 safle Adolygiad Cadwraeth Daearegol, sy'n cwmpasu tua 40% o Forlin Sir Benfro. Mae gan bron pob un statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dylai'r gweddill gael eu nodi o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn bennaf, maent mewn cyflwr ffafriol¹¹. Mae safleoedd Geoamrywiaeth sy'n Bwysig yn Rhanbarthol yn debygol o gael eu dynodi yn ystod Haf 2009.
- 1.15. Gyda dim ond 8.6% o orchudd coetir yn Sir Benfro (sydd dipyn yn is na'r Cyfartaledd i Gymru, sy'n 12%) a chynefin goetir wedi'i rhwydweithio'n dda sydd angen yn nes at 30% o orchudd, dylem fod yn edrych am lawer o blannu a datblygiadau mewn cynefinoedd lled-naturiol cyfagos. Hefyd, yn Sir Benfro, dylem fod yn ystyried coed parcdir, cloddiau a phorfa coed fel ffyrdd o gynyddu'r gorchudd a'r cysylltedd¹².
- 1.16. Roedd ymwelwyr a thrigolion yn cyfeirio at agosatwydd bywyd gwyllt a'i ddigonedd. Gwerthfawrogyd y cyfle i weld bywyd gwyllt tra yn y Parc. Soniwyd am fathau penodol o gynefinoedd, er enghraifft rhostir, tir comin, aberoedd, blaendraethau, afonydd, cloddiau, coedwigoedd, twyni ac ynsoedd. Soniwyd yn benodol am flodau a ffawna arfordirol, gan gynnwys adar y môr, morloi a llamhidyddion. Ni chafwyd fawr o sôn amlwg am geoamrywiaeth, ond cyfeiriwyd at ymddangosiad trawiadol ac amrywiaeth golygfeydd arfordirol a chraig-ffurfiadau¹³.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- 1.17. Mae Amgylchedd Hanesyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn arbennig o gyfoethog ac amrywiol. Mae'r adnodd yn amrywio o safleoedd unigol enwog fel **Pentre Ifan** neu Gastell Cairew i dirweddau gwarchoddedig y Preselau, a ddaw o gyfnodau amrywiol. Mae archaeoleg fwy diweddar yn cynnwys tystiolaeth bwysig o bresenoldeb milwrol yn Sir Benfro.

⁹ Gwarchod Natur, Diwylliant a Chefnogi Cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, dim dyddiad, tudalen 8-9 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

¹⁰ Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro 2003/08, Fersiwn 2 Tachwedd 2006, Partneriaeth Arweiniad a Chynllunio Cymunedol Sir Benfro, tudalen 16 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

¹¹ Cynllun Datblygu Lleol Adroddiad Cwmpasu tudalennau C45 i C49. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

¹² Gwarchod Natur, Diwylliant a Chefnogi Cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod y Parc Cenedlaethol dim dyddiad, tudalen 36-37 Dolen at y we:

www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

¹³ Papur Cefndir Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, tudalen 7 dolen at y we:

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

- 1.18. Mae rhai safleoedd a henebion unigol yn cael eu hamddiffyn yn statudol oherwydd eu statws fel Henebion Cofrestredig. Yn yr un modd, caiff rhai adeiladau hanesyddol eu hamddiffyn gyda dynodiad Adeiladau Rhestredig. Ond, cyfran fach o adnodd hanesyddol cyfan y Parc yw'r safleoedd hyn.
- 1.19. Mae yna fwy na 5500 o safleoedd neu nodweddion wedi eu cofnodi yn y Parc Cenedlaethol yn y Cofnod o Safleoedd a Henebion. O'r rhain, mae tua 1500 naill ai'n Adeiladau Rhestredig neu'n Henebion Cofrestredig. Mae hyn yn golygu bod dros ¼ o'r safleoedd a gofnodwyd tu mewn i ffiniau'r Parc heb amddiffyniad statudol.
- 1.20. Trysorir y nodweddion hyn gan bobl sy'n ymweld â'r Parc a thrigolion sy'n byw yno.¹⁴
- 1.21. Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cyfres o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig a Pharciau a Gerddi Hanesyddol a 14 Ardal Gadwraeth.

Yr Iaith Gymraeg

- 1.22. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd 21.5% o drigolion Sir Benfro, a 23.3% o drigolion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 17.6% o drigolion Sir Benfro a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 1991. Ond, efallai bod y cynnydd hwn yn cuddio gostyngiadau pwysig yn lleol. Mae Wardiau Crymych, Dinas Cross, Trefdraeth a Thyddewi, y cyfan heb newid eu ffiniau rhwng 1991 a 2001, â niferoedd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, yn dangos dirywiad yng nghanran siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2001. Mae siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn bennaf yng ngogledd y Parc.

B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant

Datblygiadau mawr

- 1.23. Mae yna ddarpariaeth polisi penodol mewn polisiâu cynllunio cenedlaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol. Ni ddylid caniatáu datblygiadau mawr yn y Parc ac eithrio dan amgylchiadau neilltuoel. Ni fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i geisiadau am ddatblygiadau mawr godi o fewn y Parciau yn aml iawn¹⁷.
- 1.24. Roedd adborth gan rhanddeiliaid¹⁸ yn tynnu sylw at 'bethau bach, pethau hardd', er enghraifft, roedd ymatebion yn cynnwys cyfyngu ar archfarchnadoedd ac annog siopau bach a siopau fferm; roedden nhw'n gwerthfawrogi'r diffyg masnacheiddio a natur graddfa fach aneddiadau; roedden nhw'n ymwybodol o anfanteision twristiaeth gryswth, gormodedd o draffig; yr angen i annog diwydiant graddfa fach a phrosiectau graddfa fach sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Mwynau

- 1.25. Ers 2005, mae yna bum safle chwarelau gweithgar ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.¹⁹ Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Rhagfyr 2000 yn gosod polisiâu cynllunio defnydd tir mewn perthynas ag echdynnu mwynau mewn Parciau Cenedlaethol. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau gymryd lle yn yr ardaloedd hyn, ac eithrio o dan amgylchiadau neilltuoel.²⁰

¹⁴ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Papur Cefndir, tudalen 9.

¹⁷ Fel uchod a Polisi Cynllunio Cymru, Mawrth 2002, paragraff 5.5.6.

¹⁸ Papurau Cefndir ar yr Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Cynhadledd Myfyrwyr Cyngor Diogelu Cymru Wledig Gweler Papurau Cefndir dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5

¹⁹ Papur Cefndir Mwynau, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Ionawr 2008, tudalen 8. Dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5>

²⁰ Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2000, paragraff 21, tudalen 11

1.26. Mae Atodiad 21 y Datganiad Technegol Rhanbarthol, Hydref 2008 ar gyfer Gweithgor Agregiadau De Cymru yn nodi'r safbwynt hwn gan gynghori na ddylid caniatáu unrhyw ddyraniadau na rhoi unrhyw ganiatâd ac eithrio mewn amgylchiadau neilltuol. Ar hyn o bryd, mae gan y Parc Cenedlaethol gronfa sylweddol o greigiau a ganiateir, sy'n gallu darparu'n hawdd ar gyfer y gofynion cynhyrchu yn y dyfodol, ar sail cyfraddau a welwyd yn ddiweddar. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cynghori bod yna ddyhead sylfaenol cyffredinol i ostwng lefel y cynhyrchu mewn Parciau Cenedlaethol a, ble'n bosib, i atal unrhyw ddyraniadau newydd. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi sefyllfa'r banc tir ar gyfer Sir Benfro gyfan, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol (tudalennau 83 i 84). Mae yna ddigon o gyflenwad o greigiau am 35 mlynedd yn Sir Benfro ac mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi bod yna ddigon o dywod a graean yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer dros 15 mlynedd ar sail cyfraddau allbwn diweddar. Mae'r argymhelliad yn cynghori nad oes unrhyw ddyraniad adnoddau yn briodol ac y dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol archwilio'r posibilrwydd o gael awdurdodau cynllunio mwynau eraill, a'r diwydiant, i gymryd allbwn sy'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd o gronfeydd o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yn y tymor canolig)²¹.

1.27. Barn Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw y bydd angen nodi ffynonellau tywod a graean potensial tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn y tymor canolig i hir, a chytuno arnynt, trwy waith Gweithgor Agregiadau De Cymru neu trwy gytundeb gydag awdurdodau cynllunio cyfagos. Cefnogir y safbwynt hwn gan gyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru²². Mae'r Awdurdod wedi nodi ardaloedd diogelu mwynau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y broses hon hefyd yn helpu awdurdodau cynllunio mwynau eraill i adnabod adnoddau tywod a graean yn yr isranbarth ac yn helpu symud tuag at weithio mwynau tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae cynigion ar gyfer echdynnu glo yn y Parc Cenedlaethol yn gofyn am archwiliad trylwyr a dylid dangos bod unrhyw ddatblygiadau mwynau mawr er budd y cyhoedd cyn caniatáu iddynt fynd yn eu blaenau. Nid oes gofyn i Barciau Cenedlaethol adnabod parthau adnoddau glo²³. Mae'r Cydgyllun Datblygu Unedol yn nodi polisi'r Awdurdod i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd ar safle cwsig ym Mhenberri. Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd unrhyw safleoedd ychwanegol angen gorchymyn o'r fath o dan y Cynllun Datblygu Lleol.

Gwastraff²⁴

1.28. Mae'r Parc Cenedlaethol yn rhan o Grŵp Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru. Dyma'r goblygiadau ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol hwn:

- Caiff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu nodi'n awtomatig fel ardaloedd gwaharddiad yn y mapiau sy'n dangos ardaloedd chwiliadau ar gyfer cyfleusterau i wasanaethu anghenion y rhanbarth.
- Nid oes gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol unrhyw ofynion i ddarparu ar gyfer anghenion y rhanbarth.
- O ystyried y ffaith fod y Parciau Cenedlaethol yn cael eu nodi'n awtomatig fel ardaloedd gwaharddiad ar gyfer cyfleusterau sy'n gwasanaethu mwy nag un ardal awdurdod, mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol y ddau opsiwn canlynol ar gyfer cynllunio cyfleusterau newydd ar gyfer rheoli gwastraff sy'n codi o'r Parc Cenedlaethol:
 - Caiff Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gynllunio ar gyfer cyfleusterau newydd sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn unig, i'w lleoli o fewn ardal y Parc Cenedlaethol; a

²¹ Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr ardal sy'n dod o dan Gweithgor Agregiadau De Cymru, Hydref 2008 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1256&SkinID=5

²² Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau Mawrth 2004, paragraff 50

²³ Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2009, paragraffau 75-79, 37

²⁴ Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru, Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru, Adolygiad 1^{af}, Awst 2008.. Adran L7 ac Atodiad J Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1256&SkinID=5

- Caiff Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Unedol sy'n cwmpasu'r un ardal gydweithio'n agos i gynllunio i osod cyfleusterau newydd sy'n gwasanaethu ardaloedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Awdurdod Unedol tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae darparu data ar y gallu hwn, sydd wedi ei dorri i lawr fesul Awdurdodau Unedol, yn hwyluso'r trefniant hwn

1.29. Mae adnabod gofynion gwastraff lleol yn y Parc Cenedlaethol yn fater sydd wedi cael sylw yn y Cynllun Lleol wedi'i Adneuo mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Penfro. Mae Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru, adolygiad 1^{af}, Awst 2008, yn nodi y bydd angen adeiladu cyfleusterau lleol hyd at 1.5 hectar i mewn i wasanaethu Awdurdod y Parc Cenedlaethol hyd nes 2013 ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff lleol. Mae'r rhain yn gallu cynnwys Cyfleusterau Adfer Defnyddiau Glân, Gorsafoedd Trosglwyddo, Amwynder Dinesig, a Safleoedd Eithriad Adeiladu a Dymchwel.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

1.30. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cynghori nad oes unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygiadau o unrhyw bwys yn ystâd Sir Benfro yn y dyfodol rhagweladwy (Chwefror 2007)²⁵. Ni ddisgwylir i faint yr ystâd hyfforddiant, gan gynnwys ardaloedd gyda ffiniau'r Parciau Cenedlaethol, ostwng yn sylweddol yn y dyfodol rhagweladwy²⁶.

Y potensial ar gyfer tyfiant

1.31. Yn adroddiad yr ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer Cynllun Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 1997, cafwyd y sylwadau canlynol gan yr Archwilydd ar ddatblygiadau tai a gallu'r dirwedd.

"Mae'n rhaid i'r ymagwedd gywir ddechrau gydag ystyriaethau amgylcheddol, ac archwilio'r graddau y mae dyraniadau tir ar gyfer tai yn gydnaws â nhw. Bron yn ddi-os, mae'n rhaid i ymagwedd o'r fath arwain at ddyraniad tir cyfan ar gyfer tai sy'n cynrychioli polisi o gyfyngiad sylweddol ac ni ddylai adlewyrchu cyfraddau cwblhau yn y gorffennol."

"Rhaid i hyn ddilyn o'r ystyriaeth fod dynodiad Parc Cenedlaethol yn cynrychioli'r statws gwarchodaeth pennaf o ran harddwch golygfeydd a'r dirwedd: fod y parc eisoes â'r boblogaeth ddwysaf o blith yr holl Barciau Cenedlaethol; a bod yn rhaid cyfyngu ar ei allu i dderbyn tai pellach o ganlyniad i'w allu amgylcheddol. Byddai'n hollol anghywir, ac yn negydu dynodiad y Parc Cenedlaethol, petai'r Parc yn cael ei drin yn union yr un ffordd yn nhermau polisi â gweddill y sir, ac i ddyrannu tai newydd rhyngddynt ar sail pro rata, sy'n berthnasol i'w poblogaethau²⁷."

1.32. Yn adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar gyfer y Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro (Ionawr 2006) cafwyd y sylwadau canlynol gan yr Arolygydd ynghylch datblygiad a'r dirwedd:

"...mae'n hollol briodol y dylai'r Parc Cenedlaethol, oherwydd ei ddynodiad fel ardal o gymeriad tirwedd arbennig, fod yn destun polisi sy'n gosod cyfyngiadau gweddol lym ar ddatblygiad a'r fyddai'n niweidio'r union nodweddion hynny."²⁸

²⁵ Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Papur Cefndir, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Mai 2007 Gweler y ddolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5

²⁶ Strategaeth yr Ystad Amddiffyn 2006, In Trust & On Trust 2006, paragraff 4.5, tudalen 18. Dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5>

²⁷ Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Adroddiad i Wrthwynebiadau Priodol i Gynllun Lleol Adneuo'r Draff Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Arolygydd: P J MacDonald MSc RIBA MRTPI Dyddiadau'r Ymchwiliad: 18 Mawrth - 9 Mai 1997. Paragraffau 4.13 a 4.14 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5

²⁸ Adroddiad Arolygydd y CGDU, Ionawr 2006, paragraff 4.8.1 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5

Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De Orllewin Cymru

- 1.33. Mae'r Awdurdod yn rhan o Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De Orllewin Cymru sy'n delio gyda rhagamcanion o'r boblogaeth a'u dyraniad. Mae uchelgeisiau cyfredol gan lawer o'r grŵp yn fwy na rhagamcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ni ddaethpwyd i unrhyw gytundeb ffurfiol ar ddyraniad. Mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu nad oes llawer o archwaeth am ddyraniad, ac mae'n debygol y bydd yr Awdurdodau sy'n cymryd rhan yn mynd ar drywydd ymagweddau unigol sy'n seiliedig ar bolisiau²⁹.
- 1.34. Cyflwynwyd sylwadau gan awdurdodau cynllunio cyfagos - Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion - ar y Strategaeth Ddewisol. Codwyd nifer o bryderon arwyddocaol gan Swyddogion Cyngor Sir Penfro a gweithiwyd drwy'r rhain mewn cydweithrediad â Swyddogion y Cyngor Sir. Datryswyd pob mater a oedd o natur sylweddol³⁰. Mae Swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd wedi ceisio datrys unrhyw faterion sy'n weddill, ac ymateb iddynt, cyn Adneuo'r Cynllun. Cyflwynwyd nifer fach o sylwadau gan Gyngor Sir Ceredigion ac mae'r Awdurdod wedi ceisio ymateb i'r materion hyn. Mae Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi cael cyfle arall i gynnig sylwadau ar unrhyw faterion sy'n weddill cyn Nadolig 2008. Ni chafwyd unrhyw ymateb.

Fframwaith Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro 2021

- 1.35. Mae'r Awdurdod yn rhan o Grŵp Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro ac mae wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Fframwaith Anheddiad Allweddol Hafan Sir Benfro 2021.³¹ Mae'r ddogfen hon yn nodi dosbarthiad gofodol tyfiant a gwarchodaeth yn yr ardal i helpu cyflawni'r weledigaeth ar gyfer ardal Hafan Sir Benfro yn y Cynllun Gofodol.
- 1.36. Nodwyd ardaloedd tyfiant strategol tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae gan yr ardal dri chanolfan strategol, Yr Hafan (Hwlfordd, Aberdaugleddau/Neyland a Phenfro/Doc Penfro), Abergwaun ac Wdig a Thref Caerfyrddin. Fe fydd y canolfannau hyn yn darparu rôl ranbarthol ac yn ffocws pwysig ar gyfer datblygiad.
- 1.37. Gwelir Dinbych-y-pysgod, Anheddiad Haenen 2 gydag Abergwaun/Wdig., San Clêr, Hendy-gwyn ac Arberth fel canolfan dreftadaeth a ddiwylliannol o safon ar gyfer twristiaeth, o faint canolig, ac yn harbwr gweithiol. Targedwyd Dinbych-y-pysgod i'w datblygu fel canolfan gwasanaethau lleol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, ac i wella'i rôl fel harbwr gweithiol, gan gynnwys cysylltiadau at ynysoedd cyfagos, gwelliannau amgylcheddol, mentrau rheoli traffig, ailddatblygu ac aildefnyddio safleoedd ac adeiladau mewn ardaloedd canolog a datblygu safleoedd cyflogaeth wedi eu dyrannu. Mae Crymmych, y mae rhan fechan ohoni yn gorwedd o fewn y Parc Cenedlaethol, hefyd yn yr haenen hon.
- 1.38. Nodwyd aneddiadau llai neu ganolfannau lleol Trefdraeth, Saundersfoot a Thyddewi fel aneddiadau Haenen 3 gyda Chastellnewydd Emlyn, Cilgeti, Talacham/Pen Tywyn a Threletert.
- 1.39. Targedwyd aneddiadau'r Parc Cenedlaethol ar gyfer:
- Datblygiad safleoedd cyflogaeth, ble maent wedi eu dyrannu yn y Cydgynllun Datblygu Unedol,
 - mentrau rheoli traffig yn Saundersfoot a Thyddewi a gwelliannau i Lôn Glasfryn, Tyddewi i roi sylw i faterion diogelwch, tagfeydd a datblygiad.
 - gwella canolfannau fel atyniadau i dwristiaid, a

²⁹ fel ag yr oedd yn Hydref 2008.

³⁰ Cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Datblygiad Cyngor Sir Penfro 25 Tachwedd 2008.

³¹ Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro Fframwaith Anheddiad Allweddol 2021. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1247&SkinID=5

- diogelu porthladdoedd gweithiol Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod.

Cynllun Gofodol Cymru Pobl, Llefydd, Dyfodol 2008

1.40. Mae'r ddogfen hon yn diweddarau Cynllun Gofodol Cymru.

1.41. Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar Fframwaith Anheddiad Allweddol Cynllun Gofodol Cymru. Dyma'r prif flaenoriaethau strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon:

- Goresgyn natur berifferol yr Ardal trwy wella cysylltiadau trafniadaeth strategol a seilwaith economaidd, gan gynnwys gwell cysylltiadau telegyfathrebu, ac uchafu potensial asedau morol yr Ardal a'i agosatrwydd at Iwerddon
- Datblygu economi mwy amrywiol, entrepreneuraidd, sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan weithio'n agos gyda sefydliadau addysg uwch a phellach, busnesau brodorol a chwmmiâu amlwlad, er mwyn cynyddu lefelau cyflog a chreu digon o swyddi â chyflog da i sefydlu mas critigol a fydd yn denu pobl â sgiliau uwch ac yn gostwng allfudiad pobl ifanc fedrus. Bydd ynni a'r amgylchedd yn hanfodol i sicrhau llwyddiant
- Cynyddu gweithgareddau economaidd uwch, sy'n ychwanegu gwerth, yn enwedig yn yr economi gwledig, trwy ddatblygu sector twristiaeth a hamdden o ansawdd uchel trwy gydol y flwyddyn
- Datblygu tri chanolfan strategol yr Ardal. Elfennau sy'n hanfodol i hyn yw adnewyddu canol trefi, datblygu rolau cyflenwol aneddiadau o fewn canolfannau, a rhyngddynt, cryfhau allgymorth cymunedol, economaidd a chymdeithasol a lledaenu buddion a thyfiant i'r gefnwlod ehangach a chymunedau gwledig llai
- Codi lefelau sgiliau trwy waith partneriaeth effeithiol a theilwra dysgu ac uwchsgilio i gwrdd ag anghenion busnesau, nawr ac yn y dyfodol, yn well, ar draws amrywiaeth o sectorau
- Cynnal cymunedau, a'u cryfhau, trwy gymryd camau wedi'u ffocysu, i roi sylw i amddifadedd gwledig a threfol ac anweithgarwch economaidd ac i sicrhau darpariaeth tai sy'n addas i bawb
- Gwarchod a gwella asedau amgylcheddol pwysig yr Ardal, gan uchafu eu potensial trwy ddatblygu cynaliadwy enghreifftiol

1.42. **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy:** I helpu cwrdd â'r heriau hyn, mae Grŵp Ardal y Cynllun Gofodol wedi nodi tri chanolfan strategol (ychwanegwyd Abergwaun ac Wdig at y rhestr o ganolfannau strategol o'r Fframwaith Anheddiad) sy'n chwarae rhan ranbarthol bwysig ac felly dylai fod yn ffocws pwysig ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol³². Fel arall, mae'r hierarchaeth fel y Fframwaith Anheddiad.

1.43. Yn baralel â chanolbwyntio buddsoddiad yn y dyfodol ar dri chanolfan strategol yr Ardal, mae cysylltiadau at yr aneddiadau hyn, a phatrwm amrywiol hyd yn oed canolfannau gwledig bach sy'n eistedd oddi tanynt, yn cael eu cryfhau a'u gwella fel bod y cefnwledydd yn teimlo buddion y buddsoddiad yn wirioneddol, a'i fod yn lledu tuag atynt³³.

1.44. Mae'r ddarpariaeth tai newydd yn debygol o adlewyrchu patrwm hanesyddol datblygiadau'r ardal yn gymesur â'r ymagwedd at anheddiad a nodwyd uchod, gyda phwyslais parhaus ar aneddiadau o fewn y canolfannau strategol ar hyd y coridor trefol sy'n cysylltu'r M4 at borthladdoedd yr Ardal. Er gwaethaf y pwyslais ar aneddiadau allweddol, mae'n bwysig fod tyfiant tai hefyd yn ceisio adfywio

³² Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 110 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1247&SkinID=5

³³ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 112

canolfannau a chymunedau llai, a'u cynnal. Dylai darpariaeth tai yn y Parc Cenedlaethol fod ar raddfa sy'n anelu at gwrdd ag anghenion y boblogaeth leol yn unol â dibenion y Parc a'i ddyletswydd statudol³⁴.

- 1.45. **Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy:** Mae darparu trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ble mae'r ddibyniaeth ar gar i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau ar ei fwyaf, yn mynd i barhau i fod yn heriol yn ariannol, ac felly bydd angen i flaenoriaethau uchafu effeithiau buddiol ar bobl a'r amgylchedd³⁵.
- 1.46. Mae alinio gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn hanfodol - gweler Papur Cefndir Cludiant Cynaliadwy.
- 1.47. **Hybu Economi Cynaliadwy:** Bydd safleoedd cyflogaeth strategol yn lleoliadau allweddol ar gyfer buddsoddiad a chyflogaeth. Mae angen sicrhau bod amrywiaeth o safleoedd ac adeiladau fforddiadwy o ansawdd da ar gael i hybu datblygiad busnesau bach a chanolig, gyda'r seilwaith priodol, yn enwedig technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Efallai bod angen safleoedd strategol mwy o faint i uchafu potensial strategol Dyfrffordd Aberdaugleddau, ac mae angen adnabod safleoedd sydd â photensial o'r fath, a'u cadw ar gyfer defnyddiau o'r fath sydd â chysylltiad â'r Ddyfrffordd.
- 1.48. Blaenoriaeth yw datblygu strategaeth ynni ar gyfer Sir Benfro – Yr Hafan, i ddarparu llwyfan ar gyfer sefydlu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, sgiliau a'r amgylchedd sy'n codi o'r sector ynni, ac yn benodol i wneud yr Ardal yn ganolfan ar gyfer arloesedd yn y sectorau ynni a nwyddau amgylcheddol, gan gynnwys ynni carbon isel ac adnewyddadwy.³⁶
- 1.49. Mae twristiaeth a hamdden eisoes yn rhan fawr o economi'r Ardal ond mae ganddynt y potensial i gael eu datblygu ymhellach, gan gynnwys gweithredu Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Twristiaeth. Dylai'r Ardal fod yn gyrchfan bwysig trwy gydol y flwyddyn, gyda'r pwyslais ar ddarpariaeth o ansawdd uchel ar bob lefel, gan gefnogi swyddi sy'n cael eu talu'n dda. Mae atgyfnerthu cymeriad nodedig yr Ardal, law yn llaw â gweithgareddau awyr agored, hamdden forol, hamdden a diddordeb ym mywyd gwyllt yr Ardal, archaeoleg, hanes a diwylliant, yn ganolog wrth gynnig rhywbeth arbennig iawn i'r ymwelydd³⁷.
- 1.50. Mae datblygiad mentrau twristiaeth sydd wedi eu lleoli o fewn hen ardal tyfiant twristiaeth Dinbych-y-pysgod ac ar hyd y coridor arfordirol gan gyrraedd Talacharn yng ngorllewin Sir Gâr, yn arbennig o bwysig ar gyfer arlwy twristiaeth yr Ardal³⁸.
- 1.51. **Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd:** Mae gwarchod a gwella asedau'r Ardal mewn ffordd effeithiol yn bwysig, er lles yr asedau, ond hefyd mae'n hanfodol wrth gefnogi adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Darperir cyngor manwl o dan bum thema ar y potensial pennaf ar gyfer gweithredu ar y cyd³⁹.
- 1.52. **Parchu Elfennau Nodedig:** Tanlinellir nodweddion unigryw'r Ardal, sy'n amrywio o'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig i ddiwylliant/iaith⁴⁰.
- 1.53. Rôl yr astudiaeth yw ystyried rolau a pherthnasoedd aneddiadau yn ardal y Cynllun Gofodol ar hyn o bryd, a nodi ffyrdd o'u gwella. Mae'r canlynol yn benodol i'r Parc Cenedlaethol:

³⁴ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 115

³⁵ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 118

³⁶ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 118

³⁷ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 119

³⁸ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 120

³⁹ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 121 to 123 Dolen at y we:
www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1247&SkinID=5

⁴⁰ Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008 Tudalen 124

- Sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy yn y prif ganolfannau a'r canolfannau llai (paragraff 3.14);
- Adnabod rôl amaethyddiaeth mewn canolfannau llai ac ardaloedd gwledig (paragraffau 3.43 a 3.53);
- Mae pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd a'i hybu fel hwylusydd ar gyfer datblygu twristiaeth (ond cydnabod y cyfyngiadau arno) yn hanfodol wrth sicrhau ymagwedd gytbwys, gyda Dinbych-y-pysgod/Saundersfoot fel y prif ffocws ar gyfer twristiaeth yn yr ardal, a chynghorir bod angen datblygu'r canolfannau hyn fel canolfan fwy cynaliadwy a llwyddiannus eto ar gyfer twristiaeth. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i wella ansawdd yr arlwy twristiaeth, gwella'i atyniad yn ystod cyfnodau bob ochr i'r cyfnodau brig, a chyfnodau tawel ac ymestyn yr amrywiaeth o gyfleoedd twristiaeth (paragraff 3.47). Cydnabyddir rôl Trefdraeth a Thyddewi hefyd (paragraffau 3.49 a 3.51);
- Tu allan i ganolfannau'r cynllun gofodol, cydnabyddir canolfannau llai am eu rôl yn gwasanaethu anghenion bob dydd (paragraff 3.80). Mae rhai yn chwarae rhan arbenigol fel Tyddewi;
- Mae canolfannau llai yn llai tebygol o gael cyfleusterau hamdden a chyfleusterau iechyd (mater y mas critigol) ac felly mae hygyrchedd Canolfannau mawr yn allweddol (paragraffau 3.92 a 3.111);
- Trafnidiaeth: dylid hyrwyddo cysylltiadau da ar draws Ardal y Cynllun Gofodol, fel bod pob aelod o bob cymuned yn gallu manteisio ar well cyfleoedd i weithio law yn llaw, trwy gael mynediad at amrywiaeth lawn o wasanaethau a chyfleusterau yn gyflym ac yn effeithiol (paragraff 3.117);
- Cefnogi cyfleoedd annisgwyl ar gyfer cyflogaeth graddfa fach (paragraff h, tudalen 70);
- Parhau i gefnogi twristiaeth fewndirol yn ogystal â chyfleoedd arfordirol (paragraff c, tudalen 72). Datblygu gweithgareddau ychwanegol â ffocws awyr agored (paragraff d, tudalen 72). Hybu cyfleusterau dan do ychwanegol ar gyfer y tymor bob ochr i'r tymor brig, a'r cyfnod tawel (paragraff f, tudalen 72).

Cydgynllun Datblygu Unedol 2000 – 2016

- 1.54. Roedd Cydgynllun Datblygu Unedol 2000-2016 yn canolbwyntio ar y prif aneddiadau⁴¹ ar y coridor economaidd ar hyd llinell y TRA40 a'r TRA477 ar gyfer datblygiadau. Mae'r aneddiadau hyn yn gorwedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Gwelir y Parc Cenedlaethol fel lleoliad sydd â gallu cyfyngedig i ddatblygu ymhellach heb gyfaddawdu ar rinweddau'r dirwedd. Dylai datblygiadau tai gwrdd ag anghenion lleol, gyda'r galw cyffredinol yn cael ei ddiwallu tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn awdurdodaeth gynllunio'r Sir.

Datganiad o Egwyddorion Strategol i arwain paratoad Cynlluniau Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro⁴²

- 1.55. I gydnabod y berthynas ddaearyddol a swyddogaethol agos rhwng y ddwy ardal, mae'r ddau awdurdod wedi cytuno'n ffurfiol ar gyfres o egwyddorion. Mae'r materion sy'n cael sylw yn perthyn i themâu diweddariad Cynllun Gofodol Cymru y mae'r ddau Awdurdod yn cefnogi ei weledigaeth a'i amcanion:
- Adeiladu cymunedau cynaliadwy
 - Hybu economi cynaliadwy
 - Gwerthfawrogi ein hamgylchedd

⁴¹ Hwiffordd, Penfro, Doc Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun, Neyland ac Arberth.

⁴² Gweler y papur cefndir, dolen at y wefan: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

- Sicrhau mynediad cynaliadwy
- Parchu nodweddion unigryw

Arolwg Cyflenwad Tir 2007⁴³

1.56. Cynhaliwyd arolwg o'r tir sy'n addas i'w ddatblygu. Mae wedi nodi hectarau o dir sy'n addas ar gyfer mathau amrywiol o ddatblygiad.

Tabl 1 Cyflenwad Tir mewn Hectarau

Lleoliad	Hectarau ar gyfer Safleoedd ar gyfer Tai yn unig (dim c. cynllunio)	Hectarau ar gyfer Cyflogaeth/Defnydd Cymysg (dim caniatâd)	Hectarau ar gyfer Tai - Tir gyda Ch. Cynllunio	Cyfanswm Hectarau
Canolfan Haenen 2				
Dinbych-y-pysgod	9.87	0.59	2.27	12.73
Canolfannau Haenen 3				
Trefdraeth	1.50	0.79	0.40	2.69
Saundersfoot	0	0.30	2.92	3.22
Tyddewi	5.28	1.67	1.29	8.24
Crymych	0.37	0	0	0.37
Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad	10.21	5.27	19.74	36.84
Cyfanswm	27.23	8.62	26.62	62.47

1.57. Byddai'r tir hwn yn gallu helpu gwasanaethu anghenion tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol y Parc Cenedlaethol. Mae hyn wedi ystyried safleoedd a awgrymwyd trwy Astudiaeth Anheddiad a oedd yn gwirio ymylon safleoedd anheddiad a'u haddasrwydd ar gyfer eu datblygu. Cynhaliwyd astudiaeth i wirio'r cyflenwad potensial o fewn aneddiadau hefyd. Ceir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y ddarpariaeth tai isod:

1.58. O ran hectarau ar gyfer datblygiadau maes glas neu dir llwyd, mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad:

Tabl 2 Darpariaeth Tir Llwyd/Maes Glas

Lleoliad	Tir Llwyd	% o'r cyfanswm	Maes Glas	% o'r cyfanswm	Cyfanswm Hectarau
Safleoedd Potensial – Tai	3.07	10%	26.32	90%	29.39
Safleoedd Potensial - Cyflogaeth/Defnydd Cymysg	0.90	11%	7.61	89%	8.51
Tir â Chaniatâd Cynllunio	17.03	64%	9.59	36%	26.62
Cyfanswm	20.99	33%	43.52	67%	64.51

Cyfleusterau a Hygyrchedd ym mhentrefi a threfi'r Parc Cenedlaethol

1.59. Cynhaliwyd dadansoddiad o gyfleusterau ac aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol⁴⁴. Roedd yr asesiad yn adolygu lefel y cyfleusterau fel siopau, swyddfeydd post, tafarndai ayb., gwaredu

⁴³ Gweler y Papur Cefndir ar Feini Prawf Safleoedd am fanylion cyflenwad tir. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5

carthffosiaeth a chyflenwad dŵr, a pha mor dda yr oedd yr aneddiadau yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus.

C. Newid mewn hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

- 1.60. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gymryd camau i ostwng allyriannau'r nwyon tŷ gwydr sy'n achosi newid mewn hinsawdd ac i gynllunio ar gyfer y newid sydd eisoes ar waith, ac i ymateb yn effeithiol iddo. Mae'r system gynllunio yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at fentrau ehangach i oresgyn newid mewn hinsawdd⁴⁵. I ddilyn hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig diwygiadau pellach i'r polisi, gan ystyried y cynnydd ar yr agenda newid mewn hinsawdd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys, yn fwyaf nodedig, dyheadau Di-garbon 2011, ymrwymiad Cymru'n Un at ddatganoli Rheoliadau adeiladu a mabwysiadu'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy yng Nghymru. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol pellach yng Ngorffennaf 2008, yn chwilio am farn pobl ar gynigion ar gyfer:
- Dylunio datblygiadau i gynnwys mesurau i liniaru newid yn yr hinsawdd ac i addasu ar ei gyfer
 - Y defnydd o safonau adeiladu cynaliadwy i yrru cynaliadwyedd adeiladau yng Nghymru i fyny
 - Ymgorffori ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol i ddatblygiadau newydd i ostwng allyriannau carbon
 - Gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol i osod safonau uwch yn y meysydd uchod ar gyfer safleoedd strategol
- 1.61. Mae'r Awdurdod wedi comisiynu Asesiad Ynni Adnewyddadwy, ac mae darganfyddiadau'r asesiad yn cael eu defnyddio i fwydo datblygiad polisiau ac i gynghori ar gyfraniadau tebygol o ran cadwraeth ynni a chynhyrchu ynni.⁴⁶
- 1.62. Nododd rhanddeiliaid⁴⁷ bod newid mewn hinsawdd, ynni adnewyddadwy, materion llifogydd ac erydiad, yn faterion pwysig. Gwelwyd cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel y brif flaenoriaeth ar gyfer materion i gael sylw yng Nghynhadledd y Chweched Dosbarth. Mae problemau mwy diweddar gyda chynnydd mewn costau ynni, gostyngiad mewn adnoddau a phrinder bwyd yn pwytio at yr angen i gwestiynu'r arfer o fynd ar drywydd twf economaidd ar unrhyw gost. Gallai mesurau sydd eu hangen i greu 'glaniad meddal' o'r olew brig gyfrannu at oresgyn newid mewn hinsawdd.
- 1.63. Cyfyngir y perygl o lifogydd yn y Parc Cenedlaethol at ddyffrynnoedd afonydd ac ardaloedd arfordirol isel penodol. Mae mapiau o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar hyn o bryd, mae tua 2% o gyfeiriadau yn y Parc Cenedlaethol o fewn ardaloedd a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o orlifo gan Asiantaeth yr Amgylchedd⁴⁸.
- 1.64. Cynhyrchwyd y genhedlaeth gyntaf o Gynlluniau Rheoli Traethlin yn cwmpasu Morlin Penfro, a thynnwyd sylw at sawl lleoliad fel ardaloedd ble mae'n debygol y bydd angen 'encilio'r llinell' yn y tymor hir, gyda chodiad yn lefelau'r môr, h.y. bydd y môr yn gorlifo'r tir. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
- 1.65. Dyma'r ardaloedd sy'n wybyddus ar gyfer llifogydd arfordirol: Abereiddi; Bae Angle; Little Furznpic i Benrhyn; Lydstep Haven; Bae Maenorbŷr; Niwgwli; Traeth Trefdraeth ac Aber Nyfer;

⁴⁴ Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Tyfiant gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5

⁴⁵ Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog ar Gynllunio ar gyfer Newid Mewn Hinsawdd, Rhagfyr 2006, paragraffau 1 a 4.

⁴⁶ Papur Cefndir Asesiad Ynni Adnewyddadwy – Dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5>

⁴⁷ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion a Chynadledau Chweched Dosbarth a CDCW 2006. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5

⁴⁸ Adroddiad Cwmpasu Cynllun Datblygu Lleol, tudalen C36. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

Pickleridge; Poppit; Pwllgwaelod; Traeth y De, Dinbych-y-pysgod; Cei Ystafbwl; a Bae Y Porth Mawr. Mae yna nifer o aneddiadau ar hyd yr arfordir y gallai codiad yn lefelau'r môr ac effeithiau eraill newid yn yr hinsawdd effeithio arnynt. Dyma'r aneddiadau hynny: Llanrhath; Angle; Aber Llydan; Dale; Freshwater East; Aber Bach; Niwglwl; Trefdraeth; Nolton Haven; Saundersfoot; Solfach; a Dinbych-y-pysgod.

- 1.66. Mae ardaloedd y gwyddwn eu bod mewn perygl o lifogydd o'r afonydd yn cynnwys rhannau o'r aneddiadau canlynol: Llanrhath; Wiseman's Bridge; ardaloedd gorllewinol Dinbych-y-pysgod; Parc Trewent yn Freshwater East; dwyrain Angle; Niwglwl; Solfach Isaf; Dyffryn Alun, Tyddewi; Nyfer; Felindre Farchog; ardaloedd o amgylch Mynachlogddu; Pontfaen; a Llanychâr.
- 1.67. Mae materion ansawdd aer ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn ymwneud fwy â rôl gweithgareddau, yn y Parc ac o'i gwmpas, wrth gyfrannu at lygryddion aer, yn hytrach na phrofiadau ansawdd aer mewn safleoedd yn y Parc Cenedlaethol⁴⁹. Y prif sectorau sy'n cyfrannu CO₂ yn y Parc Cenedlaethol yw llosgi domestig a masnachol; llosgi diwydiannol; natur; trafnidiaeth ar yr heolydd; a mathau eraill o drafnidiaeth. Mae yna ddwy ffynhonnell bwynt ar gyfer CO₂, sef Purfa Total yn Aberdaugleddau, sy'n allyrru tua 308,253 tonnell o garbon ar ffurf CO₂ bob blwyddyn, a phurfa Chevron ym Mhenfro, sy'n allyrru tua 180,982 tonnell. Mae'r ffynonellau pwynt hyn yn cynrychioli tua phedair gwaith cyfanswm CO₂ pob ffynhonnell yng ngweddill Sir Benfro, ond gan fod y cynnyrch i'w ddefnyddio'n genedlaethol, dylid gweld eu cyfraniad at CO₂ yn y cyd-destun hwn⁵⁰.
- 1.68. Mae dylunio cynaliadwy trwy roi sylw i gyd-destun, galwadau am ynni, dŵr, gwastraff a gofynion draenio yn gallu helpu tacio achosion newid mewn hinsawdd⁵¹. Yn gyffredinol, mae ansawdd dŵr yn uchel yn y Parc Cenedlaethol⁵². Mae'r Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro yn nodi targedau ar gyfer cynnal ansawdd y dŵr a'i wella⁵³.

Ansawdd y dŵr, cyflenwad a draenio

- 1.69. Yn gyffredinol, mae Dŵr Cymru yn dweud y dylai fod yn gallu darparu prif gyflenwad dŵr at y datblygiadau a gynigir yn y strategaeth ddewisol. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddarparu prif gyflenwad dŵr oddi ar y safle er mwyn rhoi sicrwydd cyflenwadau dŵr i gwsmeriaid presennol⁵⁴.
- 1.70. Ystyrir bod gwaredu gwastraff yn fater mewn lleoliadau penodol yn y Parc Cenedlaethol ac y bydd angen sylw i roi lle i ddatblygiadau pellach mewn trefi a phentrefi penodol yn y Parc⁵⁵.

C. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

Economi ymwelwyr

- 1.71. Mae'r economi ymwelwyr yn ddiwydiant allweddol yn yr ardal, ac mae'r buddion sy'n deillio ohono yn ymestyn y tu hwnt i'r sectorau llety ac atyniadau. Mewn astudiaeth dangoswyd bod

⁴⁹ Adroddiad Cwmpasu Cynllun Datblygu Lleol, tudalen C32.

⁵⁰ O ble y daw'r CO₂? Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

⁵¹ Datganiad Polisi Cynllunio Interim Drafft y Gweinidog ar Newid yn yr Hinsawdd, Rhagfyr 2006

⁵² Adroddiad Cwmpasu ar y Cynllun Datblygu Lleol, tudalen C32 Dolen at y we:

www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

⁵³ Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro 2003/08, Fersiwn 2 Tachwedd 2006, Partneriaeth Arweiniad a Chynllunio Cymunedol Sir Benfro, tudalen 16 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

⁵⁴ Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Tyfiant, Papur Cefndir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. dolen at y we:

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁵⁵ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Tyfiant Awdurdod y Parc Cenedlaethol dolen at y we:

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5> and Atodiad 2 of the Deposit Cynllun Datblygu Lleol.

ychydig dros 1,600 o'r 4,500 o swyddi y mae amgylchedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn eu cynnal mewn gwestai, bariau a bwytai - 34.7% o'r cyfanswm⁵⁶.

- 1.72. Gellir cael rhywfaint o arwydd o'r sector iechyd a thwristiaeth o newidiadau yn y nifer o gofrestrïadau TAW yn y sector gwestai a bwytai. Gwelwyd cynnydd graddol dros y cyfnod o ddeng mlynedd o 1994 i 2004⁵⁷. Ond, mae achosion o westai'n cau wedi dod yn duedd arwyddocaol yn y Parc. Mae ystadegau preswyllo ar gyfer Gorllewin Cymru hefyd wedi codi o 43% ym 1998 i 58% yn 2006. Mae'r ystadegau sydd ar gael ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn awgrymu bod yr ardal yn fwy poblogaidd yn y tymor gwyliau brig na Gorllewin Cymru yn ei gyfanrwydd, sydd â chyfradd breswyllo o 66%. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos patrwm breswyllo hynod o dymhorol mewn gwestai gyda phwyntiau isel dros y gaeaf yn disgyn o dan 30% o fis Tachwedd i fis Mawrth. Nid oes ystadegau penodol ar gael ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn y cyfnod hwn, ond mae'r gwestai a gollwyd yn y Parc Cenedlaethol ers y 1980au yn awgrymu bod y patrwm yn debyg⁵⁸.
- 1.73. Mae preswyllydd safleoedd carafannau wedi cynyddu'n sylweddol ers 2000. Mae safleoedd awdurdodedig ar gyfer carafannau statig a/neu deithiol yn dangos cynnydd o 14% ar y cyfan. Mae hyn wedi dod â phreswyllydd lleiniau ar safleoedd carafannau sefydlog yn y Parc Cenedlaethol i dros 90%, er bod tua 400 o leiniau yn dal i fod yn wag⁵⁹.
- 1.74. Yr hoff fath o lety i ymwelwyr a oedd yn aros yn Sir Benfro oedd hunanarlwyo (28%) gydag 16% yn aros mewn gwesty ac 11% ar safleoedd carafannau teithiol. Roedd llety gwely a brecwast yn cyfrif am 12% o'r llety a ddefnyddiwyd. Roedd yr hoff ddewis o lety yn amrywio trwy'r flwyddyn, gydag amrywiadau tymhorol mewn preswyllydd, e.e., llety 'teithiol' yn cynyddu yn y trydydd chwarter uwchben y gyfrannedd yn chwarter un a dau (2.7% a 9.8% yn ôl eu trefn). Roedd mwyafrif yr ymwelwyr (91.1%) yn cyrraedd mewn car. O ran cymharu'r profiadau gwyliau yr oedd pobl yn eu disgwyl, a'r profiadau a gawsant, yr agweddau a oedd yn cael eu trysori fwyaf cyn ac ar ôl y gwyliau oedd y golygfeydd heb eu difetha, tawelwch a llongydwch, y dreftadaeth ddiwylliannol, y pleser o gerdded ac ansawdd y llety⁶⁰.
- 1.75. Mae Cynllun Gofodol Cymru, 2008 yn cyfeirio at ddarpariaeth ansawdd uchel gan Hafan Sir Benfro ar bob lefel, gyda rhywbeth nodedig i bob ymwelydd, ac yn croesawu twristiaeth am y manteision y mae'n eu cyflwyno trwy gefnogi gwasanaethau lleol, treftadaeth a'r amgylchedd⁶¹. Er mwyn symud y blaenoriaethau hyn yn eu blaenau, cynhyrchwyd dogfen o'r enw Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Twristiaeth Hafan Sir Benfro i gynyddu asedau wedi eu tanddefnyddio, i gynyddu gwariant ymwelwyr ac i ymestyn y tymor twristiaeth. Mae'r cynllun yn cynnwys prosiectau sy'n anelu at ymestyn y tymor twristiaeth, rheoli gweithgareddau a gwella cludiant cynaliadwy ar gyfer ymwelwyr.
- 1.76. Mae gweledigaeth Strategaeth Twristiaeth Ddrafft Cyngor Sir Penfro yn un sy'n ceisio sicrhau bod Sir Benfro yn cael cydnabyddiaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel cyrchfan arfordirol neilltuol a nodedig, sy'n darparu cyfleusterau o ansawdd da i ymwelwyr a thrigolion eu mwynhau, tra'n diogelu ei chymunedau a'i hamgylchedd trwy dyfiant cynaliadwy diwydiant twristiaeth llewyrchus trwy gydol y flwyddyn. Y prif amcanion yw gwella ansawdd y profiad twristiaeth, gwella hygyrchedd, datblygu partneriaeth, cydweithio effeithiol a chael ymagwedd gynaliadwy at dwristiaeth⁶².

⁵⁶ Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd: Astudiaeth ar dri Pharc Cenedlaethol Cymru gan Socio Economic Research Services Ltd – dim dyddiad. Dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁵⁷ Adroddiad Cwmpasu Cynllun Datblygu Lleol C15. Dolen at y we:

www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

⁵⁸ Papur Cefndir Mwynhad, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Awst 2007, tudalen 20 Dolen at y we:

www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

⁵⁹ Papur Cefndir Mwynhad, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Awst 2007, tudalen 20

⁶⁰ Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro, Research and Marketing Ltd, Adroddiad Terfynol, Rhagfyr 2004, tudalennau 16 i 17, 18-19 dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁶¹ Cynllun Gofodol Cymru 2008, tudalen 119 Dolen at y we:

www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1247&SkinID=5

⁶² Strategaeth Twristiaeth Ddrafft Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Penfro, tudalen 1.

- 1.77. Roedd ymwelwyr a thrigolion yn teimlo y gellid gweld Bluestone fel datblygiad sydd, o bosib, yn gosod cynsail ar gyfer datblygiadau tebyg yn y Parc. Tanlinellwyd gorboblogi mewn rhai ardaloedd. Nid yw masnacheiddio ymlusgol ac atyniadau yn mynd law yn llaw gyda nodweddion arbennig y Parc. Yr angen i osgoi canolfannau gwyliau mawr a tharo cydbwysedd rhwng hybu mwy o ddiddordeb i ymwelwyr a chadw'r amgylchedd yn hardd⁶³.
- 1.78. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael effaith economaidd aruthrol tu allan i'w ffiniau am ei fod, yn bennaf, yn rhuban arfordirol. Mae bron y cyfan o'r gyflogaeth anuniongyrchol a'r incymau anuniongyrchol a gynhyrchir gan amgylchedd y parc o fudd i weddill economi Cymru. Mae cyflogedigion, nwyddau a gwasanaethau yn gallu teithio'n hwylus i mewn ac allan o'r Parc ac mae mwyafrif y cyflenwyr a'r cyflogedigion wedi eu lleoli tu allan i'r Parc. Mae gan gyflogaeth sylfaen dwristiaeth gref⁶⁴.
- 1.79. Mae polisi cyfyngol yn erbyn meysydd carafannau newydd ac estynedig wedi bodoli yn y Parc Cenedlaethol ers canol y 1970au. Mynegodd llythyr gan Ysgrifennodd Gwladol Cymru ym 1975 bryder ynghylch effaith carafannau gwyliau a datblygiadau chalet, yn enwedig yn y Parciau Cenedlaethol. Mae safbwynt polisi o beidio â chaniatáu datblygiadau carafán a chalet pellach ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, oherwydd pryderon ynghylch yr effaith ar yr amgylcheddol, wedi bod mewn lle ers 1983 (Cynllun Strwythur Dyfed) ac wedi cael ei gadarnhau yn Adroddiad Arolygydd Cynllun Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym 1998⁶⁵ ac, yn fwy diweddar, yn Adroddiad Arolygydd y Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro, Ionawr 2006⁶⁶.

Hamdden

- 1.80. Mae yna 30 ardal y gellid eu disgrifio fel 'poethfannau hamdden' yn y Parc Cenedlaethol ble mae yna faterion fel gwrthdaro rhwng defnyddwyr gwahanol, mae yna dagfeydd traffig, aflonyddwch oherwydd sŵn, difrod ffisegol i'r ardal a'r cynefinoedd, a tharfu ar rywogaethau neu lygredd⁶⁷.
- 1.81. Roedd yr arolwg o ymwelwyr a thrigolion yn tynnu sylw at draethau a mynediad at yr arfordir a'i olygfeydd trwy'r Llwybr Cenedlaethol, fel rhinwedd bwysig yn y Parc⁶⁸.
- 1.82. Cynhaliwyd Asesiad o Ofodau Agored i fwydo'r broses o ddrafftio'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo⁶⁹.

Yr arfordir a phorthladdoedd

- 1.83. Tu allan i borthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro, mae mwyafrif morlin Sir Benfro yn gorwedd o fewn y Parc Cenedlaethol, ac, i raddau helaeth, mae heb ei ddatblygu ac yn arbennig o sensitif yn nhermau tirwedd ac, yn aml, am resymau gwarchod natur hefyd. Mae morlin y Parc Cenedlaethol yn gartref i bedwar harbwr gweithiol yn Saundersfoot, Dinbych-y-pysgod, Solfach a Phorthgain ac oherwydd eu nodweddion llanwol, nid yw'r môr yn

⁶³ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Papur Cefndir, Mai 2007 dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁶⁴ Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd: Astudiaeth ar dri Pharc Cenedlaethol Cymru, gan Socio Economic Research Services Limited dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁶⁵ Cynllun Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Adroddiad yr Arolygydd, Mawrth 1998, 15.16 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5.

⁶⁶ Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro, Adroddiad yr Arolygydd, Ionawr 2006, paragraff 3.17.2

⁶⁷ Adroddiad Cwmpasu Cynllun Datblygu Lleol C21 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5.

⁶⁸ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ionawr 2007, tudalen 9. dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁶⁹ Papur Cefndir Methodoleg Gofod Agored, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Medi 2008 ac Asesiad Gofod Agored Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Ionawr 2009 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5

hygyrch am gyfnodau amlwg yn ystod y dydd⁷⁰. Mae yna gyfleusterau angora a docio amrywiol hwnt ac yma o amgylch y Parc Cenedlaethol.

- 1.84. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer caniatáu datblygiad mewn lleoliad arfordirol, dim ond ble mae angen lleoliad arfordirol, a gwarchod yr arfordir sydd heb ei ddatblygu⁷¹.
- 1.85. Mae Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2008 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn argymhell cynnydd mewn datblygiadau marina yng Nghymru. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi ei eithrio rhag y ddarpariaeth hon. Cydnabyddir yn y ddogfen y gellir darparu cynlluniau harbwr llai, gan gynnwys y defnydd o angorfeydd dros dro neu angorfeydd graddfa lai ar gyfer yr haf, fel opsiwn arall yn lle marinas mwy o faint. Mae lleoliadau ble mae yna welliannau penodol i gynyddu'r nifer o angorfeydd a/neu gyfleusterau wedi eu rhestru yn y ddogfen ac yn cynnwys Aberdaugleddau. Nid oes unrhyw leoliadau o fewn y Parc Cenedlaethol wedi eu rhestru fel rhai addas.

Cyflogaeth

- 1.86. Mae diweithdra yn y Parc Cenedlaethol wedi gostwng yn sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, ond mae yna dipyn o amrywiad tymhorol o hyd. O gymharu ag economi Cymru, mae'n dibynnu'n fwy trwm ar ddiwydiannau sylfaenol, mae yna lai o weithgynhyrchu ond sector gwestai ac arlwyio llawer cryfach. Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfradd uchel o hunangyflogaeth ac mae busnesau yn yr ardal yn dueddol o fod yn fach iawn⁷². Mae'r Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro yn cynnwys targedau i ostwng y natur dymhorol ac i ychwanegu at y nifer o leoliadau busnes sydd ar gael yn y Sir⁷³.

Busnesau sydd angen safleoedd

- 1.87. Mewn arolwg sampl o fusnesau yn Sir Benfro yn 2006 holwyd os fyddai posibilrwydd y byddai angen safleoedd newydd neu fwy o faint yn y 12 mis nesaf. Roedd yr ymateb yn dangos cynnydd yn yr angen am unedau diwydiannol (42% o'r rheiny a ymatebodd) ers cynnal yr arolwg diwethaf. Yr hoff leoliad ar gyfer unedau oedd ardal De Sir Benfro (42%) ac yna Gogledd Sir Benfro (23%)⁷⁴ ac yna Canol Sir Benfro (23%). Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 yn cyfeirio at ostyngiad mewn argaeledd unedau yn yr ardal (Mawrth 2006). Mae'n cynghori bod yna angen dybryd am unedau o ansawdd da o bob maint⁷⁵. Mae tystiolaeth trwy ymholiadau cyn cyflwyno ceisiadau yn awgrymu bod angen safleoedd tebyg i weithdai, o faint gweddol, i roi lle i fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth forol a chynnal a chadw ceir yn ardal Tyddewi.
- 1.88. Mae Fframwaith Anheddiad Allweddol y Cynllun Gofodol yn nodi aneddiadau mawr tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo safleoedd cyflogaeth strategol.⁷⁶
- 1.89. Mae strategaethau⁷⁷ yn nodi'r angen i ymestyn yr economi o ran ychwanegu gwerth at amaethyddiaeth, denu swyddi â chyflogau uwch, cryfhau gwerth y tymor twristiaeth, a hyd y

⁷⁰ Adroddiad yr Arolygydd i'r Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro, paragraff 4.17.2 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5.

⁷¹ Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002, paragraffau 5.7.2 and 5.7.4.

⁷² Adroddiad Cwmpasu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, tudalen C11 – C13 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

⁷³ Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro 2003/08, Fersiwn 2 Tachwedd 2006, Partneriaeth Arweiniad a Chynllunio Cymunedol Sir Benfro, tudalen 14 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

⁷⁴ Arolwg o Fentrau Bach a Chanolig Sir Benfro 2006, Adroddiad Terfynol gan Wavehill Consulting. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5

⁷⁵ Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013, Sylwadau Terfynol, Mawrth 2007, Rhan D: Dadansoddiad Amgylcheddol Cymdeithasol ac Economaidd gan Sir Benfro Ymlaen Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5

⁷⁶ Fframwaith Anheddiad Allweddol Drafft Diwygiedig Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro 2021 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1211&SkinID=5

⁷⁷ Fel uchod a'r Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013

tymor twristiaeth, gwneud y defnydd mwyaf cynaliadwy o adnoddau naturiol a chynhyrchu ynni trwy ddulliau newydd.

- 1.90. Roedd gyrfaoedd, ac nid swyddi tymhorol, yn thema gyffredin mewn sesiynau adborth gyda rhanddeiliaid, ynghyd â gwarchod busnesau bach, a'u meithrin, yn lle cynigion graddfa fawr⁷⁸.

Cyflogaeth a datblygiad yng nghefn gwlad

- 1.91. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Mawrth 2002 paragraffau 7.33 a pharagraff 3.14 o Nodyn Cyngor Technegol 18, Trafnidiaeth, Mawrth 2007 yn nodi'r ymagwedd polisi at arallgyfeirio. Mae Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog, Gorffennaf 2007, ar Dai yn nodi'r cyd-destun polisi ar aneddiadau amaethyddol a choedwigaeth – paragraffau 9.3.6 i 9.3.10.
- 1.92. Roedd dylunio datblygiadau amaethyddol newydd i warchod daliadau ffermydd fel nodweddion yn y dirwedd yn faterion a nodwyd gan Swyddogion yr Awdurdod ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
- 1.93. Paratowyd dau adroddiad yn benodol ar destun Datblygiadau Effaith Isel ar gyfer yr Awdurdod⁷⁹. Mae yna bolisi ar Ddatblygiadau Effaith Isel yn Gwneud Cyfraniad Positif yn y Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro. Mae'r polisi hwn yn darparu cyd-destun ar gyfer caniatáu datblygiadau yng nghefn gwlad sy'n cyfrannu at agenda cynaliadwyedd y llywodraeth fel eithriad i bolisiau cynllunio arferol, ble mae'r cynigion wedi eu clymu'n uniongyrchol at y tir a'r cynnig ac yn darparu digon o fywoliaeth ar gyfer y preswylwyr.
- 1.94. O dan y Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro, caniateir i adeiladau yng nghefn gwlad gael eu trawsnewid at ddefnydd preswyl llawn (gan gynnwys darpariaeth tai fforddiadwy) dim ond ble nad oes modd dod o hyd i ddefnydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae cwestiynau'n cael eu holi trwy'r broses rheoli datblygiad ynghylch pam mae'r Awdurdod yn annog gosodiadau ar gyfer gwyliau (a welir fel defnydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth) pan nad yw anghenion tai fforddiadwy yn cael eu diwallu. Mae llawer o gynigion ar gyfer trawsnewid adeiladau yng nghefn gwlad yn ffordd o ddefnyddio adeilad a fyddai'n dadfeilio fel arall ac yn mynd yn salw. Fodd bynnag, a oes enghreifftiau ble byddai aildefnyddio defnyddiau adeiladu yn well? Mae'r enghreifftiau'n cynnwys achosion ble byddai gwasanaethu'r eiddo yn ymwithiol.

D. Tai fforddiadwy a chynnydd tai

- 1.95. Mae'r gostyngiad yn y nifer o bobl rhwng 1991 a 2001 yn debygol o fod yn ganlyniad i allfudo a chynnydd yn y garfan oedran 40-44/50-54 yn debygol o fod yn ganlyniad i fewnfudo. Mae poblogaeth yr ardal yn heneiddio. Gwelir yr effaith hwn hefyd yng Nghymru a Lloegr, ond mae'n ymddangos yn gryfach yn y data ar gyfer Sir Benfro.
- 1.96. Roedd tua 9,862 o gartrefi yn y Parc, mae 6,963 yn eiddo i berchen-breswylwyr, 1,650 yn cael eu rhentu'n breifat a 1,249 naill ai'n berchnogaeth a rennir neu'n cael eu rhentu gan y Cyngor neu GYMDEITHAS TAI.⁸⁰
- 1.97. Fel dangosydd yr angen am dai, mae Cyngor Sir Penfro wedi drafftio'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol⁸¹. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Yn hytrach, mae'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar y Gofrestr Tai Cyffredin a hefyd ar y gwaith arolwg gan y Galluogwr Tai

⁷⁸ Cynhadledd Chweched Dosbarth, CDCW ac Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion 2006 -2007 dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁷⁹ Datblygiadau Effaith Isel: Polisi ac Arferion Cynllunio, Rhagfyr 2002, Ymgynghorwyr Defnydd Tir, Prifysgol Gorllewin Lloegr a Datblygiadau Effaith Isel – Ymchwil Pellach, Chwefror 2004, Baker Associates Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5

⁸⁰ Adroddiad Cwmpasu, Cynllun Datblygu Lleol, Tudalen C6 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1214&SkinID=5

⁸¹ Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Cyngor Sir Penfro, Drafft Mehefn 2007. Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1243&SkinID=5

Gwledig. Mae yna alw sylweddol am dai fforddiadwy, yn bennaf o ganlyniad i ôl-groniad angen sydd wedi cronni gydag amser.

- 1.98. Mae atyniad yr ardal yn creu pwysedd o'r tu allan am ail gartrefi, gosodiadau gwyliau, a lleoliadau ymddeol. Mae'r broblem yn waeth am nad yw incymau isel lleol yn gallu cystadlu gyda phŵer prynu pobl o ardaloedd eraill. Yn ôl y dystiolaeth storïol, mae'r galw a oedd yn canolbwyntio ar ardaloedd Dyfnaint a Chernyw bellach yn rhoi pwysau ar ardal yr astudiaeth⁸².
- 1.99. Yn hanesyddol, dylanwadwyd ar y farchnad gan allfudiad pobl ifanc a mewnfudiad pobl 40+. Mae rhagamcanion y boblogaeth yn awgrymu y bydd y strwythur pendrwm ymhlith y boblogaeth yn parhau i dyfu.⁸³
- 1.100. Mae colli tai cyngor oherwydd yr 'hawl i brynu' (mae'r rhagamcan yn awgrymu y bydd rhwng 60 a 70 yn cael eu colli bob blwyddyn) yn rhwystro gallu'r ardal i gynnal stoc barhaol o dai fforddiadwy.⁸⁴
- 1.101. Nid yw'r nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau yn cadw i fyny gyda tharged y Cydgynllun Datblygu Unedol o 20% o'r ddarpariaeth (mae'r nifer sy'n cael eu cwblhau yn 550 y flwyddyn yn y Sir sy'n is na'r targed o 600 y flwyddyn yn y Cynllun)⁸⁵.
- 1.102. Mae tai fforddiadwy ar breimiwm. Erbyn hyn, Sir Benfro yw'r ardal leiaf fforddiadwy yng Nghymru. Gan ddefnyddio prisiau tai'r chwartil is, mae angen incwm blynyddol net o rhwng £31,000 a £35,000. Yn bennaf, mae incymau yn is na'r amrediad hon yn y Sir⁸⁶.
- 1.103. Nodir esboniad llawn o'r ymagwedd at dyfiant tai a darpariaeth tai fforddiadwy ar ddechrau adran tai fforddiadwy a chynnydd tai'r Cynllun wedi'i Adneuo. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar y defnydd o ragamcanion tai, yr angen am dai a'r cyfrifiad ar gyfer y cyflenwad tir ar gyfer tai sy'n cynnwys ffigurau ar gyfer y ddarpariaeth tai fforddiadwy.

⁸² Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Cyngor Sir Penfro, Drafft Mehefn 2007, Tudalen 60

⁸³ Fel uchod.

⁸⁴ Fel uchod

⁸⁵ Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Drafft Mehefn 2007, tudalen 41

⁸⁶ Fel uchod, tudalen 63

Dd. Cyfleusterau cymunedol

Cyfleusterau a gwasanaethau

- 1.104. Yn y Parc Cenedlaethol mae yna argraff gyffredinol fod cyfleusterau cymunedol yn gostwng o ran nifer. Wrth edrych ar golled gwasanaethau rhwng 1998 a 2006, gwelir dirywiad yn nhermau colli neuaddau pentref, swyddfeydd post ac ysgolion cynradd, ond ar y cyfan mae cyfleusterau wedi cynyddu gyda gwelliant sylweddol yn y nifer o gyfleusterau chwaraeon a thafarndai yn y Parc.⁸⁷
- 1.105. Mae datblygiadau newydd yn gallu cynnig manteision gwych ar gyfer y gymuned, yn rhinwedd y cartrefi, y gweithleoedd a'r cyfleusterau y mae'n eu cyflwyno. Mae'n ysgogi'r economi. Ond, mae datblygiadau ansensitif sydd wedi eu cynllunio'n wael yn gallu creu effaith negyddol sylweddol ar yr amgylchedd, cyfleusterau a gwasanaethau yn yr ardal. Mae'n gallu gosod baich sylweddol a chostau sylweddol ar y gymuned, y mae'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, ac yn ymweld â hi, yn gorfod ei hysgwyddo. Mae'r broses o baratoi canllawiau cynllunio atodol ar rwymedigaethau cynllunio o dan y Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro gyda'r Cyngor Sir, eisoes ar waith⁸⁸.
- 1.106. Yn Sir Benfro, mae'r gyfradd geni'n dirywio, mae'r nifer o bobl ifanc yn y Sir yn gostwng ac mae yna gynnydd yn y nifer o bobl dros 65 oed. Mae Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn anelu at helpu paratoi ar gyfer newidiadau yn y boblogaeth ac yn edrych i weld os oes gwell ffordd o ddarparu gwasanaethau. O ran y goblygiadau ar gyfer cynllunio defnydd tir y tu hwnt i ymestyn safleoedd presennol, dim ond un lleoliad fyddai angen ystyriaeth i ymateb i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer y Sir - yng Nghrymych - sy'n gorwedd yn bennaf tu allan i'r Parc Cenedlaethol⁸⁹.
- 1.107. Nodir gofynion addysgol yn y Cynllun Addysg Sengl ar gyfer 2006-2008 ac ar ôl hynny yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-11. Gwiriwyd yr holl ofynion am dir gyda'r Cyngor Sir a nodwyd dyraniadau ble mae eu hangen yng Ngorsaf Maenorbŷr ac yn Llanisien-yn-Rhos. Cynghorodd y Cyngor Sir y byddai angen cysylltu ar wahân ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Teilo ac Ysgol Bro Dewi. Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Teilo wedi cynghori nad oes unrhyw gynlluniau i newid ar hyn o bryd - 20 Awst 2007. Mae Ysgol Bro Dewi wedi cynghori nad oes unrhyw gynlluniau i ymestyn - 6 Medi 2007⁹⁰.
- 1.108. Mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at yr angen i ddarparu cyfleusterau lleol, a'u cynnal, er enghraifft swyddfa'r post, y meddyg, trafnidiaeth gyhoeddus, gwaredu gwastraff a siopau.⁹¹ Mae'r Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro yn tynnu sylw at yr angen i gynyddu canran y thrigolion sy'n ei chael yn hawdd cael mynediad at wasanaethau lleol allweddol.⁹²

Manwerthu

- 1.109. Mae nifer o'r canolfannau manwerthu yn y Parc Cenedlaethol yn cyflawni swyddogaeth dwristaidd a chymunedol leol. Mewn rhai achosion, mae ganddynt gefnwledydd gwledig helaeth. Ond, mae cystadleuaeth uniongyrchol o ganolfannau tu allan i'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys gweddill Sir Benfro, Sir Gâr a Cheredigion wedi dylanwadu ar lefel y ddarpariaeth ar y cyfan yng nghanolfannau'r Parc Cenedlaethol. Y prif ganolfannau o fewn y

⁸⁷ Fel uchod, tudalen 6

⁸⁸ Hydref 2008.

⁸⁹ Cyfleusterau Cymunedol, Papur Cefndir, Mai 2007, tudalen 5 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

⁹⁰ Fel uchod.

⁹¹ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Papur Cefndir * 200*, tudalennau 29 i 30. dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁹² Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro 2003/08, Fersiwn 2 Tachwedd 2006, Partneriaeth Arweiniad a Chynllunio Cymunedol Sir Benfro, tudalen 13 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

Parc Cenedlaethol yw Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth a Dinbych-y-pysgod yw'r mwyaf o'r canolfannau hynny⁹³.

- 1.110. Mae'r canolfannau o fewn y Parc Cenedlaethol wedi colli gwariant i ganolfannau tu allan, ac fe fydd hyn yn parhau. Fodd bynnag, cefnogir y canolfannau gan wariant twristiaeth sy'n helpu cynnal amrywiaeth o wasanaethau na fyddai'n cael eu cadw fel arall, yn enwedig o ystyried rôl canolfannau'r Parc Cenedlaethol mewn perthynas â chanolfannau eraill yn y rhanbarth.
- 1.111. O ran Nodyn Cyngor Technegol 4 Manwerthu a Chanol Trefi (1996), byddai Dinbych-y-pysgod yn cael ei gweld fel Canol Tref, a Threfdraeth, Tyddewi a Saundersfoot fel Canolfannau Rhanbarthol. Nid yw Solfach yn disgyn i un o'r dosbarthiadau uchod⁹⁴.
- 1.112. Roedd yna drafodaethau ynghylch yr angen i ddarparu ar gyfer siop fwyd ger Dinbych-y-pysgod yn yr Ymchwiliad i'r Cydgynllun Datblygu Unedol. O ystyried lefel yr angen a nodwyd ar y pryd, a maint y safle y byddai ei angen, nid oedd modd dod o hyd i safle addas yn ardal Dinbych-y-pysgod. Cafwyd dyraniad yng Nghilgeti yn y Cydgynllun Datblygu Unedol.⁹⁵
- 1.113. Cynhaliwyd asesiad o'r angen i gynnwys darpariaeth ar gyfer nwyddau cyfleus neu gymharus yn Dinbych-y-pysgod a daethpwyd i'r casgliad nad oes angen darpariaeth o'r fath⁹⁶.

Cludiant cynaliadwy

- 1.114. Yng Nghyfrifiad 2001 gwelwyd bod 1.24 car neu fan i bob cartref ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ond, gwelwyd hefyd nad oedd gan 19.3% o gartrefi gar na fan, y canran uchaf yn unrhyw Barc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y rheiny sydd ddim yn berchen ar gar.
- 1.115. Yn Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro a gynhaliwyd yn 2004 gwelwyd bod 91% o ymwelwyr wedi teithio i Sir Benfro yn y car. Mae cynlluniau Parcio a Theithio wedi bod ar waith yn Dinbych-y-pysgod ers 1988 ac yn Nhyddewi ers 1999. Mae yna gynlluniau mewn lle hefyd ar gyfer gwasanaethau bysiau arfordirol a'r Preselau. Yn Sir Benfro, nid yw ardaloedd â phoblogaeth wasgaredig yn gallu cynnal gwasanaethau bus confensiynol ar sail fasnachol. Mae yna broblemau penodol i bobl ifanc, pobl ag anableddau a phobl oed pensiwn. Nid yw gwasanaethau rheilffordd sy'n rhedeg trwy'r Sir yn broffidiol.
- 1.116. Roedd ymwelwyr a thrigolion yn gwerthfawrogi'r heolydd tawel yn y parc a'r ffaith ei bod y hwylus mynd o le i le. Cafodd y bysiau arfordirol ganmoliaeth reolaidd. Cafwyd sylwadau gan drigolion ynghylch gwendid trafnidiaeth gyhoeddus, lefel y traffig, yr angen i reoli'r defnydd o'r car a chyflymder o fewn rhai canolfannau⁹⁷.
- 1.117. Mae asesiad hygyrchedd o drefi a phentrefi yn y Parc⁹⁸ wedi dangos, allan o 36 anheddiad a ddadansodwyd, fod 6% â'r hyn a welwyd fel hygyrchedd strategol ar y bus, 42% â hygyrchedd rheolaidd ar y bus, 14% â gwasanaeth rheolaidd a'r gweddill â gwasanaeth afreolaidd, afreolaidd iawn neu ddim gwasanaeth o gwbl (39%)⁹⁹. Mae gwasanaethau

⁹³ Papur Cefndir Manwerthu, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, tudalen 7. Dolen at y we:

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5>

⁹⁴ Fel uchod, tudalennau 9-10 Dolen at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1244&SkinID=5>

⁹⁵ Fel uchod, tudalen 5.

⁹⁶ Fel uchod, tudalennau 30-32.

⁹⁷ Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Papur Cefndir, tudalennau 9.13,16, 19,20 dolennau at y we: <http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁹⁸ Cludiant Cynaliadwy, Papur Cefndir, tudalen 13-14 dolennau at y we:

<http://www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1245&SkinID=5>

⁹⁹ Diffiniadau

Rheolaidd – gwasanaethau bob awr, o leiaf, chwech diwrnod yr wythnos, gan gynnwys siwrmeiau sy'n addas i deithio i'r gwaith, yr ysgol, siopa bore a phrynhawn ac yn ôl.

Strategol – gwasanaethau ar adegau sy'n addas ar gyfer teithio i'r gwaith, yr ysgol, siopa bore a phrynhawn ac yn ôl, yn gyffredinol o leiaf 5 siwrnai y dydd – y lefel isaf a ystyrir yn angenrheidiol er mwyn gallu bod yn resymol symudol heb drafnidiaeth breifat.

rheilffordd ar gael i Saundersfoot ,Dinbych-y-pysgod a Gorsaf Maenorbŷr. Mae Penalun a Llandyfái tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol ond yn agos at gymunedau'r Parc Cenedlaethol.

- 1.118. Mae llwybrau heol a rheilffordd strategol yn gorwedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn bennaf, ond maent yn ffordd sylfaenol o gael mynediad at y Parc, ac o'i gwmpas. Mae'r Parc Cenedlaethol yn llain gul gan fwyaf, ac felly mae heolydd yn gweu i mewn ac allan o'r ffin. Yn aml, mae llwybrau rhwng pwyntiau amrywiol o fewn y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar heolydd neu wasanaethau rheilffordd tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae Fframwaith Anheddiad Allweddol Cynllun Gofodol Cymru 2021 yn edrych ar ymyraethau i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth gwledig, gan wella coridorau trafndiaeth gyhoeddus ac ymglyfnewidfeydd a'r rhwydwaith heolydd rhanbarthol a lleol (TRA40, TRA4076, TRA477 a'r A478). Mae'r llwybrau hyn yn gorwedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac eithrio'r A478 sy'n dod i ben yn y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod. Cyfeirir at gynlluniau Parcio a Theithio hefyd. Nodir gwelliannau i'r rhwydwaith feicio genedlaethol a diogelwch ar y ffordd hefyd fel ymyraethau¹⁰⁰.
- 1.119. Cynlluniwyd Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol De Orllewin Cymru i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Medi 2009. Mae'r Cynllun yn rhedeg o 2010 i 2015. Dyma strategaeth y Cynllun:
- Gwella'r broses o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth;
 - Gwella cysylltiadau heolydd a rheilffordd strategol dwyrain/gorllewin;
 - Gwella coridorau bws strategol;
 - Hybu integreiddiad rhwng dewisiadau teithio cynaliadwy;
 - Gwella diogelwch mewn trafndiaeth;
 - Darparu mwy o wybodaeth, a gwell gwybodaeth, ar yr amrywiaeth o opsiynau cludiant cynaliadwy, a'r defnydd ohonynt;
 - Gwella cysylltiadau rhwng aneddiadau allweddol a safleoedd cyflogaeth strategol; a
 - Gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith priffyrdd.
- 1.120. Nodir blaenoriaethau'r cefnffyrdd ar gyfer ardal y Cynllun yn y Cynllun. Yr unig welliant sy'n cael effaith uniongyrchol ar y Parc Cenedlaethol yw'r gwelliannau i [TRA40](#) sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Trafndiaeth yn cynnwys cyfeiriad at welliannau pellach i'r [TRA40](#) i'r gorllewin o San Clêr gan gynnwys newid at ffordd ddeuol os caiff yr achos busnes ei brofi.
- 1.121. Mae'r Cynllun hefyd yn rhestru prosiectau sydd wedi pasio'r broses sgrinio ar gyfer blaenoriaethau, ond nid yw prosiectau unigol yn cael eu blaenoriaethau oherwydd ym marn Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru gellir ond gwneud hyn unwaith fydd y prosiect llawn wedi cael ei arfarnu ac unwaith y bydd lefel y nawdd sydd ar gael ar gyfer y rhaglen 5 mlynedd yn wybyddus. Dyma'r prosiectau sy'n cael effaith uniongyrchol ar y Parc Cenedlaethol:
- Hwlffordd i Ddinbych-y-pysgod trwy goridor bws Doc Penfro;
 - Hwlffordd i Ddinbych-y-pysgod trwy goridor bws Arberth;
 - Hwlffordd i Abergwaun trwy goridor bws Tyddewi;
 - Pwynt ffocws bws Dinbych-y-pysgod;
 - Cysylltiadau cerddwyr Tyddewi; a
 - Parcio a Theithio Dinbych-y-pysgod.
- 1.122. Heolydd a Thraffig Cylch 125/77 - mae'r Parciau Cenedlaethol yn cyngori, wrth asesu anghenion traffig o fewn y Parciau, y dylid cyfyngu wrth ystyried gwelliannau i ddarparu ar

Dyddiol – gwasanaethau ar o leiaf 5 diwrnod o'r wythnos, ond heb un neu fwy o'r nodweddion sydd eu hangen i fod yn strategol.

Anaml – gwasanaethau ar un i bedwar diwrnod yr wythnos.

Anaml iawn – gwasanaethau ar ddiwrnodau ysgol yn unig, dros yr haf yn unig neu'n llai nag wythnosol

¹⁰⁰ Fframwaith Anheddiad Allweddol Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro 2021, Chwefror 2007, tudalennau 28-29 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1247&SkinID=5

gyfer traffig gan ymwelwyra dylid cyfyngu gwelliannau i heolydd sy'n arwain at ardaloedd 'pellennig' neu mewn ardaloedd 'pellennig' at y rheiny sy'n hanfodol ar gyfer traffig lleol.

- 1.123. Mae targedau Cyfathrebu yn y Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro sy'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys cynyddu'r nifer o deithiau gan deithwyr ar y bus a theithiau gan deithwyr ar wasanaethau trafnidiaeth cymunedol ac anghonfensiynol¹⁰¹.

¹⁰¹ Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro 2003/08, Fersiwn 2 Tachwedd 2006, Partneriaeth Arweiniad a Chynllunio Cymunedol Sir Benfro, tudalen 14 Dolen at y we: www.pcnpa.org.uk/website/default.asp?SID=1242&SkinID=5

Atodiad 2 Dyraniadau

Ble teimlir bod hynny'n angenrheidiol, darperir cyngor pellach ar rai o'r dyraniadau a gynigiwyd yn y Cynllun.

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
CYFLOGAETH		
EA748	I'r De o Gynulltiadau Tyddewi, Tyddewi	Mae angen uwchraddio adran gyfan Heol Glasfryn cyn datblygu unrhyw ran o'r safle. Ystyrir bod y dyraniad tai HA737 yn gallu ariannu'r gwelliannau hyn i'r heol (cyfrifwyd y costau ym Mehefin 2006) gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Three Dragons. Ond, mae Cyngor Sir Penfro hefyd yn archwilio'r opsiwn o nawdd cyhoeddus a allai helpu trosglwyddo'r gwelliannau hyn i'r heol a'r safle cyflogaeth hwn.
TAI		
HA377	Brynhir Dinbych-y-pysgod	Ymestynnwyd y safle i'r de i gynnwys tir i'r gogledd o fynwent Dinbych-y-pysgod ac fe fydd hyn yn helpu gyda chyfraniad gofod agored yn y safle. Nid oes unrhyw newid i'r nifer o aneddiadau a ddisgwyllir o ganlyniad i hyn. Rhaid i'r datblygiad ystyried y potensial ar gyfer archeoleg a choed yn y safle. Bydd angen astudiaeth i asesu gallu'r gwaith trin carthffosiaeth, i'w ariannu gan y datblygwyr. Cynigir graddio'r datblygiadau hefyd i helpu'r dref i gofleidiol datblygiad. Gweler yr opsiynau hefyd ar gyfer technolegau adnewyddadwy di-garbon a charbon isel sydd ar gael ar gyfer y safle hwn yn y Papur Cefndir "Asesiad Safle Tai - Opsiynau ar gyfer technolegau di-garbon a charbon isel". Nodwyd y safle fel un sy'n debygol o gael effaith ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd mynediad i'r safle hwn trwy fynediad newydd yn syth arno i'r A478 i'r gogledd.
HA723	Yr Hen Ysbyty Lleol, Dinbych-y-pysgod	Efallai y bydd angen i'r safle hwn ddarparu mynediad at safle maes parcio'r Rheithordy i'r de. Mae halogiad potensial ac archeoleg yn ystyriaethau.
HA724	Maes Parcio'r Rheithordy, Dinbych-y-pysgod	Mae yna botensial i ailddatblygiad y safle hwn wella'r ardal hon yn Dinbych-y-pysgod trwy ymestyn y bensaerniaeth gref ar hyd yr Esplanade. Bydd angen darpariaeth parcio i drigolion fel rhan o'r ailddatblygiad. Ar hyn o bryd, mae'r safle'n darparu rhai mannau parcio ar gyfer gwestai yn yr ardal ac fe fydd yr angen i roi sylw i hyn ac i fodloni gofynion parcio ceir hanfodol ar gyfer yr ardal hon yn rhan o unrhyw gynnydd i ailddatblygu, ac yn ystyriaeth ar gyfer astudiaeth rheoli traffig a pharcio ehangach. Bydd angen astudiaeth i asesu gallu'r gwaith trin carthffosiaeth, i'w ariannu gan y datblygwyr. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA752	Maes Parcio Butts Field, Dinbych-y-pysgod	Rhaid sicrhau mynediad addas a rôl briodol ar gyfer mannau parcio cyhoeddus. Rhaid i'r datblygwyr ariannu unrhyw astudiaethau ar gyfer llif/gallu system garthffosiaeth. Gweler hefyd yr opsiynau ar gyfer technolegau adnewyddadwy di-garbon a charbon isel sydd ar gael ar gyfer y safle hwn yn y Papur Cefndir "Asesiad Safle Tai - Opsiynau ar gyfer technolegau di-garbon a charbon isel". Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA760	Safle'r Cronlyn, Dinbych-y-pysgod	Mae'r safle mewn ardal sy'n gweithredu fel coridor gwyrdd. Bydd angen parhau â rôl yr ardal fel coridor gwyrdd. Mae'r cyfleoedd mynediad potensial ar gyfer y safle hwn yn dibynnu ar ddatblygiad Butts Field i'r de. Mae'r safle'n fwy tebygol o ddod ymlaen yn ystod camau diweddarach y cynllun. Rhaid i'r datblygwyr ariannu unrhyw astudiaethau ar gyfer llif/gallu

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
		system garthffosiaeth. Efallai bod olion archeolegol yma hefyd. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA727	I'r gorllewin o Heol Arberth, Dinbych-y-pysgod	Mae mynediad yn dechnegol bosib ond bydd angen caffael tir gan 3ydd person er mwyn sicrhau digon o welededd sblae tua'r de.
HA737	I'r Gorllewin o Heol Glasfryn, Tyddewi	Mae angen uwchraddio adran gyfan Heol Glasfryn cyn datblygu unrhyw ran o'r safle. Ystyrir bod y dyraniad tai HA737 yn gallu ariannu'r gwelliannau hyn i'r heol (cyfrifwyd y costau ym Mehefin 2006) gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Three Dragons. Ond, mae Cyngor Sir Penfro hefyd yn archwilio'r opsiwn o nawdd cyhoeddus a allai helpu trosglwyddo'r gwelliannau hyn i'r heol a'r safle cyfogaeth hwn Efallai y bydd angen uwchraddio'r gweithfeydd trin carthffosiaeth i roi lle i'r datblygiad, ond nid oes unrhyw gais am fuddsoddiad wedi cael ei gynnwys yn y rhaglen gyfredol. Efallai y bydd yn rhaid gohirio'r datblygiad hyd nes ar ôl 2015 os bydd astudiaeth a ariannwyd gan y datblygwr yn dangos nad oes digon o allu gan y gweithfeydd trin carthffosiaeth onid yw'r datblygwr/datblygywr yn talu am unrhyw welliannau angenrheidiol. Cynigir graddio'r datblygiad hefyd i helpu'r dref i gofleidio'r datblygiad. Gweler hefyd yr opsiynau ar gyfer technolegau adnewyddadwy di-garbon a charbon isel sydd ar gael ar gyfer y safle hwn yn y Papur Cefndir "Asesiad Safle Tai - Opsiynau ar gyfer technolegau di-garbon a charbon isel". Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA789	Ger Ysgol Bro Dewi, Heol Non, Tyddewi	Bydd angen mwy o blannu o fewn y safle, yn enwedig o fewn yr adran gogledd-orllewin, i gymathu'r safle hwn i'r dirwedd sensitif.
HA825	I'r Gogledd o Feidr Eglwys, Trefdraeth	Bydd angen i ddatblygiad y safle hwn barchu cymeriad a lleoliad yr Ardal Cadwraeth a'r eglwys a bydd angen mwy o blannu, a phlannu sylweddol, o fewn ardal y safle. Bydd angen cyfyngu dwysedd y datblygiad i 12 anheddiad i sicrhau nad ydyw'n niweidio cymeriad yr ardal ac i gwrdd â chyfyngiadau mynediad. Nid wyddys os oes adnodd archeolegol ar y safle a fyddai'n cyfyngu ymhellach ar ddatblygiad y safle hwn. Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn argymhell arolwg daearegol a chloddio arbrofol cyn cyflwyno cais, er mwyn penderfynu ar y math o adnodd, a graddau'r adnodd. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA220	Parc Carafannau, Heol y Parrog, Trefdraeth	Cyfyngir ar nifer yr unedau ar y safle hwn gan gyffordd Heol y Parrog gyda'r A487. Mae angen tirlunio ychwanegol ar hyd ffin gogleddol y safle i helpu ei gymhathu i'r dirwedd.
HA750	Safle Depo, Crymoch	Lleolir y safle hwn ar ymyl deheuol Crymoch. Mae angen plannu sydd wedi ei gynllunio'n dda ar hyd y perimedr i'r safle, er mwyn gwella cymeriad y dirwedd leol.
HA734	South Driftwood Close, Aber Llydan	Dylai fod llystyfiant da ar ymylon uwch unrhyw ddatblygiad er mwyn diffinio'r ymylon a chymhathu unrhyw ddatblygiad yn dda i'r dirwedd, a fydd yn gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae angen gwelliannau i'r gwaith trin carthffosiaeth. Os nad yw'r gwaith wedi ei gynnwys yn rhaglen welliannau Dŵr Cymru (a ddylai gael ei chyhoeddi yn Nhachwedd 2009) bydd angen cyfraniadau gan y datblygwyr i uwchraddio'r system garthffosiaeth. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA704	Cyffordd Heol Sandyke a Ffordd Millmoor, Aber Llydan	Gweler safle tai HA813 New Hedges am gyngor gan yr Awdurdod Glo sydd hefyd yn berthnasol i'r safle hwn. Mae saeth 'tyfiant yn y dyfodol' yn dangos bod tir pellach wedi cael ei ystyried yn dir addas i'w ddatblygu tu hwnt i gyfnod y cynllun i'r deddwyrain o'r safle dynodedig, ar yr un math o ddwysedd. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
HA382	Castle Way, Dale	Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae angen heol ar gyfer yr ystâd i ddarparu mynediad ar gyfer datblygiad y safle hwn.
HA732	I'r Dwyrain o Neuadd Herbrandston, Herbrandston	Bydd angen asesiad o ganlyniadau llifogydd oherwydd y posibilrwydd o orlwytho'r system carthffosydd/lefelau gallu. Mae angen ardal glustogi o 7m ochr yn ochr â'r nant.
HA436	I'r Gogledd o Fferm Landway, Jameston	Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad arall hyd nes uwchraddio'r orsaf bwmpio a'i fabwysiadu. Mae'r ardal hon yn gorwedd ar Ddyfrhaen Bwysig a pharth diogelu ffynhonnell 3.
HA821	Green Grove, Jameston	Byddai ail-leoliad derbyniol y sied amaethyddol yn ffactor pwysig wrth benderfynu os yw unrhyw ddatblygiad ar y safle hwn yn dderbyniol, yn ogystal ag unrhyw blannu a dylunio pensaernïol priodol. Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad newydd hyd nes uwchraddio'r orsaf bwmpio a'i fabwysiadu. Mae'r ardal hon yn gorwedd ar Ddyfrhaen Bwysig a pharth diogelu ffynhonnell 3.
HA730	Cyferbyn â Bush Terrace, Jameston	Byddai plannu i'r de o'r safle yn helpu cymhathu llinell syth y tai ar y gorwel ac yn helpu gostwng yr adeiladau fferm ymwithiol gerllaw i'r gorllewin. Mae hyn yn gofyn am lain blannu sylweddol, gyda nodweddion ffiniau cloddiau newydd, a fyddai'n helpu gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd. Bydd tirlunio a phlannu, dwysedd a dylunio pensaernïol sensitif, a phatrwm datblygiad sy'n adlewyrchu adeiladau presennol yn Jameston yn ystyriaethau pwysig wrth liniaru'r effaith ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Bydd angen astudiaeth i asesu gallu'r gwaith trin carthffosiaeth, a bydd disgwyl i'r datblygwr dalu am yr astudiaeth. Os nad oes digon o allu, bydd datblygiad y safle'n cael ei ohirio hyd nes ar ôl 2015, onid yw'r datblygwr hefyd yn ariannu'r gwelliannau. Cynigir graddio'r datblygiad hefyd i helpu'r pentref i gofleidio'r datblygiad. Mae saeth 'tyfiant yn y dyfodol' yn dangos bod tir pellach wedi cael ei ystyried yn dir addas i'w ddatblygu tu hwnt i gyfnod y cynllun, i'r gorllewin o'r safle dynodedig, ar yr un math o ddwysedd. Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad newydd hyd nes uwchraddio'r orsaf bwmpio a'i fabwysiadu. Mae'r ardal hon yn gorwedd ar Ddyfrhaen Bwysig a pharth diogelu ffynhonnell 3.
HA559	Ger Home Farm, Lawrenny	Er mwyn datblygu'r safle hwn mae angen cadw ymyl meddal ar y dirwedd i'r gogledd. Mae angen ail-leoli'r adeiladau fferm presennol yn briodol cyn parhau â'r datblygiad. Efallai bod yna olion archeolegol ar y safle hwn ac mae hyn yn ystyriaeth. Cynigir graddio'r datblygiad hefyd i helpu'r pentref i gofleidio'r datblygiad. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
HA848	Y cae gyferbyn ag Ysgol Maenorbŷr, Gorsaf Maenorbŷr	Bydd cadw cymaint â phosib o'r coed sydd eisoes yn bodoli yn sicrhau bod y safle'n cymhathu'n dda gyda'r datblygiad o amgylch a bod cysylltedd ecolegol yn cael ei gadw. Efallai y bydd angen uwchraddio'r gallu o ran carthffosiaeth a thrin carthffosiaeth o ganlyniad i ddatblygiad y safle hwn. Bydd angen astudiaeth, a'r datblygwr fydd yn talu amdani. Bydd angen i'r datblygwr dalu am unrhyw welliannau sydd eu hangen cyn 2015. Cynigir graddio'r datblygiad hefyd i helpu'r pentref i gofleidio'r datblygiad. Efallai y bydd angen rhan o'r safle hwn fel gofod chwarae i'r plant. Er mwyn sicrhau y cymerir pob cyfle i liniaru effaith a gwneud iawn am unrhyw golled, bydd angen y canlynol cyn datblygu'r safle. Arolwg coed ac arolwg ystumod, y bydd eu canlyniadau yn arwain graddfa'r datblygiad. Bydd unrhyw gynefin a gollir yn gofyn am ddarpariaeth i wneud iawn am y golled mewn perthynas â'r potensial i wella nodweddion llinol sydd eisoes yn bodoli a chysylltedd mewn cloddiau, prysg neu ffiniau caeau o fewn yr ardal leol. Mae potensial o'r fath yn debygol o fod i ffwrdd

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
		oddi wrth oleuadau stryd gyda llai o amharu. Dylid nodi bod Gorchymyn Cadw Coed TPO121 bellach mewn lle ar gyfer coed ar hyd ffin ddwyreiniol y safle.
HA813	Cefn Cross Park, New Hedges	Mae angen plannu o amgylch y perimedr, wedi ei gynllunio'n dda, i helpu cymhathu i'r dirwedd. Mae angen clustogfa sylweddol wedi'i phlannu i dde'r safle. Mae rhannau o'r rhwydwaith carthffosiaeth yn dioddef gorlwytho hydrologig, a bydd angen i'r datblygwr ariannu datblygiadau cyn gwelliannau Dŵr Cymru (sydd heb eu hamserlennu ar hyn o bryd). Bydd angen astudiaeth i sefydlu os oes angen gwella'r gwaith trin carthffosiaeth a bydd angen i'r datblygwr ariannu'r astudiaeth. Efallai hefyd y bydd angen dargyfeirio neu ddiogelu asedau cyn datblygu. Dylid cael cyngor technegol ynghylch archwilio pyllau glo a hen byllau glo, a'u trin, cyn dechrau unrhyw waith ar y safle. Dylai'r holl gynigion ddefnyddio arferion peirianeg da mewn ardaloedd lle bu cloddio. Ni ddylid gwneud unrhyw waith datblygu sy'n rhyngdorri unrhyw wythiennau, gweithfeydd glo neu fynedfeydd glo, yn tarfu arnynt nac yn ymyrryd â nhw heb ganiatâd yr Awdurdod Glo, a byddai gwneud hynny yn tresbasu. Dylai datblygwyr sylweddoli y gallai archwilio gwythiennau glo neu weithfeydd pyllau glo gynhyrchu a/neu adleoli nwyon tanddaearol; a dylai'r peryglon hyn, o dan safle'r datblygiad, a gerllaw, gael ystyriaeth lawn mewn unrhyw gynigion.
HA384	Ger Bro Dawel, Solfach	Yn Ionawr 2000 ymrwymodd y Cyngor Sir i Gyngor Cymuned Solfach na fyddai'n caniatáu i'r safle hwn gael ei ddatblygu heb gyflwyno trefniadau i ddarparu cyfleusterau hamdden. Roedd y Cyngor Sir hefyd wedi ymrwymo i ail-leoli'r cae pêl-droed presennol. Ni allai'r Cyngor Sir ymrwymo y byddai'r Cyngor Sir ei hun yn darparu'r cyfleusterau hun na'r gwaith ail-leoli. Mae angen gwelliannau i'r gwaith trin carthffosiaeth. Os nad yw'r gwaith wedi ei gynnwys yn rhaglen welliannau Dŵr Cymru (a ddylai gael ei chyhoeddi yn Nhachwedd 2009) yna bydd angen cyfraniadau gan y datblygwr i uwchraddio'r system garthffosiaeth. Cynigir graddio'r datblygiad hefyd er mwyn helpu'r pentref i gofleidio'r datblygiad. Ni ddyrannwyd tir ar gyfer cae pêl-droed arall yn Solfach. Paratowyd briff ar gyfer y datblygiad gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y gorffennol ac mae'n dangos bod y safle'n gallu rhoi lle i gae pêl-droed bach, cwrt tennis a 18 tŷ. Bydd angen sicrhau cyfleusterau o'r fath fel rhan o ddyraniad y safle hwn.
HA792	Bank House, Whitchurch Lane, Solfach	Dyma ardd furiog Bank House, Adeilad Rhestredig. Mae'r wal yn nodwedd gwrtil ac felly wedi ei chynnwys yn y rhestru - mae'r wal wrth ymyl yr heol, yn arbennig, yn nodwedd flaenllaw. Bydd angen i ddatblygiad y safle barchu gosodiad yr Adeilad Rhestredig. Mae angen gwelliannau i'r gwaith trin carthffosiaeth. Os nad yw'r gwaith wedi ei gynnwys yn rhaglen welliannau Dŵr Cymru' (a ddylai gael ei chyhoeddi yn Nhachwedd 2009) bydd angen cyfraniadau gan y datblygwr i uwchraddio'r system garthffosiaeth. Cynigir graddio hefyd er mwyn helpu'r pentref i gofleidio'r datblygiad.
	Tir i'r gogledd o Fro Dawel, Solfach	Mae saeth 'tyfiant yn y dyfodol' yn dangos bod tir pellach wedi cael ei ystyried yn dir addas i'w ddatblygu tu hwnt i gyfnod y cynllun yn yr ardal hon yn yr anheddiad.
HA387	Cyferbyn â Bay View, Dinas Cross	Cyflwynwyd cais i wella'r gwaith trin carthffosiaeth i OFWAT. Ni fydd y canlyniad yn wybyddus hyd nes Tachwedd 2009. Cyn hyn, neu os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd angen cyfraniadau gan y datblygwr i uwchraddio'r system garthffosiaeth.
HA749	I'r gorllewin o'r Cae Chwarae, Dinas Cross	Cyflwynwyd cais i wella'r gwaith trin carthffosiaeth i OFWAT. Ni fydd y canlyniad yn wybyddus hyd nes Tachwedd 2009. Cyn hyn, neu os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd angen cyfraniadau gan y datblygwr i uwchraddio'r system garthffosiaeth.
HA738	Trefin	Cynigir graddio'r datblygiad hefyd er mwyn helpu'r pentref i gofleidio'r datblygiad.

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
DEFNYDD CYMYSG		
MA710	Sergeants Lane, Dinbych-y-pysgod	Gellid cefnogi ailddatblygiad unedau masnachol / crefft ar y llawr gwaelod gyda llety preswyl integrol uwchben, neu unedau ar wahân,, tra bod modd sicrhau mynediad ar wahân ar gyfer y rhain. Bydd y potensial ar gyfer olion archeolegol yn ystyriaeth yn ogystal â phwysigrwydd cadw cymeriad hanesyddol ac adeiladau presennol.
MA707	White Lion St/Deer Park, Dinbych-y-pysgod	Mae'r safle'n cyflwyno cyfle addas ar gyfer ailddatblygiad sensitif yn Ninbych-y-pysgod, i sicrhau defnydd preswyl a masnachol ar gyfer adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd. Ond, mae angen ymchwiliadau pellach mewn perthynas â thrin carthffosiaeth a gallu'r rhwydwaith carthffosiaeth, a bydd angen i'r datblygwr ariannu'r astudiaeth. Bydd y potensial ar gyfer archaeoleg yn ystyriaeth. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefnoedd.
MA746	Rhwng Heol Glasfryn a Pharc Millard, Tyddewi	Efallai bod y safle'n addas ar gyfer datblygiadau crefft neu weithdai gyda pharcio yn rhannau deheuol y safle. Efallai hefyd y bydd yr ardal hon yn addas ar gyfer peth parcio cyhoeddus. Bydd angen tirlunio yn ardal y tir ar ran ddeheuol y safle, i wella sgrinio. Ni ellir parhau gyda datblygiad y safle cyn uwchraddio adran gyfan Heol Glasfryn. Ystyrir bod y dyrniad tai HA737 yn gallu ariannu'r gwelliannau hyn i'r heol (cyfrifwyd y costau ym Mehefin 2006) gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Three Dragons. Ond, mae Cyngor Sir Penfro hefyd yn archwilio'r opsiwn o nawdd cyhoeddus a allai helpu trosglwyddo'r gwelliannau hyn i'r heol .
MA776	Tir yn Aber Llydan i'r gogledd ddwyrain o Marine Road	Bydd angen darparu mynediad i'r safle hwn o'r B4341. Dyrannwyd y safle ar gyfer 20 o dai, 5 gweithdy a thir ar gyfer neuadd bentref. Mae angen gwelliannau i'r gwaith trin carthffosiaeth. Os nad yw'r gwaith wedi ei gynnwys yn rhaglen welliannau Dŵr Cymru (a ddylai gael ei chyhoeddi yn Nhachwedd 2009) bydd angen cyfraniadau gan y datblygwyr i uwchraddio'r system garthffosiaeth. Gweler HA813 (dyraniad tai ar gyfer New Hedges) am sylwadau gan yr Awdurdod Glo sydd hefyd yn cyfeirio at y safle hwn. Dylid darparu coridor gwyrdd ar hyd ffin gorllewinol y safle i gysylltu'r gofod agored a nodwyd i'r gogledd a'r de o'r safle. Rhaid adeiladu cloddiau i'r naill ochr a'r llall o'r llwybr gyda llwybr 3m o led yn y canol.
MA895	Y tir sy'n rhan o Buttylands, Gorsaf Maenorbŷr	Efallai y bydd angen uwchraddio'r gallu ar gyfer carthffosiaeth a thrin carthffosiaeth o ganlyniad i ddatblygiad y safle hwn. Bydd angen astudiaeth, y bydd y datblygwr yn talu amdano. Bydd angen i'r datblygwr dalu am unrhyw welliannau sydd eu hangen cyn 2015. Nodwyd angen i ddiogelu'r tir ar gyfer ymestyniad posib yn y dyfodol neu ddatblygiad yr ysgol i'r de o'r safle. Efallai y bydd angen rhan o'r safle hwn hefyd fel gofod chwarae i blant Nid oes system garthffosiaeth gyhoeddus yn yr ardal hon. Bydd unrhyw ddatblygiad newydd angen darparu cyfleusterau boddhaol eraill ar gyfer gwaredu carthffosiaeth. Neu mae'r garthffos ddisgyrchiant gyhoeddus agosaf tua 600m o'r safle. Efallai y bydd angen uwchraddio'r gallu o ran carthffosiaeth a thrin carthffosiaeth o ganlyniad i ddatblygiad y safle hwn.
MA733	Tir ger ysgol Llanisian-yn-Rhos	Dyma safle mawr a bydd angen plannu a thirlunio ychwanegol i gymhathu i'r dirwedd. Mae mynediad ar gael o brif heol y pentref ger yr ysgol ac ymhellach ar hyd y lôn hon i'r gorllewin i mewn i gornel gogledd-orllewin y safle. Efallai y bydd angen uwchraddio'r gwaith trin carthffosiaeth i ddarparu ar gyfer y datblygiad ond nid oes cais buddsoddiad wedi ei gynnwys yn y rhaglen gyfredol. Efallai y bydd yn rhaid gohirio'r datblygiad hyd nes ar ôl 2015 os bydd astudiaeth a ariennir gan y datblygwr yn dangos nad oes digon o allu gan y gwaith trin carthffosiaeth, onid yw'r datblygwr/datblygwyr yn talu am unrhyw welliannau angenrheidiol. Cynigir graddio'r datblygiad hefyd er mwyn helpu'r pentref i goffedio'r datblygiad. Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
		Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
MA232	Tir ger y Parc Busnes, Feidr Pen y Bont, Trefdraeth	Nodwyd bod y safle'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a dylai fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
CYNLLUNIAU HEOL/SEICLO		
RI1	Gwelliannau Pont Newhouse, A4075	<p>Mae yna awgrym ar gofnod o 1971 y caffaelwyd tir ar gyfer y cynllun, ond nid oes unrhyw gofnodion manwl ynghylch cyfnewid tir neu glustnodi priffordd. Er hyn, mae'n ymddangos bod y ceuffos o dan yr heol bresennol wedi cael ei hymestyn, mae'n debyg ar gyfer elfen o'r cynllun adlinio.</p> <p>Adliniwyd yr heol i'r de o Newhouse i roi lle i'r mynediad i Bentref Gwyliau Bluestone. Mae yna gynigion mewn llaw hefyd i ledaenu ymyl y briffordd i'r gogledd o Newhouse i ddarparu gwell gweledd o groesfan Eagle Lodge. Gyda mwy o lif cerbydau o ganlyniad i Barc Hamdden Oakwood gerllaw a Phentref Gwyliau Bluestone, ystyrir bod y cynllun adlinio llai hwn yn ddymunol er mwyn gwella gweledd tu mewn i'r tro ond hefyd i ganiatáu ymyl digon llydan i roi lle i gyfleuster ar gyfer cerddwyr. Yr arhosfan bysiau agosaf ar gyfer yr atyniadau uchod yw Canaston Bridge ac mae yna rwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus yn yr ardal hon hefyd sy'n cysylltu at ben uchaf y cynllun hwn.</p>
RI2	Llwybr Defnydd ar y Cyd i'r de o Gastell Cairew	Dolen goll rhwng y rhwydwaith o lwybrau defnydd ar y cyd sy'n datblygu ochr yn ochr â chefnffordd yr A477 a Chastell a Melin Cairew. Bydd yn darparu mynediad i gerddwyr (gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn) a beicwyr rhwng Milton, Sageston a Chairew gyda'r potensial ar gyfer cysylltiad pellach i gymunedau lleol, ac oddi wrthynt, ychydig tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Bydd y llwybr defnydd ar y cyd yn rhedeg ar ochr ffin bresennol y briffordd sydd agosaf at y cae.
RI3	Gwelliannau i Droeon St Petrox	Yn wreiddiol, y bwriad oedd adlinio'r troeon yn sylweddol, ond mae'r cynnig cyfredol yn eithaf bach gyda mesurau lleol i ledaenu a gwella gweledd yn unig. Mae'r heol yn gul ac wedi'i adlinio'n wael gyda llif traffig yn gymharol uchel yn ystod yr haf. Caiff ei defnyddio hefyd fel llwybr mynediad i gerbydau milwrol mawr sy'n mynd yn ôl ac ymlaen i Faes Castellmartin. Gwelwyd sawl gwrthdaro rhwng traffig ar yr heol gydag achosion o anafiadau personol, dros y blynyddoedd diwethaf. Prif amcan y cynnig yw gostwng y potensial ar gyfer damweiniau.
RI4	Gwella Cyffordd Fan Road/y B4316, Saundersfoot	Ar hyn o bryd, mae Fan Road yn cwrdd â heol y B4316 mewn cyffordd sydd ag ongl aciwt ble mae'r gweledd yn wael, ac mae hyn yn flaenoriaeth. Pennwyd ei aliniad gan lwybr yr hen reilffordd fwynau y mae'n rhedeg ar ei hyd. Ar hyn o bryd, o ganlyniad i aliniad y gyffordd hon, mae symud rhwng y B4316 a Fan Road i Bentlepoir ac oddi yno yn weddol hawdd tra bod eraill yn annod iawn. Mae yna gofnod uwch na'r arfer o ddamweiniau ar y ffordd ar y gyffordd a Fan Road ei hun. Dylai adlinio'r gyffordd helpu gostwng y potensial ar gyfer damweiniau wrth y gyffordd a dylai dynesiad mwy perpendicwlar at Fan Road atal pobl rhag troi i'r dde i mewn i Fan Road. Bydd unrhyw ostyngiad mewn traffig ar hyd Fan Road yn helpu gostwng y nifer o ddamweiniau ar hyd yr heol hon. Law yn llaw gyda mesurau cyflenwol eraill, bydd hyn y ei gwneud yn fwy diogel i ddefnyddwyr bregus yr heol, fel cerddwyr sy'n cerdded yn ôl ac ymlaen i Orsaf Rheilffordd Saundersfoot.
RI5	Gumfreston i Ddinbych-y-pysgod Cam 3	Dyma'r cam olaf mewn strategaeth hirsefydlog i wella'r dynesiad hwn at Ddinbych-y-pysgod o gefnffordd yr A477 yn Sageston. Mae'n heol arbennig o brysur yn ystod tymor brig yr haf gydag atyniadau pwysig yn cynhyrchu traffig ar hyd y B4318 a thu hwnt. Gwelwyd sawl gwrthdaro rhwng traffig ar yr heol, gydag anafiadau personol, yn yr ardal hon mewn blynyddoedd diweddar. Bydd y gwelliant hwn yn gwella blaenwelediad ac yn helpu gostwng y potensial ar gyfer damweiniau. Bydd yn cael ei gynllunio mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl o lifogydd rhwng ceuffos Knightston Brook a chyffordd Heywood Lane. Bydd hefyd yn gynnwys

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Sylwadau
		darpariaeth ar gyfer gwell cyfleusterau i gerddwyr ar hyd Clickett Lane a'r potensial i gynyddu'r ddarpariaeth parcio yng Nghanolfan Hamdden Dinbych-y-pysgod.
RI6	Gwelliannau i Heol Glasfryn, Tyddewi	Mae'r gwelliant dewisol y golygu lledaenu Heol Glasfryn a darparu cylchfan fechan ar y pen deheuol. Mae hyn yn cynnig y potensial i ddenu traffig trwodd, gan liniaru tagfeydd yng nghanol y ddinas a sicrhau ei bod yn bosib ystyried gwelliannau amgylcheddol a gwelliannau i ddiogelwch. Bydd y cynllun yn ymgorffori cyfleusterau i gerddwyr gyda gwell mynediad i ddisgyblion sy'n cerdded i Ysgol Dewi Sant. Bydd yn darparu mynediad ac allanfa mwy diogel o safleoedd ar hyd yr heol a gwell blaenweledd. Bydd y gylchfan yn creu nodwedd fel 'Porth' ar y ddynesiad o Hwlfordd i mewn i'r ddinas. Yn ei dro, fe fydd hyn yn annog ymwelwyr dydd i ddefnyddio Maes Parcio'r Gelli a Chanolfan Ymwelwyr Tyddewi.
MEYSYDD PARCIO		
CP828	Gorsaf Maenorbŷr	Mae'r maes parcio hwn ger y rheilffordd a'r bwriad yw darparu cyfle ar gyfer gwell cynaliadwyedd yn y lleoliad hwn.
CP829	Tir yng Ngorsaf Rheilffordd Saundersfoot, Pentlepoir	Mae'r maes parcio hwn ger gorsaf y rheilffordd a'r bwriad yw darparu cyfle ar gyfer gwell cynaliadwyedd yn y lleoliad hwn.

Atodiad 3 Diogelu Gosodiadau

Awdurdod Diogelu	Gosodiad sy'n Diogelu	Manyleb y Parth Diogelu
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	Mast Crug - y - Gorllwyn	Mae'r Mast yn Sir Gâr ond mae parthau diogelu ar gyfer datblygiad dros 10.7, 15.2 a 45.7 metr o uchder yn ymestyn i mewn i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	Maes Awyr Breudraeth	Mae parth datblygu o fwy na 45.7 metr o uchder yn ymestyn i mewn i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	Maes Amddiffyn Awyr Maenorbŷr	Mae parthau ymgynghori ar gyfer unrhyw ddatblygiad, datblygiad dros 10.7, 15.2 a 45.7 metr o uchder, a datblygiadau sy'n golygu llinellau pŵer foltedd uchel uwchben yn ymestyn tu hwnt i ffin y Maes
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	Maes Castellmartin	Mae parthau ymgynghori ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad yn ymestyn y tu hwnt i ffin y maes
Cyngor Sir Penfro	Maes Awyr Hwlfordd	Mae parthau ar gyfer datblygiadau sy'n fwy na 15, 45, 90 metr o uchder yn ymestyn i mewn i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Maes Awyr Gorllewin Cymru	Maes Awyr Aberporth	Mae parthau datblygiad sy'n fwy na 90 metr o uchder a pharth datblygu sy'n golygu cynlluniau i blannu llawer o

		goed, echdynnu mwynhau, chwarelu, tomen sbwriel, cronlyn, gwaith carthffosiaeth, gwarchodfa, lloches i adar, a chysylltiad â defnydd awyrennau, yn ymestyn i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Aberdaugleddau – cysylltydd LNG Aberdulais	Dim ond rhan fechan ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ger terfynfa LNG South Hook.
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	LNG South Hook	Parth diogelu o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn bennaf o fewn y safle LNG.

Atodiad 4 Monitro

Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn cynnwys:

- Dangosyddion â tharddiad cenedlaethol
- Newid sylweddol mewn cyd-destun
- Monitro cynaliadwyedd
- Monitro strategaethau
- Monitro polisiâu fel sy'n briodol.

Er mwyn arwain y broses o fonitro'r strategaeth mae yna nifer o ganlyniadau allweddol isod a ragwelir ar gyfer amcanion y Cynllun, ynghyd â dangosyddion potensial, a ffordd o fesur neu asesu newid. Nodir dangosyddion â tharddiad cenedlaethol hefyd.

Nodweddion Arbennig

Canlyniadau allweddol

- (1) Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi cael eu gwarchod a'u gwella.

Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
Y Dirwedd, Bioamrywiaeth, yr Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol a'r Iaith Gymraeg	Polisi 8	Cymeradwyaeth yn groes i Bolisi 8.	0 cymeradwyaeth.

Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer tyfiant

Canlyniadau allweddol

- (1) Mae'r datblygiad yn digwydd yn unol â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
- (2) Mae'r datblygiad a ganiatawyd yn helpu cynnal cymunedau lleol - er enghraifft trwy sicrhau bod elfen sylweddol yn cyfrannu at ddarpariaeth tai fforddiadwy neu'n darparu cyfleoedd cyflogaeth.
- (3) Nid oes unrhyw ddatblygiadau mawr newydd yn y Parc Cenedlaethol onid oes amgylchiadau neilltuol.¹¹⁴

Canlyniad Allweddol	Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
(1a)	Pob Un	Pob Un	Cymeradwyaeth yn	0 cymeradwyaeth

¹¹⁴ Gweler Polisi Cynllunio Cymru, Mawrth 2002, paragraff 5.5.6, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Rhagfyr 2000, paragraff 21, tudalen 11, Mwynau Nodyn Cyngor Technegol 1: Agregiadau 2004, paragraff 52, Drafft Nodyn Cyngor Technegol (MTAN) Cymru 2: Glo, paragraffau 36 i 38 a 32, tudalennau 9 i 10, Cynllun gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru Adolygiad 1st, paragraff 1.3.9 Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru (Drafft cychwynnol Awst 2007), Cylchlythyr 125/77 Heolydd a Thraffig – Parciau Cenedlaethol

Canlyniad Allweddol	Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
			groes i'r argymhelliad	
(1b)	Dibenion y Parc Cenedlaethol a'i Ddyletswydd	Polisi 1 (polisi trosfwaol)	Datblygiadau sy'n defnyddio 'Egwyddor Sandford' ble mae gwrthdaro rhwng dau ddiben y Parc Cenedlaethol yn aciwt, rhaid mai'r un cyntaf sydd flaenllaw. Rhaid bod y broses o gyflawni'r ddyletswydd gymdeithasol ac economaidd mewn Parciau Cenedlaethol yn mynd ar drywydd y dibenion. (Dangosydd trosfwaol)	0 cymeradwyaeth yn y Parc Cenedlaethol, nac yn effeithio arno, sy'n torri egwyddor Sandford neu sy'n arwain at wrthdaro rhwng y ddyletswydd a'r dibenion. (targed trosfwaol)
(2)	Economi ymwelwyr Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gweithio Tai Cyfleusterau cymunedol a Gofynion Seilwaith	Polisi 35 Polisi 42d) Polisi 44c) a'r paragraff olaf ond dau Polisi 47		0 cymeradwyaeth yn groes i bolisiau sy'n blaenoriaethu defnyddiau penodol y gwelir eu bod yn cynnal cymunedau yn y Cynllun Defnyddio targedau i drosglwyddo tai fforddiadwy a chyflogaeth. Hefyd 0 cymeradwyaeth yn groes i bolisiau gwelir eu bod yn diogelu cyfleusterau cymunedol a seilwaith, ac yn darparu ar eu cyfer
(3)	Datblygiadau mawr	Polisi Cynllunio Cenedlaethol LICC	Cynigion sy'n defnyddio'r prawf datblygiadau mawr yn eu hasesiad.	0 cymeradwyaeth ar gyfer datblygiadau mawr oni phofir bod yna amgylchiadau neilltuol.
(3)	Mwynau	Polisi Cynllunio Cenedlaethol LICC	Ceisiadau ar gyfer datblygiad mwynau.	0 cymeradwyaeth ar gyfer safleoedd mwynau newydd dros gyfnod y cynllun onid oes modd profi bod yna amgylchiadau neilltuol.

Newid Mewn Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Llifogydd, Ynni Cynaliadwy

Canlyniadau allweddol

- (1) Datblygiad yn cyflawni safonau uchel o ran dylunio cynaliadwy gyda phob anheddiad newydd yn cwrdd â'r safonau a osodwyd mewn polisi cynllunio cenedlaethol.¹¹⁵
- (2) Y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- (3) Dim datblygiad bregus mewn ardaloedd a fyddai mewn perygl o orlifo nawr ac yn yr hir dymor, a heb unrhyw effeithiau negyddol yn unrhyw le arall.

	Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
(1)	Dylunio Cynaliadwy	Polisi 20	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymgorffori technoleg ynni adnewyddadwy i'r cynllun ▪ Cynlluniau yn defnyddio'r Cod Cartrefi Cynaliadwy 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynlluniau perthnasol yn ymgorffori ynni adnewyddadwy ▪ 100% yn cwrdd â gofynion polisiau cenedlaethol
(2)	Ynni Adnewyddadwy	Polisi 21	Gallu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael eu ganiatau a'u gosod	Caniatâd cynllunio i gyfrannu at Darged Trydan Adnewyddadwy o 4.91GWh ar gyfer y Parc Cenedlaethol Caniatâd cynllunio i gyfrannu at darged o rhwng 35.2 a 40.7 GWh ar gyfer Gwres Adnewyddadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol.
(3)	Llifogydd a Llif Arfordirol	Polisi 34 Dangosydd Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	Y datblygiadau (fesul categori datblygiad Nodyn Cyngor Technegol 15 paragraff 5.1) a ganiateir yng ngorlifdir C1 a C2 sydd ddim yn cwrdd â phob un o brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i-v) Ni chaniateir datblygiad ble byddai'r sefyllfa hir dymor (yn y 60 mlynedd nesaf) yn methu'r profion a nodwyd uchod.	Dim.
	Lleoliad Tyfiant	Dangosydd Craidd Llywodraeth	Nifer y datblygiadau newydd (ha) a ganiateir ar dir a	33% o'r cyflenwad tir ar gyfer tai ar dir a ddatblygwyd yn

¹¹⁵ Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl gweld y safonau sydd eu hangen yn codi'n gynyddol gydag amser, wrth fynd ar drywydd ei dyhead i sicrhau bod pob adeilad newydd yn "garbon niwtral" erbyn 2011.

Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
	Cynulliad Cymru	ddatblygwyd yn flaenorol (ailddatblygu tir llwyd a thrawsnewidiadau) wedi eu mynegi fel canran o bob datblygiad a ganiateir).	flaenorol. 45% o dir cyflogaeth ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

116

Economi ymwelwyr, Cyflogaeth

Canlyniadau allweddol

- (1) Darparwyd safleoedd cyflogaeth, byw/gweithio a defnydd cymysg newydd (amcangyfrifir 5.6 hecтар) a diogelwyd safleoedd sydd eisoes yn bodoli.
- (2) Mae amrywiaeth o lety gwyliau ar gael i gwrdd ag anghenion amrywiol ymwelwyr
- (3) Nid yw gweithgareddau hamdden ac ymwelwyr yn niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol

	Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
(1a)	Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gweithio	Polisi 42 Dangosydd Craidd Llywodraeth y Cynulliad	Cyflenwad tir cyflogaeth net (ha/m sgwâr)	5.6 hecтар dros gyfnod y cynllun.
(1a)		Polisi 43	Gwarchod safleoedd cyflogaeth	0 cymeradwyaeth ar gyfer colli safleoedd cyflogaeth ac eithrio ble mae wedi ei gyfiawnhau o fewn telerau'r polisi.
(2)	Llety Ymwelwyr	Polisi 35	Lefelau llety (gwerysyla, carfannau, hunanarlwyo)	Cynnal lefelau presennol y ddarpariaeth ac eithrio ble gwelwyd colli gwestai.
(3)	Nodweddion Arbennig	Polisi 8	Cynigion ar gyfer gweithgarwch hamdden wedi eu cymeradwyo yn groes i 8.	0 cymeradwyaeth.

Darpariaeth Tai a Thai Fforddiadwy

Canlyniadau allweddol

- (1) Amcangyfrifir y darperir 1,600 annedd newydd, a bod o leiaf 530 ohonynt yn dai fforddiadwy newydd.

¹¹⁶ Diffinnir 'Datblygiadau bregus' yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a Pherygl o Lifogydd ar lifogydd, gweler Ffigur 2 tudalen 7: [dolen at y we http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/403821/\(560\)_gorffennaf04-tan15-e.pdf?lang=en](http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/403821/(560)_gorffennaf04-tan15-e.pdf?lang=en)

- (2) Os yw nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd, neu sy'n cael eu hadeiladu, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014/15, yn llai nag 80% o gyfran y targed cyfan ar gyfer cynnod y Cynllun a ddylai fod ar gael erbyn y dyddiad yma, fe fydd yr Awdurdod yn dechrau adolygiad o'r Polisi Strategaeth Tai Fforddiadwy ar unwaith
- (3) Ceir datblygiad mwy dwys – o leiaf 30 annedd yr hectar yng Nghanolffannau'r Cynllun Datblygu Lleol.

	Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
(1)	Tai	Dangosydd Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth o Argaeledd Tir ar gyfer Tai (NCT1)	Cyflenwad o leiaf 5 mlynedd.
(1)		Polisi 32 Dangosydd Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	Y nifer o aneddiadau fforddiadwy ychwanegol ac aneddiadau ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd. (NCT 2)	530 annedd fforddiadwy dros gyfnod y cynllun. 1000 annedd ar gyfer y farchnad gyffredinol wedi eu hadeiladu. Cyfanswm cyfradd cwblhau blynyddol o 90 y flwyddyn.
(1)		Dangosydd Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	Nifer y datblygiadau gan gynnwys tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun datblygu fel % o ddyraniadau'r cynllun datblygu ac fel % o gyfanswm y datblygiadau a ganiateir (ha ac unedau).	Dyraniadau - 100% wedi eu caniatáu erbyn diwedd cynnod y cynllun ar safleoedd a ddyrannwyd. Fel % o gyfanswm y datblygiadau a ganiateir -
(2)		Polisi 44 Dangosydd Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun datblygu.	Cyflawni'r targed o 30 fesul hectar yng Nghanolffannau'r Cynllun.

Cyfleusterau cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth

Canlyniadau allweddol

- (1) Cyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli wedi eu diogelu a'r ddarpariaeth wedi ei gwella.
- (2) Mae canolfannau manwerthu'r Parc Cenedlaethol yn hyfyw ac yn amrywiol.
- (3) Mae cynigion a allai fod wedi achosi pryderon sylweddol ynghylch traffig wedi cael eu hosgoi.
- (4) Darparu cyfleusterau gwastraff i ddarparu ar gyfer anghenion a gynhyrchwyd o fewn y Parc Cenedlaethol neu i weithio gyda'r Cyngor Sir i ddarparu cyfleusterau gwastraff i

wasanaethu'r ddwy ardal tu allan i'r Parc Cenedlaethol – i'w nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo.

	Teitl y Polisi	Rhif y Polisi	Dangosydd	Targed
(1)	Cyfleusterau cymunedol a Gofynion Seilwaith	Polisi 47	Cymeradwyaeth ar gyfer colli cyfleusterau cymunedol.	0 cymeradwyaeth oni chaiff ei gyfiawnhau gan y fframwaith polisi.
(1)		Polisi 47	Rhwymedigaethau Cynllunio wedi eu sicrhau o'r datblygiad.	Cytundeb A106 wedi ei sicrhau yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol.
(1)		Dangosydd Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Cyfanswm y maes glas a'r gofod agored a gollwyd i ddatblygiadau (ha) sydd heb eu dyrannu yn y cynllun.	Maes Glas - 0 % ac eithrio tir eithriadol a ryddhawyd ar gyfer tai fforddiadwy neu i ddarparu cyfleuster cymunedol. Gofod Agored a gollwyd - 0 % ac eithrio ble, gyda meysydd chwarae, mae'r ffordd orau o gadw a gwella cyfleusterau yn golygu ailddatblygu rhan fechan o'r safle neu mae modd cynnig darpariaeth arall â'r un buddion neu mae gormodedd o ddarpariaeth yn yr ardal.
(2)	Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol	Polisi 48	Canran y gofod llawr manwerthu sy'n wag.	Targed i fod yn 10%
(3)	Cludiant cynaliadwy	Polisi 51	Cymeradwyaeth ar gyfer datblygiad heb ddarparu mynediad priodol i gerbydau, beicwyr a cherddwyr.	0
(3)		Polisi 52	Cymeradwyaeth ar gyfer datblygiad sy'n achosi pryderon sylweddol ynghylch effeithiau posib ar drafnidiaeth.	0
(4)	Gwastraff		Cyfanswm y gallu rheoli gwastraff a ganiatawyd wedi ei fynegi fel canran o gyfanswm y gallu sydd ei angen, fel y nodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.	1.5 hectar neu 100% (oni ddarparir ar ei gyfer tu allan i'r Parc Cenedlaethol mewn cydweithrediad â darpariaeth Cyngor Sir Penfro).

